

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 15/01/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#)  
[Questions to the Minister for Health and Social Services](#)

[Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol](#)  
[Questions to the Counsel General](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Rygbi Cymru](#)  
[Welsh Conservatives Debate: Welsh Rugby](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Deyrnas Unedig](#)  
[Welsh Conservatives Debate: The United Kingdom](#)

[Dadl Plaid Cymru: Gweithlu'r GIG](#)  
[Plaid Cymru Debate: The NHS Workforce](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)  
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Pam Mae Undebaeth Lafur yn Dal yn Bwysig yng Nghymru](#)  
[Short Debate: Why Trade Unionism Still Matters in Wales](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi](#)  
[Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

## Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru

## Questions to the Minister for Health and Social Services

### Welsh Ambulance Services NHS Trust

13:30 **Aled Roberts** [Bywgraffiad Biography](#)

*1. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyllideb Ymddiriedolaeth Ambiwllans Cymru ar gyfer 2014 cyn i unrhyw drefniadau newydd gael eu cyflwyno? OAQ(4)0381(HSS)*

*1. Will the Minister supply the most recent information regarding the Welsh Ambulance Trust's budget for 2014 before any new arrangements are introduced? OAQ(4)0381(HSS)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:30 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad Biography](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Mae £7.5 miliwn ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i gomisiynwyr ar gyfer gwasanaethau ambiwlans brys yn ystod y flwyddyn ariannol 2013-14, a rhagwelir y bydd cyllideb Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn cynyddu i fwy na £153 miliwn. Y ffigur cychwynnol ar gyfer y cynlluniau ar gyfer pob un o'r tair blynedd ariannol nesaf yw £153.716 miliwn, yn amodol ar y trefniadau cynllunio a chomisiynu cyfredol.

An additional £7.5 million has been allocated to commissioners for emergency ambulance services during the 2013-14 financial year and it is anticipated that the Welsh Ambulance Services NHS Trust's budget will increase to over £153 million. The figure initially included in future plans for each of the next three financial years is £153.716 million, subject to ongoing planning and commissioning arrangements.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

- 13:31 **Aled Roberts** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Diolch am yr ateb, Weinidog. Yn ystod y Nadolig, bu imi gyfarfod â chynrychiolwyr o'r ymddiriedolaeth ynglŷn â'r sefyllfa o ran perfformiad yn sir y Fflint ac yn Ynys Môn. Mae'n amlwg bod rhyw arolwg mewnol wedi cael ei gwblhau sy'n awgrymu bod yr ymddiriedolaeth yn fyr o ryw 27 aelod o staff yn y gogledd er mwyn cyflawni ei dyletswyddau. Yr esgus a gefais pan ofynnais a oedd yn recriwtio staff newydd oedd ei bod hi'n anodd gwneud hynny heb wybod beth yn union fydd ei chyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Pryd fydd y gyllideb ariannol yn cael ei chwblhau, o gofio'r holl anhawster y llynedd?
- Thank you for that response, Minister. Over the Christmas period, I met with representatives of the trust to discuss the situation in terms of performance in Flintshire and on Anglesey. It is clear that some sort of internal review has been completed that suggests that the trust is short of some 27 staff members in north Wales to carry out its duties. The excuse that I received when I asked whether it was recruiting new staff was that it was difficult to do that without knowing exactly what its budget will be for the next year. When will the budget be concluded, bearing in mind all the difficulties last year?
- 13:32 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Diolch yn fawr am y cwestiwn.
- It is very important that we put issues of ambulance staffing in their context. In 1999, when the Assembly came into being, there were 945 members of staff in the Welsh Ambulance Services NHS Trust, and today there are 1,509—more than 1,000—more people. There has been a 33% increase in staffing across the Welsh NHS and a 60% increase in staffing within the ambulance service. I have made it clear to the chair of the ambulance service that I expect the service to recruit up to its notional limit and there are new people working in the service right through this winter. The service is well aware of its starting point for next year and I do not believe that that is an impediment to it carrying out the recruitment that it is engaged in.
- Mae'n bwysig iawn ein bod yn rhoi materion staffio ambiwlans yn eu cyd-destun. Yn 1999, pan ddaeth y Cynulliad i fodolaeth, roedd 945 o aelodau o staff yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, a heddiw mae 1,509—mwy na 1,000—yn fwy o bobl. Bu cynnydd o 33% yn nifer y staff ar draws y GIG yng Nghymru a chynnydd o 60% yn nifer y staff yn y gwasanaeth ambiwlans. Rwyf wedi esbonio'n glir wrth gadeirydd y gwasanaeth ambiwlans fy mod yn disgwyl i'r gwasanaeth recriwtio hyd at ei derfyn tybiannol ac mae pobl newydd yn gweithio yn y gwasanaeth drwy gydol y gaeaf hwn. Mae'r gwasanaeth yn gwbl ymwybodol o'i fan cychwyn ar gyfer y flwyddyn nesaf ac ni chredaf fod hynny'n rhwystr iddo gyflawni'r gwaith recriwtio y mae'n ymwneud ag ef.
- 13:33 **William Graham** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- In your consideration of the Welsh Ambulance Services NHS Trust's budget, Minister, are you confident that any new arrangement will address the reality in south Wales east, where Monmouthshire and Torfaen are consistently among those that have the lowest category A response times in Wales?
- Yn eich ystyriaeth o gyllideb Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, Weinidog, a ydych yn hyderus y bydd unrhyw drefniant newydd yn mynd i'r afael â'r sefyllfa wirioneddol yn y de-ddwyrain, lle mae Sir Fynwy a Thor-faen yn gyson ymhlith y rhai sydd â'r amseroedd ymateb categori A isaf yng Nghymru?
- 13:33 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- I understand the point that the Member makes. The conclusions of the McClelland review, and other reviews prior to that, were that the budget was not the key issue in relation to performance. In pressing the ambulance service to recruit up to its staffing levels, I think that that will allow it to make a real difference both in north Wales, where there are considerable successes in terms of performance, and in south east Wales as well.
- Deallaf y pwynt a wna'r Aelod. Casgliadau adolygiad McClelland, ac adolygiadau eraill cyn hynny, oedd nad y gyllideb oedd y mater allweddol mewn perthynas â pherfformiad. Wrth bwysio ar y gwasanaeth ambiwlans i recriwtio hyd at ei lefelau staffio, credaf y bydd hynny'n ei alluogi i wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y gogledd, lle mae llwyddiannau sylweddol o ran perfformiad, ac yn y de-ddwyrain hefyd.
- 13:33 **Simon Thomas** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Weinidog, ar 8 Hydref y llynedd, roedd chwech ambiwlans wedi parcio y tu fas i'r ysbyty yn Llanelli. Wrth i mi ohebu gyda'r ymddiriedolaeth ynglŷn â hyn, daeth yn amlwg bod problem o ran y defnydd gorau o adnoddau y tu mewn i'r ymddiriedolaeth, oherwydd y galw sy'n amrywio mewn ysbytai. Rydych yn sôn am y gyllideb; mae'n amlwg na chawn y canlyniadau gorau oni bai ein bod yn defnyddio'r gyllideb yn y ffordd fwyaf effeithlon. Pa gamau ydych yn eu cymryd, felly, i sicrhau na fydd ambiwlansys yn cael eu parcio'n wag a heb ddefnydd iddynt am gyfnodau hir, fel a ddigwyddodd ym mis Hydref y llynedd?
- Minister, on 8 October last year, there were six ambulances parked outside the hospital in Llanelli. As I corresponded with the trust on this issue, it became apparent that there is a problem in terms of the best use of resources within the trust, because of the variation in demand within hospitals. You mention the budget; it is clear that we will not get the best outcomes unless we use the budget in the most efficient way. What steps are you taking, therefore, to ensure that ambulances will not be parked empty and unused for lengthy periods, which is what happened in October last year?

13:34

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am y cwestiwn hwnnw hefyd.

The changes that the McClelland review recommended, and which we are putting into practice here in Wales, did not simply reflect a new approach to budget setting, which we will have in the next financial year, but also a new relationship between the ambulance trust and the local health boards. I want a system, as McClelland recommended, in which the ownership of the ambulance service is clearly with the local health boards themselves. Where there are difficulties—and there will be difficulties, from time to time, when demand suddenly surges—I want LHBs to regard themselves as responsible for solving those difficulties, and not to, as McClelland said had been the case in the past, try to absolve themselves of the responsibility, and offload it onto the ambulance trust. When we get those responsibility lines clear—as we are doing—then it will help to address the problem that Simon Thomas identified.

### Gwasanaethau Iechyd Meddwl Abertawe

13:35

**Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*2. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl Abertawe yn 2014? OAQ(4)0368(HSS)*

13:35

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that question. In November I was very pleased to visit mental health services in Swansea to mark World Mental Health Day. I intend to work closely with Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board as it takes forward its public consultation on the provision of its adult mental health services in the first part of 2014.

13:36

**Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that, Minister. Driving up here this morning, I heard some news reports that said that the Government is seeking to remove the cap on bankers' bonuses while starting to charge bedroom tax, three months after the death of a child, for the poorest families in Britain. In the light of these appalling austerity measures, how robust are our mental health services in helping the people of Swansea to deal with the misery and stress that this sort of austerity will cause?

Thank you for that question as well.

Nid yw'r newidiadau a argymhellwyd gan adolygiad McClelland, ac a roddir ar waith yma yng Nghymru, ond yn adlewyrchu dull newydd o bennu cyllideb, a fydd gennym yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae hefyd yn adlewyrchu cydberthynas newydd rhwng yr ymddiriedolaeth ambiwlans a'r byrddau iechyd lleol. Rwyf am gael system, fel yr argymhellodd McClelland, lle mae'r gwasanaeth ambiwlans yn amlwg yn eiddo i'r byrddau iechyd lleol eu hunain. Lle mae anawsterau—a bydd anawsterau, o bryd i'w gilydd, pan fydd y galw yn cynyddu'n sydyn—rwyf am i BILLau ystyried eu hunain yn gyfrifol am ddatrys yr anawsterau hynny ac i beidio, fel sydd wedi bod yn wir yn y gorffennol yn ôl McClelland, â cheisio eu hesgusodi eu hunain o'r cyfrifoldeb, a'i drosglwyddo i'r ymddiriedolaeth ambiwlans. Pan lwyddwn i sicrhau bod y llinellau atebolrwydd hynny'n glir—fel yr ydym yn ei wneud—yna bydd hynny'n helpu i fynd i'r afael â'r broblem a nodwyd gan Simon Thomas.

### Swansea's Mental Health Services

*2. What plans does the Minister have for Swansea's mental health services in 2014? OAQ(4)0368(HSS)*

Diolch yn fawr iawn am y cwestiwn hwnnw. Ym mis Tachwedd roeddwn yn falch iawn o ymweld â gwasanaethau iechyd meddwl yn Abertawe i nodi Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd. Bwriadaf weithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wrth iddo ddatblygu ei ymgynghoriad cyhoeddus ar ddarparu ei wasanaethau iechyd meddwl i oedolion yn rhan gyntaf 2014.

Diolch ichi am hynny, Weinidog. Wrth yrru yma y bore yma, clywais adroddiadau newyddion yn dweud bod y Llywodraeth yn ceisio dileu'r cap ar fonysau bancwyr tra'n dechrau codi treth ystafell wely, dri mis ar ôl marwolaeth plentyn, ar gyfer y teuluoedd tlotaf ym Mhrydain. Yng ngoleuni'r mesurau cynilo ofnadwy hyn, pa mor gadarn yw ein gwasanaethau iechyd meddwl wrth helpu pobl Abertawe i ddelio â'r tralod a'r straen y bydd y math hwn o gynilo yn ei achosi?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Julie James is absolutely right to point to the fact that the impact of austerity is felt sharply in mental health services. I think that the Royal College of General Practitioners has today published information that shows the impact of austerity on the mental health of young people in particular. However, when I was in Swansea to mark World Mental Health Day, I was very struck by the robustness of Swansea's mental health community—over 50 voluntary and statutory bodies coming together to mark World Mental Health Day. There were many young people at the event—students and others—showing a really progressive sense of engagement in our mental health services. That progressive sense will be urgently needed, as the impact of austerity is felt in more people's lives.

Mae Julie James yn gwbl gywir i dynnu sylw at y ffaith bod effaith cynilo i'w themlo'n ddirfawr ym maes gwasanaethau iechyd meddwl. Credaf fod Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol wedi cyhoeddi gwybodaeth heddiw sy'n dangos effaith cynilo ar iechyd meddwl pobl ifanc yn benodol. Fodd bynnag, pan oeddwn yn Abertawe i nodi Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd, fe'm trawyd gan gadarnid cymuned iechyd meddwl Abertawe—dros 50 o gyrff gwirfoddol a statudol yn dod ynghyd i nodi Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd. Roedd llawer o bobl ifanc yn y digwyddiad—myfyrwyr ac eraill—yn dangos ymdeimlad gwirioneddol gynyddol o ymwneud â'n gwasanaethau iechyd meddwl. Bydd angen dybryd am yr ymdeimlad cynyddol hwnnw, wrth i effaith cynilo gael ei themlo ym mywydau mwy o bobl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

**Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, as you know, Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board is currently consulting on the closure of mental health assessment wards in Bridgend and Swansea, and centralising services in Neath Port Talbot. Given that the preferred pathway for dealing with adults with acute mental health needs means that they are admitted in wards as near to where they live as possible, how will you be evaluating how ABMU has reached this decision, and, particularly, the impact on those who might be in acute wards locally, but then have to be moved to Neath Port Talbot for their assessment?

Weinidog, fel y gwyddoch, mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wrthi'n ymgynghori ar gau wardiau asesu iechyd meddwl ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe, a chanoli gwasanaethau yng Nghastell-nedd Port Talbot. O ystyried bod y llwybr a ffeirir ar gyfer ymdrin ag oedolion ag anghenion iechyd meddwl aciwt yn golygu eu bod yn cael eu derbyn mewn wardiau mor agos â phosibl at ble maent yn byw, sut y byddwch yn gwerthuso sut y daeth PABM i'r penderfyniad hwn, ac, yn benodol, yr effaith ar y rhai a allai fod mewn wardiau aciwt yn lleol, ond wedyn sy'n gorfod symud i Gastell-nedd Port Talbot am eu hasesiad?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Suzy Davies refers to a consultation that is going on, so these are proposals that are being discussed between the local health board and its local community, and we will wait to see what the result of that consultation brings. I think that it is important to note that, as part of that consultation, the health board proposes a strengthening of its crisis resolution mental health service and of its primary mental health care services, to go alongside what it proposes for acute hospital-based care.

Cyfeiria Suzy Davies at ymgynghoriad sy'n mynd rhagddo, felly cynigion yw'r rhain sy'n cael eu trafod rhwng y bwrdd iechyd lleol a'i gymuned leol, ac arhoswn i weld beth fydd canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw. Credaf ei bod yn bwysig nodi, fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw, bod y bwrdd iechyd yn cynnig atgyfnerthu ei wasanaeth iechyd meddwl datrys argyfyngau a'i wasanaethau gofal iechyd meddwl sylfaenol, i gyd-fynd â'r hyn y mae'n ei gynnig ar gyfer gofal aciwt yn yr ysbwy.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

**Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, cefais gyfarfod gydag ABMU yn ddiweddar ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yno o ran y newidiadau. Yr hyn a ddywedwyd wrthyf oedd, er bod crisis recriwtio yn gyffredinol o fewn y system iechyd, bod problem enbyd hefyd yn y sector iechyd meddwl yn benodol, er mwyn datblygu doniau mwy arbenigol ymysg doctoriaid yn y maes hwn. A yw hynny yn rhywbeth yr ydych chi fel Llywodraeth yn ei ystyried, er mwyn dod i ddatrysiad teg ar gyfer iechyd meddwl yn ardal Abertawe?

Minister, I had a meeting recently with ABMU on what is happening there in terms of the changes. What it told me was that although there was a recruitment crisis generally within the health system, there is a particular problem in the mental health sector, in order to develop more specialist skills among doctors in this particular area. Is that something that you are looking at as a Government, in order to find a fair resolution for mental health in the Swansea area?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I be clear that there is no recruitment crisis, of any description, in the Welsh NHS, given that 96% of posts are filled, vacancy levels are at their lowest historically, and given that turnover level is the lowest ever recorded? There is no general recruitment crisis. However, Bethan Jenkins is right to point to the very specific issue that there is in recruiting consultant psychiatrists. What I say in the mental health field—and it has been a very productive conversation so far—is that we have to look at ways of strengthening the whole team in mental health. If we have difficulties, as there are across the United Kingdom, in getting particular sorts of contributions for mental health, we will have to look to see what other contributions can be made by other health professionals in the same field to make sure that people are working at the top of their clinical competence and to use those people who are in short supply to provide clinical leadership, to provide guarantees of standards and then to work with that whole team to make sure that we can go on providing the service that is needed.

A gaf nodi'n glir nad oes unrhyw argyfwng recriwtio, yn y GIG yng Nghymru, o gofio bod 96% o swyddi wedi'u llenwi, bod lefelau swyddi gwag ar eu hisaf erioed, ac o gofio mai'r lefel trosiant yw'r isaf a gofnodwyd erioed? Nid oes argyfwng cyffredinol o ran recriwtio. Fodd bynnag, mae Bethan Jenkins yn iawn i gyfeirio at y broblem benodol iawn sy'n bodoli o ran recriwtio seiciatryddion ymgynghorol. Yr hyn a ddywedaf o ran y maes iechyd meddwl—ac mae wedi bod yn sgwrs gynhyrchiol hyd yn hyn—yw bod yn rhaid inni edrych ar ffyrdd o atgyfnerthu'r tîm cyfan ym maes iechyd meddwl. Os cawn anawsterau, fel y gwelir ledled y Deyrnas Unedig, o ran cael pob math o gyfraniadau ar gyfer iechyd meddwl, bydd yn rhaid inni weld pa gyfraniadau eraill y gellir eu gwneud gan weithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd er mwyn sicrhau bod pobl yn gweithio hyd eithaf eu gallu clinigol ac er mwyn defnyddio'r bobl brin hynny i ddarparu arweinyddiaeth glinigol, i ddarparu sicrwydd safonau ac yna i weithio gyda'r tîm cyfan hwnnw er mwyn sicrhau y gallwn barhau i ddarparu'r gwasanaeth sydd ei angen.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:40

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, at the consultation meeting with ABMU on mental health facilities in its area, which was attended by me and David Rees, it was made clear to us that part of the changes with its consultants would result in fewer beds being available, which it believes it can accommodate. However, the issue that I was most concerned about was that of transport for people in Bridgend and Swansea—mostly those people visiting their relatives in these assessment facilities. When you come to look at the responses to the consultation and the business case put in front of you, will you take that into account?

Weinidog, yn y cyfarfod ymgynghori gyda Bwrdd Iechyd PABM ar gyfleusterau iechyd meddwl yn ei ardal, a fynychwyd gennyf fi a David Rees, eglurwyd wrthym y byddai rhan o'r newidiadau gyda'i feddygon ymgynghorol yn golygu y byddai llai o welyau ar gael, ac mae'n credu y gall ymdopi â hynny. Fodd bynnag, y mater yr oeddwn yn pryderu fwyaf amdano oedd trafnidiaeth ar gyfer pobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe—yn bennaf y bobl hynny sy'n ymweld â'u perthnasau yn y cyfleusterau asesu hyn. Pan ddaw'r adeg i edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r achos busnes a gyflwynwyd ger eich bron, a fyddwch yn ystyried hynny?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Lywydd, I thank all Members here who have been taking such a close interest in this important consultation. I know that the local health board appreciates very much the interest that its local Members take in the mental health services in ABMU. There is a long-term trend to reduce in-patient beds in mental health services and that is a good thing. That is a policy direction that has been widely supported across the Chamber. The points about transport are important and well made and I will make sure that they receive the attention that they require.

Lywydd, diolchaf i bob Aelod yma sydd wedi dangos diddordeb mawr yn yr ymgynghoriad pwysig hwn. Gwn fod y bwrdd iechyd lleol yn gwerthfawrogi'n fawr y diddordeb y mae ei Aelodau lleol yn ei gymryd yn y gwasanaethau iechyd meddwl yn PABM. Mae tuedd hirdymor i leihau nifer y gwelyau i gleifion mewnl mewn gwasanaethau iechyd meddwl ac mae hynny'n beth da. Mae hwnnw'n gyfeiriad polisi pwysig a gafodd gryn gefnogaeth ar draws y Siambr. Mae'r pwyntiau ynglŷn â thrafnidiaeth yn bwysig ac fe'u gwnaed yn dda a byddaf yn sicrhau eu bod yn cael y sylw sydd ei angen arnynt.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**GIG Cymru**

**Welsh NHS**

13:41

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu staff yn GIG Cymru. OAQ(4)0372(HSS)*

*3. Will the Minister make a statement on staff development in the Welsh NHS? OAQ(4)0372(HSS)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:41 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you for that question. The NHS in Wales is committed to investing in staff training and development. We want to ensure that the NHS offers a range of opportunities for staff, and that a culture that nurtures and enables staff to develop full and rewarding careers is a hallmark of the NHS in Wales.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch ichi am y cwestiwn hwnnw. Mae'r GIG yng Nghymru wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn hyfforddi a datblygu staff. Rydym yn awyddus i sicrhau bod y GIG yn cynnig ystod o gyfleoedd i staff, a bod diwylliant sy'n meithrin ac yn galluogi staff i ddatblygu gyrfaoedd llawn a boddhaus yn un o nodau amgen y GIG yng Nghymru.

13:42 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you for that response. Organisations with effective staff development and performance management are those with lower absenteeism and sickness rates. Yet, you will be aware that the results of a freedom of information request published this month show that there have been almost 10,000 NHS Wales members of staff have been off for more than a week through stress, anxiety and depression since 2011. A third of those were in Betsi Cadwaladr University Local Health Board. Given the concerns raised in the Wales Audit Office report on NHS finances and the Wales Audit Office and Healthcare Inspectorate Wales report on corporate governance in Betsi Cadwaladr, what action is the Welsh Government taking to ensure that those effective staff development procedures are implemented to support the staff affected?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch ichi am yr ymateb hwnnw. Sefydliadau â systemau datblygu staff a rheoli perfformiad effeithiol yw'r rhai sydd â'r cyfraddau absenoldeb a salwch isaf. Eto i gyd, byddwch yn ymwybodol bod canlyniadau cais rhyddid gwybodaeth a gyhoeddwyd y mis hwn yn dangos bod bron i 10,000 o aelodau o staff GIG Cymru wedi bod i ffwrdd o'r gwaith am fwy nag wythnos oherwydd straen, pryder ac iselder ers 2011. Roedd traean o'r rheini ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. O ystyried y pryderon a godwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gyllid y GIG ac adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar lywodraethu corfforaethol yn Betsi Cadwaladr, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod y gweithdrefnau datblygu staff effeithiol hynny yn cael eu gweithredu i gefnogi'r staff yr effeithir arnynt?

13:42 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you for that important question. The issue of sickness levels in the Welsh NHS is matter of concern to me and I discuss it regularly with senior figures in the NHS. It varies from place to place as the Member identified. There are LHBs in Wales that do better in this area than others. We have services in Wales, occupational health services, that work within the NHS to assist staff. There is no doubt that the impact of austerity is felt in the lives of people who work in the NHS. There is no wonder that, sometimes, those pressures come with them into the workplace. However, the Welsh Government is fully engaged in this agenda, working at a senior level to assist our local health boards to address it actively.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch ichi am y cwestiwn pwysig hwnnw. Mae lefelau salwch yn y GIG yng Nghymru yn fater o bryder i mi ac rwyf yn ei drafod yn rheolaidd gydag uwch swyddogion yn y GIG. Mae'n amrywio o le i le fel y nododd yr Aelod. Mae rhai BILlau yng Nghymru yn gwneud yn well yn y maes hwn nag eraill. Mae gennym wasanaethau yng Nghymru, gwasanaethau iechyd galwedigaethol, sy'n gweithio o fewn y GIG i gynorthwyo staff. Nid oes amheuaeth bod effaith cynilo yn cael ei themlo ym mywydau pobl sy'n gweithio yn y GIG. Nid oes unrhyw syndod bod y pwysau hynny, weithiau, yn dod gyda nhw i'r gweithle. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan lawn yn yr agenda hon, gan weithio ar lefel uwch i gynorthwyo ein byrddau iechyd lleol i fynd i'r afael â hyn yn weithredol.

13:43 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I met with representatives from the Hywel Dda Local Health Board on Monday to discuss service improvement plans for Prince Philip Hospital. Clinicians and staff feel positive on their engagement in forming a clinically-led service for patients. In addition, Hywel Dda has over time confirmed a university partnership in which there is a focus on staff development and training opportunities are encouraged. Minister, do you agree that this partnership and the first-class research and development facilities that you saw during a recent visit boost further the attractiveness of the offer of working for the NHS in west Wales?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Cyfarfûm â chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ddydd Llun i drafod cynlluniau gwella gwasanaeth ar gyfer Ysbyty'r Tywysog Philip. Mae clinigwyr a staff yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â'u hymwneud â'r gwaith o ffurfio gwasanaeth dan arweiniad clinigol ar gyfer cleifion. Yn ogystal, mae Hywel Dda dros amser wedi cadarnhau partneriaeth prifysgol lle y canolbwyntir ar gyfleoedd i ddatblygu staff a lle y caiff cyfleoedd hyfforddi eu hannog. Weinidog, a gytunwch fod y bartneriaeth hon a'r cyfleusterau ymchwil a datblygu o'r radd flaenaf a welsoch yn ystod ymweliad diweddar yn hybu ymhellach atyniad y cynnig o weithio i'r GIG yn y gorllewin?

- 13:44 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Keith Davies for that question. I very much enjoyed my visit to Prince Philip Hospital just before Christmas. I was hugely encouraged by the determination of staff at the hospital to use staff development opportunities to go on providing a service for its local population. I enjoyed meeting Dr Keir Lewis and his team of young PhD students from Aberystwyth who are carrying out world-leading research at Prince Philip Hospital. I wonder how many people, even in Llanelli itself, know that Llanelli is one of four places in Europe that are conducting European level research into telehealth and telemedicine. It was very impressive indeed. Staff development and training opportunities are at the heart of that and of persuading people to go and work in the west part of Wales.
- Diolchaf i Keith Davies am y cwestiwn hwnnw. Mwynheais yn fawr fy ymweliad ag Ysbyty'r Tywysog Philip ychydig cyn y Nadolig. Cefais fy nghalonogi'n fawr gan benderfyniad y staff yn yr ysbyty i ddefnyddio cyfleoedd datblygu staff i barhau i ddarparu gwasanaeth ar gyfer ei boblogaeth leol. Mwynheais gyfarfod â Dr Keir Lewis a'i dîm o fyfyrwyr PhD ifanc o Aberystwyth sy'n cynnal ymchwil o'r radd flaenaf yn Ysbyty'r Tywysog Philip. Tybed faint o bobl, hyd yn oed yn Llanelli ei hun, sy'n gwybod bod Llanelli yn un o bedwar lle yn Ewrop sy'n cynnal ymchwil ar lefel Ewropeaidd i deleiechyd a thelefeddygaeth. Roedd yn drawiadol iawn yn wir. Mae cyfleoedd i ddatblygu a hyfforddi staff wrth wraidd hynny a darbwyllo pobl i fynd a gweithio yng ngorllewin Cymru.
- 13:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the Plaid Cymru spokesperson, Elin Jones. Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Elin Jones.
- 13:45 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, mae ffigurau o Hydref 2013 yn dangos mai cost staff locwm i'r NHS yng Nghymru yn awr, ar gyfartaledd, yw £50 miliwn y flwyddyn. Mae hwnnw'n ffigur sydd wedi tyfu dros y tair blynedd diwethaf. Roedd Andy Burnham ddoe yn feirniadol tu hwnt o Lywodraeth San Steffan am gynyddu'r ddibyniaeth ar staff locwm yn NHS Lloegr. Roedd yn gwneud hynny bron ar yr un pryd yn union ag yr oedd y Prif Weinidog fan hyn yn amddiffyn y defnydd yng Nghymru o wariant ar staff locwm. O roi'r rhagrith gwleidyddol i'r naill ochr am funud, a yw'n gynaliadwy, yn eich barn chi, i wario £50 miliwn y flwyddyn ar feddygon locwm yng Nghymru?
- Minister, October 2013 figures show that the cost of locum staff to the NHS in Wales is, on average, £50 million a year. That is a figure that has grown over the past three years. Andy Burnham was yesterday very critical of the Westminster Government for increasing dependency on locum staff in NHS England. He made that criticism at almost exactly the same time as the First Minister was here defending expenditure on locum staff. Putting that political hypocrisy to one side for the moment, do you think that it is sustainable to spend £50 million a year on locum doctors in Wales?
- 13:45 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- There has been an 18% reduction in the cost of locums in the Welsh NHS over the last 12 months. As the First Minister said yesterday, there will always be occasions when the employment of locum staff is the right thing to do. I agree, however, that overdependence on locum staff is not a sustainable way of providing services. I make the point in this Chamber many times that the long-term future of the NHS relies on reform and changing the way in which we do things. Where services are fragile because of an over-reliance on locum staff, the long-term answer has to be reform.
- Bu gostyngiad o 18% yng nghost staff locwm yn y GIG yng Nghymru dros y 12 mis diwethaf. Fel y dywedodd y Prif Weinidog ddoe, bydd achlysuron yn codi bob amser pan fydd yn briodol cyflogi staff locwm. Fodd bynnag, cytunaf nad yw gorddibyniaeth ar staff locwm yn ffordd gynaliadwy o ddarparu gwasanaethau. Gwnaed y pwynt gennyf yn y Siambr hon sawl gwaith fod dyfodol hirdymor y GIG yn dibynnu ar ddiwygio a newid y ffordd rydym yn gwneud pethau. Lle mae gwasanaethau'n fregus oherwydd gorddibyniaeth ar staff locwm, diwygio yw'r ateb hirdymor.
- 13:46 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, a ydych chi'n derbyn y bydd hyd at 40% o feddygon teulu yn y Cymoedd yn cyrraedd oedran ymdeol dros y degawd nesaf? Daw'r ffigur hwnnw o adroddiad Longley y llynedd. Rwy'n derbyn nad yw hyn yn greis recriwtio i chi heddiw, ond mae'n bosibl iawn y bydd yn greis recriwtio yn y dyfodol agos. Pa gynlluniau sydd gennych, os nad dibyniaeth ar feddygon locwm—rwy'n falch i glywed beth rydych chi'n ei ddweud am hynny—i gynyddu nifer y GPs sy'n cael eu hyfforddi a'u recriwtio yng Nghymru?
- Minister, do you accept that up to 40% of general practitioners in the Valleys will reach retirement age during the next decade? That figure comes from the Longley report of last year. I accept that that does not represent a recruitment crisis for you today, but it is possible that it will become a recruitment crisis in the near future. What plans do you have, if you are to not depend on locum doctors—I was pleased to hear what you said about that—to increase the number of GPs who are trained and recruited in Wales?

13:47

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The age structure of the GP workforce in Wales is practically identical to that in Scotland and England. The age structure that the Member referred to is not a Welsh phenomenon at all. Indeed, it will mean that we have to plan properly for the GPs that we will need in future. In the time that I have been involved in health policy in Wales, GP and primary care services in the Valleys, to which the Member referred, have been absolutely transformed. When I first came to work in the Assembly, when my colleague Jane Hutt was the Minister for health, there was not a single woman GP in the whole of Merthyr. If you were a woman in Merthyr, there was no woman GP that you could go to anywhere in that borough. The strengthening of primary care in our Valley communities has been one of the huge success stories of devolution. We have shown that we are able to do it. Of course, we have to plan and prepare, but that is exactly what we will be doing.

Mae strwythur oedran y gweithlu meddygon teulu yng Nghymru bron union yr peth â'r un yn yr Alban a Lloegr. Nid yw'r strwythur oedran y cyfeiriodd yr Aelod ato yn ffenomen Gymreig o gwbl. Yn wir, bydd yn golygu bod yn rhaid inni gynllunio'n briodol ar gyfer y meddygon teulu y bydd eu hangen arnom yn y dyfodol. Yn ystod y cyfnod y bûm yn gysylltiedig â pholisi iechyd yng Nghymru, mae gwasanaethau meddygon teulu a gofal sylfaenol yn y Cymoedd, y cyfeiriodd yr Aelod atynt, wedi cael eu trawsnewid yn llwyr. Pan ddeuthum i weithio gyntaf yn y Cynulliad, pan oedd fy nghyd-Aelod, Jane Hutt yn Weinidog iechyd, nid oedd un meddyg teulu benywaidd ym Merthyr gyfan. Os oeddech yn fenyw ym Merthyr, nid oedd unrhyw feddyg teulu benywaidd y gallech fynd ati unrhyw le yn y fwrdeistref. Cryfhau gofal sylfaenol yn ein cymunedau yn y Cymoedd fu un o lwyddiannau mawr datganoli. Rydym wedi dangos ein bod yn gallu gwneud hynny. Wrth gwrs, rhaid inni gynllunio a pharatoi, ond dyna'r union beth y byddwn yn ei wneud.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

**William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, one point that was raised yesterday in First Minister's questions was the impact that a lack of permanent senior consultants can have on the provision of continual professional development in the health service. Given the widely publicised recruitment difficulties experienced by some rural health boards, notably Hywel Dda, what assessment have you made of the impact that that has on professional development within the heartlands of rural Wales?

Weinidog, un pwynt a godwyd ddoe yn y cwestiynau i'r Prif Weinidog oedd yr effaith y gall prinder uwch meddygon ymgynghorol parhaol ei chael ar ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus yn y gwasanaeth iechyd. O ystyried yr anawsterau recriwtio a gafodd gryn sylw yn y wasg a'r cyfryngau ac a brofwyd gan rai byrddau iechyd gwledig, yn enwedig Hywel Dda, pa asesiad a wnaethoch o'r effaith a gafodd hynny ar ddatblygiad proffesiynol yng nghadarnleoedd y Gymru wledig?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I understand the points that are made by consultant colleagues about the leadership that they bring to the staff development agenda. It is why they have protected time set aside within their job plans in order to be able to do that. The contribution that they make in that area is very important. It is, as I have said before, another part of the argument that we have to make with people. If they want to go on having the sort of health service where they get the very best that is available, we will have to make the best use of that consultant time. Sometimes, that will mean changing the way in which services are provided at present.

Deallaf y pwyntiau a wneir gan gyd-feddygon ymgynghorol ynglŷn â'r arweinyddiaeth a gyfrannir ganddynt at yr agenda datblygu staff. Dyna pam eu bod wedi neilltuo amser a ddiogelir o fewn eu cynlluniau gwaith er mwyn gallu gwneud hynny. Mae'r cyfraniad a wnânt yn y maes hwnnw yn bwysig iawn. Fel y dywedais o'r blaen, mae'n rhan arall o'r ddatl y mae'n rhaid inni ei chael gyda phobl. Os ydynt am barhau i gael y math o wasanaeth iechyd lle y cânt y gorau sydd ar gael, bydd yn rhaid inni wneud y defnydd gorau o amser y meddygon ymgynghorol hynny. Weithiau, bydd hynny'n golygu newid y ffordd y darperir gwasanaethau ar hyn o bryd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Therapi Seicolegol

## Psychological Therapy

13:49

**Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad at therapi seicolegol ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru? OAQ(4)0376(HSS)*

*4. Will the Minister make a statement on access to psychological therapy for people with mental health problems in Wales? OAQ(4)0376(HSS)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:49 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch yn fawr am y cwestiwn. Comisiynodd fy rhagflaenydd adolygiad o fynediad i therapiau seicolegol yng Nghymru a gweithredu'r polisi. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Tachwedd ac mae'n dangos llawer o arfer da mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru, gyda rhai bylchau yn y ddarpariaeth hefyd. Mae cyllid ychwanegol wedi cael ei ddarparu i wella sgiliau a chymwyseddau staff byrddau iechyd lleol i ddarparu therapiau seicolegol.
- Thank you for the question. My predecessor commissioned an independent review of access to, and implementation of, psychological therapy treatments in Wales. It was published in November 2013 and showed significant good practice in many areas of Wales, with some gaps in provision too. Additional funding has been provided to assist LHB staff to improve skills and competencies in delivering psychological therapies.
- 13:50 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch yn fawr iawn am yr ateb. Mae canllawiau NICE, wrth gwrs, yn dweud mai therapi ymddygiad gwybyddol yw'r driniaeth o ddewis i'r rhan fwyaf o bobl â phroblemau iechyd meddwl. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddilyn canllawiau NICE, mae gweithwyr yn y maes yn dweud wrthyf nad yw'r polisiâu yn arwain at well mynediad i wasanaethau. A gaf i ofyn ichi felly ba un ydych chi'n credu ei bod yn dderbyniol bod, yn Lloegr, un therapydd CBT i bob 17,000 o bobl, tra bod un therapydd i bob 55,000 o bobl yng Nghymru?
- Thank you very much for that response. The NICE guidelines, of course, state that cognitive behavioural therapy is the best treatment for most people with mental health problems. Although the Welsh Government is committed to following NICE guidelines, workers in this area tell me that the policies are not improving access to these services. May I ask you therefore whether you think it is acceptable that, in England, there is one CBT therapist for every 17,000 people while, in Wales, there is only one therapist for every 55,000 people?
- 13:50 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I recognise, of course, that cognitive behavioural therapy and, particularly in north Wales where there is such a leading set of actors in the field, mindfulness cognitive behavioural therapy is a very important part of what the NHS provides. My view is that we are able to draw on the skills of a wider range of professionals to provide exactly those sort of therapies rather than on narrow specialists who do simply that. It is why our response to the report I referred to has been to provide money to local health boards so that they are able to spread the training of cognitive behavioural therapy among a wider group of staff in order to make sure that we can provide those sorts of services to patients.
- Cydnabyddaf, wrth gwrs, y therapi gwybyddol ymddygiadol hwnnw ac, yn enwedig yn y gogledd lle mae arbenigwyr blaenllaw yn y maes, mae therapi gwybyddol ymddygiadol ymwybyddiaeth ofalgar yn rhan bwysig iawn o'r hyn a ddarperir gan y GIG. Fy marn i yw y gallwn fanteisio ar sgiliau ystod ehangach o weithwyr proffesiynol i ddarparu yn union y mathau hynny o therapiau yn hytrach na dibynnu ar arbenigwyr cul sydd ond yn gwneud hynny. Dyna pam yr ydym wedi ymateb i'r adroddiad y cyfeiriais ato drwy roi arian i fyrdau iechyd lleol fel y gallant gynnal hyfforddiant ar gyfer therapi gwybyddol ymddygiadol i ystod ehangach o staff er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu'r mathau hynny o wasanaethau i gleifion.
- 13:51 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, at a public meeting in Aberystwyth on Friday, we heard how the lack of inpatient mental health facilities in Bronlais hospital has led to young people in crisis being offered beds as far away as Scotland. Clearly, this is unacceptable, so will you commit to exploring with the health board how this came about and, more importantly, how we can ensure that it does not happen again?
- Weinidog, mewn cyfarfod cyhoeddus yn Aberystwyth ddydd Gwener, clywsom sut mae'r diffyg cyfleusterau iechyd meddwl i gleifion mewnol yn ysbytu Bronlais wedi arwain at sefyllfa lle y cynigir gwelyau i bobl ifanc mewn argyfwng mor bell i ffwrdd â'r Alban. Yn amlwg, nid yw hyn yn dderbyniol, felly a wnewch chi ymrwymo i archwilio gyda'r bwrdd iechyd sut y digwyddodd hyn ac, yn bwysicach na hynny, sut y gallwn sicrhau nad yw'n digwydd eto?
- 13:52 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for that question. I have heard reports of some of the things that were said at the public meeting in Aberystwyth, and specifically on that point. So I have already asked the local crisis resolution team, the local health board itself and the Welsh Health Specialised Services Committee for any evidence they have that that sort of thing has happened. So far, their reports to me are that none of them have been able to identify a single case of a patient from that area being placed in Scotland. Indeed, they were unable to identify any patient being placed in a facility outside the area other than when that care was specialist care necessary for that patient's treatment.
- Diolchaf i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Rwyf wedi clywed adroddiadau am rai o'r pethau a ddywedwyd yn y cyfarfod cyhoeddus yn Aberystwyth, ac yn benodol ar y pwynt hwnnw. Felly rwyf eisoes wedi gofyn i'r tîm datrys argyfyngau lleol, y bwrdd iechyd lleol ei hun a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru am unrhyw dystiolaeth sydd ganddynt fod y math hwn o beth wedi digwydd. Hyd yma, maent wedi adrodd nad ydynt wedi gallu nodi'r un achos o glaf o'r ardal honno yn cael ei anfon i'r Alban. Yn wir, nid oeddent yn gallu nodi unrhyw achos o glaf yn cael ei anfon i gyfleuster y tu allan i'r ardal heblaw pan oedd y gofal hwnnw yn ofal arbenigol angenrheidiol ar gyfer triniaeth y claf hwnnw.

13:52

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, one of the units available in north Wales is the Hergest unit in Gwynedd, which has three wards caring for adults with mental health difficulties. There is a letter dated 18 December that indicates that Welsh Government has significant concerns about the safety of that unit. However, members of staff have been trying to highlight safety issues to Betsi Cadwaladr management for many many months, and I have correspondence that dates back over 12 months in relation to this issue. Can you update us on what is happening with that unit and Welsh Government's involvement with it as a number of reports do not yet appear to be in the public domain?

Weinidog, un o'r unedau sydd ar gael yn y gogledd yw uned Hergest yng Ngwynedd, sydd â thair ward sy'n gofalu am oedolion ag anawsterau iechyd meddwl. Mae llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr yn nodi bod gan Lywodraeth Cymru bryderon sylweddol am ddiogelwch yr uned honno. Fodd bynnag, mae aelodau o staff wedi bod yn ceisio tynnu sylw rheolwyr Betsi Cadwaladr at faterion diogelwch ers misoedd lawer, ac mae gennyf ohebiaeth sy'n dyddio'n ôl dros 12 mis mewn perthynas â'r mater hwnnw. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am yr hyn sy'n digwydd gyda'r uned honno ac ymwneud Llywodraeth Cymru â hi gan nad yw'n ymddangos bod nifer o adroddiadau ar gael i'r cyhoedd eto?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for that question. I am well aware of the position at the Hergest unit. I am in receipt of quite regular correspondence about it all. The Member will know that, because of those concerns, Welsh Government has invited both Health Inspectorate Wales and the Royal College of Psychiatrists to carry out independent reviews of conditions at the unit. Those reports are now with the Welsh Government and are being considered by my officials. I expect advice on those very shortly. We are very alert to some of the concerns about the unit. I can say today that neither of those reports casts doubt on the safety of services there.

Diolchaf i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Rwy'n ymwybodol iawn o'r sefyllfa yn uned Hergest. Derbyniaf ohebiaeth yn eithaf rheolaidd yn ei chylch. Bydd yr Aelod yn gwybod, oherwydd y pryderon hynny, bod Llywodraeth Cymru wedi gwahodd Arolygiaeth Iechyd Cymru a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion i gynnal adolygiadau annibynnol o'r amodau yn yr uned. Mae'r adroddiadau hynny bellach gyda Llywodraeth Cymru ac yn cael eu hystyried gan fy swyddogion. Disgwyliaf gael cyngor arnynt yn fuan iawn. Rydym yn effro iawn i rai o'r pryderon am yr uned. Gallaf ddweud heddiw nad oedd yr un o'r adroddiadau hynny yn bwrw amheuaeth ar ddiogelwch y gwasanaethau yno.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

**Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am concerned about access to talking therapies for children with mental health problems. Obviously, a child who is experiencing a significant mental health problem may not be able to attend school and that has an impact on their wellbeing but also their future life chances. I understand that there are targets for referral to child and adolescent mental health services, but I am told by constituents that they are experiencing problems accessing talking treatments. I wonder whether the work that you have already undertaken has identified ways in which we can improve the speed of access for children, specifically.

Weinidog, rwy'n pryderu am allu plant sydd â phroblemau iechyd meddwl i gael gafael ar therapïau. Yn amlwg, efallai na fydd plentyn sy'n dioddef o broblem iechyd meddwl sylweddol yn gallu mynychu ysgol a bydd hynny'n cael effaith ar ei les ond hefyd ar ei gyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol. Deallaf fod targedau ar gyfer atgyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl plant a'r Glasoed, ond dywed etholwyr wrthyf eu bod yn wynebu problemau wrth geisio cael gafael ar driniaethau siarad. Tybed a yw'r gwaith yr ydych eisoes wedi'i wneud wedi nodi ffyrdd lle y gallwn sicrhau bod plant, yn benodol, yn cael gafael ar driniaethau yn gynt.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:55

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The piece of work with which I am most familiar is the piece that was carried out at the end of last year in relation to eating disorder services for children, into which an extra £250,000 has been invested this year on a recurring basis by the Welsh Government. Part of that additional investment has been to extend the range of talking therapies for young people who come to the attention of the higher tiers of CAMHS services, with eating disorders. A very considerable proportion of children who find themselves at that more severe end of mental health are there because of eating disorders. I will make some further enquiries as to whether that approach is more generally available to children needing that sort of intervention.

Y darn o waith yr wyf fwyaf cyfarwydd ag ef yw'r darn a gynhaliwyd ddiwedd y llynedd mewn perthynas â gwasanaethau anhwylderau bwyta i blant, y buddsoddiwyd £250,000 ychwanegol ynddynt eleni ar sail cylchol gan Lywodraeth Cymru. Rhan o'r buddsoddiad ychwanegol hwnnw oedd ymestyn yr ystod o therapïau siarad i bobl ifanc sy'n dod i sylw haenau uwch Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, gydag anhwylderau bwyta. Mae cyfran sylweddol iawn o blant sydd ar begwn mwy difrifol iechyd meddwl yno oherwydd anhwylderau bwyta. Gwnaf rai ymholiadau pellach i weld a yw'r dull gweithredu hwnnw ar gael yn fwy cyffredinol i blant y mae angen y math hwnnw o ymyrraeth arnynt.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

**Dystonia**

**Dystonia**

- 13:56 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y driniaeth a'r cymorth i gleifion Dystonia yng Nghymru? OAQ(4)0369 (HSS)*  
*5. Will the Minister make a statement on the treatment and support for Dystonia patients in Wales? OAQ(4)0369 (HSS)*
- 13:56 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
The NHS in Wales aims to provide all patients with neurological conditions, including those with dystonia, with effective care and treatment. Our consultation on a draft neurological conditions delivery plan, which includes services for people with dystonia, will close on 31 January 2014.  
Nod y GIG yng Nghymru yw darparu gofal a thriniaeth effeithiol i bob claf sydd â chyflyrau niwrolegol, gan gynnwys y rhai sydd â dystonia. Daw ein hymgyngoriad ar gynllun cyflenwi cyflyrau niwrolegol drafft, sy'n cynnwys gwasanaethau i bobl â dystonia, i ben ar 31 Ionawr 2014.
- 13:56 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Thank you, Minister. That is a very welcome announcement. Dystonia, as you know, affects an estimated 3,300 people in Wales and can affect movement, posture, speech, sight and mobility. Living with this condition can be painful and debilitating. Constituents who live with the condition tell me that some GPs are not always fully aware of what the condition entails, which can lead to poor or late diagnosis with a knock-on effect on treatment, particularly among children. One form of treatment is deep brain stimulation. However, I understand that, over the last two years, there has only been one referral a year. Minister, will you ensure that there is greater awareness and understanding of the condition and that it is promoted among health professionals, and that referrals for treatment are closely monitored?  
Diolch ichi, Weinidog. Mae hynny'n gyhoeddiad i'w groesawu'n fawr. Mae dystonia, fel y gwyddoch, yn effeithio ar tua 3,300 o bobl yng Nghymru a gall effeithio ar symudiad, osgo, lleferydd, golwg a symudedd. Gall byw gyda'r cyflwr hwn fod yn boenus a gwanychol. Dywed etholwyr sy'n byw gyda'r cyflwr wrthyf nad yw rhai meddygon teulu bob amser yn gwbl ymwybodol o'r hyn y mae'r cyflwr yn ei olygu, a all arwain at ddiagnosis gwael neu hwyr gydag effaith ganlyniadol ar driniaeth, yn enwedig ymhlith plant. Un math o driniaeth yw ysgogi yn nwf'n yr ymennydd. Fodd bynnag, deallaf, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mai dim ond un atgyfeiriad y fwyddyn a gafwyd. Weinidog, a wnewch chi sicrhau bod mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cyflwr ac y caiff ei hyrwyddo ymhlith gweithwyr iechyd proffesiynol, ac y caiff atgyfeiriadau ar gyfer triniaeth eu monitro'n agos?
- 13:57 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
I thank the Member for that question. Our delivery plans have a common set of approaches and the first part of each one is to increase awareness of that condition among those parts of the clinical population that have responsibility for it, so that we can get early identification of people who need help. So, certainly, the delivery plan will have a focus of the sort that Christine Chapman has suggested.  
Diolchaf i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Mae gan ein cynlluniau cyflawni set gyffredin o ddulliau gweithredu a rhan gyntaf pob un yw cynyddu ymwybyddiaeth o'r cyflwr hwnnw ymhlith y rhannau hynny o'r boblogaeth glinigol sy'n gyfrifol amdano, fel y gallwn nodi pobl y mae angen help arnynt yn gynnar. Felly, yn sicr, bydd ffocws y cynllun cyflawni yn debyg i'r hyn a awgrymwyd gan Christine Chapman.  
Dystonia is a deeply distressing condition and, as yet, treatment has been limited to minimising the symptoms of the disorder, and there are no successful treatments for its cause and, therefore, no cure. All of those treatments that are available for dealing with the symptoms bring with them negative side effects and risks. I took the opportunity at the weekend, thinking about this question, to look at NICE guidelines in relation to deep brain stimulation. They do say that it is a potential treatment for some of the side effects of dystonia, but even that guidance says that there is not a lot of information available yet about how well such a treatment works, how safe it is and which patients benefit most from it, and that there is uncertainty about its long-term effects. So, while the Member is absolutely right to say that it is one of a suite of measures, it is maybe understandable that its use is at a relatively low level.  
Mae dystonia yn gyflwr sy'n peri llawer o ofid a, hyd yma, bu'r driniaeth yn gyfyngedig i leihau symptomau'r anhwylder, ac nid oes unrhyw driniaethau llwyddiannus ar gyfer ei achos ac, felly, nid oes unrhyw iachâd. Mae sgîl-ffeithiau negyddol a risgiau yn gysylltiedig â phob un o'r triniaethau hynny sydd ar gael ar gyfer ymdrin â'r symptomau. Manteisiais ar y cyfle dros y penwythnos, wrth feddwl am y cwestiwn hwn, i edrych ar ganllawiau NICE o ran ysgogi yn nwf'n yr ymennydd. Dywed fod triniaeth bosibl ar gyfer rhai o sgîl-ffeithiau dystonia, ond mae hyd yn oed y canllawiau hynny'n dweud nad oes llawer o wybodaeth ar gael hyd yma am ba mor dda y mae triniaeth o'r fath yn gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion sy'n elwa fwyaf arni, a bod ansicrwydd ynghylch ei heffeithiau hirdymor. Felly, er bod yr Aelod yn iawn i ddweud mai un o gyfres o fesurau ydyw, mae'n ddealladwy efallai mai ar gyfer nifer fach o gleifion y caiff ei defnyddio.

13:58

**Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, as has been mentioned, over 3,000 people in Wales are likely to be diagnosed further with dystonia, a complex but little-known neurological condition. Concerns have been raised with me in north Wales by a group of those who are suffering with dystonia. The concerns vary around the vital need, as has been mentioned, for correct and early diagnosis in order to prevent many of those difficult and debilitating life conditions that follow. One of those treatments is botulinum toxin, which is very cost-effective and a very effective symptom treatment. Also, speech and language therapy is essential. These provisions are available in England, but they have great difficulty accessing this provision in north Wales. Would you look into this, please? As you have rightly pointed out, this is a very distressing condition.

Weinidog, fel y crybwyllwyd, mae dros 3,000 o bobl yng Nghymru yn debygol o gael diagnosis pellach o ddystonia, cyflwr niwrolegol cymhleth na wyddom fawr ddim amdano. Codwyd pryderon gyda mi yn y gogledd gan grŵp o bobl sy'n dioddef o ddystonia. Mae'r pryderon yn ymwneud â'r angen hollbwysig, fel y crybwyllwyd, am ddiagnosis cywir a chynnwys er mwyn atal llawer o'r cyflyrau bywyd anodd a gwanychol hynny sy'n dilyn. Un o'r triniaethau hynny yw tocsin botulinwm, sy'n gosteffeithiol iawn ac yn trin symptomau'n effeithiol iawn. Hefyd, mae therapi iaith a lleferydd yn hanfodol. Mae'r darpariaethau hyn ar gael yn Lloegr, ond ceir anhawster mawr i gael gafael ar y ddarpariaeth hon yn y gogledd. A wnewch chi edrych ar hyn, os gwelwch yn dda? Fel yr ydych wedi dweud yn gwbl gywir, mae hwn yn gyflwr sy'n peri llawer o ofid.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for those ideas. I am very keen that, in developing our delivery plans, we hear directly from people who experience some of these very difficult conditions. I hope very much that the group that she has been in contact with will supply that information as part of the consultation on the delivery plan, but I would be very happy if she were to write to me directly on its behalf to make sure that its views are fed into that consultation process.

Diolchaf i'r Aelod am y syniadau hynny. Rwy'n awyddus iawn i sicrhau, wrth ddatblygu ein cynlluniau cyflawni, ein bod yn clywed yn uniongyrchol gan bobl sy'n dioddef o rai o'r cyflyrau anodd iawn hyn. Gobeithiaf yn fawr y bydd y grŵp y mae wedi bod mewn cysylltiad ag ef yn darparu'r wybodaeth honno fel rhan o'r ymgynghoriad ar y cynllun cyflawni, ond byddwn yn hapus iawn pe bai'n ysgrifennu ataf fi yn uniongyrchol ar ei ran er mwyn sicrhau bod ei safbwyntiau yn cael eu bwydo i mewn i'r broses ymgynghori honno.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Ffigurau am Farwolaethau

## Mortality Figures

14:00

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ffigurau diweddaraf am farwolaethau a ryddhawyd gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr? OAQ(4)0375(HSS)*

*6. Will the Minister make a statement on the most recent release of mortality figures by Betsi Cadwaladr Health Board? OAQ(4)0375(HSS)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for that question. Risk-adjusted mortality figures have stabilised across the Betsi Cadwaladr University Local Health Board area, and the latest figures show a further very gradual decline. Extensive work is being undertaken within the ULHB to understand and drive down mortality rates further.

Diolchaf i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Mae ffigurau marwolaethau a addaswyd ar gyfer risg wedi sefydlogi ar draws ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, a dengys y ffigurau diweddaraf ostyngiad pellach graddol iawn. Mae gwaith helaeth yn cael ei wneud yn y BILIP i ddeall a gostwng cyfraddau marwolaethau ymhellach.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for the Minister's reply and, no doubt, he will be as pleased as I am to see this levelling off in mortality rates. However, the Betsi Cadwaladr press release that accompanied those figures said that one matter looked at was the cause of death of patients. Minister, you will be aware, because I raised this with you before Christmas, that there was a backlog of over 300 complaints to the board, many of them dealing with deaths in the Betsi Cadwaladr University Local Health Board area. I wonder whether you are in a position to update us as to how, particularly with the 'never' events, those investigations are progressing.

Rwy'n ddiolchgar am ateb y Gweinidog ac, yn ddiau, bydd yr un mor falch â minnau o weld y lefelu hwn mewn cyfraddau marwolaethau. Fodd bynnag, nododd datganiad i'r wasg Betsi Cadwaladr a gyflwynwyd gyda'r ffigurau hynny mai un mater yr edrychwyd arno oedd achos marwolaethau cleifion. Weinidog, byddwch yn ymwybodol, gan imi godi hyn gyda chi cyn y Nadolig, bod ôl-groniad o dros 300 o gwynion i'r bwrdd, y mae llawer ohonynt yn delio â marwolaethau yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Tybed a ydych mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch sut, yn enwedig gyda 'digwyddiadau na ddylent byth ddigwydd', y mae'r ymchwiliadau hynny yn mynd rhagddynt.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I thank Antoinette Sandbach for that. She refers to the case note mortality reviews that are going on as part of our investigation of mortality figures in Wales; that is what the press release was referring to. May I thank her for her tenacity in pursuing the issue of 'never' events, which she has raised here previously? As a result of her inquiries, my officials have worked very closely with BCULHB to understand the position and to clear up some of the confusion that there has been around it. My officials have reviewed all reported cases. I can now confirm that during 2013-14, to date, a total of five incidents have occurred that meet the criteria of a 'never' event and that there were two during 2012-13. I will write to the Member, setting out this information in more detail, but we now have, I think, the definitive position that is required.

Diolchaf i Antoinette Sandbach am hynny. Cyfeiria at yr adolygiadau o nodiadau achos marwolaethau sy'n mynd rhagddynt fel rhan o'n hymchwiliad i ffigurau marwolaethau yng Nghymru; dyna'r hyn yr oedd y datganiad i'r wasg yn cyfeirio ato. A allaf ddiolch iddi am ei dycnwch wrth fynd ar drywydd 'digwyddiadau na ddylent byth ddigwydd', y mae wedi'u codi yma o'r blaen? O ganlyniad i'w hymholiadau, mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos iawn gyda BILLPBC i ddeall y sefyllfa ac i esbonio rhywfaint o'r dryswch a fu yn ei chylch. Mae fy swyddogion wedi adolygu'r holl achosion a gofnodwyd. Gallaf gadarnhau bellach fod cyfanswm o bum digwyddiad wedi bod hyd yn hyn, yn ystod 2013-14, sy'n bodloni'r meini prawf o ran 'digwyddiadau na ddylent byth ddigwydd' a bod dau wedi bod yn ystod 2012-13. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod, gan nodi'r wybodaeth hon yn fanylach, ond mae gennym bellach, yn fy marn i, y sefyllfa ddiffiniol sydd ei hangen.

14:02

**Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Mae pryder dros gyfraddau marwolaeth wedi arwain at broblem o ddiffyg hyder yn y gwasanaeth iechyd yn y gogledd. A yw'r Gweinidog yn cytuno mai un ffordd o gynyddu hyder yw sicrhau bod staffio parhaol ar y lefel gywir? Nid yw parhau i wadu bod problem recriwtio, fel rydych yn ei wneud, yn helpu dim. Cyn i chi ateb, a gaf ddyfynnu o un ddogfen ar wefan NHS Cymru?

Concern over mortality rates has led to the problem of a lack of confidence in the health service in north Wales. Does the Minister agree that one way of increasing confidence is to ensure that permanent staffing is at the right level? Continuing to deny that there is a recruitment problem, as you are doing, does not help at all. Before you respond, may I quote from one document from the NHS Wales website?

'What's the matter with the NHS in Wales? – Some frequently asked questions'

'What's the matter with the NHS in Wales? – Some frequently asked questions'

'Are there really doctor shortages?'

'Are there really doctor shortages?'

'Yes.'

'Yes.'

Mae'n mynd ymlaen i ddweud:

It goes on to say:

'This is making some services vulnerable because without enough doctors they become unsafe.'

'This is making some services vulnerable because without enough doctors they become unsafe.'

14:03

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

It is exactly the position that I have repeated many times in this Chamber, and repeated it already once this afternoon: there is no general recruitment crisis in the NHS. It does not service to people who work in it to keep suggesting that there is. However, there are specific specialties where there are shortages. That is what that document refers to; that is a very well-known and established position. In relation to the more general point that the Member raised about the relationship between mortality figures and staff shortages, one of the things that have emerged in the Betsi Cadwaladr analysis of its case note reviews is the need to ensure that nursing staff ratios on wards are consistent with the advice that the chief nursing officer has provided through her acuity tools; the £10 million provided by the Welsh Government earlier this year to increase nurse staffing levels will help materially there.

Dyna'r union sefyllfa yr wyf wedi ei hailadrodd sawl gwaith yn y Siambr hon, ac eisoes wedi'i hailadrodd unwaith y prynhawn yma: nid oes unrhyw argyfwng recriwtio cyffredinol yn y GIG. Nid yw'n helpu'r bobl sy'n gweithio ynddo i barhau i awgrymu bod argyfwng. Fodd bynnag, ceir prinder mewn rhai arbenigeddau. Dyna'r hyn y mae'r ddogfen honno yn cyfeirio ato; mae hynny'n safbwynt hysbys a sefydledig iawn. O ran y pwynt mwy cyffredinol a gododd yr Aelod am y gydberthynas rhwng ffigurau marwolaethau a phrinder staff, un o'r pethau sydd wedi dod i'r amlwg yn nadansoddiad Betsi Cadwaladr o'i adolygiadau o nodiadau achos yw'r angen i sicrhau bod cymarebau staff nyrsio ar wardiau yn gyson â'r cyngor y mae'r prif swyddog nyrsio wedi ei roi drwy ei chrafter; bydd y £10 miliwn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn gynharach eleni i gynyddu lefelau staffio nyrsys yn help mawr yn hyn o beth.

## Data Marwolaethau

14:04 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddata marwolaethau y byrddau iechyd? OAQ(4)0366(HSS)*

14:04 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I thank Darren Millar for that. Health boards continue to make mortality data publicly available. Work is under way to agree a suite of mortality indicators for the NHS in Wales and the mortality and transparency taskforce will provide further advice by the end of this month. That advice will be made publicly available.

14:04 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you for that response, Minister. Do you agree that there is no room for complacency over mortality data in Wales? It is a cause for concern that four of our health boards have higher mortality rates than average. What explanation can you provide to Assembly Members today for the fact that the recently risk-adjusted mortality data, which have been published by some health boards, have been using the 2012 comparison figures rather than the 2013 comparison figures? If 2013 comparison figures had been used, would the figures be worse or better than those that were published yesterday and in recent weeks?

14:05 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I thank the Member for that question. I completely agree with his first point. There is absolutely no room for complacency at all here. It is good news that mortality figures across Wales, ever since they have been published, have been stable or improving at local health board level, and that there have been some significant improvements at individual hospital level. However, there is more work to be done. That is why the taskforce has been working at the topic. Advice from the taskforce was that it would be unwise to move to the RAMI of 2013 just before its fresh advice is to be published. That means that, right across Wales—not just in one or two health boards, but at every health board—we continued to publish the information in December on the 2011 basis. My understanding is that, had we moved to the 2013 basis, some would have gone up, some would have gone down, and there would be no consistent pattern. However, by publishing the figures in the way that we have, we have an ability to compare the performance of the Welsh NHS over the period since March, in which these figures were first published. While there is absolutely no room for complacency, there are some important signs that things have stabilised or improved.

## Mortality Data

*7. Will the Minister make a statement on health board mortality data? OAQ(4)0366(HSS)*

Diolchaf i Darren Millar am hynny. Mae byrddau iechyd yn parhau i sicrhau bod data marwolaethau ar gael i'r cyhoedd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gytuno ar gyfres o ddangosyddion marwolaethau ar gyfer y GIG yng Nghymru a bydd y gweithlu marwolaethau a thryloywder yn rhoi cyngor pellach erbyn diwedd y mis hwn. Bydd y cyngor hwnnw ar gael i'r cyhoedd.

Diolch am yr ateb hwnnw, Weindog. A gytunwch nad oes lle i laesu dwylo ynghylch data marwolaethau yng Nghymru? Mae'n destun pryder bod gan bedwar o'n byrddau iechyd gyfraddau marwolaethau uwch na'r cyfartaledd. Pa esboniad y gallwch ei roi i Aelodau'r Cynulliad heddiw am y ffaith bod y data marwolaethau a addaswyd ar gyfer risg yn ddiweddar, a gyhoeddwyd gan rai byrddau iechyd, wedi bod yn defnyddio ffigurau cymharu 2012 yn hytrach na ffigurau cymharu 2013? Pe bai ffigurau cymharu 2013 wedi'u defnyddio, a fyddai'r ffigurau yn waeth neu'n well na'r rhai a gyhoeddwyd ddoe a thros yr wythnosau diwethaf?

Diolchaf i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Cytunaf yn llwyr â'i bwynt cyntaf. Nid oes lle o gwbl i laesu dwylo yma. Mae'n newyddion da bod y ffigurau marwolaethau ledled Cymru, byth ers iddynt gael eu cyhoeddi, wedi bod yn sefydlog neu'n gwella ar lefel bwrdd iechyd lleol, ac y bu rhai gwelliannau sylweddol ar lefel ysbysai unigol. Fodd bynnag, mae mwy o waith i'w wneud. Dyna pam y mae'r tasglu wedi bod yn gweithio ar y pwnc. Y cyngor a gafwyd gan y tasglu oedd y byddai'n annoeth symud i Fynegai Marwolaethau wedi'i Addasu yn ôl Risg 2013 ychydig cyn y caiff ei gyngor newydd ei gyhoeddi. Mae hynny'n golygu, ar hyd a lled Cymru—nid dim ond mewn un neu ddau o fyrddau iechyd, ond ym mhob bwrdd iechyd—ein bod wedi parhau i gyhoeddi'r wybodaeth ym mis Rhagfyr ar sail 2011. Fy nealltwriaeth i yw, pe baem wedi symud i sail 2013, y byddai rhai wedi codi, rhai wedi gostwng ac na fyddai unrhyw batrwm cyson. Fodd bynnag, drwy gyhoeddi'r ffigurau yn y ffordd a wnaethom, gallwn gymharu perfformiad GIG Cymru yn ystod y cyfnod ers mis Mawrth, pan gyhoeddwyd y ffigurau hyn gyntaf. Er nad oes lle i laesu dwylo, mae rhai arwyddion pwysig bod pethau wedi sefydlogi neu wella.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

**Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We know that mortality data on their own do not give an accurate indication of care quality, and they can vary according to factors such as the patient's age, the diagnosis and whether people have undergone high-risk surgery. However, I would be interested to know what evidence you are gathering from health boards across Wales in order to identify the reasons for relatively high mortality rates in certain hospitals. If you could publish more easily understandable data, they might give the general public, whom we all represent, more confidence.

Gwyddom nad yw data marwolaethau ar eu pen eu hunain yn rhoi arwydd cywir o ansawdd gofal, a gallant amrywio yn ôl ffactorau megis oedran y claf, y diagnosis ac a yw pobl wedi cael llawdriniaeth risg uchel. Fodd bynnag, byddai'n dda gennyf wybod pa dystiolaeth rydych yn ei chasglu gan fyrrddau iechyd ledled Cymru er mwyn nodi'r rhesymau dros gyfraddau marwolaethau cymharol uchel mewn rhai ysbytai. Pe gallech gyhoeddi data sy'n haws eu deall, efallai y gallent roi mwy o hyder i'r cyhoedd, yr ydym oll yn eu cynrychioli.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Lindsay Whittle for that. He himself pointed, in the preamble to his question, to some of the complexities that lie behind trying to understand these figures. All health boards in Wales, in December, published the latest quarter of data. I spent some time at the weekend reading through every one of them. The Betsi Cadwaladr publication is a good example of a health board trying to present data with explanation alongside information. There is more that needs to be done. Providing data is one thing, but providing data in a way that people can understand it properly is another. It is part of the work of the mortality taskforce to make sure that, when we move to a new suite of indicators, that we have that explanation that goes alongside it, so that people can understand the way in which these patterns are emerging.

Diolch i Lindsay Whittle am hynny. Cyfeiriodd ef ei hun, yn y rhagymadrodd i'w gwestiwn, at rai o'r cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth geisio deall y ffigurau hyn. Cyhoeddodd pob bwrdd iechyd yng Nghymru, ym mis Rhagfyr, ddata'r chwarter diweddaraf. Treuliais beth amser dros y penwythnos yn darllen drwy bob un ohonynt. Mae cyhoeddiad Betsi Cadwaladr yn enghraifft dda o fwrdd iechyd yn ceisio cyflwyno data gydag esboniad ochr yn ochr â gwybodaeth. Mae angen gwneud mwy. Mae darparu data yn un peth, ond mae darparu data mewn ffordd sy'n sicrhau y gall pobl eu deall yn gywir yn rhywbeth arall. Mae'n rhan o waith y tasglu marwolaethau i sicrhau, pan fyddwn yn symud i gyfres newydd o ddangosyddion, bod gennym yr esboniad hwnnw sy'n cydfynd â hynny, fel y gall pobl ddeall y ffordd y mae'r patrymau hyn yn dod i'r amlwg.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 14:08.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 14:08.*

14:08

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Last year, we had clinicians speaking out, particularly in the field of cardiac surgery, saying that patients were dying because of delays in access to treatment. I was recently contacted by constituents who are absolutely convinced that a delay in accessing treatment contributed to their relative's death. In your work to understand better the mortality data, what analysis has been carried out of the impact of long waits for treatment and diagnostics on patients losing their lives?

Y llynedd, cododd clinigwyr eu llais, yn enwedig ym maes llawdriniaeth y galon, gan ddweud bod cleifion yn marw oherwydd oedi wrth geisio cael triniaeth. Cysylltwyd â mi yn ddiweddar gan etholwyr sydd yn gwbl argyhoeddedig bod oedi wrth geisio cael triniaeth wedi cyfrannu at farwolaeth eu perthynas. Yn eich gwaith i ddeall yn well y data marwolaethau, pa ddadansoddiad a wnaed o effaith amseroedd aros hir am driniaeth a diagnosteg ar gleifion a golodd eu bywydau?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

All health boards carry out an analysis of their figures, using the individual case record review. The contributory factors that lie behind deaths in hospital are analysed in each case. I do not think that it is possible to provide the Member here and now with a general set of conclusions right across Wales, because they vary so much from place to place. The BCULHB report, to which I referred in my answer to Lindsay Whittle, is a very good example of a report that looks at various factors, discounts some of them because the evidence says that that particular factor did not contribute to the figure, and then identifies those things that it believes can help to explain some of the figures that are there in that board. I will ask the mortality taskforce whether there is work that it might do in looking across Wales to see whether there are any common themes in those explanations. I will be very happy to report on those if there are.

Mae pob bwrdd iechyd yn cynnal dadansoddiad o'u ffigurau, gan ddefnyddio'r adolygiad o gofnod achosion unigol. Caiff y ffactorau cyfrannol sy'n sail i farwolaethau yn yr ysbyty eu dadansoddi ym mhob achos. Ni chredaf ei bod yn bosibl rhoi cyfres o gasgliadau cyffredinol i'r Aelod yn y fan a'r lle ar gyfer pob rhan o Gymru, gan eu bod yn amrywio cymaint o le i le. Mae adroddiad BILIPBC, y cyfeiriais ato yn fy ateb i Lindsay Whittle, yn enghraifft dda iawn o adroddiad sy'n edrych ar ffactorau amrywiol, yn diystyru rhai ohonynt gan fod y dystiolaeth yn dweud na chyfrannodd y ffactor penodol hwnnw at y ffigur, ac yna'n nodi'r pethau hynny a all helpu, yn ei farn ef, i esbonio rhai o'r ffigurau sydd yno yn y bwrdd hwnnw. Gofynnaf i'r tasglu marwolaethau a oes gwaith y gallai ei wneud i edrych ar bob rhan o Gymru i weld a oes unrhyw themâu cyffredin yn yr esboniadau hynny. Byddaf yn falch o gyflwyno adroddiad arnynt os oes rhai.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:10 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I am grateful to the Minister for giving that undertaking. Of course, long waits for diagnostics and treatment featured very heavily at the end of last year. That is the cause of a great deal of concern. If it is not possible to provide those data on an all-Wales level at present, are you not concerned that individual health boards are not able to plan activity and investment levels if they do not know, or if they are unaware, that particular areas or services with long waits could be contributing to higher mortality data than any of us would like to see in individual hospitals?

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am roi'r ymrwymiad hwnnw. Wrth gwrs, rhoddwyd cryn sylw i amseroedd aros hir ar gyfer diagnosteg a thriniaeth ddiwedd y llynedd. Mae hynny'n achos llawer iawn o bryder. Os nad yw'n bosibl darparu'r data hynny ar lefel Cymru gyfan ar hyn o bryd, onid ydych yn poeni nad yw byrddau iechyd unigol yn gallu cynllunio lefelau gweithgarwch a buddsoddiad os nad ydynt yn gwybod, neu os nad ydynt yn ymwybodol, y gallai meysydd neu wasanaethau penodol ag amseroedd aros hir fod yn cyfrannu at ddata marwolaethau uwch nag yr hoffai unrhyw un ohonom eu gweld mewn ysbytai unigol?

14:11 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I agree with the general point that the Member makes, namely that clinical prioritisation should be the way that access to treatment is governed by LHBs. An understanding of mortality figures and what lies behind them should certainly be making a contribution to the clinical decisions that lead to people being prioritised for treatment.

Cytunaf â'r pwynt cyffredinol a wna'r Aelod, sef y dylai BILLau reoli mynediad at driniaeth drwy flaenoriaethu clinigol. Dylai dealltwriaeth o ffigurau marwolaethau a'r hyn sy'n sail iddynt yn sicr fod yn gwneud cyfraniad at y penderfyniadau clinigol sy'n arwain at flaenoriaethu pobl ar gyfer triniaeth.

## Seicolegwyr

14:11 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu hyfforddiant i seicolegwyr? OAQ(4)0367(HSS)*

*8. Will the Minister make a statement on the provision of training for psychologists? OAQ(4)0367(HSS)*

14:11 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Cytunir yn flynyddol ar nifer y lleoedd hyfforddi ar gyfer seicolegwyr clinigol yng Nghymru, ar sail y cynlluniau gweithlu gan fyrddau iechyd a'u partneriaid. Gall y niferoedd amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ond mae nifer y seicolegwyr clinigol sy'n hyfforddi yng Nghymru wedi codi yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

The number of training places for clinical psychologists in Wales is agreed annually, based upon the workforce plans from health boards and their partners. Numbers can vary year on year, but the numbers of clinical psychologists in training in Wales has risen during the period of this Assembly term.

14:11 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch am yr ateb hwnnw. Rwyf ar ddeall bod seicolegwyr addysgiadol yn dod o dan gylch gwaith y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Yr hyn sydd yn gonsŷrn i mi yw amodau gwaith a chyflogau. Sut yr ydych yn dod i benderfyniad rhyngoch, fel Gweinidogion, ar y safonau hynny sydd ynghlwm â'r rôl benodol honno? A allwch roi esboniad inni o sut yr ydych yn cydweithio fel Gweinidogion yn hynny o beth?

Thank you for that reply. I understand that educational psychologists come under the remit of the Minister for Education and Skills. What concerns me is working conditions and salaries. How do you, as Ministers, decide between you on the standards attached to that specific role? Can you explain to us how you as Minister work together on that?

14:12	<b>Mark Drakeford</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Well, of course the future training of educational psychologists is a matter for the Minister for Education and Skills, and I know that he is very well aware of, and actively involved in, resolving some of the issues that have currently arisen in that field. In clinical psychology, we have a process in Wales of workforce planning, which begins with local health boards but involves the partnership forum that we have in Wales and leads to an annual decision on the number of posts that there are in training. In Wales, that has risen from 16 in 2011 to 25 in 2013, and there are 62 students, at present, in training over the three-year programme that people go through to become clinical psychologists.</p>	<p>Wel, wrth gwrs, mater i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yw hyfforddiant seicolegwyr addysgol yn y dyfodol, a gwn ei fod yn ymwybodol iawn o'r gwaith i ddatrys rhai o'r materion sydd wedi codi ar hyn o bryd yn y maes hwnnw, ac yn ymwneud ag ef mewn ffordd weithredol. Ym maes seicoleg glinigol, mae gennym broses yng Nghymru o gynllunio'r gweithlu, sy'n dechrau gyda byrddau iechyd lleol, ond sy'n cynnwys y fforwm partneriaeth sydd gennym yng Nghymru ac sy'n arwain at benderfyniad blynyddol ar nifer y swyddi lle ceir hyfforddiant. Yng Nghymru, mae'r ffigur wedi codi o 16 yn 2011 i 25 yn 2013, ac mae 62 o fyfyrwyr, ar hyn o bryd, yn cael hyfforddiant mewn rhaglen sy'n para tair blynedd y mae pobl yn ei dilyn er mwyn dod yn seicolegwyr clinigol.</p>
	<b>Betsi Cadwaladr</b>	<b>Betsi Cadwaladr</b>
14:13	<b>Alun Ffred Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>9. <i>A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth ddwyieithog gan feddygon teulu yn ardal Betsi Cadwaladr?</i> OAQ(4)0380(HSS)</p>	<p>9. <i>Will the Minister make a statement on bilingual provision by GPs in the Betsi Cadwaladr area?</i> OAQ(4)0380(HSS)</p>
14:13	<b>Gwenda Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p><i>Y Ddirwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services</i></p> <p>Yn 2012, roedd 6.6 o feddygon teulu yn ardal Betsi Cadwaladr yn gallu siarad Cymraeg fesul 10,000 o bobl Cymraeg eu hiaith, o'i gymharu â 5.8 yn 2011.</p>	<p>In 2012 in the Betsi Cadwaladr area, there were 6.6 GPs able to speak Welsh per 10,000 of the Welsh-speaking population, compared with 5.8 in 2011.</p>
14:13	<b>Alun Ffred Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Mae'n ddrwg gen i, ond nid oedd y ffigurau hynny'n gwneud llawer o synnwyr imi; fy mai i yw hynny. Mae trin cleifion yn sgil y mae cyfathrebu yn ganolog iddo, i feddygon teulu fel eraill. Mae prinder mawr o ran recriwtio meddygon teulu dwyieithog lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol, ac mae hynny wedi ei brofi yn y blynyddoedd diwethaf. Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i wella'r sefyllfa anfodddhaol hon, gan gofio sylwadau'r Gweinidog iechyd ynglŷn â'r angen i gynllunio a pharatoi?</p>	<p>I am sorry, but those figures did not make much sense to me; that is my fault. Treating patients is a skill to which communication is a central element, for GPs like others. There is a huge shortage in the recruitment of bilingual GPs in areas where Welsh is a community language, as has been proven in recent years. What steps is the Government taking to improve this unsatisfactory situation, bearing in mind the comments made by the Minister for health with regard to the need for forward planning?</p>
14:14	<b>Gwenda Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Wel, mae'r fframwaith strategol ar gyfer yr iaith Gymraeg yn rhoi'r cyfrifoldeb dros ddarparu gofal dwyieithog i'r darparwr ac nid i'r defnyddiwr. Mae'r cam hwn yn anelu at wella ansawdd gofal a chynnal safonau proffesiynol, ac at gyflawni anghenion ieithyddol defnyddwyr a chydymffurfio ag anghenion cyfreithlon.</p>	<p>Well, the Welsh-language strategic framework places the responsibility for providing bilingual care on the provider rather than the user. The aim in this respect is to improve the standard of care and maintain professional standards, and to fulfil the linguistic requirements of users and to comply with legal requirements.</p>
	<b>Polisi Presgripsiynau am Ddim</b>	<b>Free Prescriptions Policy</b>
14:15	<b>Ann Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>10. <i>Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith y polisi presgripsiynau am ddim ar ganlyniadau iechyd meddwl cleifion yng Nghymru?</i> OAQ(4)0365(HSS)</p>	<p>10. <i>What assessment has the Welsh Government made of the free prescriptions policy's impact on mental health outcomes for Welsh patients?</i> OAQ(4)0365(HSS)</p>

- 14:15 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Free prescriptions allow individuals with mental health problems, as with all other health conditions, to access the medicines they require to keep them in good health and in work. These positive benefits were inherent in the advice that formed the policy when it was first introduced.
- Mae presgripsiynau am ddim yn galluogi unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl, fel gyda phob cyflwr iechyd arall, i gael gafael ar y meddyginiaethau sydd eu hangen arnynt i'w cadw'n iach ac mewn gwaith. Roedd y manteision cadarnhaol hyn yn rhan annatod o'r cyngor a ffurfiodd y polisi pan gafodd ei gyflwyno gyntaf.
- 14:15 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank you for that answer, Minister. Like you, I believe that free prescriptions are a vital part of helping people in terms of wellbeing, particularly those people who suffer from mental health issues. Often, there is a repeat prescription needed, and if that was not free, people would then not think about having the second or third course of treatment. Do you therefore share my disappointment that Clive Wolfendale of CAIS in north Wales can say that the Government should not be having a free prescription policy because it is making people become dependent on prescribed drugs? Do you think, like me, that that is a slur on the people who need prescription drugs, but also on the GPs and those professionals who are administering prescriptions properly and correctly?
- Diolchaf ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fel chi, credaf fod presgripsiynau am ddim yn rhan hollbwysig o'r gwaith o helpu pobl o ran lles, yn enwedig y bobl hynny sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl. Yn aml, mae angen presgripsiwn amlroddadwy, a phe na bai hwnnw ar gael am ddim, ni fyddai pobl wedyn yn ystyried cael yr ail neu'r trydydd cwrs o driniaeth. A rannwch felly fy siomedigaeth y gall Clive Wolfendale o CAIS yn y gogledd ddweud na ddylai'r Llywodraeth gael polisi presgripsiynau am ddim gan ei fod yn gwneud pobl yn ddibynnol ar gyffuriau rhagnodedig? A gredwch, fel fi, fod hyn yn sarhad ar y bobl y mae angen cyffuriau ar bresgripsiwn arnynt, a hefyd ar y meddygon teulu a'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n rhoi presgripsiynau yn briodol ac yn gywir?
- Daeth y Llywydd i'r Gadair am 14:15.*
- The Presiding Officer took the Chair at 14:15.*
- 14:16 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I entirely disagreed with the view expressed by the person to whom you refer. It was both factually ill-informed and analytically flawed. Eighty-eight per cent of prescriptions were free in Wales before the policy was introduced. There is no evidence at all of a rise in prescriptions being associated with free prescriptions. In fact, the rise in prescribing in Wales post prescriptions being made free is lower than it was in the years prior to free prescriptions being introduced. The points were badly made and misunderstood the position. The important point that was being discussed on that day was the deaths of people from prescribed drugs. That is an important issue. I have asked the advisory panel on substance misuse that we have here in Wales, chaired by judge Kyrie James, to look at that issue, and it will provide advice to me as part of its work programme during this year.
- Anghytunaf yn llwyr â'r farn a fynegwyd gan y person yr ydych yn cyfeirio ato. Roedd yn ffeithiol anghywir ac yn ddadansoddiadol ddiffygiol. Roedd 88 y cant o bresgripsiynau am ddim yng Nghymru cyn i'r polisi gael ei gyflwyno. Nid oes unrhyw dystiolaeth o gwbl bod cynnydd mewn presgripsiynau yn gysylltiedig â phresgripsiynau am ddim. Yn wir, mae'r cynnydd mewn rhoi presgripsiynau yng Nghymru ar ôl cyflwyno presgripsiynau am ddim yn is nag yr oedd yn y blynyddoedd cyn i bresgripsiynau am ddim gael eu cyflwyno. Gwnaed y pwyntiau'n wael a chamddeallwyd y sefyllfa. Y pwynt pwysig a oedd yn cael ei drafod ar y diwrnod hwnnw oedd marwolaethau pobl o ganlyniad i gyffuriau rhagnodedig. Mae hynny'n fater pwysig. Rwyf wedi gofyn i'r panel cyngori ar gamddefnyddio sylweddau sydd gennym yma yng Nghymru, a gadeirir gan y beirniad Kyrie James, edrych ar y mater hwnnw, a bydd yn rhoi cyngor i mi fel rhan o'i raglen waith eleni.
- 14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the opposition spokesperson, Darren Millar.
- Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Darren Millar.
- 14:17 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, every policy comes with a price attached to it. Can you tell us what the cost of your free prescriptions policy is in the current financial year?
- Weinidog, mae pris ynghlwm wrth bob polisi. A allwch ddweud wrthym beth yw cost eich polisi presgripsiynau am ddim yn y flwyddyn ariannol gyfredol?

14:17 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The direct cost of free prescriptions is some £30 million. That does not include any of the offsetting benefits that come from that policy in the avoidance of treatment—expensive treatment—that would be needed for people who would be unable to afford the care they need if prescriptions were not free. I have a letter on my desk this week, a very angry letter, from a Welsh patient who has arrived home to find himself pursued by a bill from an English NHS trust in relation to drugs prescribed for him when he was taken ill there. I think that it vividly illustrates the advantages of the policy that we have pursued in Wales.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Cost uniongyrchol presgripsiynau am ddim yw tua £30 miliwn. Nid yw hynny'n cynnwys unrhyw un o'r buddiannau gwrthbwyso a ddaw yn sgil y polisi hwnnw o ran osgoi triniaeth—triniaeth ddrud—y byddai ei hangen ar gyfer pobl na fyddent yn gallu fforddio'r gofal sydd ei angen arnynt pe na bai presgripsiynau am ddim. Mae gennyf lythyr ar fy nesg yr wythnos hon, llythyr gan glaf o Gymru sy'n ddig iawn am ei fod wedi cyrraedd adref a gweld bod yn rhaid iddo dalu bil oddi wrth ymddiriedolaeth y GIG yn Lloegr mewn perthynas â chyffuriau a ragnodwyd iddo pan aeth yn sâl yno. Credaf fod hynny'n dangos yn glir fanteision y polisi sydd gennym yng Nghymru.

14:18 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I have received many letters from Welsh cancer patients who are unable to access the cancer drugs that they need as a result of the lack of investment by your Government into a cancer treatments fund here in Wales, which the Rarer Cancers Foundation has indicated would cost as little as £5 million. In fact, it has also said that you are four times less likely to receive the cancer drugs that you need in Wales than in England. Indeed, Professor Philip Routledge, who of course chairs the all-Wales medicines strategy group, has reiterated the urgency in a recent meeting to immediately address equity issues, specifically relating to medicines and the English cancer drugs fund. Can you accept, Minister, that if your own experts in this area are accepting that there is not a level playing field in terms of access between England and Wales, that it is about time that you pulled your finger out to support Welsh cancer patients and to make available these drugs that are not available in our country?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, rwyf wedi cael llawer o lythyrau gan gleifion cancer yng Nghymru na allant gael gafael ar y cyffuriau cancer sydd eu hangen arnynt o ganlyniad i'r diffyg buddsoddiad gan eich Llywodraeth mewn cronfa triniaethau cancer yma yng Nghymru, y mae'r Sefydliad Canserau Prin wedi nodi y byddai'n costio cyn lleied â £5 miliwn. Mewn gwirionedd, mae hefyd wedi dweud eich bod bedair gwaith yn fwy tebygol o gael y cyffuriau cancer sydd eu hangen arnoch yng Nghymru nag yn Lloegr. Yn wir, mae'r Athro Philip Routledge, sydd, wrth gwrs, yn cadeirio grŵp strategaeth meddyginiaethau Cymru gyfan, wedi ategu mewn cyfarfod diweddar fod angen dybryd i fynd i'r afael ar unwaith â materion cydraddoldeb, sy'n benodol yn ymwneud â meddyginiaethau a chronfa cyffuriau cancer Lloegr. A allwch dderbyn, Weinidog, os yw eich arbenigwyr eich hun yn y maes hwn yn derbyn nad oes yr un tegwch i bawb o ran mynediad rhwng Cymru a Lloegr, ei bod yn bryd ichi fynd ati i gefnogi cleifion cancer yng Nghymru a sicrhau bod y cyffuriau hyn nad dynt ar gael yn ein gwlad ni ar gael?

14:19 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Setting one group of patients against another and pretending that people who get free prescriptions are somehow denying other patients cancer treatment is one of the most unattractive features of the policy pursued by the Welsh Conservatives. The issue of a Welsh cancer fund was rehearsed in detail recently by the group set up to look at the future of orphan and ultra-orphan drugs in Wales; it utterly rejected the policy that he continues so mistakenly to pursue.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Mae gosod un grŵp o gleifion yn erbyn un arall ac esgus bod pobl sy'n cael presgripsiynau am ddim yn amddifadu triniaeth cancer i gleifion eraill mewn rhyw ffordd yn un o nodweddion mwyaf anneniadol y polisi y mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn ei ddilyn. Ystyriwyd yn fanwl y mater o gronfa cancer i Gymru yn ddiweddar gan y grŵp a sefydlwyd i edrych ar ddyfodol cyffuriau amddifad a thra amddifad yng Nghymru; gwrthododd yn llwyr y polisi y mae ef yn parhau i'w ddilyn ar gam.

14:20 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rwy'n derbyn y ddadl rydych wedi'i chyflwyno bod cael presgripsiwn am ddim ar gyfer meddyginiaethau pan fyddwch wedi cael eich asesu gydag afiechyd meddwl yn rhywbeth sy'n fuddiol iawn, ond y broblem sylfaenol sydd gennym yw bod cynifer o bobl yn methu cael yr asesiad hwnnw yn y lle cyntaf. Bu Bethan Jenkins yn son am y diffyg seicolegwyr addysgiadol i asesu plant ysgol sydd ag ystod o afiechyd meddwl. Mae'r un peth yn wir am bobl ifanc ac oedolion yn ein hetholaethau. Beth fyddwch yn gwneud, gan gydweithio hwyrach â'r Gweinidog addysg, i sicrhau bod yr asesiadau hyn ar gael mor gynnar â phosibl i sicrhau nad yw effeithiau'r afiechyd hyn yn datblygu gyda'n plant a'n pobl ifanc?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I accept the argument that you have presented that having free prescriptions for medicines when you have been assessed with a mental illness is something that is very beneficial, but the fundamental problem that we have is that very few people can have that assessment in the first place. Bethan Jenkins talked about a lack of educational psychologists to assess schoolchildren who have a range of mental illnesses. The same is true for young people and adults in our constituencies. What are you going to do, in collaboration with the Minister for education perhaps, to ensure that these assessments are available as early as possible to ensure that the effects of these illnesses do not develop with our children and young people?

14:20

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I understand the general point that the Member makes; it is very much part of our approach to these matters here in Wales to try to get an early identification and assessment of needs when they occur in that way. It has been one of the huge successes of the Mental Health (Wales) Measure 2010, passed on such a cross-party basis here, that our new primary care mental health services have already seen 31,000 people who otherwise would not have had a service, because of the way in which the training of GPs is leading to the earlier identification of people's mental health needs. We need to do more in other areas, but the general point the Member makes is an important one.

Deallaf y pwynt cyffredinol a wna'r Aelod; mae'n rhan fawr iawn o'n dull o ymdrin â'r materion hyn yma yng Nghymru er mwyn ceisio nodi ac asesu anghenion yn gynnar pan fyddant yn digwydd yn y ffordd honno. Un o lwyddiannau mawr Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a basiwyd ar y fath sail drawsbleidiol yma, yw'r ffaith bod ein gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol newydd eisoes wedi gweld 31,000 o bobl na fyddent fel arall wedi cael gwasanaeth, oherwydd y ffordd y mae hyfforddiant meddygon teulu yn arwain at nodi anghenion iechyd meddwl pobl yn gynt. Mae angen inni wneud mwy mewn meysydd eraill, ond mae'r pwynt cyffredinol a wna'r Aelod yn un pwysig.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:21

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch ichi, Weinidog.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

### Swyddogion y Gyfraith

## Questions to the Counsel General

### Law Officers

14:21

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*1. Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi eu cael â Swyddogion y Gyfraith ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefyddau Asbestos (Cymru) yn ystod y mis diwethaf? OAQ(4)054(CG)*

*1. What discussions has the Counsel General had with Law Officers regarding the legislative competence of the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill over the past month? OAQ(4)054(CG)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

**Theodore Huckle**

*Y Cwnsler Cyffredinol / The Counsel General*

Good afternoon, everyone. I feel a bit like a No. 9 bus. As I have mentioned previously, it is not my intention to make statements about discussions that I have had with UK law officers or to disclose the content of any such discussions. This is an established convention designed to preserve the integrity of those discussions and the relationship between law officers.

Prynhawn da, bawb. Rwy'n teimlo ychydig fel bws Rhif 9. Fel y crybwyllais o'r blaen, nid fy mwriad yw gwneud datganiadau am drafodaethau a gefais gyda swyddogion cyfraith y DU na datgelu cynnwys unrhyw drafodaethau o'r fath. Mae hwn yn gonfensiwn sefydledig a luniwyd i sicrhau cywirdeb y trafodaethau hynny a'r gydberthynas rhwng swyddogion y gyfraith.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am yr ateb, sydd hefyd yn swnio fel y 'No. 9 bus', achos mae hwnnw'n dod rownd yn aml iawn hefyd. Ddoe, cawsom glywed, ac yr ydym wedi gweld, bod y Twrnai Cyffredinol wedi dweud mewn llythyr atoch eich bod wedi bod yn trafod y Bil hwn. A fedrwcwch esbonio i ni felly a ddaethoch chi a'r Twrnai Cyffredinol i gytundeb taw chi fyddai'n cyfeirio'r Bil hwn i'r Goruchel Lys?

Thank you for that response, which also sounded like the No. 9 bus, because that comes around very often too. Yesterday, we heard, and we have seen, that the Attorney-General has said in correspondence to you that you had been discussing this Bill. Can you explain to us therefore whether you and the Attorney-General came to an agreement that you would refer this Bill to the Supreme Court?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

**Theodore Huckle**

I am afraid that one of the things that occurred to me overnight was that I really should have had that letter from the Attorney-General in front of me before I commented on it at all, because I cannot now remember the exact timing of it. Whatever the Attorney-General may himself have put in the letter, making tangential reference to discussions between us, I do not propose now to breach the convention.

Ofnaf mai un o'r pethau a'm trawodd dros nos oedd y dylwn fod wedi sicrhau, mewn gwirionedd, bod y llythyr hwnnw gan y Twrnai Cyffredinol o'm blaen cyn imi wneud sylwadau arno, oherwydd ni allaf gofio ei union amseriad yn awr. Beth bynnag a roddodd y Twrnai Cyffredinol ei hun yn y llythyr, gan wneud cyfeiriad amherthnasol at drafodaethau rhyngom, ni fwriadaf dorri'r confensiwn yn awr.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

## Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill

14:23

### Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad ynglyn â chyfeirio'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) i'r Goruchaf Lys? OAQ(4)055(CG)

2. Will the Counsel General make a statement on the referral of the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill to the Supreme Court? OAQ(4)055(CG)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

### Theodore Huckle

There is a one-word answer, but I will give the full answer: I made an oral statement to the Assembly on this matter yesterday.

Mae ateb un gair, ond rhoddaf yr ateb llawn: gwneuthum ddatganiad llafar i'r Cynulliad ar y mater hwn ddoe.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:23

### Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am hynny ac wrth gwrs roedd pawb yn bresennol ar gyfer y datganiad hwnnw, ond, pan osodais y cwestiwn nid oedd yn rhan o raglen y Llywodraeth. Yn sgîl y datganiad hwnnw—fe gyfeirioch at gost yr achos hwn—dywedais ddoe fy mod o'r farn bod y cwmmiau yswiriant yn arbed costau drwy'r ffaith mai chi sydd wedi cyfeirio hwn at lys yn hytrach na nhw. Yn y cyd-destun hwnnw, a wnewch gadarnhau taw'r Llywodraeth fydd yn talu'r holl gostau—nid costau'r achosion eraill, wrth gwrs, ond eich costau chi—ac na fydd costau ar y Cynulliad Cenedlaethol er taw Bil o'r meinciau cefn yw hwn?

Thank you for that and of course everyone was in attendance for that statement, but, when I tabled the question, it was not part of the Government's work programme. In light of that statement—you referred to the cost of this case—I stated yesterday that I was of the opinion that the insurance companies would save costs through the fact that you referred this to the court rather than allowing them to do so. In that context, will you confirm that the Government will pay all the costs—not the costs of the other cases, but your own costs—and that there will be no cost for the National Assembly although this is a backbench Bill?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:24

### Theodore Huckle

My understanding is—and I could be corrected on this and if I am, I will write to you in due course—as I said yesterday, that your question is quite correct and that it will fall to Government to deal with the costs on our side and only our side of this reference. So that there is no misunderstanding, had this matter arisen in whatever they call 'ordinary proceedings', such as in the AXA case in Scotland, the normal course of events would be that the matter would proceed through the normal courts with two parties involved and at some point we would have probably felt the need to intervene and I would have intervened and made a reference on the basis of a Schedule 9 devolution issue. However, by that mechanism, it would be far more likely that an ordinary costs order would ultimately be made, so that the winner would get the costs from the loser. Under this procedure, it is a generally accepted point that there will not ordinarily be inter partes cost orders, so you are quite right that we will bear our costs of this reference, but we will not be at risk of any costs of the other side. Similarly, if we had gone through the ordinary procedures and we had won, then we would expect to recover our costs from the other side. That potential benefit is removed, but we do not take the risk of the adverse finding in cost terms.

Fy nealltwriaeth i yw—a gellid fy nghywiro ar hyn ac os caf, byddaf yn ysgrifennu atoch maes o law—fel y dywedais ddoe, bod eich cwestiwn yn hollol gywir ac mai cyfrifoldeb y Llywodraeth fydd delio â'r costau ar ein hochr ni a dim ond ar ein hochr ni o'r cyfeiriad hwn. Fel nad oes unrhyw gamddealltwriaeth, pe bai'r mater hwn wedi codi mewn 'achos cyffredin' neu beth bynnag y'i gelwir, fel yn achos AXA yn yr Alban, y drefn arferol fyddai i'r mater fynd drwy'r llysoedd arferol gyda dau barti yn gysylltiedig ag ef ac ar ryw adeg byddem, mae'n debyg, wedi teimlo'r angen i ymyrryd a byddwn wedi ymyrryd ac wedi cyfeirio'r achos ar sail mater datganoli Atodlen 9. Fodd bynnag, drwy'r system honno, byddai wedi bod yn fwy tebygol o lawer y byddai gorchymyn costau cyffredin wedi cael ei wneud yn y pen draw, fel bo'r enillydd yn cael y costau oddi wrth yr un a gollodd. O dan y weithdrefn hon, derbynnir yn gyffredinol na fydd gorchymynion costau inter partes fel arfer, felly rydych yn hollol iawn i ddweud y byddwn yn talu costau'r cyfeiriad hwn, ond ni fyddwn mewn perygl o orfod talu costau'r ochr arall o gwbl. Yn yr un modd, pe baem wedi mynd drwy'r gweithdrefnau cyffredin ac wedi ennill, yna byddem wedi disgwyl adennill ein costau oddi wrth yr ochr arall. Caiff y budd posibl hwnnw ei ddileu, ond nid ydym yn cymryd y risg o ganfyddiad anffafriol o ran cost.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:25

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Counsel General.

Diolch ichi, Gwnsler Cyffredinol.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

# Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Rygbi Cymru

Cynnig NDM5397 William Graham

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi llwyddiannau rygbi rhyngwladol Cymru yn ddiweddar a phwysigrwydd rygbi i ddiwylliant ac i economi Cymru.

2. Yn nodi'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd rhwng Undeb Rygbi Cymru a Rygbi Rhanbarthol Cymru ynghylch dyfodol rygbi Cymru ac yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a chynnal strwythur cryf ar lawr gwlad ac yn rhanbarthol er mwyn i'r gamp allu datblygu a ffynnu ledled Cymru.

3. Yn credu er mwyn cael llwyfan cryf ar gyfer rygbi Cymru ei bod yn rhaid i gyrff a chlybiau cenedlaethol a rhanbarthol gydweithio'n adeiladol er mwyn creu sylfaen ariannol gref er lles y gamp yn y dyfodol ac yn gobeithio y bydd y trafodaethau cyfredol yn arwain at benderfyniad yn gyflym.

# Welsh Conservatives Debate: Welsh Rugby

Motion NDM5397 William Graham

To propose that the National Assembly for Wales

1. Notes recent Welsh international rugby successes and the importance of rugby to the culture and economy of Wales.

2. Notes the current discussions between the WRU and Regional Rugby Wales regarding the future of Welsh rugby and recognises the importance of developing and maintaining a strong grassroots and regional structure to enable the sport to develop and thrive throughout Wales.

3. Believes that a strong platform for Welsh rugby requires national and regional bodies and clubs to work together constructively to create a strong financial footing for the future well-being of the sport and hopes for a timely resolution to current negotiations.

15:11

## Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

Rugby union enjoys a unique place in the culture and the economy of Wales. As the chief executive of the Welsh Rugby Union, Roger Lewis, said in his annual report:

'rugby defines us as a nation, unites us as a nation, and as a union of clubs we will continue to stand together, united around the overarching goal of placing Wales at the forefront of world rugby with passion, pride and with dignity.'

For some people in Wales, rugby is not a matter of life and death; it is much more important. In recent years, Welsh rugby has enjoyed considerable successes in the country and around the world. Wales is currently ranked sixth in the International Rugby Board world rankings, having won the last two RBS 6 Nations championships. Wales won grand slams in 2005, 2008 and 2012, and no fewer than 15 Welsh players joined the British and Irish Lions squad that toured Australia last year.

With its huge popularity, rugby makes an important contribution to the Welsh economy. A report carried out by Econactive found that the Millennium Stadium alone was worth £130 million annually to the economy of Cardiff and Wales. Similarly, research commissioned by Carmarthenshire County Council found that rugby and non-rugby events at Parc y Scarlets played a pivotal role in the economy of the region. This economic impact is currently £16 million and is projected to double by 2016.

Cynigiau y cynnig.

Mae i rygbi'r undeb le unigryw yn niwylliant ac economi Cymru. Fel y dywedodd prif weithredwr Undeb Rygbi Cymru, Roger Lewis, yn ei adroddiad blynyddol:

mae rygbi yn ein diffinio fel cenedl, yn ein huno fel cenedl, ac fel undeb o glybiau byddwn yn parhau i sefyll gyda'n gilydd, yn unedig er mwyn cyflawni'r nod cyffredinol o roi Cymru ar y blaen ym myd rygbi gydag angerdd, balchder a chydag urddas.

I rai pobl yng Nghymru, nid mater o fywyd a marwolaeth yw rygbi; mae'n bwysicach na hynny. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae rygbi Cymru wedi cael cryn lwyddiant yn y wlad a ledled y byd. Ar hyn o bryd mae Cymru yn chweched yn safleoedd byd y Bwrdd Rygbi Rhyngwladol, a hithau wedi ennill pencampwriaeth RSB y Chwe Gwlad am ddwy flynedd yn olynol. Enillodd Cymru y gamp lawn yn 2005, 2008 a 2012, a bu dim llai na 15 o chwaraewyr o Gymru yn rhan o garfan Llewod Prydain ac Iwerddon ar y daith i Awstralia y llynedd.

Gyda'i boblogrwydd enfawr, mae rygbi yn gwneud cyfraniad pwysig i economi Cymru. Canfu adroddiad a baratowyd gan Econactive fod Stadiwm y Mileniwm ar ei ben ei hun yn werth £130 miliwn bob blwyddyn i economi Caerdydd a Chymru. Yn yr un modd, canfu ymchwil a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin fod digwyddiadau rygbi a digwyddiadau eraill ym Mharc y Scarlets yn chwarae rhan allweddol yn economi'r rhanbarth. Mae'r effaith economaidd hon yn werth £16 miliwn ar hyn o bryd a rhagwelir y bydd yn dyblu erbyn 2016.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Given the importance of rugby to Wales's economy and culture, the current dispute between the Welsh Rugby Union and Regional Rugby Wales is a matter of great concern. Regional Rugby Wales is the body that represents the four professional regional rugby teams in Wales: the Ospreys, Scarlets, Newport Gwent Dragons and Cardiff Blues. The four regions have a collective turnover approaching £30 million, with a direct economic contribution to Wales in excess of £50 million per year. At the centre of the current dispute is the signing of a participation agreement. This agreement covers the competitions that regions are obliged to play in, the payment that each region will receive for international player release to the national senior squad, the under 20s, the sevens team overseas players quotas, and the fourth autumn test match. Regional Rugby Wales claims that it is concerned about the state of the game below international level and genuinely fears that, unless immediate action is taken, irreparable long-term damage will be caused, with a real risk that top-level professional regional rugby in Wales will disappear. It points to an independent report by PricewaterhouseCoopers, one of the biggest financial consulting firms in the world, which confirmed that there was a funding shortfall in the regional game in Wales. The report said:

'The logical solution appears to be a closer and more collaborative approach between the regions and the WRU to address the funding gap'.

A way needs to be found to address this funding gap and to address the player drain, which has seen a growing number of Welsh players leaving to play in England and France, where they can earn much larger salaries. I believe that both the WRU and RRW recognise the importance of developing and maintaining a strong grass-roots and regional structure to enable rugby to grow and thrive in Wales. This is a very passionate game for the Welsh public. This dispute demonstrates the wider difficulties associated with the way that Welsh rugby is run. It is time that the National Assembly has an independent inquiry into the future of Welsh regional rugby governance and financing. We could act as an independent and impartial third-party broker to achieve a long-term solution to this problem and settle it once and for all. In the meantime, I urge the WRU and RRW to continue discussions to end this dispute, which is damaging the credibility of Welsh rugby, as soon as possible for the sake of sport in this part of the world. Then, we can ensure that Welsh rugby has a vibrant future leading to ever-greater success around the world.

O ystyried pwysigrwydd rygbi i economi a diwylliant Cymru, mae'r anghydfod presennol rhwng Undeb Rygbi Cymru a Rygbi Rhanbarthol Cymru yn achos pryder mawr. Rygbi Rhanbarthol Cymru yw'r corff sy'n cynrychioli'r pedwar tîm rygbi rhanbarthol proffesiynol yng Nghymru: y Gweilch, y Scarlets, Dreigiau Casnewydd Gwent a Gleision Caerdydd. Gyda'i gilydd mae gan y pedwar rhanbarth drosiant o tua £30 miliwn, ac maent yn gwneud cyfraniad economaidd uniongyrchol i Gymru o fwy na £50 miliwn y flwyddyn. Wrth wraidd yr anghydfod presennol mae llofnodi cytundeb cyfranogi. Mae'r cytundeb hwn yn cynnwys y cystadlaethau y mae'n ofynnol i'r rhanbarthau gymryd rhan ynddynt, y taliad y bydd pob rhanbarth yn ei gael am ryddhau chwaraewyr rhyngwladol i'r uwch garfan genedlaethol, y garfan genedlaethol o dan 20 oed, cwotâu chwaraewyr tramor y tîm saith bob ochr, a'r bedwaredd gêm brawf yn yr hydref. Mae Rygbi Rhanbarthol Cymru yn honni ei fod yn pryderu am gyflwr y gêm o dan y lefel ryngwladol ac yn wir yn ofni, oni chaiff camau eu cymryd ar unwaith, y bydd niwed hirdymor anadferadwy yn cael ei achosi, gyda risg wirioneddol y bydd rygbi rhanbarthol proffesiynol ar y lefel uchaf yng Nghymru yn diflannu. Mae'n tynnu sylw at adroddiad annibynnol gan PricewaterhouseCoopers, un o'r cwmnïau ymgyngori ariannol mwyaf yn y byd, a gadarnhaodd fod diffyg ariannol yn y gêm rhanbarthol yng Nghymru. Dywedodd yr adroddiad:

Ymddengys mai'r ateb rhesymegol yw dull gweithredu agosach a mwy cydweithredol rhwng y rhanbarthau ac Undeb Rygbi Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch ariannu.

Mae angen dod o hyd i ffordd o gau'r bwlch ariannu hwn, ac o atal y llif o chwaraewyr sy'n gadael Cymru, gan fod nifer cynyddol o chwaraewyr Cymru wedi gadael i chwarae yn Lloegr a Ffrainc, lle y gallant ennill cyflogau llawer mwy. Credaf fod Undeb Rygbi Cymru a RRhC yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a chynnal strwythur cadarn ar lawr gwlad a strwythur rhanbarthol i'w gwneud yn bosibl i rygbi dyfu a ffynnu yng Nghymru. Mae hon yn gêm sy'n ennyn angerdd mawr ymhlith y cyhoedd yng Nghymru. Mae'r anghydfod hwn yn dangos yr anawsterau ehangach sy'n gysylltiedig â'r ffordd y caiff rygbi yng Nghymru ei redeg. Mae'n bryd i'r Cynulliad Cenedlaethol gynnal ymchwiliad annibynnol i ddyfodol llywodraethu ac ariannu rygbi rhanbarthol Cymru. Gallem weithredu fel cyfryngwr trydydd parti annibynnol a diduedd i sicrhau ateb hirdymor i'r broblem hon a'i datrys unwaith ac am byth. Yn y cyfamser, rwy'n annog Undeb Rygbi Cymru a Rygbi Rhanbarthol Cymru i barhau â'u trafodaethau i roi terfyn ar yr anghydfod hwn, sy'n niweidio hygyrdd rygbi Cymru, cyn gynted ag y bo modd er lles byd chwaraeon yn y rhan hon o'r byd. Yna, gallwn sicrhau y bydd gan rygbi Cymru ddyfodol disglair a fydd yn arwain at fwy o lwyddiant byth dros y byd i gyd.

15:17

## Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, rugby runs through our veins here in Wales. It is incredibly important to our culture and economy. Many of us in the Chamber will have enjoyed playing or watching over the years; I know that, on this side of the Chamber, some still enjoy playing rugby.

Wrth gwrs, mae rygbi'n rhedeg drwy ein gwythiennau yma yng Nghymru. Mae'n hynod bwysig i'n diwylliant a'n heconomi. Bydd llawer ohonom yn y Siambr wedi mwynhau ei chwarae neu ei wyllo dros y blynyddoedd; gwn, ar yr ochr hon i'r Siambr, fod rhai yn dal i fwynhau chwarae rygbi.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The four regions have a collective turnover approaching £30 million per annum, with a direct economic contribution to Wales in excess of £50 million per annum. They provide employment for almost 1,000 people in a combination of full-time, part-time and other roles, including over 600 professional and semi-professional rugby players and more than 50 highly skilled coaching, conditioning and medical staff. I personally share the concerns of Regional Rugby Wales and the four regions about the state of the game below international level. I agree that we need immediate action to prevent irreparable long-term damage, with a very real risk that top-level professional regional rugby in Wales will disappear.

The current very public dispute between the WRU and the regions is very unwelcome, I feel, but it cannot be ignored or allowed to continue. The Chamber must be aware of the independent report; it has already been mentioned by Mohammad Asghar. I am referring to the PricewaterhouseCoopers 2012 report, which was jointly commissioned by the WRU and the regions. As has already been said, PricewaterhouseCoopers said that the logical solution appears to be a closer and more collaborative approach between the regions and the WRU to address the funding gap. This means real engagement between the WRU and the regions, and an end to diktats from the centre.

The WRU has made it abundantly clear that there is no additional funding attached to the new participation agreement, which had a deadline of 31 December. This would mean that our regions would be tied into a new five-year commitment that would see central funding in 2019 at the same level in real terms as it was 10 years earlier. This would clearly be madness, given the funding shortfall stated in the PricewaterhouseCoopers report. This put regional rugby in a very difficult position, almost backed into a corner by the WRU. Therefore, I personally support the regions and our teams in this dispute. With parents who hail from west Wales, there is no guessing which team I was brought up supporting. I want all of the regional teams to have the right to control their own destiny. In an ever-changing landscape it is crucial that, as independent, privately owned businesses, they are able to negotiate for themselves what competitions they play in and what revenue they can generate. I agree with Regional Rugby Wales that, on any objective level, it is difficult to comprehend why this should be controversial.

I want to end on a note of caution to all those concerned in these negotiations. The language surrounding this very public debate about our national game is worrying. When union executives publicly threaten to disband the regions if the participation agreement is not signed, those people need to remember that they are there to run and promote the game in Wales, and act in the best interests of Welsh rugby.

I believe that this dispute can still be saved, albeit in the last minute of play. However, the Welsh Government must be prepared to step in. Rugby is our national game, and is of huge cultural importance, in addition to having a positive economic impact here in Wales.

Gyda'i gilydd, mae gan y pedwar rhanbarth drosiant o tua £30 miliwn y flwyddyn, gyda chyfraniad economaidd uniongyrchol i Gymru sy'n fwy na £50 miliwn y flwyddyn. Maent yn cyflogi bron 1,000 o bobl mewn swyddi llawn amser, rhan amser a rolau eraill, gan gynnwys dros 600 o chwaraewyr rygbi proffesiynol a lled-broffesiynol a mwy na 50 o staff hyfforddi, cyflyru a meddygol hyfedr iawn. Rwyf innau hefyd yn rhannu pryderon Rygbi Rhanbarthol Cymru a'r pedwar rhanbarth ynglŷn â chyflwr y gêm o dan y lefel ryngwladol. Cytunaf fod angen gweithredu ar unwaith i atal niwed hirdymor anadferadwy, gyda risg real iawn y bydd rygbi rhanbarthol proffesiynol ar y lefel uchaf yng Nghymru yn diflannu.

Credaf fod yr anghydfod cyhoeddus iawn rhwng Undeb Rygbi Cymru a'r rhanbarthau ar hyn o bryd yn annymunol iawn, ond ni ellir ei anwybyddu na gadael iddo barhau. Rhaid i'r Siambr fod yn ymwybodol o'r adroddiad annibynnol; mae eisoes wedi cael ei grybwyll gan Mohammad Asghar. Cyfeirio yr wyf at adroddiad PricewaterhouseCoopers yn 2012, a gomisiynwyd ar y cyd gan Undeb Rygbi Cymru a'r rhanbarthau. Fel y dywedwyd eisoes, dywedodd PricewaterhouseCoopers yr ymddengys mai'r ateb rhesymegol yw dull gweithredu agosach a mwy cydweithredol rhwng rhanbarthau ac Undeb Rygbi Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch ariannu. Golyga hyn ymgysylltu gwirioneddol rhwng Undeb Rygbi Cymru a'r rhanbarthau, a diwedd ar orchmynion oddi fry.

Mae Undeb Rygbi Cymru wedi ei gwneud yn gwbl glir nad oes arian ychwanegol ynghlwm wrth y cytundeb cyfranogi newydd, ac iddo ddyddiad cau o 31 Rhagfyr. Byddai hyn yn golygu y byddai ein rhanbarthau yn cael eu clymu wrth ymrwymiad pum mlynedd newydd a fyddai'n gweld cyllid canolog yn 2019 ar yr un lefel mewn termau real ag yr oedd 10 mlynedd yn gynharach. Byddai hyn yn amlwg yn wallgof, o ystyried y diffyg ariannol a nodwyd yn adroddiad PricewaterhouseCoopers. O ganlyniad, bu rygbi rhanbarthol mewn sefyllfa anodd iawn, wedi'i roi mewn cyfng-gyngor gan Undeb Rygbi Cymru. Felly, rwyf fi fy hun yn cefnogi'r rhanbarthau a'n timau yn yr anghydfod hwn. A'm rhieni yn hanu o'r gorllewin, nid oes angen dyfalu pa dîm yr oeddwn yn ei gefnogi yn ystod fy mhleintydod. Rwyf am i bob un o'r timau rhanbarthol gael yr hawl i reoli eu tynged eu hunain. Mewn tirwedd sy'n newid o hyd mae'n hollbwysig, fel busnesau annibynnol, sy'n eiddo preifat, y gallant gyd-drafod drostynt hwy eu hunain ym mha gystadlaethau y maent yn chwarae a pha refeniw y gallant ei gynhyrchu. Cytunaf â Rygbi Rhanbarthol Cymru ei bod, ar unrhyw lefel wrthrychol, yn anodd deall pam y dylai hyn fod yn ddadleuol.

Hoffwn offen ar nodyn o rybudd i bawb sy'n rhan o'r cyddrafodaethau hyn. Mae'r ieithwedd a ddefnyddir yn y ddadl gyhoeddus iawn am ein gêm genedlaethol yn peri pryder. Pan fydd gweithredwyr yr undeb yn bygwth chwalu'r rhanbarthau yn gyhoeddus os nad yw'r cytundeb cyfranogi yn cael ei lofnodi, mae angen i'r bobl hynny gofio mai eu gwaith hwy yw rhedeg a hyrwyddo'r gêm yng Nghymru, a gweithredu er lles rygbi Cymru.

Credaf y gall yr anghydfod hwn gael ei ddatrys o hyd, er ar y funud olaf. Fodd bynnag, rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn barod i gamu i'r adwy. Rygbi yw ein gêm genedlaethol, ac mae o bwysigrwydd diwylliannol mawr, yn ogystal â chael effaith economaidd gadarnhaol yma yng Nghymru.

It is rare that I find myself agreeing wholeheartedly with motions tabled by the Welsh Conservatives. [Laughter.] It is fair, though, to say that all of us want to see this latest standoff between the regions and the WRU resolved. Indeed, I am sure that that is a consensus reflected among rugby fans across the country, and I am encouraged by reports in today's press suggesting that a compromise might be on the cards. At the end of the day, whatever is going on behind the scenes, this current impasse is deeply damaging to the reputation of Welsh rugby, particularly coming as it does in an era when Wales's elite players are delivering as never before, having played such a key role in the Lions' success in Australia and on the back of heroically retaining their RBS 6 Nations title. Indeed, it does a disservice to those great Welsh sportspeople that, at the very moment when we should be celebrating their success and focusing on our hopes for the forthcoming 6 nations and World Cup next year, instead it is battles in the boardroom that once again dominate the headlines.

Of course, without really knowing what is happening behind closed doors it is difficult to know where the rights and wrongs lie in this current row. Experience tells me that mixing politics and rugby in Wales is always a tricky path to negotiate, and I certainly do not wish to take sides in this particular dispute, not least because I recognise that it is an incredibly complex situation. I am conscious that, as often seems to be the way with modern sport, so much of it boils down to money.

I wanted to speak today because, for me, as a rugby fan, and more importantly, as someone who represents a constituency where rugby is simply a life-and-death matter, it is crucial that this latest row is seen in the context of a far deeper malaise that I believe is harming our national game. Surely it is yet more evidence of an ever-growing disconnect between elite level rugby and the kind of clubs and communities that are the true lifeblood of rugby in Wales.

Some Members may remember me speaking in this Chamber during the bitter row between Pontypool RFC and the WRU that ended up in the High Court. Thankfully, it is something that the club and the supporters have put firmly in the past. Under new management and on a sound financial footing, performing well in the WRU Championship and with big ambitions for the future, things are really looking up for Pontypool. I certainly do not wish to rake over the past today, but, for me, something had gone very badly wrong when relations between the WRU and a club broke down to such an extent that a team with all the history of Pontypool was pushed to the brink of extinction by the union. It surely spoke powerfully, too, of the passion of grass-roots rugby fans, who on the one hand were willing to dip in to their pockets to support their club financially, despite the tough times economically locally, but who also felt deeply disenfranchised and powerless. Indeed, this is something that Owen Smith has spoken of with eloquence in relation to his beloved Pontypridd.

Anaml y caf fy hun yn cytuno'n llwyr â chynigion a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig. [Chwerthin.] Mae'n deg dweud, fodd bynnag, fod pob un ohonom am weld yr anghydfod diweddaraf rhwng y rhanbarthau ac Undeb Rygbi Cymru yn cael ei ddatrys. Yn wir, rwy'n siŵr mai dyna'r consensws ymhlith cefnogwyr rygbi drwy'r wlad, ac rwyf wedi fy nghalonogi gan adroddiadau yn y wasg heddiw sy'n awgrymu y gallai fod cyfaddawd o bosibl. Yn y pen draw, beth bynnag sy'n digwydd tu ôl i'r llenni, mae'r diffyg cytundeb presennol yn niweidiol iawn i enw da rygbi Cymru, yn enwedig gan ei fod yn digwydd mewn cyfnod lle mae chwaraewyr elitaidd Cymru yn fwy llwyddiannus nag erioed o'r blaen, ar ôl chwarae rôl mor allweddol yn llwyddiant y Llewod yn Awstralia ac yn sgil ymgyrch arwrol i gadw eu teitl fel pencampwyr RBS y Chwe Gwlad. Yn wir, mae'n gwneud anghymwynas â'r chwaraewyr hynny o Gymru, ar yr union adeg y dylem fod yn dathlu eu llwyddiant ac yn canolbwyntio ar ein gobeithion ar gyfer pencampwriaeth nesaf y Chwe Gwlad a Chwpan y Byd y flwyddyn nesaf, mai brwydrau yn yr ystafell fwrdd sy'n cael yr holl sylw unwaith eto.

Wrth gwrs, heb wybod yn union beth sy'n digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig mae'n anodd gwybod pwy sy'n iawn yn y ddadl hon. Mae profiad yn dweud wrthyf fod cymysgu gwleidyddiaeth a rygbi yng Nghymru bob amser yn llwybr anodd i'w ddilyn, ac yn sicr nid wyf yn dymuno cymryd ochr yn yr anghydfod penodol hwn, yn bennaf am fy mod yn cydnabod ei bod yn sefyllfa anhygoel o gymhleth. Rwy'n ymwybodol, fel sy'n digwydd mor aml ym myd chwaraeon modern, mai arian yw asgwrn y gynnen.

Roeddwn am siarad heddiw oherwydd, i mi, fel cefnogwr rygbi ac, yn bwysicach na hynny, fel rhywun sy'n cynrychioli etholaeth lle mae rygbi yn syml yn fater o farwolaeth a bywyd, mae'n hanfodol bod y ffrae ddiweddaraf yn cael ei gweld yng nghyd-destun dirywiad llawer dyfnach sydd, yn fy marn i, yn niweidio ein gêm genedlaethol. Onid yw'n dystiolaeth fyth eto o ddatgysylltu cynyddol rhwng rygbi lefel elitaidd a'r math o glybiau a chymunedau, sef gwir enaid rygbi yng Nghymru.

Efallai y bydd rhai Aelodau yn cofio imi siarad yn y Siambr yn ystod y ffrae chwerw rhwng Clwb Rygbi Pont-y-pŵl ac Undeb Rygbi Cymru a aeth i'r Uchel Lys. Diolch byth, i'r clwb a'r cefnogwyr mae hynny'n hen hanes erbyn hyn. A'r clwb o dan reolaeth newydd ac ar ôl sefydlu sylfaen ariannol gadarn, yn perfformio'n dda ym Mhencampwriaeth Undeb Rygbi Cymru ac ag uchelgais mawr ar gyfer y dyfodol, mae pethau yn wir yn argoeli'n dda i Bont-y-pŵl. Yn sicr, nid wyf am godi hen grachen heddiw, ond, i mi, mae rhywbeth mawr wedi mynd o'i le o weld cysylltiadau rhwng Undeb Rygbi Cymru a chlwb yn chwalo i'r fath raddau fel bod tîm gyda chymaint o hanes â Phont-y-pŵl ar fin diflannu oherwydd gweithredoedd yr undeb. Yn sicr, roedd hefyd yn arwydd pwerus o angerdd cefnogwyr rygbi ar lawr gwlad, a oedd ar y naill law yn barod i roi eu harian eu hunain i gefnogi eu clwb yn ariannol er gwaethaf yr amodau economaidd anodd yn lleol, ond a oedd hefyd yn teimlo eu bod wedi cael eu difreinio'n llwyr a'u bod yn ddi-rym. Yn wir, mae hyn yn rhywbeth y mae Owen Smith wedi siarad yn huawdl yn ei gyloch mewn perthynas â'i annwyl Bontypridd.

During the run-up to that recent Lions tour, some of you may have heard an interview on Radio Wales with a constituent of mine, Terry Simons, from Pontypool. Terry and his wife Jane, who I have known for many years, are lifelong Pooler fans and club volunteers who helped Toby Faletau's father settle in Pontypool around the turn of the millennium when he arrived in Wales to play for Ebbw Vale. Playing a really important supporting role in the lives of both the Faletau family and the family of England internationals the Vunipola brothers, Jane even took them to school on their first day at Griffithstown Primary School, and the children would sometimes stay at the couple's house in Pontnewynydd. On one level, it is just a really heart-warming story of human kindness and the kind of generosity of spirit, openness and hospitality that is the best of our Valleys. However, for me, it also shows what we could lose if we do not, when seeking to repair and renew our game at the highest level, also do something to address the chasm between grass-roots rugby and the upper echelons of the game. After all, just as we need the kind of systems and structures in place that can nurture the Toby Faletaus of the future, surely it is also essential that we ensure that people like the Simons and the countless others who turn up week in, week out to support their club, come rain or shine, feel like they have a stake and a voice in the future of a sport that surely needs them now more than ever.

Ychydig cyn y daith ddiweddar honno gan y Llewod, efallai y bydd rhai ohonoch wedi clywed cyfweiliad ar Radio Wales ag etholwr i mi, Terry Simons, o Bont-y-pŵl. Mae Terry a'i wraig Jane, yr wyf wedi eu hadnabod ers blynyddoedd lawer, yn gefnogwyr gydol oes ac yn wirfoddolwyr yn y clwb a helpodd dad Toby Faletau i ymgartrefu ym Mhont-y-pŵl ar droad y mileniwm pan gyrrhaeddodd yng Nghymru i chwarae dros Lynebwy. A hithau'n chwarae rôl gefnogol bwysig iawn ym mywydau'r teulu Faletau a theulu'r chwaraewyr rhyngwladol dros Loegr, y brodyr Vunipola, gwnaeth Jane hyd yn oed fynd â hwy i'r ysgol ar eu diwrnod cyntaf yn Ysgol Gynradd Griffithstown, a byddai'r plant yn aros weithiau yn nhŷ'r pâr ym Mhontnewynydd. Ar un lefel, stori fach galonogol am garedigrwydd dynol a'r fath o haelioni, diffuantrwydd a lletygarwch sy'n nodweddiadol o'n Cymoedd ydyw. Fodd bynnag, i mi, mae hefyd yn dangos yr hyn y gallem ei gollu os nad ydym, wrth geisio adfer ac adnewyddu ein gêm ar y lefel uchaf, hefyd yn gwneud rhywbeth i fynd i'r afael â'r agendor rhwng rygbi ar lawr gwlad a haenau uchaf y gêm. Wedi'r cyfan, yn union fel mae angen rhoi'r math o systemau a strwythurau ar waith sy'n gallu meithrin chwaraewyr eraill fel Toby Faletau yn y dyfodol, onid yw'n hanfodol hefyd ein bod yn sicrhau bod pobl fel y Simons a'r bobl ddi-ri sy'n mynd wythnos ar ôl wythnos i gefnogi eu clwb, boed law neu hindda, yn teimlo bod ganddynt ran a llais yn nyfodol gêm y mae arni eu hangen yn awr yn fwy nag erioed.

15:25

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

I welcome the opportunity to contribute to this debate. I did not think that I would ever hear the Member for Torfaen coming on side with us Conservatives on this side of the Chamber; a very rare moment indeed. Maybe we could buy a caravan together, with your husband's permission, and tour Wales promoting the virtues of Welsh rugby. I can see your husband indicating willingly for us to do that. [Laughter.]

The debate today is tabled with all the best intentions. There is a limited amount that we can do in this Chamber and in this institution, and, indeed, on the Government benches in fairness. To a point, that is correct, because the WRU is an independent institution, as are the regions, which are businesses in their own right. They have to develop a model that will bring an income stream that will provide for the players and the offering that will bring the supporters through the turnstiles to fund Welsh rugby.

Under them are the many clubs that make up the union that have a very proud history of nurturing grass-roots rugby across the whole of Wales. It is very easy to fall into the trap of thinking that rugby is just limited to the stretch from the Severn bridge to the Scarlets ground in Llanelli. There is, in fact, rugby across the whole of Wales. I had the great pleasure of visiting the wonderful facilities in Colwyn Bay recently, where there has just been massive investment to nurture the sport in north Wales and to excite youngsters to enter the game of rugby and progress through to playing international rugby, hopefully.

Croesawaf y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon. Nid oeddwn erioed yn meddwl y byddwn yn clywed yr Aelod dros Dorfaen yn ochri â ni, y Ceidwadwyr ar yr ochr hon i'r Siambr; digwyddiad prin iawn yn wir. Efallai y gallem byrbu carafan gyda'n gilydd, gyda chaniatâd eich gwŷr, a theithio o amgylch Cymru yn hyrwyddo rhinweddau rygbi Cymru. Gallaf weld bod eich gwŷr yn nodi ei fod yn barod inni wneud hynny. [Chwerthin.]

Cyflwynwyd y ddadl heddiw gyda'r bwriadau gorau. Ond dim ond hyn a hyn y gallwn ei wneud yn y Siambr hon ac yn y sefydliad hwn, ac, yn wir, ar feinciau'r Llywodraeth a bod yn deg. I ryw raddau, mae hynny'n wir, gan fod Undeb Rygbi Cymru yn sefydliad annibynnol, fel y rhanbarthau, sy'n fusnesau yn eu rhinwedd eu hunain. Rhaid iddynt ddatblygu model a fydd yn dod â ffrwd incwm a fydd yn darparu ar gyfer chwaraewyr ac yn cynnig yr hyn a fydd yn denu cefnogwyr i'r gemau er mwyn ariannu rygbi Cymru.

Oddi tanynt y mae'r llu o glybiau sy'n ffurfio'r undeb ac sydd â hanes balch iawn o feithrin rygbi ar lawr gwlad drwy Gymru benbaladr. Mae'n hawdd iawn syrthio i'r fagl o feddwl bod rygbi ond yn cael ei chwarae yn yr ardal rhwng pont Hafren a maes chwarae'r Scarlets yn Llanelli. Yn wir, mae rygbi yn cael ei chwarae drwy Gymru gyfan. Cefais y pleser mawr o ymweld â'r cyfleusterau gwyich ym Mae Colwyn yn ddiweddar, lle mae buddsoddiad enfawr newydd gael ei wneud i feithrin rygbi yn y gogledd ac i ennyn diddordeb pobl ifanc mewn chwarae rygbi a datblygu hyd at chwarae rygbi rhyngwladol, gobeithio.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I believe that I am one of the only Members in the Chamber who still plays rugby. I note that much of the commentary at the moment is pointing to the 6 nations. We are on the cusp of maybe one of the most exiting 6 nations. If we succeed in emulating the success of the last two seasons, we will be the first international team in the history of the 6 nations to either win the competition or take the grand slam three years on the bounce. I remind Members that the Assembly's own team is on the verge of a hat trick, should we beat the House of Commons in March. I hope that people will get behind the Assembly's team in fighting the House of Commons, with good manners and good sport, playing under veterans rules.

That shows how rugby touches all corners. It is a professional game today, but it is built on the amateur principles and ethos of clubs about the roots in their communities, offering a gateway into the sport for so many of our young people, whether they are men or women. There is an exciting women's rugby arena across Wales. It is not just specific to men. What we must have at the very top of our sport is a unified response to the challenges that the modern game faces.

The real difficulty that most arguments face when they reach this part of the cycle is that personalities start clouding the way forward and the road, hopefully, to agreement. It is vital that we do not allow personalities, whether they be from the union or regions, to prevent a comprehensive agreement coming forward that will deliver a template that allows the regions to retain the most exciting young players we have here in Wales along with the union's ability to support the game in its entirety across all sections of Wales.

That is a very difficult balancing act, which can be achieved successfully with a bit of give and take on both sides. Otherwise, what we will continue to see is the haemorrhaging of the brightest and most able sports players from Wales to England, France and other countries in the northern hemisphere, thereby draining the lifeblood of supporters out of the stands that have been built around the regional grounds in Wales.

Rugby is in a very competitive field—and I do not mean the playing on the field, but the field of sport in Wales generally. There is the wonderful success that many of our association football teams have enjoyed over the last couple of years. There are loads of other sports competing for the limited sporting pound in Wales from spectators coming to watch the games. The constant squabbling and arguing at the very top of our game is doing nothing to help portray the international success that we have had. It is time that people took a reality check and acted in the best interests of the game as a whole. We must remember that rugby today is a professional sport and professional sports rely on a steady stream of income coming in so that investments can be made. For goodness' sake, I call on all the participants to show common sense and work with each other in the best interests of the game that we all hold dear to our hearts.

Credaf fy mod yn un o'r ychydig Aelodau yn y Siambr sy'n dal i chwarae rygbi. Nodaf fod llawer o'r sylwadau ar hyn o bryd yn cyfeirio at bencampwriaeth y chwe gwlad. Mae un o'r pencampwriaethau mwyaf cyffrous o bosibl ar fin dechrau. Os ydym yn llwyddo i efelychu llwyddiant y ddau dymor diwethaf, Cymru fydd y tîm rhyngwladol cyntaf yn hanes y chwe gwlad i ennill naill ai'r gystadleuaeth neu'r gamp lawn am dair blynedd yn olynol. Hoffwn atgoffa'r Aelodau fod tîm y Cynulliad ei hun ar fin taro'r tri, pe baem yn curo Tŷ'r Cyffredin ym mis Mawrth. Gobeithio y bydd pobl yn cefnogi tîm y Cynulliad yn erbyn Tŷ'r Cyffredin, gyda phob cwteisi a chwarae teg, gan chwarae o dan y rheolau i chwaraewyr hŷn.

Mae hynny'n dangos sut mae rygbi yn cyffwrdd â phob cwr. Mae'n gêm broffesiynol heddiw, ond cafodd ei hadeiladu ar egwyddorion amatur ac ethos clybiau a'u gwreiddiau yn eu cymunedau, sy'n cynnig y cyfle i chwarae'r gêm i gynifer o'n pobl ifanc, boed yn ddynion neu'n ferched. Mae arena rygbi gyffrous i ferched ledled Cymru. Nid oes a wnelo hyn â dynion yn unig. Yr hyn y mae'n rhaid inni ei gael ar frig y gêm yw ymateb unedig i'r heriau y mae'r gêm fodern yn eu hwynebu.

Yr anhawster go iawn y mae'r rhan fwyaf o ddadleuon yn ei wynebu wrth gyrraedd y rhan hon o'r cylch yw bod personoliaethau yn dechrau cymylu'r ffordd ymlaen a'r ffordd, gobeithio, tuag at gytundeb. Mae'n hanfodol nad ydym yn gadael i bersonoliaethau, pa un a ydynt yn dod o'r undeb neu'r rhanbarthau, atal cytundeb cynhwysfawr a fydd yn cynnig templed sy'n rhoi cyfle i'r rhanbarthau gadw'r chwaraewyr ifanc mwyaf cyffrous sydd gennym yma yng Nghymru ynghyd â gallu'r undeb i gefnogi'r gêm yn ei chyfanrwydd ar bob lefel yng Nghymru.

Mae hynny'n gofyn am daro cydbwysedd anodd iawn, y gellir ei wneud yn llwyddiannus gydag ychydig o gyfaddawdu ar y ddwy ochr. Fel arall, yr hyn y byddwn yn parhau i'w weld yw llif mawr o'r chwaraewyr mwyaf disglair a mwyaf galluog yn mynd o Gymru i Loegr, Ffrainc a gwledydd eraill yn hemisffer y gogledd, a thrwy hynny wagio eisteddleoedd y cefnogwyr sydd wedi cael eu hadeiladu o amgylch y meysydd chwarae rhanbarthol yng Nghymru.

Mae rygbi mewn maes cystadleuol iawn—ac nid wyf yn golygu'r gêm ar y cae, ond maes chwaraeon yng Nghymru yn gyffredinol. Ceir llwyddiant gwych llawer o'n timau pêl-droed dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae llwyth o chwaraeon eraill yn cystadlu am bunt gyfyngedig cefnogwyr chwaraeon yng Nghymru sy'n dod i weld y gemau. Nid yw'r cecru a'r ffræo di-baid ar haen uchaf ein gêm yn gwneud dim i helpu i bortreadu'r llwyddiant rhyngwladol yr ydym wedi'i gael. Mae'n bryd i bobl gallio a gweithredu er lles y gêm yn ei chyfanrwydd. Rhaid inni gofio bod rygbi heddiw yn gamp broffesiynol a bod chwaraeon proffesiynol yn dibynnu ar lif cyson o incwm fel y gellir gwneud buddsoddiadau. Er mwyn popeth, galwaf ar bawb i arfer synnwyr cyffredin a gweithio gyda'i gilydd er lles y gêm sy'n agos at ein calonnau i gyd.

It would be fair to say that I have had a lot of correspondence about this issue. Clearly, nothing excites the passions and emotions of Welsh people quite like rugby and that is reflected in the e-mails, letters and tweets that I have had. I spent much of the time during recess meeting with parties involved—with supporters, the regions and the WRU and I have also been in contact with a number of local clubs in my area. While I do not think it is for politicians to solve this alone, I think that we can push for progress and bring people together, especially as public money is involved.

The current dispute is focused around the 2009 participation agreement between the WRU and Regional Rugby Wales, which allows the release of players for Wales internationals and sets the terms for the regions to take part in the competitions and leagues, such as the Heineken Cup and the RaboDirect PRO12. From what I have heard, the dispute essentially boils down to an interpretation of how a participation agreement would work after five years. Roger Lewis wrote to me yesterday to state that at the end of that period, it was at the sole discretion of the regions as to whether that agreement should be extended until 2019, while the WRU was tied into it for 10 years. However, the regions believe that they were able to renegotiate after this time and, again, the WRU says that that was not possible.

The matter is further complicated by the Rugby Champions Cup, devised by some of the English Premiership sides that have negotiated a deal with BT, which, say the regions, would bring in an additional £12 million over three years, or £1 million per region, per year, into the Welsh game. The WRU says that English clubs have no legal basis to negotiate on behalf of Welsh regions and that it has the backing of the International Rugby Board in this. Regional Rugby Wales says that the Heineken Cup as a competition is effectively over and that it does not want to sign a participation agreement until it has more clarity over what the Heineken Cup would look like. This is disputed by the WRU, which says that funding and rights are in place until the end of the PA in 2019.

The WRU says that Regional Rugby Wales has a six-month window to give notice that the agreement would not be extended, beginning in July. The WRU says that it only found out about the fact that this was happening in a press release at 5.15 p.m. on 31 December—the deadline—from Regional Rugby Wales. For me, I think that it is a bit fanciful for the WRU to say this because this was in the news for several weeks prior to 31 December. Surely, it would not have been beyond the realm of responsibility of those in the WRU to approach Regional Rugby Wales if they knew that a deadline was coming up, for them to talk about this issue in a private manner. That is my view.

Teg dweud fy mod wedi cael cryn dipyn o ohebiaeth ynglŷn â'r mater hwn. Yn amlwg, nid oes dim byd yn codi angerdd a chorddi emosiynau pobl Cymru cymaint â rygbi ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn yr e-byst, y llythrau a'r negeseuon trydar yr wyf wedi'u cael. Rwyf wedi treulio llawer o'r amser yn ystod y toriad yn cyfarfod â'r partïon dan sylw—cefnogwyr, y rhanbarthau ac Undeb Rygbi Cymru ac rwyf hefyd wedi bod mewn cysylltiad â nifer o glybiau lleol yn fy ardal i. Er na chredaf y gall gwleidyddion yn unig ddatrys y mater hwn, credaf y gallwn alw am gynnydd a dod â phobl at ei gilydd, yn enwedig gan fod arian cyhoeddus ynghlwm wrth hyn.

Mae'r anghydfod presennol yn canolbwyntio ar gytundeb cyfranogi 2009 rhwng Undeb Rygbi Cymru a Rygbi Rhanbarthol Cymru, sy'n caniatáu i chwaraewyr gael eu rhyddhau ar gyfer gemau rhyngwladol Cymru ac sy'n gosod y telerau i'r rhanbarthau ar gyfer cymryd rhan yn y cystadlaethau a chynghreiriau, megis Cwpan Heineken a RaboDirect PRO12. O'r hyn yr wyf wedi ei glywed, mae'r anghydfod yn ymwneud yn y bôn â dehongliad o'r ffordd byddai cytundeb cyfranogi yn gweithio ar ôl pum mlynedd. Ysgrifennodd Roger Lewis ataf ddoe yn nodi mai'r rhanbarthau yn unig a oedd yn cael penderfynu ar ddiwedd y cyfnod hwnnw pa un a ddylid estyn y cytundeb hwnnw tan 2019, tra bod Undeb Rygbi Cymru wedi ymrwymo iddo am 10 mlynedd. Fodd bynnag, cred y rhanbarthau eu bod yn gallu ail-drafod ar ôl y cyfnod hwn ac, unwaith eto, noda Undeb Rygbi Cymru nad oedd hynny'n bosibl.

Mae'r mater wedi'i gymhlethu ymhellach gan Gwpan Pencampwyr Rygbi, a ddyfeisiwyd gan rai o dimau'r uwch gynghrair yn Lloegr sydd wedi llunio cytundeb â BT, a fydd, meddai'r rhanbarthau, yn dod â swm ychwanegol o £12 miliwn dros dair blynedd, neu £1 filiwn y rhanbarth, bob blwyddyn, i'r gêm yng Nghymru. Mae Undeb Rygbi Cymru yn dweud nad oes gan glybiau Lloegr sail gyfreithiol i negodi ar ran rhanbarthau Cymru a bod y Bwrdd Rygbi Rhyngwladol yn ei gefnogi yn hyn o beth. Mae Rygbi Rhanbarthol Cymru yn dweud bod Cwpan Heineken fel cystadleuaeth ar ben i bob diben ac nad yw am lofnodi cytundeb cyfranogi nes ei fod yn cael eglurder ynghylch sut beth fyddai Cwpan Heineken yn y dyfodol. Mae hyn yn cael ei herio gan Undeb Rygbi Cymru, sy'n dweud bod cyllid a hawliau ar waith tan ddiwedd y Cytundeb Cyfranogi yn 2019.

Mae Undeb Rygbi Cymru yn dweud bod gan Rygbi Rhanbarthol Cymru gyfnod o chwe mis i roi rhybudd na fyddai'r cytundeb yn cael ei estyn, gan ddechrau ym mis Gorffennaf. Dywed Undeb Rygbi Cymru mai dim ond mewn datganiad i'r wasg am 5.15 p.m. ar 31 Rhagfyr—y terfyn amser—gan Rygbi Rhanbarthol Cymru y cafodd wybod y byddai hyn yn digwydd. I mi, credaf ei bod ychydig yn rhyfedd i Undeb Rygbi Cymru ddweud hyn am fod y stori hon yn y newyddion am sawl wythnos cyn 31 Rhagfyr. Yn sicr, ni fyddai wedi bod y tu hwnt i gyfrifoldeb pobl yn Undeb Rygbi Cymru i gysylltu â Rygbi Rhanbarthol Cymru pe baent yn gwybod bod terfyn amser ar y gorwel, er mwyn iddynt siarad am y mater hwn yn breifat. Dyna fy marn i.

All of us here are concerned with protecting the current player pathways that exist in Wales, which enable talented young players to progress through the ranks to elite level. However, Regional Rugby Wales says that a recent €100 million deal for rugby television rights in France has blown the game apart and that we risk losing more players across the channel because of the better salaries that can now be afforded. It has also argued that it is proving harder to put together forward business plans when the WRU has little concrete to offer it within the PA at the moment. Clearly, there is a theme here because, yet again, the WRU disputes this. It seems today that—

Mae pob un ohonom yma am ddiogelu'r llwybrau presennol sy'n bodoli yng Nghymru i chwaraewyr, sy'n galluogi chwaraewyr ifanc talentog i symud drwy'r rhengoedd i'r lefel elitaidd. Fodd bynnag, dywed Rygbi Rhanbarthol Cymru fod cytundeb diweddar gwerth €100 miliwn ar gyfer hawliau darlledu rygbi yn Ffrainc wedi chwalu'r cyfan a'n bod mewn perygl o golli mwy o chwaraewyr i Ffrainc oherwydd y cyflogau gwell y gellir eu fforddio bellach. Mae hefyd wedi dadlau ei bod yn fwy anodd llunio blaengynlluniau busnes pan nad oes gan Undeb Rygbi Cymru fawr ddim i'w gynnig yn bendant yn y Cytundeb Cyfranogi ar hyn o bryd. Yn amlwg, gwelwn batrwm yn hyn o beth oherwydd, unwaith eto, mae Undeb Rygbi Cymru yn herio hyn. Ymddengys heddiw—

15:34 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Will you give way?

A wneuch ildio?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:34 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I do not know how much time I have and I have to get through it, sorry, Andrew. It seems that both sides are talking today and appear to be negotiating over a new participation agreement, which is an amalgamation of the old one with amendments from the WRU. There is an independent arbitrator, but, at the end of the day, personalities are involved and we need more leadership on getting people to sit down together and talk through these particular issues. There are two radically different versions of events here, so what is important is that we continue to have these discussions.

Ni wn faint o amser sydd gennyf a rhaid imi orffen yr hyn sydd gennyf i'w ddweud, mae'n ddrwg gennyf, Andrew. Ymddengys bod y ddwy ochr yn siarad â'i gilydd heddiw ac yn cyd-drafod cytundeb cyfranogiad newydd, sy'n cyfuno'r hen un â diwygiadau gan Undeb Rygbi Cymru. Mae cymrodeddwr annibynnol, ond, yn y pen draw, mae personoliaethau yn rhan o hyn ac mae angen mwy o arweiniad i gael pobl i eistedd i lawr gyda'i gilydd a thrafod y materion penodol hyn. Ceir dau fersiwn cwbl wahanol o'r hyn sydd wedi digwydd, felly yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn parhau i gael y trafodaethau hyn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I, like everybody else, want to see progress here and I do support a governance review. One was carried out in 2011 by the RFU, and I see no reason why we cannot initiate that particular review, because it is not about any individual camp. Those who are not involved in any way in particular, and who are general rugby fans, believe that some sort of review would help, so that we can make sure that rugby in Wales is open and transparent, and that people can access the finances of the WRU when they want to, so that they can see exactly what is happening here in Wales. We forget about grass-roots rugby when we talk about all this. It is important that we do not have this dispute carrying on and on—we do not need a UN convention about it—so that we can develop grass-roots rugby for the future, and so that we can all celebrate the future of rugby here in Wales.

Rwyf finnau, fel pawb arall, am weld cynnydd yn hyn o beth a chefnogaf adolygiad o lywodraethu. Cynhaliwyd un yn 2011 gan Undeb Pêl-droed Rygbi, ac ni welaf unrhyw reswm pam na allwn ddechrau ar yr adolygiad penodol hwnnw, oherwydd nid yw'n ymwneud ag unrhyw garfan benodol. Cred y rhai nad ydynt yn ymwneud â hyn mewn unrhyw ffordd benodol, ac sy'n gefnogwyr rygbi cyffredinol, y byddai rhyw fath o adolygiad o gymorth, fel y gallwn sicrhau bod rygbi yng Nghymru yn agored ac yn dryloyw, ac y gall pobl weld manylion cyllid Undeb Rygbi Cymru pan fyynnont, fel y gallant weld yn union beth sy'n digwydd yma yng Nghymru. Rydym yn anghofio am rygbi ar lawr gwlad wrth sôn am hyn i gyd. Mae'n bwysig nad yw'r anghydfod hwn yn rhygnu ymlaen—nid oes angen confensiwn gan y Cenhedloedd Unedig am y peth—fel y gallwn ddatblygu rygbi ar lawr gwlad ar gyfer y dyfodol, ac fel y gall pob un ohonom ddathlu dyfodol rygbi yma yng Nghymru.

15:35 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I have four more speakers. May I ask people to be a bit more succinct, or I will not be able to call all those speakers? I call on Antoinette Sandbach.

Mae gennyf bedwar siaradwr arall. A gaf ofyn i bobl fod ychydig yn fwy cryno, neu ni fyddaf yn gallu galw ar yr holl siaradwyr hynny? Galwaf ar Antoinette Sandbach.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:36

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am glad to be able to contribute to this debate. As Andrew R.T. Davies said earlier, a fantastic facility has been built in north Wales—in Colwyn Bay, at Eirias Park—precisely to attract young people into the game of rugby, and to encourage its development in north Wales, where it has perhaps not been as strong as in the other regions. Just because the young players are not coming through in the same frequency from north Wales as they are from other regions, it does not mean that the passion runs any less up there. Were you to go into my local public house on a day that Wales is playing rugby, you will find it absolutely jam-packed, with everyone glued to watching their national game. The pride, the unity and the spirit that there is there is being undermined, in effect, by this damaging row that is happening between the regions and the Welsh Rugby Union.

We can be enormously proud of what our nation has achieved in terms of its rugby success. However, it seems to me that some common sense needs to come into it. I am quite shocked to hear that Northampton was fined £60,000 for releasing George North to play in a game that fell outside the International Rugby Board set time frame. Really, is that a good image for rugby? Is that how you want to be perceived? It is a source of national pride, and of national importance. It touches so many people's lives, because, as Andrew said, the passion and the soul of rugby run deep throughout the veins of every Welsh man and woman.

15:38

**Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will the Member give way?

15:38

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I will.

15:38

**Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The situation there is that the Rugby Football Union and the English premiership clubs will allow any England player to play outside that four-week period, but because he was Welsh, they would not allow it. He would not sign for Northampton unless he could play for Wales on every occasion. It is the premier rugby clubs are the ones that forced that.

15:38

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not care whose fault it is—I do not think that it is right. I think that it is entirely wrong that that fine was imposed, and I am making that very public, and I am saying so very publicly. Therefore, I am grateful for that intervention, because I agree with you—I think that it is wrong.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n falch o gael cyfrannu at y ddadl hon. Fel y dywedodd Andrew R.T. Davies yn gynharach, mae cyfleuster gwych wedi cael ei adeiladu yn y gogledd—ym Mae Colwyn, ym Mharc Eirias—yn union i ddenu pobl ifanc i rygbi, ac annog datblygiad y gêm yn y gogledd, lle nad yw wedi bod mor gryf ag y mae wedi bod yn y rhanbarthau eraill o bosibl. Nid yw'r ffaith nad yw'r chwaraewyr ifanc o'r gogledd yn cael llwyddiant mor aml â chwaraewyr o ranbarthau eraill, yn golygu bod llai o angerdd yno. Pe baech yn mynd i mewn i'm tafarndy lleol ar ddiwrnod pan fydd Cymru yn chwarae rygbi, bydd dan ei sang, gyda phawb yn ymgolli'n llwyr yn eu gêm genedlaethol. Mae'r balchder, yr undod a'r ysbryd a geir yno yn cael eu tansilio, i bob diben, gan y ffrae niweidiol hon rhwng y rhanbarthau ac Undeb Rygbi Cymru.

Gallwn fod yn hynod falch o'r hyn y mae ein cenedl wedi ei gyflawni o ran ei llwyddiant ym myd rygbi. Fodd bynnag, ymddengys imi fod angen arfer rhywfaint o synnwyr cyffredin. Roeddwn yn synnu'n fawr o glywed bod Northampton wedi cael dirwy o £60,000 am ryddhau George North i chwarae mewn gêm sy'n disgyn y tu allan i amserlen y Bwrdd Rygbi Rhyngwladol. Yn wir, a yw hynny'n ddelwedd dda i rygbi? Ai dyna'r canfyddiad yr ydych am ei greu? Mae'n destun balchder cenedlaethol, ac o bwys cenedlaethol. Mae'n cyffwrdd â bywydau cymaint o bobl, oherwydd, fel y dywedodd Andrew, mae angerdd ac enaid rygbi yn rhedeg drwy wythiennau pob dyn a menyw yng Nghymru.

A wnaiff yr Aelod ildio?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Gwnaf.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Y sefyllfa yno yw bod Undeb Pêl-droed Rygbi a chlybiau'r uwch gynghrair yn Lloegr yn caniatáu i unrhyw chwaraewr dros Loegr chwarae y tu allan i'r cyfnod hwnnw o bedair wythnos, ond am ei fod yn Gymro, ni fyddent yn caniatáu hynny. Nid oedd yn fodlon llofnodi contract â Northampton oni allai chwarae dros Gymru ar bob achlysur. Clybiau'r uwch gynghrair yw'r rhai a fu'n gorfodi hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Nid oes ots gennyf pwy sydd ar fai—yn fy marn i, nid yw'n iawn. Yn fy marn i, mae'n hollol amhriodol i'r ddirwy honno gael ei rhoi, ac rwyf yn tynnu sylw at hynny'n gyhoeddus, ac rwyf yn dweud hynny'n gyhoeddus. Felly, rwy'n ddiolchgar am yr ymyriad hwnnw, oherwydd cytunaf â chi—nid yw'n iawn, yn fy marn i.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

However, as was said earlier, the important thing is how we can develop the game, and what we can do for the best for the Welsh game, to bring forward the talent, and to nurture the talent, and the amateur talent, which will form the foundations of the successful Welsh teams of the future. It seems to me that we need to encourage and to keep people playing in clubs in Wales, where they are living in their communities, and where they can see school friends with whom they have played on the rugby pitch. There is a very grave danger that we are going to lose our rugby players over to France, as Bethan Jenkins highlighted, because of the increased salaries there. It seems to me that, if we are facing this exodus of international talent abroad—

I will give way to Andrew R. T. Davies.

15:39 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to you for taking a second intervention.

Do you accept that there is a real possibility, with the commercial impetus that is behind it now, that we could have a Kerry Packer moment—as cricket faced in the late 1970s—and that, unless the administrators meet somewhere in the middle, with the clubs, commercial money will speak and you will blow the whole game apart?

15:40 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that money will speak. It is quite clear. The regional rugby boards say that, effectively, the value of a player once they are called up for an international rugby team can triple. It seems to me entirely wrong that an administrative body should be stopping the development. After all, regional clubs rely on funding to have the coaches and staff, and to be able to train people and bring that talent through. If you cut something off at the roots, then you kill the whole plant. It seems to me utterly ridiculous that we are in this situation.

15:41 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Generally speaking, the less interference there is from politicians in sport, the better. However, at some point someone is going to have to step in and try to end this stalemate. With less than three weeks to go before the start of the six nations rugby tournament, Wales is in danger of becoming a laughing stock as both sides appear to dig in their heels and indulge in a running, 'They said this', 'Oh, no we did not' battle that is reaching pantomime proportions. The morale of the players must be in question as many of them are being left in limbo as to what the future holds for their playing careers. Meanwhile, fans are losing patience and, even worse, losing interest in a game that is beset by constant bickering. Yesterday, the First Minister confirmed that he had written to all parties involved. While I am sure that we all hope that will provide the nudge that is needed, given the stubbornness exhibited so far, I think that is maybe more hope than expectation.

Fodd bynnag, fel y dywedwyd yn gynharach, y peth pwysig yw sut y gallwn ddatblygu'r gêm, a beth y gallwn ei wneud er lles y gêm yng Nghymru, er mwyn datblygu'r dalent, a meithrin y dalent, a'r dalent amatur, a fydd yn gonglfaen timau llwyddiannus Cymru yn y dyfodol. Ymddengys i mi fod angen inni annog pobl i barhau i chwarae mewn clybiau yng Nghymru a'u cadw yma, lle y maent yn byw yn eu cymunedau, a lle y gallant weld eu ffrindiau ysgol y maent wedi chwarae â hwy ar y cae rygbi. Mae perygl mawr iawn y byddwn yn colli ein chwaraewyr rygbi i Ffrainc, fel y nododd Bethan Jenkins, oherwydd y cyflogau uwch yno. Ymddengys i mi, os ydym yn gweld y llif hwn o dalent ryngwladol yn mynd dramor—

Ildiaf i Andrew R.T. Davies.

Rwy'n ddiolchgar ichi am dderbyn ail ymyriad.

A ydych yn derbyn bod posibilrwydd gwirioneddol, gyda'r ysgogiad masnachol sydd y tu ôl iddo bellach, y gallem weld sefyllfa Kerry Packer—fel y sefyllfa a wynebai criced ar ddiwedd y 1970au—ac, oni bai bod y gweinyddwyr yn cyfarfod yn rhywle yn y canol, gyda'r clybiau, y bydd yr arian masnachol yn drech na dim ac y bydd y gêm gyfan yn chwalu?

Credaf mai arian fydd yn drech. Mae'n gwbl amlwg. Mae'r byrddau rygbi rhanbarthol yn dweud, i bob diben, y gall gwerth chwaraewr, ar ôl iddo gael ei ddewis i chwarae i dim rygbi rhyngwladol, dreblu. Ymddengys imi ei bod yn gwbl anghywir bod corff gweinyddol yn atal y datblygiad. Wedi'r cyfan, mae clybiau rhanbarthol yn dibynnu ar arian i gyflogi hyfforddwyr a staff, ac i allu hyfforddi pobl a datblygu'r dalent honno. Os torrwyd rywbeth yn agos at y gwreiddiau, yna lladdwch y planhigyn cyfan. Ymddengys i mi ei bod yn hollol hurt ein bod yn y sefyllfa hon.

Yn gyffredinol, po leiaf o ymyrraeth gan wleidyddion sydd mewn chwaraeon, gorau oll. Fodd bynnag, rywbryd neu'i gilydd, bydd yn rhaid i rywun gamu i'r adwy a cheisio rhoi terfyn ar yr anghydfod hwn. Gyda llai na thair wythnos cyn dechrau pencampwriaeth rygbi'r chwe gwlad, mae Cymru mewn perygl o ddod yn gyff gwawd wrth i'r ddwy ochr ystyfnigo i bob golwg a chweryla ynglŷn â'r hyn y mae'r naill a'r llall wedi'i ddweud nes iddo droi'n bantomeim llwyr. Tybed beth yw morâl y chwaraewyr gan fod llawer ohonynt yn ansicr iawn o ran pa ddyfodol fydd ganddynt yn eu gyrfaedd chwarae. Yn y cyfamser, mae cefnogwyr yn colli amynedd a, hyd yn oed yn waeth, yn colli diddordeb mewn gêm lle mae ffraeo byth a beunydd. Ddoe, cadarnhaodd y Prif Weinidog ei fod wedi ysgrifennu at bob parti. Er ein bod i gyd yn gobeithio, mae'n siŵr, y bydd hynny'n rhoi'r hwb sydd ei angen, o ystyried yr ystyfnigrwydd a welwyd hyd yn hyn, credaf mai ofer fydd ein gobeithion.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

As a fervent football fan, of course, I am more than pleased to see increasing numbers of young people, in particular, turn to the round -ball game and enjoy Swansea and Cardiff's turns in the top flight. However, there is room for more than one sport in Wales and rugby has traditionally been at its heart. There are financial benefits to having successful sporting sides. Many towns and cities are only known outside Wales because of their rugby teams. This is something I discovered when I went to La Rochelle in 2011. When I spoke to local people, they knew about Wales because of our rugby and the six nations in particular. At a regional and national level, rugby brings in substantial numbers of visitors. That will only continue if clubs continue to produce quality rugby, compete in top-flight competitions and produce first-class players. Added to this, there is the undeniable feel-good factor that comes with seeing your side win, whether that is at local, regional or national level. When Wales wins, the whole country celebrates. Despite being born in England, I was there celebrating when Wales beat England to win the six nations championship, and cheering with the best of them in front of the tv set at that particular time.

These problems, of course, have only recently come to a head, but they are not new. There have been issues surrounding regional rugby since the start. The Welsh Rugby Union, it seems, has failed to engage effectively with clubs in the top tier. Those clubs, many would say, have, in turn, failed to embrace the concept of true regional rugby. The parochial differences that unite the country behind Wales as a national team conversely come more to the fore when regional rugby enters the equation. As a result, the arguments go deeper than a spat over which tournaments the regions should be playing in. As the governing body, the Welsh Rugby Union needs to take a very good look at how it engages with clubs and fans at all levels. This is not just about the regions, of course, but the clubs at grass-roots level as well.

Finance has always been a problem and with fans reportedly turning away from the game, it will not get any easier. Sponsors too will start having second thoughts about backing a sport in so much turmoil. It is difficult to see how the regions could survive without the private backers that have kept them afloat until now. Yet, should that give them the right to hold the national game to ransom in the way that it seems that they are doing? There are solid arguments and valid points on both sides. It is not my or any other politician's job to sort that out. However, one thing that we do know is that it has to be sorted out and has to be sorted out soon for the benefit of our national game and the future of Welsh rugby.

Fel cefnogwr pêl-droed brwd, wrth gwrs, rwy'n falch iawn o weld niferoedd cynyddol o bobl ifanc, yn arbennig, yn troi at bêl-droed ac yn mwynhau tro Abertawe a Chaerdydd ar frig y gêm. Fodd bynnag, mae lle i fwy nag un gamp yng Nghymru ac mae rygbi wedi bod wrth galon Cymru yn draddodiadol. Mae timau chwaraeon llwyddiannus yn esgor ar fanteision ariannol. Dim ond drwy eu timau rygbi y mae llawer o drefi a dinasoedd yn adnabyddus y tu allan i Gymru. Mae hyn yn rhywbeth a ddarganfûm pan euthum i La Rochelle yn 2011. Pan siaradais â phobl leol, roeddent yn gwybod am Gymru oherwydd ein tîm rygbi a phencampwriaeth y chwe gwlad yn arbennig. Ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, mae rygbi yn dod â nifer sylweddol o ymwelwyr i Gymru. Dim ond os bydd clybiau yn parhau i chwarae rygbi o safon, yn cystadlu mewn uwch gystadlaethau ac yn meithrin chwaraewyr o'r radd flaenaf y bydd hynny'n parhau. Yn ychwanegol at hyn, yn ddi-os, ceir ymdeimlad da o weld eich tîm yn ennill, boed hynny ar lefel leol, rhanbarthol neu genedlaethol. Pan fydd Cymru'n ennill, mae'r wlad i gyd yn dathlu. Er imi gael fy ngeni yn Lloegr, roeddwn yn dathlu pan wnaeth Cymru guro Lloegr i ennill pencampwriaeth y chwe gwlad, ac yn gweiddi nerth fy mhen o flaen y teledu bryd hynny.

Wrth gwrs, dim ond yn ddiweddar y mae'r problemau hyn wedi cyrraedd eu hanterth, ond nid ydynt yn rhai newydd. Bu problemau mewn cysylltiad â rygbi rhanbarthol o'r cychwyn. Mae Undeb Rygbi Cymru, fe ymddengys, wedi methu â meithrin perthynas effeithiol â chlybiau yn yr han uchaf. Mae'r clybiau hynny, yn eu tro, yn ôl llawer, wedi methu â derbyn y cysyniad o rygbi gwirioneddol ranbarthol. Mae'r gwahaniaethau plwyfol sy'n uno'r wlad i gefnogi Cymru fel tîm cenedlaethol i'r gwrthwyneb yn dod yn fwy i'r amlwg o ran rygbi rhanbarthol. O ganlyniad, mae'r dadleuon yn mynd yn ddyfnach na ffræ ynghylch pa dwrnameintiau y dylai'r rhanbarthau chwarae ynddynt. Fel y corff llywodraethol, mae angen i Undeb Rygbi Cymru ystyried o ddifrif sut y mae'n ymgysylltu â chlybiau a chefnogwyr ar bob lefel. Nid oes a wnelo hyn â'r rhanbarthau, yn unig wrth gwrs, ond y clybiau ar lawr gwlad hefyd.

Mae cyllid bob amser wedi bod yn broblem a chydachefnogwyr yn cefnu ar y gêm yn ôl y sôn, ni fydd pethau yn mynd yn haws. Bydd noddwyr hefyd yn dechrau ailfeddlw am gefnogi camp sydd mewn cymaint o helbul. Mae'n anodd gweld sut y gallai'r rhanbarthau oroesi heb y cefnogwyr preifat sydd wedi eu cynnal hyd yma. Eto i gyd, a ddylai hynny roi'r hawl iddynt fygwth y gêm genedlaethol am ragor o arian yn y ffordd y a wnânt yn ôl pob golwg? Mae dadleuon cadarn a phwyntiau dilys ar y ddwy ochr. Nid fy nghyfrifoldeb i na chyfrifoldeb unrhyw wleidydd arall yw datrys hynny. Fodd bynnag, un peth a wyddom yw bod yn rhaid i hyn gael ei ddatrys a'i ddatrys yn fuan er budd ein gêm genedlaethol a dyfodol rygbi Cymru.

15:44

## Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First, I welcome this debate today. This is an issue that has been discussed throughout Wales in the pubs, the clubs and the community centres and I am glad that the National Assembly has had a chance today to take part in this debate. I am going to say something that I never thought that I would say in this room: I agree with virtually everything that Andrew Davies has just said. I do not think that that will be happening too often. [Laughter.]

Yn gyntaf, croesawaf y ddadl hon heddiw. Mae hwn yn fater sydd wedi cael ei drafod ledled Cymru yn y tafarnau, y clybiau a'r canolfannau cymunedol ac rwy'n falch bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi cael cyfle heddiw i gymryd rhan yn y ddadl hon. Roeddwn yn bwriadu dweud rhywbeth nad oeddwn erioed wedi meddwl y byddwn yn ei ddweud yn yr ystafell hon: cytunaf â bron popeth y mae Andrew Davies newydd ei ddweud. Ni chredaf y bydd hynny'n digwydd yn rhy aml. [Chwerthin.]

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Rugby is in the DNA of many in Wales. International results have masked the continual failure of the regions. First, let us look at last weekend's results: Toulon 43-20 Cardiff Blues; Ospreys 17-29 Northampton—8,347 people decided to go there—Dragons 13-30 Bath, a local derby that 6,063 attended; Racing Metro 13-19 Scarlets. Why is it that the only result that I found surprising was the win by Llanelli Scarlets against Racing Metro? Llanelli Scarlets could well be the only Welsh team to reach the quarter finals. Fewer than 15,000 people watched those two games, whereas 27,750 people turned up to watch Cardiff City play West Ham United, and 31,170 watched Toulon play Cardiff Blues. We should remember that regional rugby was brought in to enable Welsh teams to mirror the success of the Irish regions, but hundreds of years of history were lost when the new teams came in. The criteria were that if the Irish teams, Munster and Leinster, did well in Europe, then so would the Welsh regions.

Mae rygbi ym mēr esgyrn llawer o bobl yng Nghymru. Mae'r canlyniadau rhyngwladol wedi celu methiant parhaus y rhanbarthau. Yn gyntaf, gadewch inni edrych ar ganlyniadau'r penwythnos diwethaf: Toulon 43-20 Gleision Caerdydd, y Gweilch 17-29 Northampton—penderfynodd 8,347 o bobl fynd yno—Dreigiau 13-30 Caerfaddon, sef gêm rhwng dau dîm lleol lle bu 6,063 yn bresennol; Racing Metro 13-19 Scarlets. Pam mai buddugoliaeth Scarlets Llanelli yn erbyn Racing Metro oedd yr unig ganlyniad a barodd syndod imi? Efallai mai Scarlets Llanelli fydd yr unig dîm o Gymru i gyrraedd rownd yr wyth olaf. Gwyliwyd y ddwy gêm hynny gan lai na 15,000 o bobl, er i 27,750 o bobl fynd i wyllo Dinas Caerdydd yn chwarae yn erbyn West Ham United, a gwyliodd 31,170 o bobl y gêm rhwng Toulon a Gleision Caerdydd. Dylem gofio i rygbi rhanbarthol gael ei gyflwyno er mwyn helpu timau Cymru i efelychu llwyddiant y rhanbarthau Gwyddelig, ond collwyd cannoedd o flynyddoedd o hanes pan gyflwynwyd y timau newydd. Y meini prawf oedd, os oedd y timau o Iwerddon, Munster a Leinster, wedi gwneud yn dda yn Ewrop, yna y byddai rhanbarthau Cymru yn gwneud yn dda hefyd.

15:46 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:46 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Certainly.

Gwnaf.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:46 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I wonder whether you would tell us whether you agree with the view of your Labour MP colleague, Owen Smith, on changing the whole regional structure. From what I understand, that will make the situation even more complex than it currently is.

Tybed a fydddech yn dweud wrthym a ydych yn cytuno â barn eich cyd-aelod Llafur, Owen Smith AS, ynglŷn â newid y strwythur rhanbarthol cyfan. O'r hyn a ddeallaf, bydd hynny'n gwneud y sefyllfa hyd yn oed yn fwy cymhleth nag y mae ar hyn o bryd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:46 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the whole system is a mess. May I say that I would not have gone into regions in the first place? These mergers were badly thought out, they have not worked and, if you speak to the colleagues on your left, Lindsay Whittle and Jocelyn Davies, they will tell you that their communities have not bought into either the Dragons or the Blues, because they supported their local teams. That support in the south Wales Valleys, in mid Glamorgan, west Glamorgan and Gwent has disappeared. These people do not go anywhere any more—that is the really sad position. I think that the other sad position is the number of young players that have been prevented from progressing. Matthew Morgan, whom I consider to be an outside half in the Barry John and Phil Bennett mould, is getting very little game time at the Ospreys. Sam Davies, IRB Junior Player of the Year—ahead of anybody in the southern hemisphere—gets very little game time at the Ospreys. I look at some of the Welsh greats from Haydn Tanner to Gareth Edwards; they were playing at the top level at the age of 18. I do not think that it is possible for people to do that today under the current regional system. The idea was that the best players would be concentrated in fewer teams and that this would lead to European success and larger crowds. The reorganisation into regions, I believe, is one of the main causes of Welsh rugby's problems.

Mae'r system gyfan yn draed moch, yn fy marn i. A gaf ddweud na fyddwn wedi bod o blaid creu'r rhanbarthau yn y lle cyntaf? Roedd uno timau yn y fath fodd yn gamsyniad, nid ydynt wedi llwyddo, ac os siaradwch â'r cyd-aelodau ar eich chwith, Lindsay Whittle a Jocelyn Davies, byddant yn dweud wrthych nad yw eu cymunedau erioed wedi cefnogi'r Dreigiau na'r Gleision, oherwydd eu bod yn cefnogi eu timau lleol. Mae'r gefnogaeth honno yng Nghymoedd y de, ym Morgannwg ganol, gorllewin Morgannwg a Gwent wedi diflannu. Nid yw'r bobl hyn yn mynd i unrhyw le mwyach—dyna'r sefyllfa drist iawn sydd ohoni. Y sefyllfa drist arall, yn fy marn i, yw nifer y chwaraewyr ifanc sydd wedi cael eu hatal rhag datblygu. Nid yw Matthew Morgan, sy'n faswr ar lun Barry John a Phil Bennett, yn cael llawer o gyfle i chwarae gyda'r Gweilch. Nid yw Sam Davies, Chwaraewr Ifanc y Flwyddyn y Bwrdd Rygbi Rhyngwladol—o flaen unrhyw un o hemisffer y de—yn cael llawer o gyfle i chwarae gyda'r Gweilch. Edrychaf ar rai o fawrion Cymru o Haydn Tanner i Gareth Edwards; roeddent yn chwarae ar y lefel uchaf yn 18 oed. Ni chredaf fod modd i bobl wneud hynny heddiw o dan y system ranbarthol gyfredol. Y syniad oedd y byddai'r chwaraewyr gorau yn cael eu crynhoi mewn llai o dimau ac y byddai hyn yn arwain at lwyddiant Ewropeidd a mwy o dorffeydd. Mae'r ad-drefnu i greu'r rhanbarthau, yn fy marn i, yn un o brif achosion problemau rygbi Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The gap at the second teams level is even worse. Bristol beat Aberavon 64-8. There is the player drain to England and France—many of the current Welsh squad have already gone. This is worse than when players left for rugby league. How many Welsh international players do we expect to be playing in Wales next year? It will be only those whose contracts have not come to an end, unless somebody does something and does it soon. We desperately need the WRU and the clubs to reach some sort of agreement. We cannot continue like this—it is a game of brinkmanship followed by brinkmanship. Despite the international success against northern hemisphere teams in recent years, demand for international tickets has dropped. A number of clubs do not now take their full allocation. You can actually get international tickets by just contacting the WRU, whereas anybody who has been involved in rugby for any period of time will know that you could get them only through the teams previously.

As to local clubs, the bedrock of rugby in Wales, the reduction in the number of senior teams, the reduction in the number of junior teams—action is needed to get young players playing, and to get supporters into grounds. The WRU needs not only to solve the problem at a regional level, but also at a youth level and in the national divisions. Some people here will remember when teams in the lower divisions not only had second teams, but had veteran teams playing as well. It is very difficult now for veteran teams to get a game.

A good start would be a return to local teams playing each other below the championship and premiership. Urgent action is needed. Something needs to be done and I am glad that we are discussing it here today.

Mae'r bwlch ar lefel yr ail dimau hyd yn oed yn waeth. Cafodd Aberavon ei guro 64-8 gan Fryste. Mae llif o chwaraewyr i Loegr a Ffrainc—mae llawer o garfan bresennol Cymru eisoes wedi mynd. Mae hyn yn waeth na'r adeg pan oedd chwaraewyr yn gadael i chwarae rygbi'r gynghrair. Faint o chwaraewyr rhyngwladol Cymru yr ydym yn disgwyl y byddant yn chwarae yng Nghymru y flwyddyn nesaf? Dim ond y rhai nad yw eu contractau wedi dod i ben, oni bai bod rhywun yn gwneud rhywbeth a hynny'n fuan. Mae angen dybryd i Undeb Rygbi Cymru a'r clybiau ddod i ryw fath o gytundeb. Ni allwn barhau fel hyn—mae pawb yn chwarae ar y dibyn. Er gwaethaf y llwyddiant rhyngwladol yn erbyn timau hemisffer y gogledd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r galw am docynnau rhyngwladol wedi lleihau. Nid yw nifer o glybiau yn gofyn am eu dyraniad llawn mwyach. Gallwch gael tocynnau rhyngwladol drwy gysylltu ag Undeb Rygbi Cymru erbyn hyn, ond mae unrhyw un sydd wedi bod yn ymwneud â rygbi am unrhyw gyfnod o amser yn gwybod mai dim ond drwy'r timau y gallech eu cael o'r blaen.

O ran y clybiau lleol, sylfeini rygbi yng Nghymru, mae'r lleihad yn nifer yr uwch dimau, y lleihad yn nifer y timau iau—mae angen gweithredu er mwyn cael chwaraewyr ifanc i chwarae, a denu cefnogwyr i ddod i wyllo gemau. Mae angen i Undeb Rygbi Cymru, nid yn unig ddatrys y broblem ar lefel ranbarthol, ond hefyd ar lefel ieuentid ac yn yr is-adrannau cenedlaethol. Bydd rhai pobl yma yn cofio pan oedd gan dimau yn yr adrannau is nid yn unig ail dimau, ond dimau i chwaraewyr hŷn hefyd. Mae'n anodd iawn i dimau o chwaraewyr hŷn gael gêm erbyn hyn.

Byddai'n ddechrau da pe bai timau lleol yn chwarae â'i gilydd o dan lefel y bencampwriaeth a'r uwch gynghrair unwaith eto. Mae angen gweithredu ar frys. Mae angen gwneud rhywbeth ac rwy'n falch ein bod yn ei drafod yma heddiw.

15:49

## Mick Antoniw [Bywgraffiad Biography](#)

We all recognise that Welsh rugby is part of the cultural make-up of Wales. It was interesting that we had a debate at lunchtime on the issue of the ownership of sport more generally; I think that some of that goes to the core of the issues with regard to all sport within Wales and perhaps even part of the current issue with regard to the regions and the Welsh Rugby Union. It is vital that both the WRU and the regions step up and match the excellence that has been seen on the field if they are to resolve the current turmoil within the game. In the same way that the national team has prospered by looking at every aspect of performance, nutrition, conditioning and tactics, so administrators cannot find a long-lasting settlement without taking a holistic view of the game, and a holistic view of the structure of the game in Wales. That means ensuring that local clubs are central to the long-term thinking.

Rydym i gyd yn cydnabod bod rygbi Cymru yn rhan o wead diwylliannol Cymru. Roedd yn ddiddorol inni gael dadl yn ystod amser cinio ynglŷn â pherchnogaeth ym myd chwaraeon yn fwy cyffredinol; credaf mai hynny i ryw raddau sydd wrth wraidd y problemau o ran yr holl chwaraeon yng Nghymru ac efallai hyd yn oed yn rhan o'r broblem gyfredol rhwng y rhanbarthau ac Undeb Rygbi Cymru. Mae'n hanfodol bod Undeb Rygbi Cymru a'r rhanbarthau yn dod ynghyd a dangos yr un rhagoriaeth a welwyd ar y cae, er mwyn iddynt ddatrys yr anghydfod presennol yn y gêm. Yn yr un modd ag y mae'r tîm cenedlaethol wedi ffynnu drwy edrych ar bob agwedd ar berfformiad, maeth, cyflyru a thactegau, felly ni all gweinyddwyr ddod o hyd i ateb parhaol heb edrych ar y gêm yn ei chyfanrwydd, ac edrych ar strwythur y gêm yng Nghymru yn ei gyfanrwydd. Mae hynny'n golygu sicrhau bod clybiau lleol yn rhan ganolog o'r trefniadau yn yr hirdymor.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

We should not forget that it is the local clubs and fans that are at the root of the passion for rugby that exists within Wales. Ultimately, the fans are its future. The passion is stoked by longstanding local rivalries, which reach their climax when the national team runs out at the Millennium Stadium. In this debate, I pay tribute to the work that my colleague, Owen Smith, has done because he has raised the whole issue of regional rugby, and his campaign to highlight the absence of professional rugby in the south Wales Valleys, which have been the heartland of the game, has exposed the high levels of public disquiet at the current structure, with over 10,000 signing his internet and paper petitions. He has rightly focused on the local identity as being at the core of the game, and makes a convincing argument that the current regional structure does not engage the fans in the way that only a local club can, with all its history and the tradition that it entails. If Welsh rugby loses the hearts and minds of the fans, the game will not flourish.

So, whereas we are fortunate in Wales to be witnessing what might be called a golden generation of players bringing success to the national side, we must remember that, while it is the regions and the WRU that have honed these players, it is the clubs who first identify and then nurture their talent. We cannot take this for granted in the future. If we marginalise the status of clubs within the Welsh structure, we risk losing the clubs and, as a result, the very talent that has brought Wales so much success over the years.

It is clear that no-one believes that the status quo is sustainable and it is clear that a long-term solution must be found, not just a solution that simply kicks the roots of the problems into touch. I believe that the Welsh Rugby Union and the regions are sincere in looking for an outcome that puts the game on a firm footing, but, of course, both parties want to protect their interests. I believe that they can only do this if they put the wellbeing of local clubs and grass-roots rugby at the heart of their discussion. Finance and commerce are important to any sport, but reform has to be based on more than the commercial interests of competing sections of the sport. It has to be based on the principles of inclusivity of fans and their communities, and this is what will lead to the best outcome for the WRU and the regions individually, as well as for the wider game within Wales.

Ni ddylem anghofio mai clybiau lleol a'u cefnogwyr sydd wrth wraidd yr angerdd tuag at rygbi sy'n bodoli yng Nghymru. Yn y pen draw, y cefnogwyr yw'r dyfodol. Mae'r angerdd yn cael ei danio gan gystadleuaeth hirsefydlog rhwng clybiau lleol, sy'n cyrraedd ei anterth pan fydd y tîm cenedlaethol yn rhedeg allan yn Stadiwm y Mileniwm. Yn y ddadl hon, talaf deyrnged i'r gwaith y mae fy nghyd-Aelod, Owen Smith, wedi'i wneud oherwydd mae wedi codi mater rygbi rhanbarthol yn ei gyfanrwydd, ac mae ei ymgyrch i dynnu sylw at ddiffyg rygbi proffesiynol yng Nghymoedd y de, sydd wedi bod yn un o gadarnleoedd y gêm, wedi amlygu'r cryn anesmwythyd a deimlir ymhlith y cyhoedd ynghylch y strwythur presennol, gyda thros 10,000 yn llofnodi ei ddeisebau ar y rhyngwrwyd ac ar bapur. Mae wedi canolbwyntio ar hunaniaeth leol fel craidd y gêm, a hynny'n gwbl briodol, ac mae'n cyflwyno dadl argyhoeddiadol nad yw'r strwythur rhanbarthol presennol yn ennyn cefnogaeth y cefnogwyr yn y ffordd y gall ond dwb lleol ei wneud, gyda'i holl hanes a'r traddodiad sydd ynghlwm wrtho. Os yw rygbi Cymru yn colli calonnau a meddyliau'r cefnogwyr, ni fydd y gêm yn ffynnu.

Felly, er ein bod yn ffodus yng Nghymru i weld yr hyn y gellid ei alw'n genhedlaeth aur o chwaraewyr yn dod â llwyddiant i'r tîm cenedlaethol, rhaid inni gofio, er mai'r rhanbarthau ac Undeb Rygbi Cymru sydd wedi meithrin y chwaraewyr hyn, y clybiau sy'n eu nodi'n gyntaf ac yna'n meithrin eu talent. Ni allwn gymryd hyn yn ganiataol yn dyfodol. Os byddwn yn ymleiddio statws clybiau o fewn strwythur Cymru, rydym mewn perygl o gollir clybiau ac, o ganlyniad, yr union dalent sydd wedi dod â chymaint o lwyddiant i Gymru dros y blynyddoedd.

Mae'n amlwg nad oes neb yn credu bod y sefyllfa sydd ohoni yn gynaliadwy ac mae'n amlwg bod yn rhaid dod o hyd i ateb hirdymor, yn hytrach nag ateb sy'n anwybyddu gwreiddiau'r problemau. Credaf fod Undeb Rygbi Cymru a'r rhanbarthau yn ddi-dwyll yn eu hymgais i chwilio am ateb sy'n gosod y gêm ar sylfeini cadarn, ond, wrth gwrs, mae'r ddau barti am ddiogelu eu buddiannau. Credaf mai dim ond os ydynt yn rhoi lles clybiau lleol a rygbi ar lawr gwlad wrth wraidd eu trafodaeth y gallant wneud hynny. Mae cyllid a masnach yn bwysig i unrhyw gamp, ond rhaid i unrhyw ddiwygio fod yn seiliedig ar fwy na buddiannau masnachol rhannau o'r gêm sy'n mynd yn groes i'w gilydd. Rhaid iddo fod yn seiliedig ar egwyddorion cynnwys cefnogwyr a'u cymunedau, a dyna'r hyn a fydd yn arwain at y canlyniad gorau i Undeb Rygbi Cymru a'r rhanbarthau unigol, yn ogystal ag i'r gêm ehangach yng Nghymru.

15:52

## John Griffiths [Bywgraffiad Biography](#)

*Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport*

I welcome this motion today, and I think it is clear that there is a great deal of common ground between us on these issues. As we have heard, rugby is very important to Wales. We are a sporting nation, and rugby is a central part of that. There is a great passion for the game. It is important to our identity and interwoven throughout our communities. As is often said, virtually everyone in Wales has an opinion on who should be the Welsh outside half. Alongside building our image in the world, at home it delivers considerable benefits across the range of Welsh Government responsibilities.

Croesawaf y cynnig hwn heddiw, a chredaf ei bod yn amlwg bod cryn dipyn o dir cyffredin rhyngom ynglŷn â'r materion hyn. Fel y clywsom, mae rygbi yn bwysig iawn i Gymru. Rydym yn genedl sy'n hoff o chwaraeon, ac mae rygbi yn rhan ganolog o hynny. Mae brwdfrydedd mawr dros y gêm. Mae'n bwysig i'n hunaniaeth ac mae wedi'i gyd-blethu â'n cymunedau. Fel y dywedir yn aml, mae gan bron bawb yng Nghymru farn ynghylch pwy ddylai chwarae maswr i Gymru. Ynghyd â chreu ein delwedd yn y byd, yma yng Nghymru mae'n cynnig manteision sylweddol o ran holl gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

We as a Welsh Government recognise the important role that sporting success plays in inspiring our young people and helping to promote Wales on a global stage. Welsh rugby has played a major role in this, and the Millennium Stadium itself is a global icon that has made a significant contribution to the Welsh economy. The stadium continues to succeed in attracting high-profile global events such as the Rugby World Cup, which we will welcome to Wales again in 2015, providing us with an opportunity to showcase to the world our passion for the sport that remains one of Wales's most popular in terms of participation, both for children and adults. I very much commend the leader of the Welsh Conservatives on his example in continuing to play rugby alongside the rest of the Assembly team, and also the colleague immediately to my left, of course.

It is critical for the health of our nation that people of all ages and abilities are physically active, and of course sport contributes hugely to providing the opportunities to do so. I am pleased to say that there has been an upward trend in participation in rugby union and club membership over the last six years or so. With the support of our annual investment through Sport Wales, the Welsh Rugby Union is creating more opportunities for people to stay involved. Not only is rugby union having an impact on participation levels in general, but it is making a significant contribution in our more deprived communities. Sport is a successful tool for engaging young people in their communities and the WRU is engaging with those young people in Communities First areas through the StreetGames programme.

As I have said, Wales is a strong rugby nation. At international level, we have enjoyed a period of unprecedented success over the last eight years—three grand slams and a rugby sevens world cup. Our national coach, Warren Gatland, and his coaching team, have been rightly recognised for their achievements and the Welsh Rugby Union has been able to secure Warren's services for the next two world cups. We have the best rugby team in the northern hemisphere and, after our contribution to the Lions' success in Australia last year, we have players who are worldwide ambassadors for our country and role models for our young people. All of this is no accident. It has only been achieved through the commitment and ambition of the WRU and the support and collaboration of the regions and clubs throughout the country. Everyone involved in Welsh rugby at all levels of the game should take credit for the success that we have enjoyed. Long may that continue.

However, there are difficulties and we have heard about them today. They have been well rehearsed in the media at the current time. The dispute between the WRU and the regions is obviously not a straightforward issue and we have heard that again today from Members. It is a dispute that divides opinion and it is not just Welsh rugby that is affected; there is uncertainty about future arrangements for European club competition.

Rydym ni fel Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl bwysig y mae llwyddiant ym myd chwaraeon yn ei chwarae o ran ysbrydoli ein pobl ifanc a helpu i hyrwyddo Cymru ar lwyfan byd-eang. Mae rygbi Cymru wedi chwarae rhan bwysig yn hyn o beth, ac mae Stadiwm y Mileniwm ei hun yn eicon byd-eang sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru. Mae'r stadiwm yn dal i lwyddo i ddenu digwyddiadau byd-eang proffil uchel megis Cwpan Rygbi'r Byd, y byddwn yn ei groesawu i Gymru unwaith eto yn 2015, gan roi cyfle inni arddangos i'r byd ein brwdfrydedd dros gamp sy'n parhau i fod yn un o'r rhai mwyaf poblogaidd yng Nghymru o ran cyfranogiad, i blant ac oedolion. Cymeradwyaf yn fawr iawn arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig am fod yn esiampl drwy barhau i chwarae rygbi ochr yn ochr â gweddill tîm y Cynulliad, a hefyd y cyd-Aelod yn union ar fy ochr chwith, wrth gwrs.

Mae'n hollbwysig i iechyd ein cenedl fod pobl o bob oedran a gallu yn gorfforol egniol, ac wrth gwrs mae chwaraeon yn cyfrannu'n helaeth iawn at roi'r cyfleoedd i wneud hynny. Rwy'n falch o ddweud inni weld tuedd tuag i fyny o ran cyfranogiad yn rygbi'r undeb ac aelodaeth o glybiau dros y chwe blynedd diwethaf. Gyda chymorth ein buddsoddiad blynyddol drwy Chwaraeon Cymru, mae Undeb Rygbi Cymru yn creu mwy o gyfleoedd i bobl barhau i gymryd rhan. Mae rygbi'r undeb nid yn unig yn cael effaith ar lefelau cyfranogiad yn gyffredinol, ond mae'n gwneud cyfraniad sylweddol yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae chwaraeon yn ddull llwyddiannus o ennyn diddordeb pobl ifanc yn eu cymunedau ac mae Undeb Rygbi Cymru yn ymgysylltu â'r bobl ifanc hynny mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf drwy'r rhaglen GemauStryd.

Fel y dywedais, mae Cymru yn genedl rygbi gref. Ar lefel ryngwladol, rydym wedi mwynhau cyfnod o lwyddiant dros yr wyth mlynedd diwethaf na welwyd ei debyg o'r blaen—tair camp lawn a chwpan rygbi saith bob ochr y byd. Mae ein hyfforddwr cenedlaethol, Warren Gatland, a'i dîm hyfforddi, wedi cael eu cydnabod am eu cyflawniadau a hynny'n gwbl briodol ac mae Undeb Rygbi Cymru wedi llwyddo i sicrhau gwasanaeth Warren am y ddwy gwpan byd nesaf. Mae gennym y tîm rygbi gorau yn hemisffer y gogledd ac, ar ôl ein cyfraniad i lwyddiant y Llewod yn Awstralia y llynedd, mae gennym chwaraewyr sy'n llysgenhadon ledled y byd dros ein gwlad a modelau rôl i'n pobl ifanc. Nid drwy hap y bu hyn yn digwydd. Dim ond drwy ymrwymiad ac uchelgais Undeb Rygbi Cymru a chymorth a chydweithrediad y rhanbarthau a'r clybiau ledled y wlad y cyflawnwyd hyn. Dylai pawb sy'n ymwneud â rygbi Cymru ar bob lefel o'r gêm hawlio'r clod am ein llwyddiant. Hir y parhaed hynny.

Fodd bynnag, cyfyd anawsterau ac rydym wedi clywed amdanynt heddiw. Maent wedi cael eu trafod yn helaeth yn y cyfryngau ar hyn o bryd. Yn amlwg, nid yw'r anghydfod rhwng Undeb Rygbi Cymru a'r rhanbarthau yn fater syml ac rydym wedi clywed hynny eto heddiw gan Aelodau. Mae'n anghydfod lle ceir amrywiaeth barn ac nid ar rygbi Cymru yn unig y mae hyn yn effeithio; ceir ansicrwydd ynghylch trefniadau ar gyfer cystadleuaeth glwb Ewropeaidd yn y dyfodol.

It would seem that, to some extent, Welsh rugby is at a crossroads, but we all hope that, for the sake of the game, the people who play it and those who love to watch it, a speedy resolution can be found. As the First Minister informed Members yesterday, he has written to the parties involved and urged them to come to a resolution as swiftly as possible. I have reinforced this message in conversations that I have had with representatives of the WRU and the regions in recent days. We all want to see a successful club and regional structure and to see Welsh teams succeed in European competitions. We know that we have a successful academy structure that has delivered world-class rugby players such as George North, Alex Cuthbert, Sam Warburton, Dan Lydiate, Jonathan Davies, Leigh Halfpenny and Justin Tipuric, to mention just a few.

The important thing, as Members here have stressed, is that we continue to develop the game at the grass-roots level and develop the next cohort of talented players to represent our regions and the senior national teams. I think that I can say with confidence that all parties involved in discussions about the future of Welsh rugby have, at the heart of those discussions, that same ambition and determination.

I will take an intervention from Bethan Jenkins.

15:58 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Recently, many Assembly Members have been involved in the dispute that existed in Welsh football and there was an inquiry in the National Assembly about that. Do you not believe that looking into governance is feasible in terms of Welsh rugby, given that there are so many concerns about the fact that some elements of the information that the WRU has are not fully out there in the public domain? Surely that would help the situation somewhat for the future.

15:59 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Governance issues are, of course, extremely important and I know that there are many different views in Wales. An inquiry did take place and recommendations were made regarding football in Wales. That is something that could take place with rugby as well. It is open to Members and committees as to whether that is taken forward.

In conclusion, I very much look forward—I think that I can say with confidence that this applies to all Members in the Assembly—to that speedy resolution that many of us here today urge and want to see take place as quickly as possible. I think that all Members will join me in wishing further success to the Welsh team in the forthcoming RBS 6 Nations championship.

16:00 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I call on Darren Millar to reply to the debate.

Ymddengys, i ryw raddau, fod rygbi Cymru ar groesffordd, ond rydym i gyd yn gobeithio, er budd y gêm, y bobl sy'n ei chwarae a'r rhai sydd wrth eu bodd yn ei wyllo, y gellir cael penderfyniad buan. Fel y dywedodd y Prif Weinidog wrth yr Aelodau ddoe, mae wedi ysgrifennu at bawb dan sylw ac wedi eu hannog i ddod i o hyd i ateb cyn gynted ag y bo modd. Rwyf wedi atgyfnerthu'r neges hon mewn sgyrsiau yr wyf wedi'u cael gyda chynrychiolwyr o Undeb Rygbi Cymru a'r rhanbarthau yn ddiweddar. Rydym oll am weld strwythur clwb a rhanbarthol llwyddiannus a gweld timau o Gymru yn llwyddo mewn cystadlaethau Ewropeaidd. Gwyddom fod gennym strwythur academi llwyddiannus sydd wedi meithrin chwaraewyr rygbi o'r radd flaenaf fel George North, Alex Cuthbert, Sam Warburton, Dan Lydiate, Jonathan Davies, Leigh Halfpenny a Justin Tipuric, i enwi ond rhai.

Y peth pwysig, fel y pwysleisodd Aelodau yma, yw ein bod yn parhau i ddatblygu'r gêm ar lawr gwlad a datblygu'r to nesaf o chwaraewyr talentog i gynrychioli ein rhanbarthau a'r uwch dimau cenedlaethol. Credaf y gallaf ddweud gyda phob ffydd bod pob parti sy'n rhan o'r trafodaethau am ddyfodol rygbi Cymru, ynghanol y trafodaethau hynny, yn rhannu'r un uchelgais a phenderfyniad hwnnw.

Derbyniaf ymyriad gan Bethan Jenkins.

Yn ddiweddar, mae llawer o Aelodau'r Cynulliad wedi bod yn ymwneud â'r anghydfod a oedd yn bodoli ym maes pêl-droed Cymru a bu ymchwiliad yn y Cynulliad Cenedlaethol i hynny. Oni chredwch fod modd ystyried llywodraethu o ran rygbi Cymru, o gofio bod cymaint o bryderon ynglŷn â'r ffaith nad yw rhai elfennau o'r wybodaeth sydd gan Undeb Rygbi Cymru yn gwbl gyhoeddus? Oni fyddai hynny'n helpu'r sefyllfa ryw ychydig ar gyfer y dyfodol.

Mae materion llywodraethu, wrth gwrs, yn hynod bwysig a gwn fod cryn amrywiaeth barn yng Nghymru. Cynhaliwyd ymchwiliad a gwnaed argymhellion ynghylch pêl-droed yng Nghymru. Mae hynny'n rhywbeth a allai ddigwydd gyda rygbi hefyd. Mae'n agored i'r Aelodau a'r pwyllgorau benderfynu a ddylid gweithredu felly.

I gloi, edrychaf ymlaen yn fawr iawn—credaf y gallaf ddweud yn hyderus bod hyn yn berthnasol i bob Aelod yn y Cynulliad—at weld y penderfyniad buan hwnnw y mae llawer ohonom yma heddiw yn ei annog ac yn awyddus i'w weld cyn gynted ag y bo modd. Credaf y bydd yr holl Aelodau'n ymuno â mi i ddymuno llwyddiant unwaith eto i dîm Cymru ym mhencampwriaeth RBS y 6 Gwlad sydd ar ddod.

Diolch ichi, Weinidog. Galwaf ar Darren Millar i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

As a patron of the Welsh Crown Green Bowling Association, I think that people may find it unusual that I am making a contribution to a debate on Welsh rugby. However, I did actually play rugby in my teens. I was captain of my local team in Abergele. In those days, I played as a back; nowadays, if I were ever allowed onto a rugby field any more, I would be in the forwards, no doubt, in the scrum. However, I am a regular watcher of the amateur sport. My son is an avid team member in the under-11s in Rhyl, and it is a fantastic game. I love the game of Welsh rugby union, and that is why it is so important that we find a resolution to the current dispute.

It would be remiss of me, before I go on to talk about other people's comments in today's debate, not to mention Parc Eirias in my own constituency in the town of Colwyn Bay. It is a great example of how a bit of investment in the sport—in a region that has traditionally not paid as much attention to the sport as other parts of Wales—can go a long way to improving interest in the game. Of course, Rygbi Gogledd Cymru has its home at Parc Eirias. We have seen under-20s international matches there, we have seen a Japan and Russia friendly take place towards the end of last year, and it is wonderful to see the people of north Wales getting behind the vision at Parc Eirias. I am very grateful, I have to say, for the investment that the Welsh Government has put into Parc Eirias. It has helped to turn around the fortunes of Colwyn Bay and boost regeneration more widely in the town.

We all have to pay regard to the tremendous contribution of rugby to our culture as a nation. It is our national game; it is part of what defines Wales as a nation; and, of course, the Minister was quite right to talk about the role of rugby players internationally being the role of ambassadors for our nation when they go to play abroad. It is not all doom and gloom. We know that there is a bit of an impasse in terms of the agreement, but, of course, there has been an increase in participation in rugby and, indeed, in club membership, as the Minister quite rightly pointed out. We hope to see those things continue and those trends continue. However, I fear that the reputation of the game is being dragged down by the current dispute, as many Members have said.

I have to say that I think there have been more sightings of Elvis Presley in Wales than of Lynne Neagle agreeing with the leader of the opposition, as she has done this afternoon. [Laughter.] However, it is great to see people on all sides of the Chamber talking up the need for resolution and expressing their frustration at the current deadlock. I, for one, very much hope that the debate here today will show very clearly to the Welsh Rugby Union and to the regions that we want them to get back to the table and sort this mess out so that the game can continue to prosper in future.

Fel un o noddwyr Cymdeithas Bowlio Lawnt Coron Cymru, credaf y bydd pobl yn meddwl ei bod yn rhyfedd o bosibl fy mod yn gwneud cyfraniad at ddadl ynglŷn â rygbi Cymru. Fodd bynnag, chwaraeais rygbi yn fy ardegau. Roeddwn yn gapten ar fy nhîm lleol yn Abergele. Yn y dyddiau hynny, bûm yn un o'r olwyr; erbyn hyn, pe cawn byth fynd ar gae rygbi eto, byddwn yn un o'r blaenwyr, yn ddiau, yn y sgrym. Fodd bynnag, rwy'n gwyllo'r gêm amatur yn rheolaidd. Mae fy mab yn aelod brwd o dîm dan 11 yn y Rhyl, ac mae'n gêm wych. Rwyf wrth fy modd gyda rygbi'r undeb yng Nghymru, a dyna pam mae mor bwysig inni ddod o hyd i ateb i'r anghydfod presennol.

Byddwn ar fai, cyn imi fynd ymlaen i sôn am sylwadau pobl eraill yn y ddadl heddiw, pe na bawn yn sôn am Parc Eirias yn fy etholaeth fy hun yn nhref Bae Colwyn. Mae'n enghraifft wych o'r ffordd y gall ychydig o fuddsoddiad yn y gêm—mewn rhanbarth nad yw'n draddodiadol wedi rhoi cymaint o sylw i'r gamp â rhannau eraill o Gymru—wneud cryn dipyn i ennyn mwy o ddiddordeb yn y gêm. Wrth gwrs, mae Parc Eirias yn gartref i Rygbi Gogledd Cymru. Rydym wedi gweld gemau rhyngwladol dan 20 yno, gwelsum gêm gyfeillgar rhwng Japan a Rwsia yn ddiweddedd y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'n wych gweld pobl y gogledd yn cefnogi'r weledigaeth ym Mharc Eirias. Rwy'n ddiolchgar iawn, rhaid imi ddweud, am y buddsoddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ym Mharc Eirias. Mae wedi helpu Bae Colwyn i ffynnu unwaith eto ac wedi rhoi hwb i adfywio'n fwy cyffredinol yn y dref.

Rhaid inni i gyd roi sylw i gyfraniad aruthrol rygbi i'n diwylliant fel cenedl. Ein gêm genedlaethol ydyw; mae'n rhan o'r hyn sy'n diffinio Cymru fel cenedl, ac, wrth gwrs, roedd y Gweinidog yn llygad ei le i sôn am rôl chwaraewyr rygbi rhyngwladol fel llysgenhadon dros ein cenedl pan fyddant yn mynd i chwarae dramor. Nid yw popeth yn ddu i gyd. Gwyddom fod ychydig o helbul ynglŷn â'r cytundeb, ond, wrth gwrs, bu cynnydd yn y niferoedd sy'n chwarae rygbi ac, yn wir, yn aelodaeth clybiau, fel y nododd y Gweinidog yn gwbl briodol. Rydym yn gobeithio gweld y pethau hynny yn parhau a'r tueddiadau hynny yn parhau. Fodd bynnag, ofnaf fod enw da'r gêm yn cael ei bardduo gan yr anghydfod presennol, fel y dywedodd llawer o Aelodau.

Rhaid imi ddweud fy mod yn credu inni weld mwy o achosion o bobl yn meddwl eu bod wedi gweld Elvis Presley yng Nghymru nag enghreifftiau o Lynne Neagle yn cytuno ag arweinydd yr wrthblaid, fel y gwnaeth y prynhawn yma. [Chwerthin.] Fodd bynnag, mae'n wych gweld pobl ar bob ochr i'r Siambr yn trafod yr angen i ddatrys yr anghydfod a mynegi eu rhwystredigaeth ynglŷn â'r diffyg cytundeb ar hyn o bryd. Rwyf innau hefyd yn mawr obeithio y bydd y drafodaeth yma heddiw yn dangos yn glir iawn i Undeb Rygbi Cymru ac i'r rhanbarthau ein bod am iddynt fynd yn ôl at y bwrdd a datrys y problem hon fel y gall y gêm barhau i ffynnu yn y dyfodol.

We have already heard from many speakers, including Byron Davies, Mohammad Asghar and others, about the tremendous economic impact the game has in Wales in all parts of the country. We know that the Millennium Stadium is a tremendous asset, not just to Cardiff but to the nation. Indeed, it is not just rugby that is played at the Millennium Stadium. We saw it host some of the Olympic football events as well. So it is really important for the strength of the game in future that this dispute is resolved. I, for one, want to see people back at the table. However, I think that there is potentially a role for the National Assembly, perhaps through a committee inquiry, to look at the governance arrangements for the game in future in order to support its development in the longer term. I very much hope that the request from the leader of the opposition to the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee will be acceded to. I know that it is something that the committee will be considering as part of its forward work programme. I think that that is a useful intervention that this Assembly could make in making sure that these problems are headed off in future.

Rydym eisoes wedi clywed gan lawer o siaradwyr, gan gynnwys Byron Davies, Mohammad Asghar ac eraill, yn sôn am yr effaith economaidd aruthrol y mae'r gêm wedi'i chael yng Nghymru ym mhob cwr o'r wlad. Gwyddom fod Stadiwm y Mileniwm yn ased gwych, nid yn unig i Gaerdydd, ond i'r wlad. Yn wir, nid dim ond rygbi sy'n cael ei chwarae yn Stadiwm y Mileniwm. Cynhaliwyd rhai o'r digwyddiadau pêl-droed Olympaidd yno hefyd. Felly, mae'n bwysig iawn o ran cryfder y gêm yn y dyfodol bod yr anghydfod hwn yn cael ei ddatrys. Hoffwn innau weld pobl yn siarad â'i gilydd unwaith eto. Fodd bynnag, credaf y gall fod rôl i'r Cynulliad Cenedlaethol, efallai drwy ymchwiliad gan y pwyllgor, i edrych ar y trefniadau llywodraethu i'r gêm yn y dyfodol er mwyn ei helpu i ddatblygu yn y tymor hwy. Gobeithio'n fawr y bydd y cais gan arweinydd yr wrthblaid i Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn cael ei dderbyn. Gwn ei fod yn rhywbeth y bydd y pwyllgor yn ei ystyried fel rhan o'i flaenraglen waith. Credaf fod hynny'n ymriad defnyddiol y gallai'r Cynulliad hwn ei wneud er mwyn sicrhau y caiff y problemau hyn eu hosgoi yn y dyfodol.

16:04 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for taking an intervention, Darren. I would just like to thank the committee, which considered that this morning. I have received a letter saying that it is going to write to the parties today and, hopefully, get a constructive response from the WRU and the regions. I would like to put on the record my thanks to the committee for considering that this morning.

Diolch yn fawr iawn am dderbyn ymriad, Darren. Hoffwn ddiolch i'r pwyllgor, a ystyriodd hynny y bore yma. Rwyf wedi derbyn llythyr yn dweud y bydd yn ysgrifennu at y partïon heddiw a, gobeithio, yn cael ymateb adeiladol gan Undeb Rygbi Cymru a'r rhanbarthau. Hoffwn gofnodi fy niolch i'r pwyllgor am ystyried hynny y bore yma.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

16:05 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Hear, hear. I am very grateful to you for bringing that update to the debate. It is something that could potentially move the situation forward and I would welcome that inquiry, because the status quo is not sustainable. We know that this row about financing, perhaps, will always take place at every opportunity when there is a review of any contractual arrangements in the future, but it puts people off in terms of other third party investment into the game, as Peter Black rightly pointed out.

Clywch, clywch. Rwy'n ddiolchgar iawn ichi am roi'r wybodaeth ddiweddaraf honno yn ystod y ddadl. Mae'n rhywbeth a allai symud pethau yn eu blaen a byddwn yn croesawu ymchwiliad o'r fath, gan nad yw'r sefyllfa sydd ohoni yn gynaliadwy. Gwyddom y bydd y frae hon ynglŷn ag ariannu, o bosibl, bob amser yn codi pan fydd adolygiad o unrhyw drefniadau cytundebol yn y dyfodol, ond mae'n gwneud i bobl ailfeddwl o ran buddsoddi gan drydydd partïon eraill yn y gêm, fel y nododd Peter Black a hynny'n gwbl gywir.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Therefore, let us bring this matter to a conclusion and let us hope that the result of today's debate will be people talking again and trying to resolve their differences and closing the gap that is between them in order for the game to move on. As Antoinette Sandbach has mentioned this, it is wonderful to know that she is a regular visitor to The Old Stag in Llangernyw to watch these games, as indeed I have been in the past. I look forward to seeing her there cheering on the national team during the RBS 6 Nations in a few weeks' time.

Felly, gadewch inni ddod â'r mater hwn i ben a gobeithio, o ganlyniad i'r ddadl heddiw, y bydd pobl yn siarad â'i gilydd unwaith eto ac yn ceisio rhoi terfyn ar eu gwahaniaethau a chau'r bwlch sydd rhyngddynt er mwyn i'r gêm symud ymlaen. Gan fod Antoinette Sandbach wedi sôn am hyn, mae'n wych cael gwybod ei bod yn ymwelydd cyson â'r Old Stag yn Llangernyw i wylïo'r gemau hyn, fel minnau hefyd yn y gorffennol. Edrychaf ymlaen at ei gweld hi yno yn cefnogi'r tîm cenedlaethol yn groch yn ystod pencampwriaeth RBS y Chwe Gwlad ymhen ychydig wythnosau.

16:06 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see not. Therefore, the motion without amendment is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. Felly, derbynnir y cynnig heb ei ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 16:06.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 16:06.

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Deyrnas Unedig

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones, gwelliant 2 yn enw William Graham, a gwelliant 3 yn enw Lesley Griffiths. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol.*

Cynnig NDM5398 William Graham

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu bod Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn gryfach gyda'i gilydd fel rhan o'r Deyrnas Unedig.

## Welsh Conservatives Debate: The United Kingdom

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones, amendment 2 in the name of William Graham, and amendment 3 in the name of Lesley Griffiths. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be de-selected.*

Motion NDM5398 William Graham

To propose that the National Assembly for Wales:

Believes that Wales, Scotland, Northern Ireland and England are stronger together as part of a United Kingdom.

16:06

### Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

It is an absolute privilege to move this debate on behalf of the Welsh Conservative group. As a Welsh Conservative and a fervent believer in the safety, strength and stability of the United Kingdom, I will put forward our case as to why we believe that Wales, Scotland, Northern Ireland and England are better together.

This debate is timely, given the forthcoming referendum on Scottish independence posing a rather significant challenge to our union. There are many inherent connections between the home nations. The reasons for maintaining a strong United Kingdom, however, go beyond camaraderie, culture and community. As a United Kingdom, we enjoy a strong voice at the United Nations, the European Union, NATO and the International Monetary Fund. Estimates by the Centre for Economics and Business Research are that Britain will be the largest economy in Europe by 2030, surpassing Germany and presenting numerous opportunities for growth, and this is already beginning to show.

The Confederation of British Industry further estimates a current UK trade surplus of £5 billion in green technology and services, with further increases predicted in the food and drinks industry of £7.4 billion and a £4.2 billion rise in the exports of the chemical and pharmaceutical industries. The United Kingdom is second only to the United States of America in the exporting of services in the knowledge-intensive sector, with predictions that this market will expand by some 260% in Latin America, Asia and Africa. Together, our four component nations are able to capitalise on these opportunities and the resultant growth.

As a union, the UK is the sixth wealthiest country in the world with an esteemed heritage as a global leader in innovation and industry. With emerging economies in BRICS nations coming to dominate in the years ahead, we risk being left behind in the global race if we are divided.

Cynigiau y cynnig.

Braint o'r mwyaf yw cael cyflwyno'r ddadl hon ar ran grŵp y Ceidwadwyr Cymreig. Fel Ceidwadwr Cymreig a chredwr mawr yn niogelwch, cadernid a sefydlogrwydd y Deyrnas Unedig, byddaf yn cyflwyno ein dadl ynghylch pam y credwn fod Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn well gyda'i gilydd.

Mae'r ddadl hon yn amserol, o ystyried y refferendwm arfaethedig ar annibyniaeth i'r Alban sy'n cynnig cryn her i'n hundeb. Mae llawer o gysylltiadau cynhenid rhwng gwledydd y DU. Fodd bynnag, mae'r rhesymau dros gynnal Teyrnas Unedig gref, yn mynd y tu hwnt i gyfeillgarwch, diwylliant a chymuned. Fel Teyrnas Unedig, mae gennym lais cryf yn y Cenhedloedd Unedig, yr Undeb Ewropeaidd, NATO a'r Gronfa Ariannol Ryngwladol. Yn ôl amcangyfrifon gan y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Economeg a Busnes Prydain fydd yr economi fwyaf yn Ewrop erbyn 2030, gan ragori ar yr Almaen a chynnig cyfleoedd lu ar gyfer twf, ac mae hyn eisoes yn dechrau dod i'r golwg.

At hynny mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yn amcangyfrif gwarged masnach o £5 biliwn i'r DU ar hyn o bryd o ganlyniad i dechnoleg werdd a gwasanaethau, gan ragweld cynnydd pellach o £7.4 biliwn yn y diwydiant bwyd a diod a chynnydd o £4.2 biliwn yn allforion y diwydiannau cemegol a fferyllol. Mae'r Deyrnas Unedig yn ail yn unig i Unol Daleithiau America o ran allforio gwasanaethau yn y sector gwybodaeth-ddwys, a rhagwelir y bydd y farchnad hon yn ehangu tua 260% yn America Ladin, Asia ac Affrica. Gyda'n gilydd, mae pedair gwlad ein hundeb yn gallu manteisio ar y cyfleoedd hyn a'r twf a ddaw yn sgîl hynny.

Fel undeb, y DU yw'r chweched wlad gyfoethocaf yn y byd a chanddi dreftadaeth glodforus fel arweinydd byd-eang ym maes arloesi a diwydiant. Gyda'r economïau sy'n datblygu yn y gwledydd BRICS yn dod i'r brig yn y blynyddoedd sydd i ddod, rydym mewn perygl o gael ein gadael ar ôl yn y ras fyd-eang os cawn ein rhannu.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Proponents of an independent Scotland focus on its ability to keep the revenue generated by North sea oil, but as 'The Economist' highlighted, this would only just recover the amount that it loses in subsidies from the UK. Moreover, this scant resource would constitute some 18% of gross domestic product, making an independent Scotland increasingly reliant on North sea oil, whose production levels fall by around 6% a year.

YouGov polling suggests that just over only a quarter are in favour of independence, whereas 32% want further devolution, but as part of the United Kingdom. Here, the Welsh public are inherently proud of its dual identity as Welsh and British. This is clearly demonstrated by just 9% support for independence; a figure that has not risen for over a decade and a half.

We share a common culture. We are rivalries in rugby, but joint victors at the Olympics. Our dual identity as both Welsh and British makes the United Kingdom unique, and should, of course, be celebrated. There is a terrific history of Welsh contributions to the common culture of the United Kingdom. Ambassadors such as Dylan Thomas, Ellie Simmonds, Lord Roberts—by that, I mean Wyn Roberts—Richard Burton and Sir Terry Matthews are all celebrated for their contributions to Wales and the United Kingdom. Our own Presiding Officer, recently honoured as a Dame of the realm, personifies the importance of Welsh contributions to the United Kingdom.

Since the onset of devolution, Wales has received £208 billion in funding from the UK Government and, more recently, has received significant infrastructure investment from the UK Government of £500 million for transport infrastructure, further encouraging the growth of our economy, and almost £60 million to roll out broadband, enabling start-ups in technology industries to form the success stories of our tomorrow. Indeed, it is the UK Government in its response to the Silk commission that has extended to Wales the greatest level of autonomy in modern history, with the independence to raise more of our own revenue being devolved, treating us as an equal partner within the United Kingdom. Wales receives a net subsidy from other parts of the UK to the tune of some 23% of GDP and Northern Ireland receives 29%. The basis of the union has always been that money is redistributed to support those components of the UK in greater need of support. Were this union to end, large swathes of our nations would meet with serious financial constraints. It is a fact that smaller nations are far more vulnerable to economic shocks. Let us remember the voices in the Chamber in favour of leaving the union and calling for emulating the model of Iceland, only months before its economy suffered a severe collapse, leaving it with unemployment over 2% higher than pre-recession levels—

Mae cefnogwyr annibyniaeth i'r Alban yn canolbwyntio ar ei gallu i gadw'r refeniw a gynhyrchir gan olew Môr y Gogledd, ond fel y pwysleisiodd 'The Economist', ni fyddai hwnnw ond yn adennill y swm y bydd yn ei gollu mewn cymorthdaliadau gan y DU. Ar ben hynny, byddai'r adnodd prin hwn yn cyfrif am tua 18% o gynnyrch mewnwladol crynswth, gan wneud yr Alban fel gwlad annibynnol yn fwyfwy dibynnol ar olew Môr y Gogledd, y mae eu lefelau cynhyrchu yn gostwng tua 6% y flwyddyn.

Awgryma arolwg barn gan YouGov mai dim ond ychydig dros chwarter sydd o blaid annibyniaeth, tra bod 32% am weld datganoli pellach, ond fel rhan o'r Deyrnas Unedig. Yma, mae'r cyhoedd yng Nghymru yn falch iawn o'i hunaniaeth ddeuol yn Gymry ac yn Brydeinwyr. Dangosir hyn yn glir gan y 9% yn unig sydd o blaid annibyniaeth; ffigur nad yw wedi codi ers dros ddegawd a hanner.

Rydym yn rhannu diwylliant cyffredin. Rydym yn cystadlu â'i gilydd ym maes rygbi, ond yn gyd-fuddugwyr yn y Gemau Olympaidd. Mae ein hunaniaeth ddeuol fel Cymry a Phrydeinwyr yn gwneud y Deyrnas Unedig yn unigryw, a dylai, wrth gwrs, gael ei dathlu. Mae gan Gymru hanes gwyth o gyfraniadau i ddiwylliant cyffredin y Deyrnas Unedig. Mae llysgenhadon fel Dylan Thomas, Ellie Simmonds, yr Arglwydd Roberts—hynny yw Wyn Roberts—Richard Burton a Syr Terry Matthews i gyd yn enwog am eu cyfraniadau i Gymru a'r Deyrnas Unedig. Mae ein Llywydd ein hunain, a gafodd ei hanrhydeddu'n ddiweddar drwy ei hurddo'n Fonesig, yn arwydd o bwysigrwydd cyfraniadau o Gymru i'r Deyrnas Unedig.

Ers dechrau datganoli, mae Cymru wedi cael £208 biliwn o gyllid gan Lywodraeth y DU ac, yn fwy diweddar, wedi cael buddsoddiad sylweddol o £500 miliwn mewn seilwaith gan Lywodraeth y DU ar gyfer seilwaith trafniadaeth, gan hybu twf ein heconomi ymhellach, a bron £60 miliwn i gyflwyno band eang, gan alluogi busnesau newydd yn y diwydiannau technoleg i fod yn llwyddiannau ein dyfodol. Yn wir, Llywodraeth y DU yn ei hymateb i gomisiwn Silk sydd wedi estyn i Gymru y lefel uchaf o annibyniaeth yn yr oes fodern, gan ddatganoli annibyniaeth i godi mwy o'n refeniw ein hunain, a'n trin fel partner cydradd o fewn y Deyrnas Unedig. Mae Cymru yn cael cymhorthdal net o tua 23% o CMC o rannau eraill o'r DU ac mae Gogledd Iwerddon yn cael 29%. Sylfaen yr undeb erioed oedd bod arian yn cael ei aiddosbarthu i gefnogi'r elfennau hynny o'r DU y mae angen mwy o gymorth arnynt. Pe bai'r undeb hwn yn dod i ben, byddai rhannau helaeth o'n gwledydd yn wynebu cyfyngiadau ariannol difrifol. Mae'n ffaith bod gwledydd llai yn llawer mwy agored i ergydion economaidd. Gadewch inni gofio'r lleisiau yn y Siambr o blaid gadael yr undeb a alwodd am efelychu model Gwlad yr Iâ, dim ond misoedd cyn i'w heconomi ddirywio'n ddifrifol, gan ei gadael gyda chyfraddau diweithdra dros 2% yn uwch na'r lefelau cyn y dirwasgiad—

16:11

## Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Do you accept that Iceland is actually doing quite well now?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

A ydych yn derbyn bod Gwlad yr Iâ yn gwneud yn eithaf da mewn gwirionedd erbyn hyn?

**Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What I do accept is that the United Kingdom in its present form works. As the United Kingdom, we are privileged to share the oldest and most successful currency union in the world. The strength of the pound has allowed our economies to weather the worst of the eurozone crisis and recover from recession faster than many other nations. Britain is renowned for its history of being a leader in the world from victory in two world wars to the abolition of slavery. Britain, as a whole, has a wealth of historic achievement of which it can be proud and a strong future to which it can look forward with pride.

To address the amendments to this debate, the Welsh Conservatives will be opposing amendment 1. We believe that this amendment not only undermines the spirit of this debate, but completely usurps it and detracts from a celebration of the economic culture and social ties of the United Kingdom. It would also not be prudent to commit to further powers at a time when the Wales Bill is still in draft stage, so we will abstain on amendment 2. Finally, we will be supporting amendment 3. We believe that the devolution process has brought the services that matter to the people of Wales—health, education, local government, the economy and more—closer to their doorsteps.

In conclusion, I believe that the British people know that our common membership of the United Kingdom makes us safer, stronger and more stable within the international community. I believe, too, that they know that our membership of Great Britain enables us to secure links in trade and investment with global powers and the markets of tomorrow. Most importantly, I believe that they know that our shared membership of the United Kingdom does not just make us better off, it makes us better. Diolch.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:*

*1. Yn credu y bydd y berthynas rhwng gwledydd Prydain yn cael ei chryfhau drwy barchu hawl pobloedd Prydain i benderfynu ar eu dyfodol cenedlaethol eu hunain.*

*2. Yn credu hefyd mai setliad cymdeithasol ac economaidd newydd o bartneriaid cyfartal fyddai'r ffordd orau o ddarparu cyd-destun teg a pharhaol ar gyfer cydweithredu yn yr ynysydd hyn.*

Yr hyn yr wyf yn ei dderbyn yw bod y Deyrnas Unedig ar ei ffurf bresennol yn llwyddo. Fel y Deyrnas Unedig, rydym yn cael y fraint o rannu'r undeb ariannol hynaf a mwyaf llwyddiannus yn y byd. Mae cryfder y bunt wedi galluogi ein heconomiâu i ddod drwy'r gwaethaf o argyfwng ardal yr ewro ac adfer yn sgil y dirwasgiad yn gyflymach na llawer o wledydd eraill. Mae Prydain yn enwog am ei hanes o fod yn arweinydd yn y byd o fuddugoliaeth mewn dau ryfel byd i ddiddymu caethwasiaeth. Mae gan Brydain, yn ei chyfanrwydd, gyfoeth o gyflawniadau hanesyddol y gall ymfalchïo ynddynt a dyfodol cryf y gall edrych ymlaen ato gyda balchder.

Gan droi at y gwelliannau i'r ddaidl hon, bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn gwrthwynebu gwelliant 1. Credwn fod y gwelliant hwn, nid yn unig yn tansellio ysbryd y ddaidl hon, ond ei fod yn gwbl groes iddi ac yn bychanu dathliad o gysylltiadau diwylliannol, economaidd a cymdeithasol y Deyrnas Unedig. Ni fyddai'n ddoeth ychwaith ymrwymo i bwerau pellach ar adeg pan fo Bil Cymru yn dal i fod yng nghyfnod Bil drafft, felly byddwn yn ymatal ar welliant 2. Yn olaf, byddwn yn cefnogi gwelliant 3. Credwn fod y broses ddatganoli wedi dod â'r gwasanaethau sydd o bwys i bobl Cymru—iechyd, addysg, llywodraeth leol, yr economi a mwy—yn nes at garreg eu drws.

I gloi, credaf fod pobl Prydain yn gwybod bod ein haelodaeth gyffredin o'r Deyrnas Unedig yn ein gwneud yn fwy diogel, yn gryfach ac yn fwy sefydlog o fewn y gymuned ryngwladol. Credaf, hefyd, eu bod yn gwybod bod ein haelodaeth o Brydain Fawr yn ein galluogi i sicrhau cysylltiadau masnach a buddsoddi â phwerau byd-eang ac ym marchnadoedd y dyfodol. Yn bwysicaf oll, credaf eu bod yn gwybod bod ein haelodaeth ar y cyd o'r Deyrnas Unedig nid yn unig yn sicrhau ein bod yn well ein byd, ond yn ein gwneud yn well. Diolch.

*Amendment 1—Elin Jones*

*Delete all and replace with:*

*1. Believes that the relationships between the nations of Britain will be strengthened by respecting the right of the peoples of Britain to determine their individual national futures.*

*2. Further believes that a new social and economic settlement of equal partners would best provide an enduring and fair context for cooperation in these islands.*

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 1.

Cynigiad welliant 1.

I would like to welcome today's debate. When approaching questions surrounding the constitution and the union, it is easy to forget that the United Kingdom in its current borders has existed since only 1922 and, in its current constitutional form, has existed since only 1999, with the advent of devolution. That is why I find it odd that unionists should table a motion today that would appear to state that, whatever form the UK takes and whatever policies its Governments pursue, Wales, Northern Ireland and Scotland should remain obedient, unquestioning members. I also know that all of the parties in the Chamber have a proud record of advocating reform. The Liberals, since Gladstone's days, advocated home rule. Labour's first MP, Keir Hardie, believed in devolution. Even among the Tory ranks here, we have one of Wales's most respected federalists. [Assembly Members: 'Hear, hear.']

Hoffwn groesawu'r ddadl heddiw. Wrth droi at gwestiynau ynglŷn â'r cyfansoddiad a'r undeb, mae'n hawdd anghofio bod y Deyrnas Unedig ar sail ei ffiniau presennol ond wedi bodoli ers 1922 ac, ar ei ffurf gyfansoddiadol bresennol, ond wedi bodoli ers 1999, gyda dyfodiad datganoli. Dyna pam mae'n rhyfedd imi fod undebwyr yn cyflwyno cynnig heddiw sy'n nodi i bob golwg, ar ba ffurf bynnag y bo'r DU a pha bolisiau bynnag y bydd ei Llywodraethau yn eu dilyn, dylai Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban barhau'n aelodau ufudd a difeddwl. Gwn hefyd fod i'r holl bleidiau yn y Siambr hanes balch o ddadlau o blaid diwygio. Mae'r Rhyddfrydwyr, ers dyddiau Gladstone, wedi dadlau o blaid ymreolaeth. Credai'r AS Llafur cyntaf, Keir Hardie, mewn datganoli. Hyd yn oed ymhlith rhengoedd y Toriaid yma, mae gennym un o ffederalwyr mwyaf uchel ei barch Cymru. [Aelodau'r Cynulliad: 'Clywch, clywch']

16:15 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

David Melding.

David Melding:

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:15 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

David Melding: it is fairly obvious.

David Melding: mae'n eithaf amlwg.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The constitution is not static. The UK has not stood still, and neither should Wales. We are in a time of potentially significant constitutional change. We know that the powers and responsibilities of the National Assembly are being examined by the Silk commission. However, the most significant change for Wales to face will be further down the line, after the result of the Scottish referendum is known.

Nid yw'r cyfansoddiad yn sefydlog. Nid yw'r DU wedi sefyll yn ei hunfan, ac ni ddylai Cymru wneud hynny ychwaith. Rydym yn wynebu adeg o newid cyfansoddiadol sylweddol o bosibl. Gwyddom fod pwerau a chyfrifoldebau'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael eu hystyried gan gomisiwn Silk. Fodd bynnag, mae'r newid mwyaf sylweddol y bydd Cymru yn ei wynebu ymhellach i ffwrdd, ar ôl i ganlyniad refferendwm yr Alban fod yn hysbys.

David Cameron said recently,

Dyweddodd David Cameron yn ddiweddar,

'The debate should be between people in Scotland who want to stay and people in Scotland who want to go.'

Dylai'r ddadl fod rhwng pobl yn yr Alban sydd am aros a phobl yn yr Alban sydd am fynd.

Is it not interesting, then, that here, in this National Assembly, the Tories are happy to lecture the people of Scotland, and indeed every other country in these isles, on what is best for them. I would have thought it preferable for the Prime Minister to have the guts to face the First Minister of Scotland in a TV debate. He should be prepared to put the positive case for Scotland to remain in the union if he can find one.

Onid yw'n ddiddorol felly bod y Toriaid, yma yn y Cynulliad Cenedlaethol, yn barod i roi pregeth i bobl yr Alban, ac yn wir bob gwlad arall yn yr ynysoedd hyn, ar yr hyn a fyddai orau iddynt. Byddwn wedi tybio y byddai'n well pe bai Prif Weinidog y DU yn ddigon dewr i wynebu Prif Weinidog yr Alban mewn dadl deledu. Dylai fod yn barod i roi'r ddadl gadarnhaol dros yr Alban yn aros yn yr undeb os gall ddod o hyd i un.

Plaid Cymru opposes the idea that the Conservative motion puts forward: that Wales, unconditionally, is stronger as part of a United Kingdom. Plaid Cymru's priority has always been to ensure a national future for Wales. Wales should be an equal partner in the European Union and we should be an equal partner to our neighbouring countries in the British isles.

Mae Plaid Cymru yn gwrthwynebu'r syniad a gyflwynir yng nghynnig y Ceidwadwyr: bod Cymru, yn ddiamod, yn gryfach fel rhan o Deyrnas Unedig. Blaenoriaeth Plaid Cymru erioed fu sicrhau dyfodol cenedlaethol i Gymru. Dylai Cymru fod yn bartner cydradd yn yr Undeb Ewropeaidd a dylem fod yn bartner cydradd i'r gwledydd cyfagos yn ynysoedd Prydain.

16:16 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking an intervention. Do you think that we should unquestionably support continued membership of the European Union even if that does not necessarily serve the British interests in the future?

Diolch ichi am dderbyn ymyriad. A gredwch y dylem gefnogi aelodaeth barhaus o'r Undeb Ewropeaidd yn ddiamheuol hyd yn oed os nad yw hynny o reidrwydd o fudd i Brydain yn y dyfodol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would accept that there may be arguments for the British interests not to be served by the European Union, but I would argue that Wales's interests are definitely best served as a member of it.

Byddwn yn derbyn y gall fod dadleuon nad yw'r Undeb Ewropeaidd o fudd i Brydain, ond byddwn yn dadlau bod aelodaeth ohono yn sicr o fudd i Gymru.

Plaid Cymru's ambition has always been for Wales to have as much self-government as possible in any scenario. Unfortunately, the majority of this Chamber has tended to not support that position, which may explain why Wales is not afforded the same respect as Scotland; something that the current Welsh Government has noted several times since the 2011 elections. Sending out the message that we in Wales are satisfied with whatever United Kingdom might exist is a grave error in my view. Implying that we are happy with the status quo will weaken any hand that we might have after that referendum in Scotland. Today, I must sound a note of caution to all representatives in this Chamber: our apparently unquestioning support for the United Kingdom means that we risk getting a poor deal from that union. It is Scotland—the part of the UK that has threatened to leave—that receives the better deal. There surely must be a lesson there for Wales.

Uchelgais Plaid Cymru erioed oedd y dylai Cymru gael cymaint o hunanlywodraeth ag y bo modd mewn unrhyw sefyllfa. Yn anffodus, mae'r mwyafrif yn y Siambr hon wedi tueddu i beidio â chefnogi'r safbwynt hwnnw, a all esbonio pam nad yw Cymru yn cael yr un parch â'r Alban; rhywbeth y mae Llywodraeth bresennol Cymru wedi'i nodi sawl gwaith ers etholiadau 2011. Mae rhoi'r neges ein bod ni yng Nghymru yn fodlon ar ba Deyrnas Unedig bynnag a fo'n bodoli yn gamgymeriad difrifol yn fy marn i. Bydd awgrym ein bod yn fodlon ar y sefyllfa sydd ohoni yn gwanhau unrhyw gyfle i fargeinio sydd gennym ar ôl y refferendwm hwnnw yn yr Alban. Heddiw, rhaid imi seinio rhybudd i'r holl gynrychiolwyr yn y Siambr hon: mae ein cefnogaeth ddiamheuol ymddangosiadol i'r Deyrnas Unedig yn golygu ein bod mewn perygl o gael bargaen wael gan yr undeb. Yr Alban—y rhan o'r DU sydd wedi bygwth gadael—sy'n cael y fargen orau. Rhaid bod gwers yn hynny o beth i Gymru.

It makes sense for all concerned for there always to be a strong partnership between the nations of Britain. We should seek to configure that partnership in our best interests, on the basis of what Plaid Cymru's amendment today describes as a new social and economic settlement of equal partners.

Mae'n gwneud synnwyr i bawb dan sylw bod partneriaeth gref o hyd rhwng gwledydd Prydain. Dylem geisio cyflunio'r bartneriaeth honno er ein budd ni, ar sail yr hyn y mae gwelliant Plaid Cymru heddiw yn ei ddisgrifio'n setliad cymdeithasol ac economaidd newydd o bartneriaid cydradd.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Cynnwys ar ddiwedd y cynnig:*

*Insert at end of motion:*

*'gyda mwy o bwerau wedi'u datganoli i bob un o'r pedair gwlad'.*

*'with greater powers devolved to each of the constituent nations'.*

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the amendment in the name of Aled Roberts on behalf of the Welsh Liberal Democrat group, which does indeed recognise that the constituent parts of the UK are better together, as outlined in the Conservative motion, but also holds true to our party's long-held belief in true home rule, and—if I dare mention it to the Tories' greatest advocate of federalism—a federal state.

Cynigaf y gwelliant yn enw Aled Roberts ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, sy'n wir yn cydnabod bod rhannau cyfansoddol y DU yn well gyda'i gilydd, fel y'i hamlinellir yng nghynnig y Ceidwadwyr, ond sydd hefyd yn arddel cred hirsefydledig ein plaid mewn ymreolaeth wirioneddol, ac os wyf yn meiddio sôn amdano wrth eiriolwr mwyaf y Torïaid dros ffederaliaeth—gwladwriaeth ffederal.

These were ideas, as referred to by Leanne Wood, that were first espoused by Gladstone, and taken up by Lloyd George. In his main speech to the House of Commons in 1950, Jo Grimond made a powerful case for federalism. Of course, we remember the unfortunately unsuccessful attempts by Emyln Hooson to create a Welsh parliament. I believe that it is absolutely right that the people of Scotland should have their say on whether they want to remain a part of the union. I hope that they will decide to stay within the union, but it is their right to have that decision. In doing so, I also hope very sincerely that a 'no' vote in Scotland later this year should not be seen as an acceptance of the status quo. Polls show quite clearly that there is a very strong desire among the Scottish people for greater levels of devolution—views that I believe will have to be acted upon by whatever Westminster Government, should there be a 'no' vote later this year.

It is also clear to me that, whatever the result is in Scotland, there will be consequences for Wales. These constitutional arguments are not going to go away once Scotland has had its say. We will continue on these benches to call for greater powers for this Welsh parliament. It is also clear that Westminster will have to, at last, tackle head on the issue of the English question. It is clear that greater devolution to Scotland, Northern Ireland and Wales has awakened a greater desire among the people of England for a settlement that recognises their views. Of course, there is not a consensus on how that is best achieved. The Labour Party tried to do that with the recognition of a regional-based approach, which was rejected by the people. However, the English question, as well as greater devolution to Scotland and Wales, will have to be tackled.

Specifically, in Wales, I welcome very much the work of the Silk commission, and I welcome the broadly positive acceptance of the points of the Silk 1 report by the UK Government. It has been a difficult job to get us to that point, but we have got there. We now need to work alongside the Westminster Government to see the passing of the legislation needed, as well as all of the other mechanisms to ensure that the powers around fiscal devolution can come to this Assembly and parliament quickly. Of course, I very much look forward to the publication of Silk 2. The timing of the publication of Silk 2 and parliamentary timetables in Westminster mean that it is very unlikely that those recommendations can be enacted before the next general election. However, I think that it will give food for thought for all political parties in Wales in terms of what will be said about the future of Welsh powers and this institution in the general election manifestos of each of the political parties and, subsequently, food for thought on how we use those powers in the Assembly elections that follow. In conclusion, the Liberal Democrats will not support amendment 1. I am interested that Plaid Cymru can write an amendment of this kind without using the 'i' word. We talked about the 'f' word earlier on, and there seems to be a distinct nervousness about using the word 'independence' in the amendment here this afternoon. We will be supporting the Government's amendment.

Roedd y rhain yn syniadau, fel y soniodd Leanne Wood, a gafodd eu harddel gyntaf gan Gladstone, ac wedyn gan Lloyd George. Yn ei araith fawr i Dŷ'r Cyffredin yn 1950, cyflwynodd Jo Grimond ddaol gref dros ffederaliaeth. Wrth gwrs, cofiwn yr ymdrechion aflwyddiannus gwaetha'r modd gan Emyln Hooson i greu senedd i Gymru. Credaf ei bod yn hollol iawn bod pobl yr Alban yn cael dweud eu dweud ynghylch a ydynt am aros yn rhan o'r undeb. Gobeithio y byddant yn penderfynu aros yn yr undeb, ond eu hawl hwy yw gwneud y penderfyniad hwnnw. Wrth wneud hynny, mawr obeithiaf hefyd na ddylai pleidlais 'na' yn yr Alban yn ddiweddarach eleni, gael ei hystyried yn bleidlais o blaid derbyn y sefyllfa sydd ohoni. Dengys arolygon barn yn eithaf clir fod awydd cryf iawn ymhlith pobl yr Alban am fwy o ddatganoli—awydd, yn fy marn i, y bydd yn rhaid gweithredu arno gan ba Lywodraeth bynnag sydd yn San Steffan, pe bai pleidlais 'na' yn ddiweddarach eleni.

Mae hefyd yn amlwg i mi, beth bynnag fo'r canlyniad yn yr Alban, y bydd goblygiadau i Gymru. Ni fydd y dadleuon cyfansoddiadol hyn yn diflannu ar ôl i'r Alban ddweud ei dweud. Byddwn yn parhau ar y meinciau hyn i alw am fwy o bwerau i'r senedd hon. Mae hefyd yn amlwg y bydd yn rhaid i San Steffan, o'r diwedd, fynd i'r afael â chwestiwn Lloegr. Mae'n amlwg bod mwy o ddatganoli i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi ennyn mwy o awydd ymhlith pobl Lloegr am setliad sy'n cydnabod eu safbwyntiau hwy. Wrth gwrs, nid oes consensws ynghylch y ffordd orau o gyflawni hynny. Ceisiodd y Blaid Lafur wneud hynny drwy gydnabod rhanbarthau, a wrthodwyd gan y bobl. Fodd bynnag, bydd yn rhaid mynd i'r afael â chwestiwn Lloegr, yn ogystal â mwy o ddatganoli i Gymru a'r Alban.

Yn benodol, yng Nghymru, croesawaf yn fawr iawn waith comisiwn Silk, a chroesawaf y ffaith bod Llywodraeth y DU wedi derbyn pwyntiau adroddiad Silk 1 mewn ffordd gadarnhaol ar y cyfan. Bu'n waith anodd cyrraedd y man hwnnw, ond rydym wedi cyrraedd. Bellach mae angen inni weithio ochr yn ochr â Llywodraeth San Steffan i weld y ddeddfwriaeth angenrheidiol yn cael ei phasio, yn ogystal â'r holl gamau eraill i sicrhau y gall y pwerau yng nghyswllt datganoli cyllidol ddod i'r Cynulliad hwn a'r senedd yn ddi-oed. Wrth gwrs, edrychaf ymlaen yn fawr iawn at gyhoeddi Silk 2. Mae amseriad cyhoeddi Silk 2 a'r amserleni seneddol yn San Steffan yn golygu ei bod yn annhebygol iawn y gellir deddfu ar yr argymhellion hynny cyn yr etholiad cyffredinol nesaf. Fodd bynnag, credaf y bydd yn rhoi rhywbeth i bob plaid wleidyddol yng Nghymru feddwl amdano o ran yr hyn a gaiff ei ddweud am ddyfodol pwerau i Gymru a'r sefydliad hwn ym manifestos etholiad cyffredinol pob un o'r pleidiau gwleidyddol ac, wedi hynny, rhywbeth i feddwl amdano o ran sut rydym yn defnyddio'r pwerau hynny yn etholiadau'r Cynulliad sy'n dilyn. I gloi, ni fydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi gwelliant 1. Mae'n ddiddorol y gall Plaid Cymru lunio gwelliant o'r math hwn heb ddefnyddio'r gair 'annibyniaeth'. Soniwyd am ffederaliaeth yn gynharach, ac ymddengys bod nerfusrwydd amlwg ynglŷn â defnyddio'r gair 'annibyniaeth' yn y gwelliant yma y prynhawn yma. Byddwn yn cefnogi gwelliant y Llywodraeth.

16:23

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the First Minister to move amendment 3, tabled in the name of Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Prif Weinidog i gynniig gwelliant 3, a gyflwynwyd yn enw Lesley Griffiths.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r hyn y mae datganoli wedi'i wneud i wella democratiaeth yng Nghymru a'r Alban, a'i gyfraniad at y broses heddwch yng Ngogledd Iwerddon.*

*Welcomes what devolution has done to enhance democracy in Scotland and Wales and its contribution to the peace process in Northern Ireland.*

- |       |  |  |   |
|-------|--|--|---|
| 16:23 | <p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i><br/>         Cynigiau welliant 3.</p>  | I move amendment 3.  | <p>Senedd.tv<br/> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 16:23 | <p><b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/>         In difficult economic times, we do not need uncertainty, instability and barriers to business. We need more growth, more jobs and more prosperity, particularly in Wales. In these turbulent times, the size, strength and stability of the United Kingdom's economy is a huge advantage for Welsh business. Wales's largest market is the rest of the United Kingdom.</p>   | Mewn cyfnod economaidd anodd, nid oes angen ansicrwydd, ansefydlogrwydd na rhwystrau i fusnesau. Mae angen mwy o dwf, mwy o swyddi a mwy o ffyniant, yn enwedig yng Nghymru. Yn y cyfnod cythryblus hwn, mae maint, cryfder a sefydlogrwydd economi'r Deyrnas Unedig yn fantais enfawr i fusnesau yng Nghymru. Marchnad fwyaf Cymru yw gweddill y Deyrnas Unedig.  | <p>Senedd.tv<br/> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 16:24 | <p><b>Leanne Wood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/>         Will you take an intervention?</p>  | A wnewch chi dderbyn ymyriad?  | <p>Senedd.tv<br/> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 16:24 | <p><b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/>         I will.</p>  | Gwnaf.   | <p>Senedd.tv<br/> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 16:24 | <p><b>Leanne Wood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/>         Do you think that an EU intervention will help certainty for business? Sorry, I meant to say 'EU referendum'.</p>   | A gredwch y bydd ymyriad gan yr UE yn helpu o ran sicrwydd i fusnesau? Mae'n ddrwg gennyf, roeddwn yn bwriadu dweud 'refferendwm ar yr UE'.  | <p>Senedd.tv<br/> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |
| 16:24 | <p><b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a><br/>         I certainly do. I hold that opinion very strongly. I hope that I answered your question.</p> <p>Despite such times, our economy is the second largest in Europe and the sixth largest in the world. The United Kingdom is the world's oldest and most successful single market, and the United Kingdom has the oldest and most successful currency—the pound. The United Kingdom began as a hostile merger. Who would have thought that it would end in a full partnership in the most powerful going concern in the world? The global reputation of the United Kingdom is invaluable when attracting business and encouraging investment to Wales. As part of the United Kingdom, Wales has a global recognition to successfully attract investment and promote Welsh enterprise around the world. We benefit hugely from UK Trade and Investment, which works to ensure that UK-based companies are successful in international markets, and also to encourage the best overseas companies to look at the United Kingdom as a serious investment option. UKTI has professional advisers both within the UK and across more than 100 international markets. Wales thus benefits from the significant resources and tools the United Kingdom Government has at its disposal.</p> | Credaf, yn sicr. Rwy'n arddel y farn honno yn gryf iawn. Gobeithio imi ateb eich cwestiwn. <p>Er gwaethaf anawsterau o'r fath, ein heconomi yw'r fwyaf ond un yn Ewrop a'r chweched fwyaf yn y byd. Y Deyrnas Unedig yw'r farchnad sengl hynaf a mwyaf llwyddiannus yn y byd, a chan y Deyrnas Unedig y mae'r arian cyfred hynaf a mwyaf llwyddiannus—y bunt. Dechreuodd y Deyrnas Unedig fel uniad gelyniaethus. Pwy fyddai wedi meddwl y byddai'n arwain at bartneriaeth lawn yn y busnes mwyaf pwerus yn y byd? Mae enw da byd-eang y Deyrnas Unedig yn amhrisiadwy wrth ddenu busnes ac annog buddsoddiad i Gymru. Fel rhan o'r Deyrnas Unedig, mae Cymru yn cael cydnabyddiaeth fyd-eang i lwyddo i ddenu buddsoddiad a hybu menter Cymru ledled y byd. Rydym yn elwa'n aruthrol o Fasnach a Buddsoddi y DU, sy'n gweithio i sicrhau bod cwmnïau yn y DU yn llwyddiannus mewn marchnadoedd rhyngwladol, a hefyd i annog y cwmnïau tramor gorau i edrych ar y Deyrnas Unedig fel opsiwn buddsoddi difrifol. Mae gan Fasnach a Buddsoddi y DU gynghorwyr proffesiynol yn y DU ac ar draws mwy na 100 o farchnadoedd rhyngwladol. Felly mae Cymru yn elwa o'r adnoddau sylweddol sydd ar gael i Lywodraeth y Deyrnas Unedig.</p> | <p>Senedd.tv<br/> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> |

In an uncertain world, Wales's security is strengthened as part of the United Kingdom. The British armed forces that protect us are the finest in the world, and in Wales we are proud of the forces, and proud of the contribution that Wales makes. As part of the United Kingdom, we have meaning in the United Nations security council, in NATO and the European Union, and embassies around the world. Indeed, the United Kingdom means that the Scottish people, the Welsh people, the Northern Irish and the English are represented at the top table of the United Nations alongside other major powers.

Historically, the United Kingdom has been a country comfortable with difference and distinctiveness, with no contradiction between being Scotch, Welsh, Northern Irish, English and British. Welsh identity and culture has flourished within the union. This union allows the combined parts of the United Kingdom to pool resources to make larger investments, afford substantial infrastructure projects and better equip central services for public bodies. A united and decisive United Kingdom Government can therefore respond to major demands on public funds quickly and effectively.

In terms of pensions, the pensions of around 646,000 people in Wales are guaranteed by the United Kingdom welfare system. In private sector employment, 868 private sector employees in Wales are employed by UK-owned firms. In terms of United Kingdom Government employees, Wales has some 26,560. It is interesting to note that 138 million journeys per year take place across the border of England and Wales, highlighting the intrinsic links in the day-to-day lives of Welsh people with the rest of the union.

As with all the home nations, including dependencies, we are represented by over 270 embassies and commissions as part of the United Kingdom, the world's largest diplomatic network. Scotland exports twice as much to England, Wales and Northern Ireland as the rest of the world. One in five workers in Scotland are employed by English, Welsh or Northern Irish firms, 31,000 workers in Scotland are employed by the United Kingdom Government, and the pensions of 1 million Scots are guaranteed through the UK welfare system. Hundreds of thousands of Welsh and English have made their homes in each other's nations. Many of us have English neighbours, and thousands of Welsh were born in England. This interdependence, the coming together of family, friends, ideas, institutions and identities, is a strength, not a weakness, and is an ideal worth celebrating. The truth remains we are better together.

Mewn byd ansicr, mae diogelwch Cymru yn cael ei gryfhau fel rhan o'r Deyrnas Unedig. Lluoedd arfog Prydain sy'n ein hamddiffyn yw'r gorau yn y byd, ac yng Nghymru, rydym yn falch o'r lluoedd, ac yn falch o'r cyfraniad y mae Cymru yn ei wneud. Fel rhan o'r Deyrnas Unedig, rydym yn ystyrlon yng nghyngor diogelwch y Cenhedloedd Unedig, yn NATO a'r Undeb Ewropeaidd, a llysgenadaethau ledled y byd. Yn wir, mae'r Deyrnas Unedig yn golygu bod pobl yr Alban, pobl Cymru, pobl Gogledd Iwerddon a phobl Lloegr yn cael eu cynrychioli ar brif fwrdd y Cenhedloedd Unedig ochr yn ochr â phwerau mawr eraill.

Yn hanesyddol, bu'r Deyrnas Unedig yn wlad a oedd yn gyfforddus â gwahaniaeth ac arwahanrwydd, heb unrhyw anghysondeb rhwng bod yn Albanwyr, yn Gymry, yn Wyddelod Gogledd Iwerddon, yn Saeson ac yn Brydeinwyr. Mae hunaniaeth a diwylliant Cymru wedi ffynnu o fewn yr undeb. Bu'r undeb hwn yn fodd i'r rhannau cyfun o'r Deyrnas Unedig gyfuno adnoddau i wneud buddsoddiadau mwy o faint, fforddio prosiectau seilwaith sylweddol a darparu gwasanaethau canolog yn well ar gyfer cyrff cyhoeddus. Felly, gall Llywodraeth unedig a phendant ar y Deyrnas Unedig ymateb i ofynion mawr ar arian cyhoeddus yn gyflym ac yn effeithiol.

O ran pensiynau, mae pensiynau tua 646,000 o bobl yng Nghymru wedi'u gwarantu gan system les y Deyrnas Unedig. O ran cyflogaeth yn y sector preifat, mae 868 o gyflogeion yn y sector preifat yng Nghymru yn cael eu cyflogi gan gwmnïau'r DU. O ran cyflogeion Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae tua 26,560 yng Nghymru. Mae'n ddiddorol nodi bod 138 miliwn o deithiau y flwyddyn ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr, sy'n tynnu sylw at y cysylltiadau cynhenid ym mywydau pobl Cymru â gweddill yr undeb o ddydd i ddydd.

Fel gyda phob un o wledydd y DU, gan gynnwys y dibyniaethau, rydym yn cael ein cynrychioli gan dros 270 o lysgenadaethau a chomisiynau fel rhan o'r Deyrnas Unedig, sef rhwydwaith diplomyddol mwyaf y byd. Mae'r Alban yn allforio dwywaith gymaint i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon â gweddill y byd. Cyflogir un o bob pump o weithwyr yn yr Alban gan gwmnïau o Loegr Cymru neu Ogledd Iwerddon, cyflogir 31,000 o weithwyr yn yr Alban gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ac mae pensiynau miliwn o Albanwyr wedi'u gwarantu drwy system les y DU. Mae cannoedd ar filoedd o Gymru a Saeson wedi ymgartrefu yng ngwledydd ei gilydd. Mae gan lawer ohonom gymdogion o Loegr, a chafodd miloedd o Gymry eu geni yn Lloegr. Cryfder, nid gwendid, yw cyd-ddibyniaeth o'r fath, gan ddod â theuluoedd, ffrindiau, syniadau, sefydliadau a hunaniaethau ynghyd, ac mae'n ddelfryd sy'n werth ei dathlu. Y gwir o hyd yw ein bod yn well gyda'n gilydd.

16:28

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Whatever the outcome of the Scottish referendum, there is clearly an appetite for more devolution. Even if there is no majority for independence in Scotland, there is clearly a majority who want more devolution, not less. Similarly, in Wales, what was a very narrow majority in 1997 has now become the settled view of the majority, with a consensus that devolved government equals better government than Whitehall diktat. The responses to Silk part 2 echo that.

Beth bynnag fo canlyniad refferendwm yr Alban, mae'n amlwg bod awydd am fwy o ddatganoli. Hyd yn oed os na fydd mwyafrif o blaid annibyniaeth yn yr Alban, mae'n amlwg bod mwyafrif sydd am gael mwy o ddatganoli, nid llai. Yn yr un modd, yng Nghymru, mae'r hyn a fu'n fwyaf bach iawn yn 1997 bellach wedi dod yn farn gyson gan y mwyafrif, gyda chonsensws bod llywodraeth ddatganoleddig yn gyfystyr â gwell llywodraeth yn hytrach na dictat Whitehall. Mae'r ymatebion i ran 2 Silk yn adlewyrchu hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Indeed, the most fervent convert to devolution seems to be David Cameron. When he popped into Cardiff a couple of months ago, he said that the decisions taken in Cardiff were so much better than those directed by bureaucrats over 100 miles away in Westminster—excellent words. What is remarkable, really, is that the people of Cornwall, Cumbria and Yorkshire did not instantly seize the moment and instantly say, 'Yes, we'll have some of that'.

The devolution project is, in the round, a resounding success. In Wales, we can be rightly proud that the National Assembly was the first legislative body in the world to have equal numbers of men and women; that delivered a simple measure like the 5p levy on carrier bags, the impact of which is felt by whales and dolphins on the other side of the world; and was the first country in the UK to legislate for presumed consent on organ donation.

Scotland was the first nation of the UK to introduce smoking legislation, and to bring together budgets for health and social services. Northern Ireland's devolution has delivered a level of collaboration and consensus that few would have thought possible after so many years of bloodshed. Together, we have shown that there are different ways of doing things and that the Westminster/Whitehall diktat of one-size-fits-all does not necessarily fit us.

The First Minister is absolutely right in his repeated calls for a new devolution settlement across the UK as well as a floor for block grant allocations to enable a fair deal for Wales, but the West Lothian question, raised so many years ago by Tam Daylell, remains very much unresolved.

What is the glue that holds the UK together when the economic and financial free-for-all that led to the bankers' blow-out of 2007-08 remains unresolved? Today, on the radio, we hear that national Westminster bankers, all based in the south east, deserve 200% bonuses to bring their remuneration up to £0.5 million, because that is what they are worth. Says who? While so many of my constituents are struggling to pay their rising bills with wages that have either stayed the same or not kept pace with rising prices, there is no fairness in that. Unless the financial settlement is a fair one, and is seen to be that, the forces pulling us apart will become stronger than the ones holding us together.

An important piece in this jigsaw is our relationship with Europe and its role in keeping the peace on this continent for the last 70 years. Against the naysayers in UKIP, and some of their closet friends within the Tory party, not many of whom are represented here, we need to make clear that the European Union and its collaborative relationship is an important plank in world peace. It has delivered huge benefits to Wales and other less favoured regions of the continent—direct benefits for Wales of nearly £2 billion in structural funds and 150,000 directly created Welsh jobs—on top of the foreign investment from businesses that would not be here if Wales were not part of the union.

Yn wir, ymddengys mai'r dröedigaeth fwyaf i ddatganoli yw un David Cameron. Pan ddaeth i Gaerdydd ychydig o fisoedd yn ôl, dywedodd fod y penderfyniadau a wneir yng Nghaerdydd gymaint yn well na'r rhai a gyfarwyddir gan firocrataid dros 100 milltir i ffwrdd San Steffan—geirau gwych. Yr hyn sy'n rhyfeddol, mewn gwirionedd, yw nad oedd pobl Cernyw, Cumbria na Swydd Efrog wedi achub ar y cyfle ar unwaith a dweud yn syth, 'Rhowch hynny inni'.

Mae'r prosiect datganoli, yn gyffredinol, yn llwyddiant ysgubol. Yng Nghymru, gallwn ymfalchïo yn y ffaith mai'r Cynulliad Cenedlaethol oedd y corff deddfwriaethol cyntaf yn y byd i gael nifer gyfartal o ddynion a menywod, a gyflwynodd fesur syml fel yr ardoll o 5c ar fagiâu siopa, y teimlir effaith hynny gan forfilod a dolffiniaid ar ochr arall y byd, a'r wlad gyntaf yn y DU i ddeddfu o blaid caniatâd tybiedig ar gyfer rhoi organau.

Yr Alban oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno deddfwriaeth ynglŷn ag ysmegu, ac i ddwyn ynghyd gyllidebau ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae datganoli yng Ngogledd Iwerddon wedi sicrhau lefel o gydweithio a chonsensws na fyddai braidd neb yn tybio y byddai'n bosibl ar ôl cymaint o flynyddoedd o dywallt gwaed. Gyda'n gilydd, rydym wedi dangos bod gwahanol ffyrdd o wneud pethau ac nid yw dictad San Steffan/Whitehall o un ateb i bawb o reidrwydd yn addas ar ein cyfer.

Mae'r Prif Weinidog yn llygad ei le i alw'n fynych am setliad datganoli newydd i'r DU gyfan yn ogystal â therfyn isaf ar gyfer dyraniadau grant bloc i sicrhau bargaen deg i Gymru, ond erys cwestiwn West Lothian, a godwyd gymaint o flynyddoedd yn ôl gan Tam Daylell, heb ei ddatrys i raddau helaeth.

Beth yw'r hyn sy'n clymu'r DU at ei gilydd pan nad yw'r diffyg rheoli economaidd ac ariannol a arweiniodd at argyfwng y bancwyr yn 2007-08 wedi'i ddatrys eto? Heddiw, ar y radio, rydym yn clywed bod bancwyr National Westminster, i gyd yn y de-ddwyrain, yn haeddu bonws o 200% er mwyn cynyddu eu tâl i £0.5 miliwn, oherwydd dyna'r cyflog y maent yn ei haeddu. Meddai pwy? Tra bo cymaint o'm hetholwyr yn cael anhawster i dalu eu biliau cynyddol â chyflogau sydd naill ai wedi aros yr un fath neu nad ydynt wedi cynyddu ar yr un raddfa â phrisiau, nid oes tegwch yn hynny. Oni bai bod y setliad ariannol yn un teg, ac y gwelir ei fod yn deg, bydd y grymoedd sy'n ein tynnu oddi wrth ein gilydd yn mynd yn gryfach na'r rhai sy'n ein clymu at ein gilydd.

Un darn pwysig yn hyn o beth yw ein perthynas ag Ewrop a'i rôl yn cadw heddwch ar y cyfandir hwn am y 70 mlynedd diwethaf. Yn erbyn y gwrthwynebwyr yn UKIP, a rhai o'u cyfeillion cudd yn y blaid Dori'iaidd, nad yw llawer ohonynt wedi eu cynrychioli yma, mae angen inni ei gwneud yn glir bod yr Undeb Ewropeaidd a'i berthynas gydweithredol yn elfen bwysig o ran heddwch y byd. Mae wedi dod â buddiannau enfawr i Gymru a rhanbarthau llai ffafriol eraill ar y cyfandir—buddiannau uniongyrchol i Gymru o ymron i £2 biliwn mewn cronfeydd strwythurol a 150,000 o swyddi yng Nghymru a grëwyd yn uniongyrchol—ar ben y buddsoddiad tramor gan fusnesau na fyddent yma pe na bai Cymru yn rhan o'r undeb.

On top of that, there is also the other plank in the jigsaw, which is local government. It delivers the front-line services that the most vulnerable members of the community rely on. In the past three years, the Welsh Government has shielded Welsh local government from the full force of the UK Government's cuts, to enable local authorities to prepare for a reduction in services later down the line. It is really noticeable how much the cuts in the block grant from the UK Government have not been reflected by local government cuts in the way that they have been in England. I fear that local government and the services that are relied upon by the most vulnerable across the UK are the ones that have been shattered, rather than the 270 embassies that William Graham just mentioned. We have to pay great attention to what will go on in the referendum, because the SNP's slogan for an independent Scotland is, 'If we vote No, Scotland stands still'; my fear is that if Scotland votes yes, then we stand still.

Ar ben hynny, rhaid ystyried yr elfen arall, sef llywodraeth leol. Mae'n darparu'r gwasanaethau rheng flaen y mae'r aelodau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn dibynnu arnynt. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi amddiffyn llywodraeth leol Cymru rhag holl rym toriadau Llywodraeth y DU, er mwyn galluogi awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer gostyngiad mewn gwasanaethau yn ddiweddarach. Mae'n amlwg iawn i ba raddau nad yw'r toriadau yn y grant bloc gan Lywodraeth y DU wedi cael eu hadlewyrchu mewn toriadau i lywodraeth leol fel sydd wedi digwydd yn Lloegr. Mae arnaf ofn mai llywodraeth leol a'r gwasanaethau y mae'r bobl fwyaf agored i niwed ledled y DU yn dibynnu arnynt yw'r rhai sydd wedi cael eu chwalu, yn hytrach na'r 270 o lysgenadaethau y mae William Graham newydd gyfeirio atynt. Rhaid inni roi sylw mawr i'r hyn a fydd yn digwydd yn y refferendwm, oherwydd slogan yr SNP i'r Alban fel gwlad annibynnol yw, 'Os pleidleisiwn Na, bydd yr Alban yn aros yn ei hunfan; fy ofn yw os bydd yr Alban yn pleidleisio ie, yna byddwn ni'n sefyll yn ein hunfan.

16:33

## Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Devolution has already delivered a more federalised UK and that change will continue. Let us look to our cousins across the globe, from Australia to north America, who are proud of their own individual state governments and legislatures, each with unique law making and tax raising powers, and are equally proud unionists.

An independent Scotland would have to take on a share of the UK's debt—at a higher risk and, therefore, cost, as a smaller country. The SNP has inflated oil and gas revenues above independent forecasts, failed to calculate the cost of EU membership without the UK rebate, which Scotland would not benefit from, and the costs involved in Scotland receiving proportionately more spending on pensioners than the rest of the United Kingdom.

An independent Scotland would have to apply for admission to the UN and EU and renegotiate thousands of treaties, risking the UK's position, hard won over decades of hard diplomacy. The only way for Scotland to keep the pound as it is now is to stay in the UK.

Devolution provides the best of both worlds, with decisions on issues affecting people's lives taken in the nations of the UK, but the nations of the UK benefiting from the UK's economic strength and international influence. Although the separatists have appealed to a romantic vision of Scottish independence, based upon popular entertainment rather than real history, most of the debate has focused on hard-headed economic and constitutional issues.

Mae datganoli eisoes wedi arwain at DU fwy ffederal a bydd y newid hwnnw yn parhau. Gadewch inni edrych at ein cefndryd dros y byd, o Awstralia i ogledd America, sy'n falch o'u llywodraethau a'u deddfwrfeydd taleithiol unigol eu hunain, a chan bob un bwerau deddfu a chodi trethi unigryw, ac maent yr mor falch o fod yn unioliaethwyr.

Byddai'n rhaid i'r Alban fel gwlad annibynnol ysgwyddo cyfran o ddyled y DU—ar lefel risg uwch ac, felly, gost is, fel gwlad lai o faint. Mae'r SNP wedi chwyddo'r refereniw o olew a nwy uwchlaw rhagolygon annibynnol, wedi methu â chyfrifo cost aelodaeth o'r UE heb ad-daliad y DU, na fyddai'r Alban yn ei gael a'r costau cysylltiedig am fod yr Alban yn derbyn cyfran fwy o wariant ar bensiynwyr na gweddill y Deyrnas Unedig.

Byddai'n rhaid i'r Alban fel gwlad annibynnol wneud cais i fod yn aelod o'r Cenhedloedd Unedig a'r UE ac aildrafod miloedd o gytuniadau, gan beryglu safle'r DU, sy'n ffrwyth ymdrechion mawr dros ddegawdau o ddiplomyddiaeth benderfynol. Yr unig ffordd y gall yr Alban gadw'r bunt fel y mae yn awr yw drwy aros yn y DU.

Mae datganoli'n cynnig y gorau o ddau fyd, gyda phenderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl yn cael eu gwneud yng ngwledydd y DU, ond gwledydd y DU yn elwa ar gryfder economaidd y DU a'i dylanwad rhyngwladol. Er bod yr ymwahanwyr wedi apelio at weledigaeth ramantus o annibyniaeth i'r Alban, yn seiliedig ar adloniant poblogaidd yn hytrach na hanes go iawn, mae'r rhan fwyaf o'r drafodaeth wedi canolbwyntio ar faterion economaidd a chyfansoddiadol bengaled.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

However, this is a matter of heart as well as head for we proud Britons too, passionate in our commitment to our union. We love every part of our blessed isles and stand in horror at the thought of we Britons being riven apart. Oh, tribes of Britain, why your decadent desire to dismember your isles at home and to emasculate them overseas? It is said that, for a brief moment in time, the Romano Britons of the west, from Strathclyde to Cornwall, stood united against the invader who dared to refer to them as Waelesc or foreigner. To reclaim the lost lands and reunite the tribes of Britain was their legacy to future generations. Hollywood history, exploited by Scottish separatists, relates in reality to the Norman conquest of island Britain, driven by the legends of Brutus and Arthur as rewritten by Geoffrey of Monmouth for his Norman masters. The rebellions in 1070 by Hereward the Wake in England, in 1294 by Prince Madog in Wales and in 1297 by William Wallace in Scotland were all rebellions by Britons against Norman rule. Robert the Bruce's father and uncle fought for Norman King Edward I in the 1282-84 conquest of Wales, owing military service for their English lands. Robert himself is thought to have spent some time at Edward's court during this period and may have been involved. In the service of a knight from Flintshire, Sir Gregory Sais, Owain Glyndŵr and his brother, Tudur, spent a period guarding Berwick-on-Tweed on the Anglo-Scottish border, and in 1385, Owain and three other family members joined the army that the last Norman King, Richard II, led against Scotland. Henry VII came from an old Anglesey family, which claimed descent from Cadwaladr—in legend, the last ancient British king.

To the bards of Wales, Henry was a candidate for 'y mab darogan'—the son of prophecy—who would free the Welsh from oppression. As such, when he ascended the throne, he reunited the Romano Britons in the west with their fellow countrymen and countrywomen, 'y Cymraeg', in the lost lands to the east. Henry VII's daughter, Margaret, married into the Scottish royal family. Her direct descendant was James VI of Scotland, who succeeded Elizabeth I on the throne of England in 1603 and therefore became King James I of a United Kingdom, uniting Scotland with the rest of the UK through inheritance not conquest, with political and economic union, passed by the Parliaments of England, and Scotland 104 years later.

These are some of the foundational truths of our shared island history. This is not about a snapshot of the competing policies of different parties at a moment in time. This is about whether the UK should be united or destroyed. This is about whether we should celebrate our glorious diversity as one or smash it apart. The nationalists seek to divide, destroy and diminish every component part of the United Kingdom, achieving what centuries of would-be conquerors have failed to do. Wales, Scotland, Northern Ireland and England are better together within our shared United Kingdom.

Fodd bynnag, mae hwn yn fater i'r galon, yn ogystal â'r pen i ninnau hefyd sy'n Brydeinwyr balch, sy'n teimlo'n angerddol ynglŷn â'n hymrwymiad i'n hundeb. Mae pob rhan o'n hynysioedd bendigaid yn annwyl inni ac rydym yn arswydo wrth feddwl y gallwn ni Brydeinwyr gael ein gwahanu oddi wrth ein gilydd. O, lwythau Prydain, pam eich awydd dirywiedig i ddarnio'ch ynysioedd gartref a'u dirymu dramor? Dywedir, am ennyd fer mewn amser, i Frythoniaid Rhufeinig y gorllewin, o Ystrad Clud i Gernyw, sefyll yn unedig yn erbyn y goresgynnydd a feiddiai gyfeirio atynt fel Waelesc neu estroniaid. Adennill y tiroedd coll ac aduno llwythau Prydain oedd eu hetifeddiaeth i genedlaethau'r dyfodol. Mae hanes Hollywood, y mae ymwahanwyr yr Alban yn manteisio arno, yn ymwneud â'r goresgyniad Normanaidd ar ynys Prydain, wedi'i ysgogi gan chwedlau Brutus ac Arthur fel y'u hailysgrifennwyd gan Sieffre o Fynwy am ei feistri Normanaidd. Roedd y gwrthryfeloedd yn 1070 gan Hereward y Gwyladwrus yn Lloegr, yn 1294 gan y Tywysog Madog yng Nghymru ac yn 1297 gan William Wallace yn yr Alban i gyd yn wrthryfeloedd gan Frythoniaid yn erbyn grym y Normaniaid. Bu tad ac ewythr Robert Bruce yn ymladd dros y Brenin Normanaidd Edward I yng ngoresgyniad Cymru 1282-1284, oherwydd bod gwasanaeth milwrol yn ddyledus ganddynt yn gyfnewid am eu tiroedd yn Lloegr. Credir bod Robert ei hun wedi treulio ychydig o amser yn llys Edward yn ystod y cyfnod hwn ac efallai ei fod wedi cymryd rhan yn yr ymgyrch. Yng ngwasanaeth marchog o Sir y Fflint, Syr Grigor Sais, treuliodd Owain Glyndŵr a'i frawd, Tudur, gyfnod yn gwarchod Caerferwig ar y ffin rhwng Lloegr a'r Alban, ac yn 1385, ymunodd Owain a thri aelod arall o'r teulu â byddin o dan arweiniad y Brenin Normanaidd olaf, Richard II, yn erbyn yr Alban. Daeth Harri VII o hen deulu o Ynys Môn, a honnai eu bod yn ddisgynyddion i Gadwaladr—brenin olaf yr hen Frythoniaid, yn ôl y chwedl.

I feirdd Cymru, roedd Harri yn un a allai fod yn 'fab darogan'—a fyddai rhyddhau'r Cymry rhag gormes. Fel y cyfryw, pan esgynnodd i'r orsedd, adunodd y Brythoniaid Rhufeinig yn y gorllewin â'u cyd-wladwyr, 'y Cymry', yn y tiroedd coll i'r dwyrain. Priododd merch Harri VII, Margaret, aelod o deulu brenhinol yr Alban. Un o'i disgynyddion oedd James VI yr Alban, a olynodd Elizabeth I ar orsedd Lloegr yn 1603 gan ddod felly yn Frenin Iago I o Deyrnas Unedig, ac uno'r Alban â gweddill y DU drwy etifeddiaeth nid goresgyniad, gydag undeb gwleidyddol ac economaidd, a basiwyd gan Senedd Lloegr a Senedd yr Alban, 104 o flynyddoedd yn ddiweddarach.

Dyma rai o wirioneddau sylfaenu ein hanes cyffredin fel ynys. Nid ymwneud â chipolwg ar bolisiau croes gwahanol bleidiau ar unrhyw adeg benodol yw hyn. Mae hyn yn ymwneud â'r cwestiwn a ddylai'r DU fod yn unedig neu a ddylai gael ei dinistrio. Mae hyn yn ymwneud â'r cwestiwn a ddylem ddathlu ein hamrywiaeth gogoneddus fel un neu ei chwalu'n llwyr. Mae'r cenedlaetholwyr yn ceisio rhannu, dinistrio ac israddio pob rhan o'r Deyrnas Unedig, gan gyflawni'r hyn y methodd canrifoedd o ddarpar goncwerwyr â'i gyflawni. Mae Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn well gyda'i gilydd yn ein Teyrnas Unedig a rennir.

Follow that. You notice that he did not mention Ethelred the Unready, do you not? [Laughter.] This is an important debate, because we are in a situation where we have a UK constitution that is currently dysfunctional. Some of it is written, some of it is unwritten. I want to see a UK continue, but when we say that we are stronger together, that means different things to different people. I believe that we are stronger together, but we are stronger together depending upon what the common purpose of being together is. It really comes down to how we—over the coming years—decide what the vision, the future structure and the future purpose of the UK is going to be.

It does not have inevitability. It is not going to continue because of the Norman conquest, or because of the Britons against the Normans, or whatever. I really am not that interested in the aristocratic feuds of bygone days. It is really about the present and the future that we want to construct. Jenny Rathbone referred to the glue, the cement that brings us together, that creates a purpose for the UK; that is something that the Tory party and the coalition have been gradually unravelling. I think that one of the biggest dangers to the future of the UK comes from the things that bind us—the common principles on which the NHS was founded, welfare, the fact that we do not have regional pay, the jobs issue and inequality. What is the purpose of the UK? For me, one of its biggest functions is the redistribution of wealth—the sharing of wealth and equality around the UK. It is interesting to note that one of the biggest factors that may determine the outcome of the Scottish referendum is whether or not there will be a Conservative Government in the UK in 2015. We can understand the logic as to why that is.

Dilynwch hynny. Fe sylwch na soniodd am Ethelred yr Amharod, oni wnewch? [Chwerthin.] Mae hon yn ddadl bwysig, oherwydd rydym mewn sefyllfa lle mae gennym gyfansoddiad yn y DU sy'n gamweithredol ar hyn o bryd. Mae ychydig ohono'n ysgrifenedig, mae ychydig ohono yn anysgrifenedig. Rwyf am weld Teyrnas Unedig yn parhau, ond pan ddywedwn ein bod yn gryfach gyda'n gilydd, mae hynny'n golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Credaf ein bod yn gryfach gyda'n gilydd, ond rydym yn gryfach gyda'n gilydd, yn dibynnu ar ba beth yw'r nod cyffredin o fod gyda'n gilydd. Mae'n wir yn dibynnu ar y ffordd yr ydym ni—dros y blynyddoedd sydd i ddod—yn penderfynu beth fydd gweledigaeth, strwythur a phwrpas y DU yn y dyfodol.

Nid yw'n anochel. Ni fydd yn parhau oherwydd y goresgyniad Normanaidd, neu oherwydd y Brythoniaid yn erbyn y Normaniaid, neu beth bynnag. Nid wyf yn ymddiddori yng nghwerylon aristocrataidd y dyddiau a fu. Mae'n ymwneud â'r presennol a'r dyfodol yr ydym am ei adeiladu. Cyfeiriodd Jenny Rathbone at yr hyn sy'n dod â ni at eini gilydd, sy'n creu diben i'r DU; hynny yw rhywbeth y mae'r blaidd Doriaidd a'r glymblaidd wedi bod yn ei graddol ddatod. Yn fy marn i, daw un o'r peryglon mwyaf i ddyfodol y Deyrnas Unedig o'r pethau sy'n ein huno—y egwyddorion cyffredin y cafodd y GIG ei sefydlu arnynt, lles, y ffaith nad oes gennym gyflogau rhanbarthol, problem swyddi ac anghydraddoldeb. Beth yw pwrpas y DU? I mi, un o'i swyddogaethau mwyaf yw aildosbarthu cyfoeth—rhannu cyfoeth a chydraddoldeb ledled y DU. Mae'n ddiddorol nodi mai un o'r ffactorau mwyaf a all benderfynu canlyniad refferendwm yr Alban yw pa un a fydd Llywodraeth Geidwadol yn y DU yn 2015. Gallwn ddeall y rhesymeg dros hynny.

The First Minister has called for a constitutional convention, and he is right to do so. Whereas we are having this debate here, the unfortunate thing is that the debate is not taking place in England, because we need to look at a restructured UK and a restructured Westminster. I do not see creating an English Parliament and a federation of national blocs as being of any great benefit. For me, devolution has always been about decentralisation and the empowerment of people, bringing decision-making and power as close as possible to the people. That is why we should be looking at a system where there is decentralisation in England where there are regional Parliaments. A half-hearted attempt was made with the north-east of England, but the problem is that neither the thinking nor the ideology was there. That is a challenge that is open to all political parties. We have to get together to work on our vision for the constitutional structure and what it is that we want people to buy into. Most people are not interested in a debate about the constitution. Most people have affinity, allegiance and historic and cultural links within the UK, and that is a good thing, which binds people together, but we have to offer more than that for the next 50 or perhaps 100 years. It has to be about a decentralising theme that is about redistributing, fairness and justice. That probably also means that we have to seriously look at a written constitution that enshrines and establishes rights. That is something that people will buy into. However, if we do not offer that vision, there is no reason necessarily why the UK will exist in future decades.

Mae'r Prif Weinidog wedi galw am gonfensiwn cyfansoddiadol, ac mae'n iawn ei fod wedi gwneud hynny. Er ein bod yn cynnal y ddadl hon yma, y peth anffodus yw nad yw'r ddadl hon yn digwydd yn Lloegr, oherwydd mae angen inni edrych ar DU wedi'i hailstrwythuro a Senedd San Steffan wedi'i hailstrwythuro. Yn fy marn i, ni fydd creu Senedd i Loegr a ffederasiwn o wledydd o fudd mawr. I mi, mae datganoli bob amser wedi golygu symud pŵer o'r canol a grymuso pobl, gan ddod â phrosesau gwneud penderfyniadau a phŵer mor agos â phosibl at y bobl. Dyna pam y dylem fod yn edrych ar system lle mae datganoli yn Lloegr lle mae Seneddau rhanbarthol. Cafwyd ymgais lugoer yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, ond y broblem yw nad oedd y meddylfryd na'r ideoleg ar waith. Mae hynny'n her i bob plaid wleidyddol. Rhaid inni ddod at ein gilydd i weithio ar ein gweledigaeth ar gyfer y strwythur cyfansoddiadol a'r hyn yr ydym am i bobl ei gefnogi. Nid oes gan y rhan fwyaf o bobl ddiddordeb mewn dadl ynglŷn â'r cyfansoddiad. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn uniaethu â'r DU ac yn deyrngar iddi ac mae ganddynt gysylltiadau hanesyddol a diwylliannol yn y DU, ac mae hynny'n beth da, sy'n dlymu pobl at ei gilydd, ond rhaid inni gynnig mwy na hynny am y 50 neu efallai 100 mlynedd nesaf. Rhaid wrth thema datganoli sy'n ymwneud ag aildosbarthu, tegwch a chyfiawnder. Mae hynny fwy na thebyg hefyd yn golygu bod yn rhaid inni edrych o ddifrif ar gyfansoddiad ysgrifenedig sy'n ymgorffori ac yn sefydlu hawliau. Mae hynny'n rhywbeth y bydd pobl yn ei gefnogi. Fodd bynnag, os nad ydym yn cynnig y weledigaeth honno, nid oes unrhyw reswm pam y bydd y DU yn bodoli o reidrydd yn y dyfodol.

16:42

## Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to have the opportunity to contribute to this debate. Mick Antoniw is absolutely right—it is a very important debate. Many points have already been made, but I would like to touch on some more salient points.

The motion, which will seem to be common sense to the majority of people across Wales, is, in my opinion, self-explanatory. It is commonly accepted by most, apart from the very few people who support the ideology of isolation within this Chamber. I would contend that Scotland, Northern Ireland and England are stronger together as part of the United Kingdom. I hope that today we can send a loud message to the people of Scotland: the Welsh want you to stay, we are better together. I spent quite a number of years on missionary work in the south-east of England, and I was proud to be British and Welsh there. As part of the United Kingdom, Wales has a strong position on the international stage. Wales has a strong voice in Europe and a permanent membership of the United Nations Security Council as part of the UK. Wales is also represented by over 270 embassies of the UK across the world.

The economy of the UK is the sixth largest in the world. The UK has a shared currency and a common tax regulatory regime. The single market means that businesses are able to trade freely across the UK. For example, to achieve economic growth, the Welsh Government must capitalise on the benefits of being part of the United Kingdom and work positively with the UK Government.

Rwy'n ddiolchgar i gael cyfle i gyfrannu at y ddadl hon. Mae Mick Antoniw yn llygad ei le—mae'n ddadl bwysig iawn. Mae llawer o bwyntiau eisoes wedi cael eu gwneud, ond hoffwn sôn ychydig am rai pwyntiau mwy amlwg.

Mae'r cynnig, a fydd yn ymddangos yn synnwyr cyffredin i'r rhan fwyaf o bobl ledled Cymru, yn hunanesboniadol, yn fy marn i. Fe'i derbynnir yn gyffredinol gan y rhan fwyaf, ar wahân i'r ychydig iawn o bobl sy'n cefnogi ideoleg arwahanrwydd yn y Siambr hon. Byddwn yn dadlau bod yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn gryfach gyda'i gilydd fel rhan o'r Deyrnas Unedig. Gobeithio heddiw y gallwn anfon neges amlwg at bobl yr Alban: mae'r Cymry am ichi aros, rydym yn well gyda'n gilydd. Treuliais gryn nifer o flynyddoedd ar waith cenhadol yn ne-ddwyrain Lloegr, ac roeddwn yn falch o fod yn Brydeiniwr ac yn Gymro yno. Fel rhan o'r Deyrnas Unedig, mae gan Gymru sefyllfa gref ar y llwyfan rhyngwladol. Mae gan Gymru lais cryf yn Ewrop ac aelodaeth barhaol o Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig fel rhan o'r DU. Mae Cymru hefyd yn cael ei chynrychioli gan dros 270 o lysgenadaethau'r DU dros y byd.

Economi'r DU yw'r chweched fwyaf yn y byd. Mae gan y DU arian cyfred a rennir a threfn rheoleiddio a threthu gyffredin. Mae'r farchnad sengl yn golygu bod busnesau yn gallu masnachu'n rhydd drwy'r DU gyfan. Er enghraifft, er mwyn sicrhau twf economaidd, rhaid i Lywodraeth Cymru achub ar y manteision sy'n gysylltiedig â bod yn rhan o'r Deyrnas Unedig a gweithio'n gadarnhaol gyda Llywodraeth y DU.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I would also like to make the point that the UK Government's significant investment in transport infrastructure has seen an investment of £500 million, as we all know, for a rail link to Heathrow as well as the electrification of the Great Western main line. Communication infrastructure has also seen a commitment of almost £57 million for broadband in Wales. We are stronger together and we must never forget it.

Many Members have touched on this, but it is worth reiterating that support for independence in Wales remains static at 9%. I know that the leader of Plaid Cymru, during her leadership election, promised us real independence, but there is no clear enthusiasm for this in Wales.

We should not forget about the global reputation of the United Kingdom, which is invaluable in attracting business and encouraging investment to Wales. A good example of the benefits is the work that UK Trade and Industry has undertaken alongside our 270 embassies as part of the UK across the world. What about the pound, the oldest and most successful currency union in the world? The retention of the pound has meant that the UK economy was protected from the worst of the euro crises. As part of the UK, monetary policy and interest rates are set in a way that takes into account the needs of every part of the UK, including Wales. Let us use the debate today to send that message to our friends in Scotland, and hope that they remain with us as friends. As William Graham said a few moments ago, we are better together.

Hoffwn hefyd wneud y pwynt bod buddsoddi sylweddol Llywodraeth y DU yn y seilwaith trafnidiaeth wedi gwelw buddsoddiad o £500 miliwn, fel y gwyddom oll, ar gyfer cyswllt rheilffordd i Heathrow yn ogystal â thrydaneiddio prif reilffordd llinell y Great Western. Ym maes seilwaith cyfathrebu hefyd gwelwyd ymrwymiad o bron £57 miliwn ar gyfer band eang yng Nghymru. Rydym yn gryfach gyda'n gilydd ac ni ddylem byth anghofio hynny.

Mae sawl Aelod wedi crybwyll hyn, ond mae'n werth nodi eto bod cefnogaeth i annibyniaeth yng Nghymru yn parhau i fod yn sefydlog, sef 9%. Gwn i arweinydd Plaid Cymru, yn ystod ei hetholiad i fod yn arweinydd, addo annibyniaeth go iawn inni, ond nid oes brwdfrydedd amlwg dros hyn yng Nghymru.

Ni ddylem anghofio am enw da byd-eang y Deyrnas Unedig, sy'n amhrisiadwy o ran denu busnes ac annog buddsoddiad i Gymru. Enghraifft dda o'r manteision yw'r gwaith y mae Masnach a Diwydiant y DU wedi'i wneud ochr yn ochr â'n 270 lysgenadaethau fel rhan o'r DU dros y byd. Beth am y bunt, yr undeb ariannol hynaf a mwyaf llwyddiannus yn y byd? Mae cadw'r bunt wedi golygu i economi'r DU gael ei diogelu rhag y gwaethaf o argyfyngau'r ewro. Fel rhan o'r DU, pennir polisi ariannol a chyfraddau llog mewn ffordd sy'n ystyried anghenion pob rhan o'r DU, gan gynnwys Cymru. Gadewch inni ddefnyddio'r ddadl heddiw i anfon y neges honno at ein cyfeillion yn yr Alban, a gobeithio y byddant yn aros gyda ni fel cyfeillion. Fel y dywedodd William Graham ychydig funudau yn ôl, rydym yn well gyda'n gilydd.

16:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the First Minister.

Galwaf ar y Prif Weinidog.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

16:45 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is difficult, in a debate like this, to say something that has not been said before. In many ways I expect those on the Plaid Cymru benches to make the case for independence, even though they perhaps might not call it that. The UK is a curious state in many ways. It is one of the few states in the world where, if you ask people what their nationality is, their initial answer will not be the nationality of the state. If you ask most people in Wales, they will tell you that they are Welsh, but they see no difference and no problem with also recognising their British nationality and identity.

Mae'n anodd, mewn dadl fel hon, ddweud rhywbeth nad yw wedi cael ei ddweud o'r blaen. Mewn sawl ffordd disgwyliaf i'r rhai ar feinciau Plaid Cymru gyflwyno'r achos dros annibyniaeth, er na fyddant o bosibl yn ei alw felly. Mae'r DU mewn cyflwr rhyfedd ar sawl cyfrif. Mae'n un o'r ychydig wladwriaethau yn y byd lle, os gofynnwch i bobl ddweud beth yw eu cenedligrwydd na fyddant yn nodi cenedligrwydd y wladwriaeth yn eu hateb cychwynnol. Os byddwch yn gofyn i'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru, byddant yn dweud wrthyhych eu bod yn Gymry, ond nid ydynt yn ystyried bod unrhyw wahaniaeth na phroblem o ran cydnabod eu cenedligrwydd a hunaniaeth Brydeinig hefyd.

Despite the fact that it is made up of four nations, it has proven resilient and stable over many years. Scotland is, in terms of the law, a separate country. People are extradited to Scotland if they are to face trial there and have been arrested in England and Wales. Wales is perhaps unusual in the sense that it was incorporated into one country, namely England, in 1536 and unincorporated back out again in 1967 with the passage of the Welsh Language Act. In Northern Ireland, there was 25 years of conflict and more than 40% of the people would be hostile to being described as British in any way, yet still in Northern Ireland there is peace and the state remains stable.

Er ei bod yn cynnwys pedair gwlad, bu'n gadarn ac yn sefydlog dros flynyddoedd lawer. Mae'r Alban, o ran y gyfraith, yn wlad ar wahân. Mae pobl yn cael eu hestraddodi i'r Alban os ydynt yn sefyll prawf yno ac wedi cael eu harestio yng Nghymru a Lloegr. Mae Cymru yn anghyffredin o bosibl yn yr ystyr iddi gael ei chorffori mewn un wlad, sef Lloegr, yn 1536 a'i dadgorffori unwaith eto yn 1967 ar ôl pasio Deddf yr Iaith Gymraeg. Yng Ngogledd Iwerddon, cafwyd 25 mlynedd o wrthdaro a byddai dros 40% o'r bobl yn gwrthwynebu cael eu disgrifio'n Brydeinwyr mewn unrhyw ffordd, ond eto yng Ngogledd Iwerddon, mae heddwch ac mae'r wladwriaeth yn parhau i fod yn sefydlog.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I will deal first with the amendments. We will not be supporting amendment 1 for the reasons that have been outlined by others around this Chamber. It is absolutely right, of course, that there is a right of secession within the UK. If Wales wanted to leave the UK, then it could. However, it is quite clear that the vast majority of people in Wales do not want to. Scotland is deciding whether it wants to exercise that right of secession this year. Most of Ireland did it in 1920. So, that right of secession is there, unlike in other countries. In the US, for example, a war was fought for three years over that very issue.

It is also important to understand that Wales is, as has been mentioned by speakers on both sides of this Chamber, best served by access to a single market. That much is as true of its membership of the EU as it is of its membership of the UK. It is not possible, I believe, to argue that we should be part of the single market of the UK, which I agree with, and then argue that we should not be part of the single market of the EU, which is a far larger market. What I have found when I have been selling Wales abroad is that people are attracted to Wales's membership of the UK because of the stability it provides in Government terms and the rule of law. However, they are equally attracted to Wales's membership of the EU because of the access to the far larger market that the EU offers. As Byron Davies said, isolation is bad for Wales. That is true in terms of the UK context and it is also true in terms of the EU context. Isolation is the currency of parties such as the UK Independence Party.

The argument revolves to a great extent around what is best for Wales in terms of its financial arrangements, as well as emotional issues. The reality is that there is no doubt that Wales is better off as part of the UK. There is no doubt that we benefit from fiscal transfers and there is no doubt that, financially, we would be worse off if we were not Members of the UK. I do not think that we should be ashamed in any way about this; after all, much money was taken out of Wales when the coal industry was at its height. This is, in some way, a way of paying us back. Of course, if we left the UK, that would cease to happen. Again, Wales would be worse off. It is also worth emphasising that, in terms of finances, it is simply not the case that it is possible for Wales to say, 'We would be better off if we were not part of the UK'.

Patriotism comes in many forms, but sometimes patriotism means recognising that the best outcome for your country is to endorse the right political structure for your country. As a proud Welshman, I would say that that means being members of the UK and members of the EU. Patriotism does not have to lead to independence. Patriotism does not mean that the emotional arguments should overrule the practical arguments of ensuring the best outcome for people, fiscal transfers around the UK and ensuring the best outcome for the poorest in society. They are by far the most important objectives for any Government and they are best served by our membership of the UK.

Ymdriniaf yn gyntaf â'r gwelliannau. Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 1 am y rhesymau a amlinellwyd gan eraill yn y Siambr hon. Mae'n hollol gywir; wrth gwrs, bod hawl i ymwahanu yn y DU. Pe bai Cymru am adael y DU, yna gallai wneud hynny. Fodd bynnag, mae'n eithaf amlwg nad yw'r mwyafrif llethol o bobl yng Nghymru yn dymuno gwneud hynny. Mae'r Alban yn penderfynu a yw am arfer yr hawl honno i ymwahanu eleni. Gwnaeth y rhan fwyaf o Iwerddon hynny yn 1920. Felly, ceir yr hawl honno i ymwahanu, yn wahanol i wledydd eraill. Yn yr Unol Daleithiau, er enghraifft, bu rhyfela am dair blynedd ynglŷn â'r union fater hwnnw.

Mae hefyd yn bwysig deall, fel y soniodd siaradwyr ar y ddwy ochr i'r Siambr hon, fod mynediad i farchnad sengl o fudd mawr i Gymru. Mae hynny yr un mor wir am ei haelodaeth o'r UE ag y mae am ei haelodaeth o'r DU. Nid yw'n bosibl, fe gredaf, ddadlau o blaid bod yn rhan o farchnad sengl y DU, sef rhywbeth yr wyf yn cytuno ag ef, ac yna ddadlau na ddylem fod yn rhan o farchnad sengl yr UE, sy'n farchnad lawer mwy o faint. Yr hyn yr wyf wedi'i ganfod wrth hyrwyddo Cymru dramor yw bod pobl yn cael eu denu i aelodaeth Cymru o'r DU oherwydd y sefydlogrwydd y mae'n ei gynnig o ran Llywodraeth a rheol y gyfraith. Fodd bynnag, maent yn cael eu denu yn yr un modd hefyd i aelodaeth Cymru o'r UE oherwydd y mynediad i'r farchnad lawer mwy y mae'r UE yn ei chynnig. Fel y dywedodd Byron Davies, mae arwahanrwydd yn ddrwg i Gymru. Mae hynny'n wir o ran cyd-destun y DU ac mae hefyd yn wir o ran cyd-destun yr UE. Mae arwahanrwydd yn rhywbeth a arddelir gan bleidiau fel Plaid Annibyniaeth y DU.

Mae'r ddadl yn troi o amgylch yr hyn sydd orau i Gymru i raddau helaeth o ran ei threfniadau ariannol, yn ogystal â materion emosïynol. Y gwir yw nad oes amheuaeth nad yw Cymru yn well ei byd fel rhan o'r DU. Nid oes amheuaeth nad ydym yn elwa o drosglwyddiadau ariannol ac nid oes amheuaeth na fyddem, yn ariannol, yn waeth ein byd pe na baem yn aelodau o'r DU. Ni chredaf y dylem gywilyddio o gwbl am hyn, wedi'r cyfan, aethpwyd â llawer o arian o Gymru pan oedd y diwydiant glo ar ei anterth. Mae hyn, mewn rhyw ffordd, yn ffordd o'n had-dalu. Wrth gwrs, pe baem yn gadael y DU, byddai hynny yn dod i ben. Unwaith eto, byddai Cymru yn waeth ei byd. Mae'n werth pwysleisio hefyd, o ran cyllid, yn syml, nad yw'n wir bod modd i Gymru ddweud, 'Byddem yn well ein byd pe na baem yn rhan o'r Deyrnas Unedig'.

Mae gwladgarwch i'w gael ar sawl ffurf, ond weithiau mae gwladgarwch yn golygu cydnabod mai'r canlyniad gorau i'ch gwlad yw cymeradwyo'r strwythur gwleidyddol cywir i'ch gwlad. Fel Cymro balch, byddwn yn dweud bod hynny'n golygu bod yn aelodau o'r DU ac aelodau o'r UE. Nid oes rhaid i wladgarwch arwain at annibyniaeth. Nid yw gwladgarwch yn golygu y dylai'r dadleuon emosïynol fod yn drech na'r dadleuon ymarferol o ran sicrhau'r canlyniad gorau i bobl, trosglwyddiadau ariannol o amgylch y DU a sicrhau'r canlyniad gorau i'r bobl dlotaf mewn cymdeithas. Dyma'r amcanion pwysicaf o bell ffordd i unrhyw Lywodraeth a'n haelodaeth o'r DU yw'r ffordd orau o'u cyflawni.

16:50	<b>Simon Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you for giving way, First Minister. Do you therefore agree with Gordon Brown's recent intervention? He said that the unionist cause had singularly failed to build up a picture of what that social union should be and how equity and fairness should be ensured among those nations. Do you feel that, therefore, it is a valid choice if a nation becomes economically self-sufficient that it should be able to choose to remain within or without that union?	Diolch ichi am ildio, Brif Weinidog. A ydych yn cytuno felly ag ymyriad diweddar Gordon Brown? Dywedodd fod yr achos unoliaethol wedi methu'n llwyr â chreu darlun o sut beth ddylai undeb cymdeithasol fod a sut y dylid sicrhau cydraddoldeb a thegwch ymhlith y gwledydd hynny. A ydych yn teimlo, felly, ei fod yn ddewis dilys os yw gwlad yn dod yn economaidd hunangynhaliol y dylai fod yn gallu dewis aros yn yr undeb hwnnw neu'r tu allan iddo?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
16:50	<b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> 'Economically self-sufficient' is a difficult definition. Do you mean 'autarky' or being able to pay its way in the world and trade with the rest of the world? It is quite clear that, as Wales is now, we would be financially worse off if we were not members of the UK. That is the reality of the situation. Simply saying, 'Let's take a punt and become independent' is not good enough for all those people we actually represent. A strong devolved Wales within the UK —	Mae 'yn economaidd hunangynhaliol' yn ddiffiniad anodd. A ydych yn golygu 'awtarciaeth' neu'r gallu i dalu eich ffordd yn y byd a masnachu â gweddill y byd? Mae'n eithaf amlwg, fel y mae Cymru ar hyn o bryd, y byddem yn waeth ein byd yn ariannol pe na baem yn aelodau o'r Deyrnas Unedig. Dyna'r gwir amdani. Nid yw dweud, 'Beth am fentro a dod yn annibynnol' yn ddigon da i'r holl bobl hynny yr ydym yn eu cynrychioli mewn gwirionedd. Cymru ddatganoledig gref o fewn y DU—	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
16:50	<b>Leanne Wood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Will you give way?	A wnewch ildio?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
16:50	<b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> In a second. A strong devolved Wales within the UK is undoubtedly the best outcome for the people of Wales.	Mewn eiliad. Cymru ddatganoledig gref o fewn y DU yn ddi-os yw'r canlyniad gorau i bobl Cymru.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
16:51	<b>Leanne Wood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Do you think that our poverty is inevitable?	A gredwch fod ein tlodi yn anochel?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
16:51	<b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Well of course I do not, but what I do know is that our poverty would get worse if we were independent; that is the whole point. Poverty is not inevitable, but, sometimes, you have to say that the structure that brings people out of poverty is a structure that involves being part of a bigger whole, and that, of course, means being part of the UK. Leanne Wood, in her contribution, added a word to the original debate topic: she said that we should unconditionally support the union. That is not quite what it says. The union has changed over the years. It is not what it was in 1999; it is not what it was in 1920. No, the support should not be unconditional; the support should be for the structure that exists, but with the understanding that it needs to change, that it needs to adapt. It did so with devolution; it did so again with Wales in 2011. There is no doubt that it will do so in future.	Wel wrth gwrs nad wyf yn credu hynny, ond yr hyn yr wyf yn ei wybod yw y byddai ein tlodi yn mynd yn waeth pe baem yn annibynnol; dyna'r pwynt. Nid yw tlodi yn anochel, ond, weithiau, rhaid ichi ddweud mai'r strwythur sy'n helpu pobl i ddianc rhag tlodi yw'r un sy'n golygu bod yn rhan o uned fwy, ac, wrth gwrs, mae'n golygu bod yn rhan o'r DU. Yn ei chyfraniad, ychwanegodd Leanne Wood un gair at bwnc gwreiddiol y ddad: dywedodd y dylem gefnogi'r undeb yn ddiamod. Nid dyna beth a ddywed yn union. Mae'r undeb wedi newid dros y blynyddoedd. Mae'n wahanol i'r hyn a fu yn 1999; mae'n wahanol i'r hyn a fu yn 1920. Na, ni ddylai'r gefnogaeth fod yn ddiamod; dylai'r gefnogaeth fod i'r strwythur sy'n bodoli, ond gyda'r ddealltwriaeth bod angen iddo newid, bod angen iddo ymaddasu. Gwnaeth hynny gyda datganoli; gwnaeth hynny eto yng Nghymru yn 2011. Nid oes unrhyw amheuaeth na fydd yn gwneud hynny yn y dyfodol.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

Kirsty Williams made the point that, regardless of the result in Scotland this year, there have to be changes in the UK. The most dangerous outcome for those of us who believe in the unity of the UK is for there to be a 'no' vote in Scotland and then for the UK Government to ignore the demand for devolution. That would lead, in a few years' time I believe, to another referendum in Scotland and, this time, a 'yes' vote. Therefore, it is absolutely crucial that we address issues of autonomy and devolution within the UK regardless of the result of that vote. Many of you will have heard me call on many, many occasions for a constitutional convention to examine this issue, and that need is true whether there is a 'yes' vote or a 'no' vote in Scotland. There is much that needs to be done to address the constitutional imbalances and flaws that exist within the current constitution of the UK. That work will have to be done regardless of what happens in Scotland.

Finally, may I say that I listened carefully to the contribution of Mark Isherwood? He lapsed into poetry at one point, and I welcome that in this Chamber. I do not know whether it was his own poetry or whether he was quoting. He did, at one point, refer to the lost land, and England is described in Welsh as 'the lost land'; however, whether that was a call for us to invade England to regain the lost land I do not know. I can assure him that it is not current Welsh Government policy. [Laughter.] In fairness, I think the same is true of Plaid Cymru; it has not appeared in any Plaid Cymru manifesto. He made the point that, in 1485, at Bosworth field, some suggested that the Welsh should recapture their lands. I think that it was either the papal ambassador or the Venetian ambassador who said that. It did not quite work out that way. I do not think that people in London have realised that they have actually been living in Wales since 1485. However, he does make the point of course that, on this island, despite the fact that, for many, this is a history of war and of conflict, the reality is that that conflict has by and large disappeared. The last time a battle was fought was in 1747 at Culloden. That was not a battle between the Scots and the English; it was a battle between Catholic highland Scots and lowland Scots and English armies. The reality is that that conflict has gone, so let us say that we can celebrate our national identities, we can be proud of being Welsh, but, at the same time, we can recognise the social, cultural and economic benefits that our membership of the UK brings.

Gwnaeth Kirsty Williams y pwynt, beth bynnag fo'r canlyniad yn yr Alban eleni, fod yn rhaid cael newidiadau yn y DU. Y canlyniad mwyaf peryglus i'r rhai ohonom sy'n credu yn undod y DU yw bod pleidlais 'na' yn yr Alban, ac yna bod Llywodraeth y DU yn anwybyddu'r galw am ddatganoli. Byddai hynny'n arwain, ymhén ychydig o flynyddoedd fe gredaf, at refferendwm arall yn yr Alban ac at bleidlais 'ie', y tro hwn. Felly, mae'n gwbl hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â materion ymreolaeth a datganoli yn y DU beth bynnag fo canlyniad y bleidlais. Bydd llawer ohonoch wedi fy nghlywed yn galw ar sawl, sawl achlysur am gonfensiwn cyfansoddiadol i ystyried y mater hwn, ac mae'r angen hwnnw yn wir os ceir pleidlais 'ie' neu 'na' yn yr Alban. Mae llawer y mae angen ei wneud i fynd i'r afael â'r anghydwysedd a'r diffygion cyfansoddiadol sy'n bodoli o fewn cyfansoddiad presennol y DU. Bydd yn rhaid i'r gwaith hwnnw gael ei wneud beth bynnag fo'n digwydd yn yr Alban.

Yn olaf, hoffwn ddweud imi wrando'n ofalus ar gyfraniad Mark Isherwood. Dechreuodd farddoni ar un adeg, a chrosawaf hynny yn y Siambr hon. Ni wn ai ei farddoniaeth ei hun ydoedd, ynteu dyfynnu yr oedd. Cyfeiriodd, ar un adeg, at y tir coll, a bod Lloegr yn cael ei disgrifio yn y Gymraeg fel 'y tir coll', fodd bynnag, ni wn pa un a oedd yn galw arnom i ymosod ar Loegr ac adennill y tir coll. Gallaf ei sicrhau nad yw'n bolisi gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. [Chwerthin.] A bod yn deg, credaf fod yr un peth yn wir am Blaid Cymru, nid yw wedi ymddangos mewn unrhyw fanifesto gan Blaid Cymru. Gwnaeth y pwynt, yn 1485, ar faes Bosworth, i rai awgrymu y dylai'r Cymry ailgipio eu tiroedd. Credaf mai naill ai llysgennad y Pab neu'r llysgennad Fenisaid a ddywedodd hynny. Nid felly y bu yn y diwedd. Ni chredaf fod pobl yn Llundain wedi sylweddoli eu bod wedi bod yn byw yng Nghymru mewn gwirionedd ers 1485. Fodd bynnag, gwnaeth y pwynt, wrth gwrs, ar yr ynys hon, er gwaethaf y ffaith, i lawer, fod ein hanes yn llawn rhyfel a gwrthdaro, y realiti yw bod y gwrthdaro wedi diflannu ar y cyfan. Y tro diwethaf y cafodd brwydr ei hymladd oedd yn 1747 yn Culloden. Nid brwydr rhwng yr Albanwyr a'r Saeson ydoedd; roedd yn frwydr rhwng Albanwyr Catholig yr ucheldiroedd a byddin Albanwyr yr iseldir a byddin Lloegr. Y gwir yw bod y gwrthdaro hwnnw wedi darfod o'r tir, felly gadewch inni ddweud y gallwn ddathlu ein hunaniaeth genedlaethol, gallwn fod yn falch o fod yn Gymry, ond, ar yr un pryd, gallwn gydnabod y manteision cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd a ddaw i'n rhan drwy ein haelodaeth o'r DU.

16:54

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Andrew R.T. Davies to reply to the debate.

Galwaf ar Andrew R.T. Davies i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:54

## **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank everyone who has contributed to the second Conservative debate this afternoon. The theme of the two debates that the Conservatives tabled is that they are definitely topical, to say the least. We are starting the year 2014, the year of the referendum in Scotland. I do not think that we can ever forget, and we should not forget, the strengths that the union of the United Kingdom clearly gives all its component parts.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ail ddatl y Ceidwadwyr y prynhawn yma. Thema'r ddwy ddatl a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr yw eu bod yn bendant yn amserol, a dweud y lleiaf. Rydym yn dechrau'r flwyddyn 2014, blwyddyn y refferendwm yn yr Alban. Ni chredaf y gallwn fyth anghofio, ac ni ddylem anghofio, y cryfderau y mae undeb y Deyrnas Unedig yn amlwg yn eu rhoi i'w holl rannau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

It is a union that is created by consent, by the will of the individual parts to remain within that union. If a part of the union wishes, it can have a referendum. If, in Northern Ireland, for example, a majority decided to, they could leave the union and rejoin the Republic, as all Westminster Governments have recognised, and they would not stand in the way of such a decision being made. The SNP in 2011 clearly won a majority and it is its right, as the Government in Scotland, to bring forward a referendum. The Westminster Government, in negotiations with the devolved Government in Scotland has facilitated that. I welcome the discussion that is going on north of the border and it is for the Scots to decide their own destiny. Via the constitutional changes that have happened in the United Kingdom over the last 14 or 15 years, that is what the people of Scotland are going to be able to do.

Many contributors today talked about the change, or about staying the same. But, politics, surely, is all about change; that is what, hopefully, excites the electorate, to a point, when politicians come forward and map out what their party's or their individual views are and they hopefully resonate with the electorate and win enough votes to implement those policies and ideas. No-one is saying that the union of the United Kingdom in 20, 30, 40 or 50 years' time will be the same union as it was at the turn of this century. A country that stands still is actually going backwards, I would suggest, and has to change to meet those challenges.

In her opening remarks, the leader of Plaid Cymru used the word 'obedient': we are an obedient part of the United Kingdom. I found that rather offensive, to be honest with you, because we have democracy in these islands. We have representatives who go to various institutions, whether they are in Brussels, Westminster, this institution, or local authorities. That is called democracy. Obedience is something that dictators try to implement and force on a population. I think that that was somewhat of an unfortunate tone to set in her opening remarks. She also touched on the SNP press release that came out yesterday that chastised the Welsh Conservatives for daring to table a debate on the union, and tried to link it somehow to David Cameron going north of the border to debate with Alex Salmond. Their desire was to bring the Prime Minister north.

However, everyone has said that this is for the people of Scotland to determine. It is for the people of Scotland to debate the independence referendum, but you cannot exclude people across the United Kingdom and prevent them from discussing their union and their United Kingdom. That is what the United Kingdom is; it is the people of Northern Ireland, Wales, England and Scotland agreeing—

Mae'n undeb sy'n cael ei greu drwy gydsyniad, yn ôl ewyllys y rhannau unigol i aros o fewn y undeb. Os bydd rhan o'r undeb yn dymuno, caiff refferendwm. Os bydd y mwyafrif, yng Ngogledd Iwerddon, er enghraifft, yn penderfynu felly, gallent adael yr undeb ac ailymuno â'r Weriniaeth, gan fod pob Llywodraeth yn San Steffan wedi cydnabod hynny, ac ni fyddent yn gwrthwynebu penderfyniad o'r fath yn cael ei wneud. Yn amlwg, enillodd yr SNP fwyafrif yn 2011 ac mae hawl ganddi, fel Llywodraeth yr Alban, gyflwyno refferendwm. Mae Llywodraeth San Steffan, mewn trafodaethau gyda'r Llywodraeth ddatganoledig yn yr Alban wedi hwylyso hynny. Croesawaf y drafodaeth sy'n mynd rhagddi dros y ffin a mater i'r Albanwyr yw penderfynu ar eu tynged eu hunain. Drwy'r newidiadau cyfansoddiadol sydd wedi digwydd yn y Deyrnas Unedig dros yr 14 neu 15 mlynedd diwethaf, dyna beth fydd pobl yr Alban yn gallu ei wneud.

Soniodd llawer o'r cyfranwyr heddiw am y newid, neu am aros yr un fath. Fodd bynnag, onid newid sydd wrth wraidd gwleidyddiaeth; dyna'r hyn, gobeithio, sy'n cyffroi'r etholwyr, i ryw raddau, pan fydd gwleidyddion yn camu ymlaen ac yn amlinellu barn eu plaid neu eu barn unigol ac maent, gobeithio, yn taro tant â'r etholwyr ac ennill digon o bleidleisiau i weithredu'r polisiau a'r syniadau hynny. Nid oes neb yn dweud mai'r un fydd undeb y Deyrnas Unedig ymhen 20, 30, 40 neu 50 mlynedd ag yr oedd ar droed y ganrif hon. Mae gwlad sy'n sefyll yn ei hunfan yn mynd tuag yn ôl mewn gwirionedd, ddywedwn i, a rhaid iddi newid i ateb yr heriau hynny.

Yn ei sylwadau agoriadol, defnyddiodd arweinydd Plaid Cymru y gair 'ufudd': rydym yn rhan ufudd o'r Deyrnas Unedig. Yn fy marn i, roedd hwnnw braidd yn sarhaus a dweud y gwir, oherwydd mae gennym ddemocratiaeth yn yr ynysoedd hyn. Mae gennym gynrychiolwyr sy'n mynd i wahanol sefydliadau, pa un a ydynt ym Mrwsel, San Steffan, y sefydliad hwn, neu awdurdodau lleol. Gelwir hyn yn ddemocratiaeth. Mae ufudd-dod yn rhywbeth y mae unbeniaid yn ceisio ei weithredu a'i orfodi ar boblogaeth. Credaf fod hynny'n rhoi cywair anffodus braidd i'w sylwadau agoriadol. Cyfeiriodd hefyd at y datganiad i'r wasg gan yr SNP a gyhoeddwyd ddoe yn ceryddu'r Ceidwadwyr Cymreig am fod mor hyf â chyflwyno dadl ar yr undeb, gan geisio ei chysylltu rywsut â David Cameron yn mynd dros y ffin i gynnal dadl gydag Alex Salmond. Roeddent am ddod â Phrif Weinidog y DU i'r Alban.

Fodd bynnag, mae pawb wedi dweud mai mater i bobl yr Alban benderfynu arno ydyw. Mater i bobl yr Alban yw trafod y refferendwm ar annibyniaeth, ond ni allwch eithrio pobl ledled y Deyrnas Unedig a'u hatal rhag trafod eu hundeb a'u Teyrnas Unedig. Dyna beth yw'r Deyrnas Unedig: pobl Gogledd Iwerddon, Cymru, Lloegr a'r Alban yn cytuno—

16:57 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:57 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I will take the intervention in a minute. It is about them agreeing that the union is good for these islands, both economically and socially. I will take your intervention now.

Derbyniat yr ymyriad mewn munud. Mae'n ymwneud â hwy yn cytuno bod yr undeb yn beth da i'r ynysoedd hyn, yn economaidd ac yn gymdeithasol. Derbyniat eich ymyriad yn awr.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:57	<p><b>Leanne Wood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Why do you think that the Prime Minister is so reticent to have that tv debate with the First Minister of Scotland?</p>	<p>Pam bod Prif Weinidog y DU mor amharod i gael y ddadl deledu honno gyda Phrif Weinidog yr Alban, yn eich barn chi?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
16:57	<p><b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I do not think that it is reticence at all; it is allowing the people of Scotland and the elected leaders in Scotland to debate that point and to debate it over the period of the referendum.</p>	<p>Yn sicr, nid amharodrwydd ydyw, yn fy marn i; mae'n rhoi cyfle i bobl yr Alban ac arweinwyr etholedig yn yr Alban drafod y pwynt hwnnw ac i'w drafod dros gyfnod y referendwm.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
16:58	<p><b>Leanne Wood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>He would lose.</p>	<p>Byddai'n colli.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
16:58	<p><b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>You can argue that, and I can appreciate that you will come from that point of view. The leader of the Liberal Democrats and the First Minister talk about constitutional change. In my opening remarks, I said that I think that it will be fatal if people do not accept that change, in any shape or form, is inevitable, because we have to move with the times. However, the one thing that I think is the unsettled position in these islands is how England will respond to the changes that have happened to date and the changes that will invariably happen in the coming decades.</p> <p>This is why I disagree with the First Minister on his constitutional convention, because, what would England actually bring to that constitutional convention? I would hope that it would be able to bring some settled position, but the Celtic nations seem to have an idea—albeit that there are different boundaries on certain areas—about how we move forward. However, I have made the point on several occasions that England really does need to have that debate and discussion as to how it will deal with devolution—the changes that have happened and the changes that could potentially come as well. Until that debate is settled, I think that a constitutional convention would be premature.</p>	<p>Gallwch honni hynny, a gallaf ddeall pam y byddech yn arddel y safbwynt hwnnw. Mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Prif Weinidog yn sôn am newid cyfansoddiadol. Yn fy sylwadau agoriadol, dywedais fy mod yn credu y bydd yn beryglus os nad yw pobl yn derbyn bod newid, ar ryw lun, yn anochel, oherwydd rhaid inni symud gyda'r oes. Fodd bynnag, un peth sy'n ansefydlog yn yr ynysoedd hyn yn fy marn i, yw sut y bydd Lloegr yn ymateb i'r newidiadau sydd wedi digwydd hyd yn hyn a'r newidiadau a fydd, yn anochel, yn digwydd yn y degawdau i ddod.</p> <p>Dyna pam rwy'n anghytuno â'r Prif Weinidog ynglŷn â'i gonfensiwn cyfansoddiadol, oherwydd, beth fyddai Lloegr yn ei gynnig i'r confensiwn cyfansoddiadol hwnnw mewn gwirionedd? Gobeithio y byddai'n gallu cynnig safbwynt pendant, ond ymddengys bod gan y gwledydd Celtaidd syniad—er bod ffiniau gwahanol mewn rhai meysydd—ynghylch sut rydym yn symud ymlaen. Fodd bynnag, rwyf wedi gwneud y pwynt ar sawl achlysur fod gwir angen i Loegr gynnal y ddadl a'r drafodaeth honno ynglŷn â sut y bydd yn ymdrin â datganoli—y newidiadau sydd wedi digwydd a'r newidiadau a allai ddod hefyd. Hyd nes bod y ddadl honno wedi'i chynnal, credaf y byddai confensiwn cyfansoddiadol yn gynamserol.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

Looking at the other contributions today, Mark Isherwood kindly touched on the history and the way that the union has been formed over many centuries—a proud history. William Graham touched on the point about our trading credentials and we are the most successful international trading union in the world. Let us face that. If you take the history of these islands, we have traded to success; we have traded to prosperity. Byron reinforced the security point of us, as an island, forming a union and being secure in a world that is increasingly uncertain. Indeed, Jenny Rathbone touched on the glue that holds us together on these islands. I agree with you entirely, Jenny—I am getting a bit frightened now, because I agreed with Lynne Neagle comprehensively on her remarks in our previous debate, and I find agreement with you. One of the biggest challenges for the union is to deal with the social challenges that it faces: the overheating south-east of England and the concentration of wealth in one part of our union without the spreading out of those benefits to all parts of the union. That is why I believe that politicians, instead of lamenting that wealth in the south-east of England, should be bringing forward ideas to break that wealth out of the south-east of England and spread it around the union. That will not happen if you break up the union of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland. I believe that it is vital that we engage with the challenge and celebrate what we have as a union that is, undoubtedly, a successful concept—it is a successful concept because the people of these islands buy into it; every poll shows that people across its constituent parts believe that we are better together. That is why I hope that this Chamber today will rally behind this motion and send a clear message that, yes, Wales is better together with the other parts of the United Kingdom in a strong union in the twenty-first century.

O edrych ar y cyfraniadau eraill heddiw, bu Mark Isherwood cystal â sôn am yr hanes a'r ffordd y ffurfiwyd yr undeb dros ganrifoedd lawer—hanes balch. Cyfeiriodd William Graham at y pwynt ynglŷn â'n hanes o fasnachu a'r ffaith mai ni yw'r undeb masnachu rhyngwladol mwyaf llwyddiannus yn y byd. Gadewch inni feddwl am hynny. Os edrychwch ar hanes yr ynysoedd hyn, rydym wedi masnachu tuag at lwyddiant, rydym wedi masnachu tuag at ffyniant. Atgyfnerthodd Byron y pwynt ynglŷn â diogelwch inni, fel ynys, sy'n ffurfio undeb ac sy'n ddiogel mewn byd sy'n gynyddol ansicr. Yn wir, cyfeiriodd Jenny Rathbone at yr hyn sy'n ein clymu at ein gilydd ar yr ynysoedd hyn. Cytunaf yn llwyr â chi, Jenny—rwy'n dechrau poeni ychydig yn awr, oherwydd cytunais â Lynne Neagle yn gyffredinol o ran ei sylwadau yn ein dadl flaenorol, a chytunaf â chithau. Un o'r heriau mwyaf i'r undeb yw ymdrin â'r heriau cymdeithasol y mae'n eu hwynebu: gorgynhesu yn ne-ddwyrain Lloegr a'r crynhoed o gyfoeth mewn un rhan o'n hundeb lle nad yw'r buddiannau hynny yn ymestyn i bob rhan o'r undeb. Dyna pam y credaf y dylai gwleidyddion, yn hytrach na gresynu at y cyfoeth yn ne-ddwyrain Lloegr, gyflwyno syniadau i ddosbarthu'r cyfoeth hwnnw o dde-ddwyrain Lloegr a'i ledaenu i bob rhan o'r undeb. Ni fydd hynny'n digwydd os chwalwch undeb Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Credaf ei bod yn hollbwysig ein bod yn ateb yr her ac yn dathlu'r hyn sydd gennym fel undeb sydd, yn ddi-os, yn gysyniad llwyddiannus—mae'n gysyniad llwyddiannus am fod pobl yr ynysoedd hyn yn ei gefnogi; mae pob arolwg yn dangos bod pobl ym mhob rhan o'r undeb yn credu ein bod yn well gyda'n gilydd. Dyna pam rwy'n gobeithio y bydd y Siambwr hon heddiw yn cefnogi'r cynnig hwn ac yn anfon neges glir bod Cymru yn well pan fo ynghlwm wrth rannau eraill o'r Deyrnas Unedig mewn undeb cryf yn yr unfed ganrif ar hugain.

17:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection, therefore, I defer voting on this item until voting time.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Oes, felly, gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Dadl Plaid Cymru: Gweithlu'r GIG

## Plaid Cymru Debate: The NHS Workforce

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 3, 4, 5 a 6 yn enw William Graham, a gwelliant 2 yn enw Aled Roberts.*

*The following amendments have been selected: amendments 1, 3, 4, 5 and 6 in the name of William Graham, and amendment 2 in the name of Aled Roberts.*

Cynnig NDM5399 Elin Jones

Motion NDM5399 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu ac i weithredu cynllun gweithlu GIG cenedlaethol newydd ar gyfer y degawd nesaf ac i gynyddu'r gweithlu meddygol yn sylweddol yng Nghymru.

Calls on the Welsh Government to develop and implement a new national NHS workforce plan for the next decade and to significantly increase the medical workforce in Wales.

17:01

## Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Dadl yw hon am gynllunio dyfodol gweithlu'r NHS, ac am y gweithlu meddygol, y doctoriaid, yn benodol. Rydym yn canolbwyntio ar ddoctoriaid heddiw nid am eu bod nhw'n bwysicach nag elfennau eraill o'r gweithlu iechyd, achos nid ydynt, ond am fod y ffactorau recriwtio a hyfforddi yn llawer mwy problematig o fewn y proffesiwn meddygol ar y foment ac i'r dyfodol rhagweladwy.

O ran gweithlu'r NHS, mae gan Lywodraeth Cymru fantais enfawr o ran cynllunio'r gweithlu hwn o'i gymharu ag unrhyw weithlu arall yng Nghymru. Mae'r NHS yn eiddo i Lywodraeth Cymru, ac i bobl Cymru o ran hynny hefyd, ac felly mae'r holl wybodaeth am broffil oedran ac arbenigedd y gweithlu ac anghenion y gweithlu i'r dyfodol ar gael i'r byrddau iechyd ac i'r Llywodraeth. Yn y sector hwn, felly, yn fwy nag unrhyw sector arall, fe ddylid medru cydgorffio'r 'demand and supply' o weithwyr, ond nid felly y mae hi.

Mae tri ffactor pwysig i dynnu sylw atynt ar gychwyn y ddadl hon am y gweithlu meddygol yng Nghymru. Y cyntaf ohonynt, ac, o bosibl, y lleiaf pwysig, yw lefel isel y nifer o ddoctoriaid yng Nghymru i bob pen o'r boblogaeth o'i gymharu â gwledydd eraill o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Rydym yn uwch na Gwlad Pwyl a Rwmania, ond yn is na phawb arall, gan gynnwys Lloegr a'r Alban. Ar y brig yn yr ystadegau hyn y mae Awstria a Sbaen. Wrth gwrs, mae'n rhaid rhoi ffigurau o'r math hwn ynglŷn â'r nifer o ddoctoriaid a'r nifer isel o ddoctoriaid y pen yng nghydestun y ffaith bod gan Gymru rai o'r ystadegau gwaethaf o ran iechyd cyhoeddus hefyd.

Yr ail ffactor i'w ystyried wrth gyflwyno'r ddadl hon, a'r un sy'n creu'r pwysau presennol, yw'r swyddi doctoriaid sy'n wag ar hyn o bryd a'r anallu i recriwtio i arbenigeddau penodol ac ardaloedd daearyddol penodol. Mae'r strae'n y mae hyn yn ei greu o fewn ein hysbytai yn hysbys i bawb, ac y mae'r gost ychwanegol i fyrrddau iechyd wrth iddynt wynebu biliau sylweddol am ddoctoriaid 'locum' hefyd wedi ei thrafod eisoes y prynhawn yma.

Y trydydd ffactor, ac, o bosibl, y ffactor pwysicaf, yw'r 'ticking time bomb', i bob pwrpas, o fewn y gweithlu meddygon teulu yn enwedig, wrth i nifer ohonynt gyrraedd oedran ymddeol. Roedd adroddiad Longley y llynedd yn nodi y bydd 40% o GPs y Cymoedd yn ymddeol neu o oedran ymddeol o fewn y 10 mlynedd nesaf. Pan wynebwyd her recriwtio fel hon o'r blaen yn y Cymoedd, doctoriaid o isgyfandir India gamodd i'r bwllch, ac rydym yn gwybod bod hyn yn llawer llai tebygol heddiw wrth i reolau mewnfudo'r Deyrnas Gyfunol gau'r drws ar y ffynhonnell hwylus hon. Mae proffil oedran GPs mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd eraill hefyd yn oedrannus, a'r ardaloedd hyn i gyd yn wynebu'r un her.

Felly, mae gennym ganran uchel o GPs yn ymddeol ar yr union adeg pan fydd polisi'r Llywodraeth eisiau trosglwyddo mwy o ofal iechyd o sefyllfa ysbyty i'r gymuned ac i gartrefi pobl. Bydd y gofal hwnnw, wrth gwrs, o dan ofal meddygon teulu. Mae hyn felly yn gosod o'n blaenau problem fawr ar gyfer y pump i 10 mlynedd nesaf.

This is a debate on the future planning of the NHS workforce, and on the medical workforce, the doctors, in particular. We are concentrating on doctors today not because they are more important than other elements of the health workforce, because they are not, but because recruitment and training factors are far more problematic within the medical profession at the moment and for the foreseeable future.

In terms of the NHS workforce, the Welsh Government does have a huge advantage in terms of planning this workforce as compared to any other workforce in Wales. The NHS is the property of the Welsh Government, and also of the people of Wales for that matter, and therefore all the information about the age profile and expertise of the workforce and the workforce needs for the future are available to the health boards and to the Government. In this sector, therefore, more than any other, we should be able to balance supply and demand in terms of the workforce, but that is not the case at present.

There are three important factors that should be highlighted at the beginning of this debate in relation to the medical workforce in Wales. The first of those, and perhaps the least important, is the low level in terms of the number of doctors in Wales per capita as compared to other nations within the European Union. We are higher than Poland and Romania, but lower than everyone else, including England and Scotland. At the top of these league tables are Austria and Spain. Of course, we need to put these kinds of figures in terms of the number of doctors and the low number of doctors per capita in the context of the fact that Wales also has some of the worst statistics in terms of public health.

The second factor to consider in opening this debate, and the one that creates the current pressures, is the number of doctor posts that are vacant at present and the inability to recruit to particular specialisms and particular geographical areas. The strain that this creates within our hospitals is well known to us all, and the additional cost to health boards as they face significant bills for locum doctors has already been discussed this afternoon.

The third factor, and perhaps the most important, is the ticking time bomb, to all intents and purposes, in terms of the GP workforce in particular, as many of them reach retirement age. The Longley report of last year noted that 40% of GPs in the Valleys were to retire or of retirement age within the next decade. When a similar recruitment challenge was faced in the Valleys in the past, doctors from the Indian sub-continent stepped into the breach, and we know that this is far less likely today as UK immigration rules close the door on this convenient source. The age profile of GPs in rural areas and other areas is also older, and many areas face the same challenge.

Therefore, we have a high percentage of GPs retiring at exactly the same time as Government policy wants to transfer more healthcare from the hospital scenario into the community and into people's homes. That, of course, will be GP-led. This therefore poses a huge problem for the next five to 10 years.

In questions to the Minister earlier, we heard the Minister deny that there is a doctor recruitment crisis. I do not really want to dwell this afternoon on when a doctor shortage becomes a crisis, nor whether a possible non-crisis of today could become a crisis tomorrow. I would rather see us all agree that there are doctor shortages in some specialisms, and in some geographical areas in Wales, and that, also, in terms of GP numbers, in particular, we have a large proportion of that workforce nearing retirement, and that we need to do something about this.

We can disagree or perhaps debate this afternoon how we want to tackle these factors. Some may advocate a laissez-faire approach to medical recruitment and training, hoping that the usual forces will see us right into the future. In Plaid Cymru we favour a more interventionist approach, which can seek to ensure a sufficient medical workforce in all communities in Wales and in the vast majority, if not all, specialisms into the future.

We believe that it is possible to train and recruit 1,000 additional doctors in Wales over the next 10 years, if we choose to do so. However, it would require political priority and resources to make this happen. We published on Monday some of our ideas on how this could be achieved, and we have published those for consultation. We have been pleased that some of the professional bodies have welcomed some of our ideas, and that the proposals have generated debate among commentators. I am looking forward to hearing comments this afternoon on our ideas and other ideas that other Assembly Members and the Welsh Government have on tackling these issues into the future.

I will quickly run through some of the ideas, which are in four main themes. First is the theme of financial incentives for postgraduate recruitment and hard-to-fill vacancies. The Wales Deanery survey finding that 95% of doctors who complete training in Wales stay in Wales indicates that specific workforce problems could be resolved by ensuring that postgraduate trainees train in the areas and specialisms where there are predicted to be shortages. By offering financial incentives for doctors to train in these areas and specialisms, we could start to alleviate the problems of the present, but, more particularly, the problems of the future.

One such policy initiative is the New Zealand bond scheme, which is a voluntary bond scheme run by the New Zealand Ministry of Health. It is an incentive payment scheme that rewards doctors who agree to work in hard-to-staff areas or specialisms by making payments against the graduate student loan. In Wales we could take it a step further and make it conditional on a specified number of years of service to the NHS after training. There are also other options on financial incentives, such as 'golden hellos' for hard-to-fill posts, and directly-salaried GPs employed directly by local health boards.

Mewn cwestiynau i'r Gweinidog yn gynharach, clywsom y Gweinidog yn gwadu bod argyfwng recriwtio meddygon. Nid wyf wir am dreulio'r prynhawn yma yn trafod pryd y bydd prinder meddygon yn troi'n argyfwng, na ph'un a allai achos nad yw'n argyfwng heddiw droi'n argyfwng yfory. Byddai'n well gennyf weld pob un ohonom yn cytuno bod prinder meddygon mewn rhai arbenigeddau, ac mewn rhai ardaloedd daearyddol yng Nghymru, a hefyd, o ran niferoedd meddygon teulu, yn arbennig, bod cyfran fawr o'r gweithlu hwnnw'n agosáu at oedran ymddeol, a bod angen inni wneud rhywbeth am hyn.

Gallwn anghytuno neu efallai drafod y prynhawn yma sut rydym am fynd i'r afael â'r ffactorau hyn. Efallai y bydd rhai yn argymhell ymagwedd laissez-faire tuag at recriwtio a hyfforddiant meddygol, gan obeithio y bydd y grymoedd arferol yn sicrhau ein bod yn iawn ar gyfer y dyfodol. Ym Mhlaid Cymru, rydym yn ffafrio dull mwy ymyraethol, a all geisio sicrhau gweithlu meddygol digonol ym mhob cymuned yng Nghymru ac yn y mwyafrif helaeth o arbenigeddau yn y dyfodol, os nad pob un ohonynt.

Credwn ei bod yn bosibl hyfforddi a recriwtio 1,000 o feddygon ychwanegol yng Nghymru dros y 10 mlynedd nesaf, os byddwn yn dewis gwneud hynny. Fodd bynnag, byddai angen blaenoriaeth ac adnoddau gwleidyddol i wneud i hyn ddigwydd. Ddydd Llun, gwnaethom gyhoeddi rhai o'n syniadau ar sut y gellid cyflawni hyn, ac rydym wedi cyhoeddi rhai ar gyfer ymgynghori. Rydym wedi cael ein plesio bod rhai o'r cyrff proffesiynol wedi croesawu rhai o'n syniadau, a bod y cynigion wedi creu dadl ymhlith sylwebyddion. Edrychaf ymlaen at glywed sylwadau y prynhawn yma ar ein syniadau a syniadau eraill sydd gan Aelodau eraill y Cynulliad a Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â'r materion hyn yn y dyfodol.

Soniaf yn gyflym am rai o'r syniadau, sydd mewn pedair prif thema. Y cyntaf yw'r thema o gynnis cymhellion ariannol ar gyfer prosesau recriwtio ôl-raddedig a swyddi gwag sy'n anodd eu llenwi. Mae arolwg Deoniaeth Cymru a ganfu bod 95% o feddygon sy'n cwblhau hyfforddiant yng Nghymru yn aros yng Nghymru yn nodi y gallai problemau gweithlu penodol gael eu datrys drwy sicrhau bod hyfforddeion ôl-raddedig yn hyfforddi yn y meysydd ac arbenigeddau lle y rhagwelir y bydd prinder. Drwy gynnis cymhellion ariannol i feddygon am hyfforddi yn y meysydd ac arbenigeddau hyn, gallem ddechrau lleddfu problemau'r presennol, ond, yn fwy penodol, problemau'r dyfodol.

Un fenter polisi o'r fath yw cynllun bond Seland Newydd, sy'n gynllun bond gwirfoddol a gaiff ei redeg gan Weinyddiaeth Iechyd Seland Newydd. Mae'n gynllun cymeldaliadau sy'n gwobrwyo meddygon sy'n cytuno i weithio mewn meysydd neu arbenigeddau anodd eu staffio drwy wneud taliadau yn erbyn y benthyciad myfyriwr graddedig. Yng Nghymru gallem fynd ag ef gam ymhellach a'i wneud yn amodol wrth gyrraedd nifer penodol o flynyddoedd o wasanaeth i'r GIG ar ôl hyfforddiant. Mae yna hefyd opsiynau eraill ar gymhellion ariannol, fel 'croeso euraid' ar gyfer swyddi sy'n anodd eu llenwi, a chyflogi meddygon teulu yn uniongyrchol gan fyrddau iechyd lleol.

A second theme to our proposals is to modernise the NHS. We absolutely accept the view that, even with financial incentive, if the Welsh NHS is seen as old-fashioned and sluggish, young medics will not want to train and work here. Therefore, we want to see every effort made to attract more cutting-edge clinical research to Wales. We have seen great success on this in Scotland. We also want to see a paperless NHS, which we have discussed previously in this Assembly, with diagnostics over Skype and patient records on clouds, not on trolleys. We want to see a network of specialist regional hospitals, serving a population where everyday and emergency healthcare is also delivered locally.

Thirdly, I want to grow the capacity, and I want to see this happen in Wales where the capacity of our medical schools is grown, and to see them serving, first and foremost, the needs of the Welsh NHS. I would like to get to a point where any young person who meets the academic standards and wants to study medicine in Wales can get a place in Wales. How many of us know, in our constituencies throughout Wales, of young people who have failed to even get an interview or a place in Cardiff, have ended up in a medical school in England and are now working in the NHS in England?

To start on this, I would like to see the Welsh Government agree a quota with Cardiff medical school, in particular, on the number of admissions from Wales into undergraduate training, and to reflect within that quota a reasonable quota of Welsh-speaking students for medical places, to allow us also to grow our bilingual medical workforce. I also want to see that we are growing our capacity to teach undergraduate and postgraduate medical students at all three medical schools, in Cardiff, Bangor and Swansea. I want to see greater co-operation between all three—possibly even a branding of them as a Welsh medical school on three sites. I was told by a physician earlier this week that we used to have a Welsh medical school until it rebranded itself as Cardiff medical school.

Fourthly, and finally, international recruitment will continue to be important. It has to be. Access to Wales, as I said earlier, by doctors from the Indian subcontinent is not as easy as it was, due to UK immigration rules. That has turned off the tap that saw a rich source of doctors come to Wales and work in our NHS over the last 30 to 50 years. For as long, hopefully, as the free movement of workers continues within the EU, doctors from the continent may be available to work in Wales. Some health boards have already started recruiting from Spain, for example. Spain, as I said earlier, has a higher-than-average number of doctors per capita. However, I would like to see the Welsh Government lead on such international recruitment and even recruitment in England and Scotland, so that such recruitment exercises are not dependent on individual health boards, but are, rather, a national effort selling the beauty of the Welsh NHS to young Spaniards and Italians and others.

All thema ein cynigion yw moderneiddio'r GIG. Rydym yn llwyr dderbyn y farn, hyd yn oed gyda chymheliant ariannol, os bydd y GIG yng Nghymru yn cael ei ystyried yn hen-ffasiwn ac araf, na fydd meddygon ifanc am hyfforddi a gweithio yma. Felly, rydym am weld pob ymdrech yn cael ei wneud i ddenu mwy o ymchwil glinigol arloesol i Gymru. Rydym wedi gweld llwyddiant mawr ar hyn yn yr Alban. Rydym hefyd am weld GIG di-bapur, yr ydym wedi ei drafod o'r blaen yn y Cynulliad hwn, gyda diagnosteg dros Skype a chofnodion cleifion ar gymylau, nid ar droliâu. Rydym am weld rhwydwaith o ysbytai rhanbarthol arbenigol, sy'n gwasanaethu poblogaeth lle ceir darpariaeth leol o ofal iechyd bob dydd a gofal iechyd brys hefyd.

Yn drydydd, rwyf am gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael, ac rwyf am weld hyn yn digwydd yng Nghymru lle caiff nifer y lleoedd sydd ar gael yn ein hysgolion meddygol ei chynyddu, ac rwyf am eu gweld yn gwasanaethu anghenion y GIG yng Nghymru uwchlaw pob dim. Hoffwn gyrraedd pwynt lle y gall unrhyw berson ifanc sy'n cyrraedd y safonau academaidd ac sy'n awyddus i astudio meddygaeth yng Nghymru gael lle yng Nghymru. Faint ohonom a wŷr, yn ein hetholaethau ledled Cymru, am bobl ifanc sydd wedi methu hyd yn oed â chael cyfweiliad neu le yng Nghaerdydd, ac sydd wedi mynd i ysgol feddygol yn Lloegr ac sydd bellach yn gweithio yn y GIG yn Lloegr?

Gan ddechrau ar hyn, hoffwn weld Llywodraeth Cymru yn cytuno ar gwota gydag ysgol feddygol Caerdydd, yn arbennig, ar nifer yr israddedigion o Gymru a gaiff eu derbyn i hyfforddi, ac o fewn y cwota hwnnw, yr adlewyrchir cwota rhesymol o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ar gyfer lleoedd meddygol, er mwyn ein galluogi hefyd i gynyddu ein gweithlu meddygol dwyieithog. Hoffwn hefyd weld ein bod yn cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael i addysgu myfyrwyr meddygol israddedig ac ôl-raddedig yn y tair ysgol feddygol yng Nghaerdydd, Bangor ac Abertawe. Hoffwn weld gwell cydweithredu rhwng y tair—o bosibl hyd yn oed eu brandio fel ysgol feddygol Gymreig ar dri safle. Dywedodd meddyg wrthyf yn gynharach yr wythnos hon yr arferai fod gennym ysgol feddygol Gymreig nes iddi ei hail-frandio ei hun yn ysgol feddygol Caerdydd.

Yn bedwerydd, ac yn olaf, bydd recriwtio rhyngwladol yn parhau i fod yn bwysig. Mae'n rhaid iddo fod. Fel y dywedais yn gynharach, nid yw mor hawdd ag y bu i feddygon o is-gyfandir India ddod i Gymru, oherwydd rheolau mewnfudo'r DU. Mae hynny wedi atal y llif a welodd ffynhonnell gyfoethog o feddygon yn dod i Gymru i weithio yn ein GIG dros y 30 i 50 mlynedd diwethaf. Cyhyd ag y bydd gweithwyr yn parhau i gael symud yn rhydd o fewn yr UE, gobeithio y gall meddygon o'r cyfandir fod ar gael i weithio yng Nghymru. Mae rhai byrddau iechyd eisoes wedi dechrau recriwtio o Sbaen, er enghraifft. Fel y dywedais yn gynharach, mae gan Sbaen nifer uwch na'r cyfartaledd o feddygon y pen. Fodd bynnag, hoffwn weld Llywodraeth Cymru yn arwain proses recriwtio rhyngwladol o'r fath a hyd yn oed recriwtio yn Lloegr a'r Alban, er mwyn sicrhau nad yw ymarferion recriwtio o'r fath yn dibynnu ar fyrddau iechyd unigol, ond, yn hytrach, ar ymdrech genedlaethol i werthu harddwch GIG Cymru i Sbaenwyr ac Eidalwyr ifanc ac eraill.

That is a flavour of some of our ideas for 1,000 more doctors. There is more detail in the paper that we published earlier this week for consultation, which is available on the Plaid Cymru website. Finally, to touch on the not-insignificant cost of a proposal such as this, 1,000 doctors would cost roughly £80 million in today's prices by year 10, in terms of salary costs. That cost could be reprofiled within the NHS budget and met within that budget or from the Welsh Government's budget more generally. However, we have also suggested that a levy on sugary drinks could contribute towards this cost. There is certainly support in the medical profession for a pop tax. By the way, I definitely prefer the term 'pop tax' to the product-specific 'Tango tax', before you mention it, Darren. We are deliberately making the link between a tax on a harmful substance and a health policy initiative. However, I do not envisage a deliberately hypothecated relationship between the two, whereby the number of doctors is, in some bizarre way, related to the number of bottles of pop sold. That would be completely unworkable, so let us bury that particular piece of fantasy spin politics here and now. The pop tax could contribute to an increase in the Welsh budget in years to come, when powers are available to us. That could alleviate the cost of employing an additional 1,000 doctors or any other public policy that a Welsh Government at the time would wish to pursue.

In conclusion, we will be supporting all of the amendments today, apart from amendment 1, which deletes too much of our motion to make it acceptable to us. The need for a more proactive, interventionist approach to training and employing 1,000 more doctors is well overdue in Wales. I hope that we have given this proposal a kick start in this, our first debate of 2014.

Dyna flas ar rai o'n syniadau ar gyfer sicrhau 1,000 yn fwy o feddygon. Ceir mwy o fanylion yn y papur a gyhoeddwyd gennym yn gynharach yr wythnos hon ar gyfer ymgynghori, sydd ar gael ar wefan Plaid Cymru. Yn olaf, gan sôn am gost sylweddol cynnig fel hwn, byddai 1,000 o feddygon yn costio tua £80 miliwn ym mhrisiau heddiw erbyn blwyddyn 10, o ran costau cyflogau. Gellid newid proffil y gost honno o fewn cyllideb y GIG a'i chwmpasu o fewn y gyllideb neu o gyllideb Llywodraeth Cymru yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi awgrymu y gallai ardoll ar ddiodydd llawn siwgr gyfrannu tuag at y gost hon. Ceir cefnogaeth bendant yn y proffesiwn meddygol am dreth pop. Gyda llaw, mae'n bendant yn well gen i'r term 'treth pop' na'r enw cynnyrch-benodol 'treth Tango', cyn ichi sôn amdano, Darren. Rydym yn fwriadol yn gwneud y cysylltiad rhwng treth ar sylwedd niweidiol a menter polisi iechyd. Fodd bynnag, nid wyf yn rhagweld perthynas wedi'i neilltuo'n fwriadol rhwng y ddau, lle mae nifer y meddygon, mewn rhyw ffordd od, yn gysylltiedig â nifer y poteli o bop a werthir. Byddai hynny'n hollol anymarferol, felly gadewch inni gladdu'r darn penodol hwnnw o wleidyddiaeth sbin ffantasi ar unwaith. Gallai'r dreth pop gyfrannu at gynnydd yng nghyllideb Cymru yn y blynyddoedd i ddod, pan fydd pwerau ar gael inni. Gallai hynny leddfu cost cyflogi 1,000 yn fwy o feddygon neu unrhyw bolisi cyhoeddus arall y byddai Llywodraeth Cymru ar y pryd am fynd ar ei drywydd.

I gloi, byddwn yn cefnogi pob un o'r gwelliannau heddiw, ar wahân i welliant 1, sy'n dileu gormod o'n cynnig i'w wneud yn dderbyniol inni. Mae dirfawr angen dull mwy rhagweithiol, ymyraethol o hyfforddi a chyflogi 1,000 yn fwy o feddygon yng Nghymru. Gobeithiaf ein bod wedi rhoi hwb i'r cynnig hwn yn ein dadl gyntaf yn 2014.

17:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I have selected the six amendments to the motion and I call on Darren Millar to move amendments 1, 3, 4, 5 and 6, tabled in the name of William Graham.

Rwyf wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Darren Millar i gynnal gwelliannau 1, 3, 4, 5 a 6, a gyflwynwyd yn enw William Graham.

### Gwelliant 1—William Graham

### Amendment 1—William Graham

*Dileu 'ac i gynyddu'r gweithlu meddygol yn sylweddol yng Nghymru' a rhoi yn ei le 'i fynd i'r afael â heriau recriwtio yng ngwasanaeth iechyd Cymru'.*

*Delete 'and to significantly increase the medical workforce in Wales' and replace with 'to address recruitment challenges in the Welsh health service'.*

### Gwelliant 3—William Graham

### Amendment 3—William Graham

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu mai ychydig iawn o effaith y mae ymgyrchoedd recriwtio Llywodraeth Cymru, fel Gweithio dros Gymru, wedi ei chael o ran lliniaru'r prinder o glinigwyr mewn rhai disgyblaethau.*

*Regrets that Welsh Government recruitment campaigns, such as Work for Wales, have done little to alleviate the shortage of clinicians in some disciplines.*

### Gwelliant 4—William Graham

### Amendment 4—William Graham

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu bod ansicrwydd ynghylch dyfodol gwasanaethau mewn rhai ysbytai yng Nghymru wedi bod yn anfanteisiol wrth geisio recriwtio staff.*

*Regrets that uncertainty over the future of services in some Welsh hospitals has been detrimental to the recruitment of staff.*

Gwelliant 5—William Graham

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi'r gwariant uchel ar staff locwm ac asiantaeth ar draws byrddau iechyd yng Nghymru o ganlyniadau i heriau o ran y gweithlu.*

Gwelliant 6—William Graham

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn cydnabod bod angen GIG sydd ag adnoddau priodol a phwysigrwydd buddsoddi mewn hyfforddiant a swyddi parhaol.*

Amendment 5—William Graham

*Add as new point at end of motion:*

*Notes the high spend on locum and agency staff across health boards in Wales as a result of workforce challenges.*

Amendment 6—William Graham

*Add as new point at end of motion:*

*Recognises the necessity of a properly resourced NHS and the importance of investment in training and permanent posts.*

17:14

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendments 1, 3, 4, 5 and 6.

I am very grateful to Plaid Cymru for bringing this important topic to the Chamber today, at the start of the new year, because, of course, training doctors and making sure that there is an adequate supply of clinicians for our NHS is extremely important. Regrettably, successive Labour-led administrations here at the National Assembly for Wales have failed to plan properly for the workforce needs of the NHS in recent years. It is a matter of regret that, while the Minister may well bury his head in the sand and suggest that there is no recruitment crisis in the NHS, the reality is that, in some disciplines, there is a recruitment crisis. It is already manifesting in our hospitals, for example in our emergency departments, and we cannot sit idly by and do nothing about it. The Minister may retort today that the way to address these recruitment problems is simply to shut services down in some locations and consolidate them in some other sites. I do not accept that that can be the proper response to the crisis that we have in our national health service. What should be happening, Minister, is that you should be increasing the number of training places available and making sure that there is an adequate supply of people being recruited, from outside of Wales if necessary, in order to plug the gaps in those services.

I think that there are some very interesting ideas that have come forward from Plaid Cymru, in particular the financial incentives for those people who have undertaken training as clinicians, and the potential for training contracts, which of course is normal in other professions. That is something that the Welsh Government certainly ought to explore, as indeed it should also explore the capacity in our medical schools. It is important that the demand from Wales for places in medical schools, where suitable candidates are appropriate, should be met. I completely agree with those ideas.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau welliannau 1, 3, 4, 5 a 6.

Rwy'n ddiolchgar iawn i Blaid Cymru am ddod â'r pwnc pwysig hwn gerbron y Siambr heddiw, ar ddechrau'r flwyddyn newydd, oherwydd, wrth gwrs, mae hyfforddi meddygon a sicrhau bod cyflenwad digonol o glinigwyr ar gyfer ein GIG yn hynod o bwysig. Yn anffodus, mae gweinyddiaethau olynol dan arweiniad y Blaid Lafur yma yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru wedi methu â chynllunio'n briodol ar gyfer anghenion gweithlu'r GIG yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'n destun gofid, tra bod y Gweinidog yn claddu ei ben yn y tywod gan awgrymu nad oes argyfwng recriwtio yn y GIG, y gwir amdani yw, mewn rhai disgyblaethau, bod yna argyfwng recriwtio. Mae eisoes yn amlygu ei hun yn ein hysbytai, er enghraifft, yn ein hadrannau achosion brys, ac ni allwn eistedd yn ddidaro heb wneud dim am y peth. Efallai fod gan y Gweinidog ateb parod heddiw mai'r ffordd o fynd i'r afael â'r problemau recriwtio hyn yn syml yw cau gwasanaethau mewn rhai lleoliadau a'u hatgyfnerthu mewn safleoedd eraill. Nid wyf yn derbyn y gall hynny fod yn ymateb priodol i'r argyfwng sydd gennym yn ein gwasanaeth iechyd gwladol. Beth ddylai fod yn digwydd, Weinidog, yw y dylech fod yn cynyddu nifer y lleoedd hyfforddi sydd ar gael ac yn gwneud yn siŵr bod cyflenwad digonol o bobl yn cael eu recriwtio, o'r tu allan i Gymru os oes angen, er mwyn llenwi'r bylchau yn y gwasanaethau hynny.

Mae Plaid Cymru wedi cynnig rhai syniadau diddorol iawn yn fy marn i, yn arbennig y cymhellion ariannol ar gyfer y bobl hynny sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant fel clinigwyr, a'r potensial ar gyfer contractau hyfforddi, sy'n rhywbeth cyffredin mewn proffesiynau eraill wrth gwrs. Mae hynny'n rhywbeth y dylai Llywodraeth Cymru ei ystyried yn bendant, fel yn wir y dylai hefyd ystyried nifer y lleoedd sydd ar gael yn ein hysgolion meddygol. Mae'n bwysig bod y galw o Gymru am leoedd mewn ysgolion meddygol, lle mae ymgeiswyr addas yn briodol, yn cael ei fodloni. Rwy'n cytuno'n llwyr â'r syniadau hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I do not accept, though, that there is any evidence whatsoever that there is a specific need for 1,000 more doctors in the Welsh NHS. I do not see any evidence out there at all in any academic papers that that is the precise number of doctors that Wales needs. Nor can I understand this: while I appreciate that sugar can be bad for some people's health, it is actually a perfectly acceptable part of the diet—so, if you are going to tax sugary drinks, what about other sugary products? There seems to be an inconsistent approach as far as Plaid is concerned. What about salt and other harmful substances that can be harmful to your health when not taken in moderation? Of course, I am not suggesting—[Interruption.]—I will take an intervention in a moment. I am not suggesting for one second that I would advocate a tax on sugary drinks. As I have said, I think it is potentially a load of Red Bull that is being talked. However, I do think that we need to improve the way that we educate people about what they consume. I will take the intervention.

Fodd bynnag, ni dderbyniaf nad oes unrhyw dystiolaeth o gwbl bod angen penodol am 1,000 yn fwy o feddygon yn y GIG yng Nghymru. Ni welaf unrhyw dystiolaeth mewn unrhyw bapurau academaidd mai dyna'r union nifer o feddygon sydd ei hangen ar Gymru. Ni allaf ychwaith ddeall hyn: er fy mod yn gwerthfawrogi y gall siwgr fod yn ddrwg i iechyd rhai pobl, mewn gwirionedd, mae'n rhan gwbl dderbyniol o'r deiet—felly, os ydych am godi treth ar ddiodydd llawn siwgr, beth am gynhyrchion eraill sy'n llawn siwgr? Ymddengys bod gan Plaid Cymru ymagwedd anghyson. Beth am halen a sylweddau niweidiol eraill a all fod yn niweidiol i'ch iechyd pan na chânt eu bwyta mewn modd cymedrol? Wrth gwrs, nid wyf yn awgrymu—[Torri ar draws.]—derbyniaf ymyriad mewn munud. Nid wyf yn awgrymu am eiliad y byddwn yn cefnogi treth ar ddiodydd llawn siwgr. Fel y dywedais, credaf eu bod yn siarad rwtch. Fodd bynnag, credaf fod angen inni wella'r ffordd rydym yn addysgu pobl am yr hyn y maent yn ei fwyta a'i yfed. Derbyniaf yr ymyriad.

17:17 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

On the very day that it has been announced that Halen Môn, a most excellent product, has received further European status, will you make it clear that you were not referring to that particular salt?

Ar yr union ddiwrnod y cyhoeddwyd bod Halen Môn, sy'n gynnyrch o'r radd flaenaf, wedi cael statws Ewropeaidd pellach, a wnech chi egluro nad at yr halen hwnna'n benodol yr oeddech yn cyfeirio?

17:18 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Of course I will make that clear, and I congratulate Halen Môn, as I am sure every Member of this Assembly would, on achieving its unique status.

Wrth gwrs, byddaf yn egluro hynny, a hoffwn longyfarch Halen Môn ar gyflawni ei statws unigryw, ac rwy'n siŵr yr hoffai pob Aelod o'r Cynulliad wneud hynny.

To return to some of the other amendments very briefly, we need to make sure that Wales is an attractive place to come to work. I think that one of the biggest things that people outside of Wales look at when considering whether to come to work here is the uncertainty over services in our hospitals, which does nothing to enhance the opportunities for people to be recruited, and in fact is a huge deterrent to people applying for jobs in the Welsh NHS. We know that there is upheaval going on, and the sooner we get over that upheaval, the better. The second issue, of course, is the lack of investment that is going into the Welsh NHS. At a time when investment over the border in England is increasing in real terms, we have real-term reductions year on year here in Wales. I have to say that it is very disappointing that the budgets that have come forward, delivering massive blows to the NHS budgets, have not been opposed by either Plaid Cymru or the Liberal Democrats. So, I do think there are crocodile tears being cried in the Chamber today in terms of the lack of investment that has been going into the NHS in all its guises.

Gan ddychwelyd at rai o'r gwelliannau eraill yn fyr iawn, mae angen inni sicrhau bod Cymru yn lle deniadol i ddod i'r gwaith. Credaf mai un o'r prif bethau y mae pobl o'r tu allan i Gymru yn edrych arno wrth ystyried dod i weithio yma yw'r ansicrwydd ynghylch gwasanaethau yn ein hysbytai, sy'n gwneud dim i wella'r cyfleoedd i bobl gael eu recriwtio, ac mewn gwirionedd mae'n rhwystr mawr i bobl sy'n gwneud cais am swyddi yn y GIG yng Nghymru. Gwyddom fod newid sylweddol yn mynd rhagddo, a gorau po gyntaf inni oresgyn hynny. Yr ail fater, wrth gwrs, yw'r diffyg buddsoddiad sy'n mynd i mewn i'r GIG yng Nghymru. Ar adeg pan fo buddsoddiad dros y ffin yn Lloegr yn cynyddu mewn termau real, rydym ni'n wynebu gostyngiadau mewn termau real flwyddyn ar ôl blwyddyn yma yng Nghymru. Rhaid imi ddweud ei bod yn siomedig iawn nad yw Plaid Cymru na'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi gwrthwynebu'r cyllidebau a gyflwynwyd, sy'n ergydion enfawr i gyllidebau'r GIG. Felly, credaf mai dagrau ffug sy'n llifo yn y Siambr heddiw o ran y diffyg buddsoddiad sydd wedi bod yn mynd i mewn i'r GIG yn ei holl ffurfiau.

17:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I call on Kirsty Williams to move amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Kirsty Williams i gynig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu sut y mae'n bwriadu defnyddio'r £180 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i wasanaeth iechyd Cymru ar gyfer 2014-15 yn dilyn argymhellion Adroddiad Francis, er mwyn ymateb i faterion o ran y gweithlu yn GIG Cymru.*

*Calls on the Welsh Government to outline how it intends to use the additional £180 million allocated to the Welsh health service for 2014-15 following the recommendations of the Francis Report, to respond to workforce issues within the Welsh NHS.*

17:19 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I move amendment 2.

Cynigiau welliant 2.

I would like to begin by making absolutely clear that it is the staff that make the NHS what it is: a well-trained, well-motivated and adequately resourced staff is the key to delivering the high-quality care that we all in the Chamber want to see for our constituents. What I also want to point out, in a debate that I suspect is going to be rather medicentric, is that what we need is the right numbers of all the disciplines that have an impact on health and wellbeing. All the doctors in the world, whether they are paid for by fizzy drinks or not, cannot do their jobs without nurses, physiotherapists, occupational therapists, radiographers, lab technicians, healthcare assistants, scientists, domestic and admin staff, and even, dare I say it, the much maligned NHS manager.

Hoffwn ddechrau drwy ei gwneud yn gwbl glir mai'r staff sy'n gwneud y GIG yr hyn ydyw: mae staff wedi'u hyfforddi'n dda, sy'n llawn cymhelliant a gallu digonol yn allweddol i ddarparu gofal o ansawdd uchel y mae pob un ohonom yn y Siambr am ei weld ar gyfer ein hetholwyr. Hoffwn hefyd nodi, mewn dadl yr wyf yn amau y bydd yn canolbwyntio ar faterion meddygol, mai'r hyn sydd ei angen arnom yw'r nifer gywir o'r holl ddisgyblaethau sy'n effeithio ar iechyd a lles. Ni all yr holl feddygon yn y byd, p'un a ydynt yn cael eu talu gan ddiodydd swigod neu beidio, wneud eu gwaith heb nyrsys, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, radiograffwyr, technegwyr labordy, cynorthwyyr gofal iechyd, gwyddonwyr, staff domestig a gweinyddol, a hyd yn oed, os mentraf ddweud hynny, rheolwr y GIG a ddifriwyd mor wael.

What we need is a robust workforce plan that adequately looks into the future for the healthcare needs of the Welsh population in the years to come. Some of the figures regarding doctor-to-patient ratios in Wales are positively scary. I know that the Minister will point to a relatively low vacancy rate. That is one way to look at how we are doctored in Wales, but, of course, the true figures are shown in the doctor-to-patient ratios and the recommendations from royal colleges. We may have low vacancy rates, but those posts are simply not being made available within the NHS. It gives us a false picture of whether we are adequately staffed if we simply look at vacancy rates.

Yr hyn sydd ei angen arnom yw cynllun gweithlu cadarn sy'n edrych i'r dyfodol yn ddigonol ar gyfer anghenion gofal iechyd poblogaeth Cymru yn y blynyddoedd i ddod. Mae rhai o'r ffigurau ynghylch cymarebau meddyg i glaf yng Nghymru yn frawychus iawn. Gwn y bydd y Gweinidog yn cyfeirio at y gyfradd gymharol isel o swyddi gwag. Dyna un ffordd o edrych ar y meddygon sydd ar gael yng Nghymru, ond, wrth gwrs, dangosir y ffigurau go iawn yn y cymarebau meddyg i gleifion a'r argymhellion o golegau brenhinol. Efallai fod gennym gyfraddau isel o swyddi gwag, ond, yn syml, nid yw'r swyddi hynny ar gael o fewn y GIG. Mae'n rhoi darlun ffug ynghylch p'un a ydym yn cael ein staffio yn ddigonol os mai dim ond edrych ar nifer y swyddi gwag a wnawn.

17:21 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I fully accept the point that you are making that there is a lower vacancy rate in Wales. Patient-to-doctor ratios are sometimes a useful indicator, but they are not necessarily always the most useful indicator. Do you accept that there is limited evidence that improving clinician-to-patient ratios leads to improved outcomes?

Derbyniat yn llwyr y pwynt a wneuch fod cyfradd is o swyddi gwag yng Nghymru. Weithiau, mae cymarebau cleifion i feddyg yn ddangosydd defnyddiol, ond nid hwy yw'r dangosydd mwyaf defnyddiol o anghenraid bob amser. A dderbyniwch mai tystiolaeth gyfyngedig a geir bod gwella cymarebau clinigydd i glaf yn arwain at ganlyniadau gwell?

17:21 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

What we know is that in a variety of specialties we should have a certain number of consultants to the Welsh population base and we do not have them. We do not have comparative numbers of doctors. What I am saying is that it is not credible just to rely on a vacancy rate; we have to look at the total numbers.

Gwyddom mewn amrywiaeth o arbenigeddau y dylai fod gennym nifer benodol o ymgynghorwyr i sylfaen poblogaeth Cymru ac nid yw hyn yn wir. Nid oes gennym nifer gymharol o feddygon. Yr hyn yr wyf yn ei ddweud yw nad yw'n gredadwy dibynnu dim ond ar gyfradd swyddi gwag; rhaid inni edrych ar gyfanswm y niferoedd.

We also have to take into consideration what the future needs of that population will be. We know that we are getting older as a population. The older we get, the more complex our healthcare needs are. We need doctors to reflect that. We also have to accept the challenges of what the aspirations of tomorrow's medical students will be. The postgraduate dean is always keen to remind me of the feminisation of the workforce; he seems to suggest that it is somewhat of a problem. I would rather see it as a challenge of how we can create NHS careers for female doctors that adequately reflect the aspirations that we have.

The deanery, whether in Wales or in other places, wants to move away from a system that has traditionally relied on trainees propping up rotas. They do not want to do that anymore. That creates problems for some of the policies published by Plaid Cymru this week. Even with the promise of paying off fees, the postgraduate trainees go where the deanery sends them. If the deanery does not want to send them to west Wales, they will not go to west Wales, regardless of whether their fees are paid for or not. We have to take into consideration the role of the deanery and medical trainees in this.

Indeed, paying off fees would be an attractive proposition to many young people, but the choices that those young people make are complex. It is about the quality of the training experience. It is about access to working at hospitals with the latest technologies and therapies. It is about career progression. It is about the attractiveness or otherwise of particular specialties, whether that be psychiatry or paediatrics—an area where people are risk averse in terms of wanting to go to work, given some of the scandals that we have had about child protection issues. It is a very challenging place to want to do your medicine. All of those issues need to be factored into the mix.

To date, what we have had from the Welsh Government is either a denial of the problem or the woeful attempts to recruit. The Welsh Government has no idea, and it has admitted this in questions to me, how many doctors have been recruited as part of its recruitment plan. It simply does not know. We have a real problem potentially with GPs in rural areas. The Government is determined to get rid of the minimum practice income guarantee without recognising the instability that that might bring to a rural practice, or at least without considering alternative ways to ensuring that rural people have access to primary care.

I do not want to rehearse the arguments of my Member-proposed Bill here this afternoon, but I was greatly heartened by the Minister's comments earlier in questions about the impact of nursing levels on reducing mortality rates in the Betsi Cadwaladr trust. We know from international evidence that having the right skill mix of qualified nurses on our wards is what really makes the difference.

Rhaid inni hefyd ystyried beth fydd anghenion y boblogaeth yn y dyfodol. Gwyddom ein bod yn heneiddio fel poblogaeth. Po hynaf yr awn, y mwyaf cymhleth yw ein hanghenion gofal iechyd. Mae angen inni gael meddygon i adlewyrchu hynny. Rhaid inni hefyd dderbyn heriau beth fydd dyheadau myfyrwyr meddygol y dyfodol. Mae deon yr ôl-raddedigion bob amser yn awyddus i'm hatgoffa ynghylch y broses o ffemineiddio'r gweithlu; ymddengys ei fod yn awgrymu bod hyn yn rhywfaint o broblem. Byddai'n well gennyf ei weld yn her o ran sut y gallwn greu yrfaedd yn y GIG i feddygon benywaidd sy'n adlewyrchu'r dyheadau sydd gennym yn ddiagonol.

Mae'r ddeoniaeth, boed yng Nghymru neu mewn mannau eraill, yn awyddus i droi cefn ar system sydd wedi dibynnu'n draddodiadol ar hyfforddeion yn cynnal rotâu. Nid ydynt am wneud hynny mwyach. Mae hynny'n creu problemau i rai o'r polisïau a gyhoeddwyd gan Plaid Cymru yr wythnos hon. Hyd yn oed gyda'r addewid o dalu ffioedd, mae'r hyfforddeion ôl-raddedig yn mynd i ble mae'r ddeoniaeth yn eu hanfon. Os nad yw'r ddeoniaeth yn dymuno eu hanfon i'r gorllewin, ni fyddant yn mynd i'r gorllewin, p'un a gaiff eu ffioedd eu talu ai peidio. Rhaid inni ystyried rôl y ddeoniaeth a hyfforddeion meddygol yn hyn.

Yn wir, byddai talu ffioedd yn gynnig deniadol i lawer o bobl ifanc, ond mae'r dewisiadau a wna'r bobl ifanc hynny yn gymhleth. Mae'n ymwneud ag ansawdd y profiad hyfforddi. Mae'n ymwneud â mynediad at swyddi mewn ysbytai sydd â'r technolegau a'r therapiau diweddaraf. Mae'n ymwneud â datblygu gyrfa. Mae'n ymwneud â ph'un a yw arbenigeddau penodol yn ddeniadol ai peidio, boed mewn seiciatreg neu baediatreg—maes lle mae pobl yn amharod i fentro o ran yr awydd i fynd i'r gwaith, o ystyried rhai o'r sgandalau a welwyd mewn perthynas â materion amddiffyn plant. Mae'n lle heriol iawn i fod am fod yn feddyg. Mae angen cynnwys yr holl faterion hynny wrth benderfynu.

Hyd yma, mae Lywodraeth Cymru naill ai wedi gwadu bod y broblem yn bodoli neu wedi gwneud ymdrechion truenus i recriwtio. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw syniad, ac mae wedi cyfaddef hyn mewn cwestiynau ataf, faint o feddygon sydd wedi cael eu recriwtio fel rhan o'i chynllun recriwtio. Yn syml, nid yw'n gwybod. Gallai fod gennym broblem wirioneddol gyda meddygon teulu mewn ardaloedd gwledig. Mae'r Llywodraeth yn benderfynol o gael gwared ar warrant isafswm incwm practis heb gydnabod yr ansefydlogrwydd y gallai hynny ei gyflwyno i bractis gwledig, neu o leiaf heb ystyried ffyrdd eraill o sicrhau bod gofal sylfaenol ar gael i bobl yng nghefn gwlad.

Nid wyf am ailadrodd dadleuon fy Mil arfaethedig Aelod yma y prynhawn yma, ond cefais fy nghalonogi'n fawr gan sylwadau'r Gweinidog yn gynharach mewn cwestiynau am effaith lefelau nyrsio ar leihau cyfraddau marwolaethau yn ymddiriedolaeth Betsi Cadwaladr. Gwyddom o dystiolaeth ryngwladol mai sicrhau'r cymysgedd sgiliau cywir o nyrsys cymwys ar ein wardiau yw'r hyn sydd wir yn gwneud gwahaniaeth.

17:25

**Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Whether you like it or not, this consultation paper has certainly fired the public's imagination. I am reliably informed that our social media websites—Twitter and Facebook—are overloaded. Indeed, health professionals are joining in and agreeing as well. Why is that? Well, health, as we have heard, is really important to us all, is it not?

I want to concentrate on obesity. I will not look in particular at anyone in the Chamber—perhaps I will look at myself. [Laughter.] It is one of the great health challenges of this time. The national obesity forum has stated that previous estimates have understated obesity, and that the problem is likely to be far worse than imagined. Diabetes alone accounts for 10% of our health service budget. Frankly, if we do not tackle rising obesity, I believe that the costs of related health conditions will bankrupt the NHS.

So, well done Plaid Cymru for being the first mainstream political party to announce that we will make a start on tackling obesity by introducing this sugary drinks levy. You know that it makes sense. The fact is that we have to win public support for this kind of measure. We need to tackle obesity and we have to make it clear that the proceeds will not be wasted on unpopular forms of spending, and that it will tackle the issues—

P'un a ydych yn ei hoffi ai peidio, mae'r papur ymgynghori hwn yn sicr wedi tanio dychymyg y cyhoedd. Dywedwyd wrthyf fod ein gwefannau cyfryngau cymdeithasol—Twitter a Facebook—yn cael eu gorlwytho. Yn wir, mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn ymuno ac yn cytuno hefyd. Pam hynny? Wel, fel y clywsom, mae iechyd yn bwysig iawn i bob un ohonom, onid yw?

Hoffwn ganolbwyntio ar ordewdra. Nid wyf am edrych yn benodol ar unrhyw un yn y Siambr—efallai y byddaf yn edrych arnaf fy hun. [Chwerthin.] Dyma un o'r prif heriau iechyd ar hyn o bryd. Mae'r fforwm gordewdra cenedlaethol wedi datgan bod yr amcangyfrifon blaenorol wedi tanddatgan gordewdra, a bod y broblem yn debygol o fod yn llawer gwaeth na'r hyn a ddychmygwyd. Mae diabetes ei hun yn cyfrif am 10% o gyllideb ein gwasanaeth iechyd. A dweud y gwir, os nad awn i'r afael â'r cynnydd mewn gordewdra, credaf y bydd costau cyflyrau iechyd cysylltiedig yn golygu bod y GIG yn mynd i'r wal.

Felly, llongyfarchiadau Plaid Cymru am mai hi yw'r blaid wleidyddol brif ffrwd gyntaf i gyhoeddi y byddwn yn dechrau ar y gwaith o fynd i'r afael â gordewdra drwy gyflwyno'r ardoll hon ar ddiodydd llawn siwgr. Gwyddoch ei fod yn gwneud synnwyr. Y ffaith yw bod yn rhaid inni ennill cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer y math hwn o fesur. Mae angen inni fynd i'r afael â gordewdra a rhaid inni ei gwneud yn glir na fydd yr arian yn cael ei wastraffu ar ffurfiau amhoblogaidd o wariant, ac y bydd yn mynd i'r afael â'r materion—

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:26

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

A wnewch ildio?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:26

**Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, certainly.

Gwnaf, yn sicr.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:26

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would tell the Member that I think that the Minister may also agree that tackling obesity through tackling sugar consumption in some form is to be welcomed, given that he told a committee this morning that he thought that sugar—and too much sugar in young children's diets—was something that we should be tackling through intervention by Government.

Byddwn yn dweud wrth yr Aelod fy mod yn credu y gall y Gweinidog hefyd gytuno y dylid croesawu'r broses o fynd i'r afael â gordewdra drwy fynd i'r afael â faint o siwgr a gaiff ei fwyta mewn rhyw ffordd, o ystyried iddo ddweud wrth bwyllgor y bore yma ei fod yn credu bod siwgr—a gormod o siwgr mewn deiet plant ifanc—yn rhywbeth y dylem fod yn mynd i'r afael ag ef drwy ymyrraeth gan y Llywodraeth.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:26

**Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There you go; we have converts already. That is marvellous. [Laughter.] It was disappointing to see some colleagues in the Chamber not sharing our enthusiasm. So, come on board now—it sounds as though the Minister for health is coming on board as well.

Dyna chi, mae rhai wedi troi yn barod. Mae hynny'n wych. [Chwerthin.] Roedd yn siomedig gweld nad oedd rhai o gyd-Aelodau yn y Siambr yn rhannu ein brwdfrydedd. Felly, beth am ymuno â ni yn awr—mae'n swnio fel pe bai'r Gweinidog iechyd am wneud hynny hefyd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

It is claimed that we are encouraging the consumption of sugary drinks to fund a policy, or that if that policy did reduce consumption, we would no longer have the revenue to pay for the policy. That argument is easily dealt with. If the sugary drinks levy is successful in reducing consumption, we will be spending less on treating obesity-related diseases. If we can reduce the spend on diabetes by just 5%, that will give us around £30 million extra to reinvest in the health service. That is just one area in which tackling obesity will save us money.

I want to move on to one aspect of our approach to recruiting doctors. My colleagues have elaborated on this and others will elaborate further on many other sections of our document. Suffice it to say that there are sections on improving the training of doctors, which will please the First Minister and the Minister for health and sections on creating an innovative NHS that will also benefit patients. I want to focus my contribution on highlighting the need for international recruitment. We all know that the traditional recruitment from the Indian sub-continent can no longer occur to the same extent, because of the UK Government's immigration controls. That is why our paper proposes that we work around these controls by recruiting from within the European Union. The truth is that our NHS is not really utilising the advantages of our membership of the European Union, with only a few attempts so far to recruit. My colleague Elin Jones rightly referred to the successful trip to Spain to recruit doctors by Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board. Why are we not visiting Germany? We also all know that austerity in southern Europe is making a lot of doctors unemployed. If the Minister for health thinks that doctors in places like Withybush are not seeing enough patients to maintain their skills, you have to accept that unemployed doctors in parts of southern Europe—Athens in Greece or Italy—are going to be in a far worse situation. The reality is that those doctors in southern Europe are going to be looking internationally for their next career move, and if we are not in the market for these doctors, they will go elsewhere.

Frankly, recruitment is something that must be co-ordinated by the Welsh Government and not left to the local health boards. We should sell ourselves as a nation, and it should be our national Government that undertakes this action. Let us look further afield at other countries where Wales could strike a mutually beneficial arrangement to ensure that we recruit the doctors. Cuba and Canada, which is the healthiest nation in the world, spring to mind. There are many developing countries that do not have the resources to train doctors to the required standards, so we could look to develop an arrangement whereby we take on trainee doctors from developing countries. I can see that I am running out of time, but I would like to say that any arrangements should also include the opportunity for home-grown doctors to undertake secondments in the developing world, to provide them with new experiences as well. Wales faces one hell of a challenge—I do not like using that word—but if you are not prepared to take positive action, we are doomed. Plaid Cymru is prepared to take that positive action.

Honnir ein bod yn annog y defnydd o ddiodydd llawn siwgr i ariannu polisi, neu pe byddai'r polisi hwnnw yn lleihau'r defnydd, na fyddai gennym y refeniw i dalu am y polisi mwyach. Gellir mynd i'r afael â'r ddatl honno yn hawdd. Os yw'r ardoll diodydd llawn siwgr yn llwyddo i leihau defnydd, byddwn yn gwario llai ar drin clefydau sy'n gysylltiedig â gordewdra. Os gallwn leihau'r gwariant ar ddiabetes gyn lleied â 5%, bydd hynny'n rhoi tua £30 miliwn yn ychwanegol inni ei ail-fuddsoddi yn y gwasanaeth iechyd. Dim ond un maes yn unig yw hwnnw lle y bydd mynd i'r afael â gordewdra yn arbed arian inni.

Symudaf ymlaen i un agwedd ar ein dull o recriwtio meddygon. Mae fy nghyd-Aelodau wedi ymhelaethu ar hyn a bydd eraill yn ymhelaethu ymhellach ar nifer o adrannau eraill o'n dogfen. Digon yw dweud bod adrannau ar wella hyfforddiant meddygon, a fydd yn plesio'r Prif Weinidog a'r Gweinidog iechyd ac adrannau ar greu GIG arloesol a fydd hefyd o fudd i gleifion. Rwyf am ganolbwyntio fy nghyfraniad ar dynnu sylw at yr angen am recriwtio'n rhyngwladol. Gŵyr pob un ohonom na all y broses draddodiadol o recriwtio o is-gyffandir India ddioglydd i'r un graddau mwyach, oherwydd rheolaethau mewnfudo Llywodraeth y DU. Dyna pam mae ein papur yn cynnig ein bod yn gweithio o amgylch y rheolaethau hyn drwy recriwtio o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Y gwir yw nad yw ein GIG yn wirioneddol yn defnyddio manteision ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, gyda dim ond ychydig o ymdrechion i recriwtio hyd yma. Cyfeiriodd fy nghyd-Aelod Elin Jones yn briodol at y daith lwyddiannus i Sbaen i recriwtio meddygon gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Pam nad ydym yn ymweld â'r Almaen? Gŵyr pawb ohonom hefyd bod caledi yn ne Ewrop yn golygu bod llawer o feddygon yn ddi-waith. Os cred y Gweinidog iechyd nad yw meddygon mewn lleoedd fel Llwynhelyg yn gweld digon o gleifion i gynnal eu sgiliau, rhaid ichi dderbyn y bydd meddygon di-waith mewn rhannau o dde Ewrop—Athen yng Ngwlad Groeg neu'r Eidal—mewn sefyllfa waeth o lawer. Y realiti yw y bydd y meddygon hynny yn ne Ewrop yn edrych yn rhyngwladol ar gyfer cam nesaf eu gyrfa, ac os nad ydym yn y farchnad ar gyfer y meddygon hyn, byddant yn mynd i rywle arall.

A dweud y gwir, mae recriwtio yn rhywbeth y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei gydlyn yn hytrach na'i adael i'r byrddau iechyd lleol. Dylem werthu ein hunain fel cenedl, a'n Llywodraeth genedlaethol ddylai wneud hyn. Gadewch inni edrych yn ehangach ar wledydd eraill lle gallai Cymru wneud trefniant a fyddai o fudd i'r ddwy ochr er mwyn sicrhau ein bod yn recriwtio'r meddygon. Mae Cuba a Chanada, sef y genedl iachaf yn y byd, yn dod i'r meddwl. Mae llawer o wledydd datblygol nad oes ganddynt yr adnoddau i hyfforddi meddygon i'r safonau gofynnol, felly gallwch geisio datblygu trefniant lle rydym yn cymryd meddygon dan hyfforddiant o wledydd datblygol. Gallaf weld fy mod yn rhedeg allan o amser, ond hoffwn ddweud y dylai unrhyw drefniadau hefyd gynnwys cyfle i feddygon brodorol ymgymryd â secondiadau yn y byd datblygol, er mwyn rhoi profiadau newydd iddynt hwy hefyd. Mae Cymru'n wynebu her anferth—nid wyf yn hoffi dweud hyn—ond os nad ydych yn barod i gymryd camau cadarnhaol, mae pethau'n edrych yn ddu iawn arnom. Mae Plaid Cymru yn barod i gymryd y camau cadarnhaol hynny.

I will start by agreeing with Kirsty Williams's opening remarks about this debate, particularly about the staff within the NHS. We have a wide-ranging workforce, and although we are probably focusing more on doctors in this debate, but I want to go beyond that.

We are all aware of the need for effective workforce planning to ensure consistency and efficiency across the NHS, and the Welsh Government has published the NHS Wales planning framework, which I appreciate as a way forward of taking it on. Understandably, much of the focus today is on secondary care, and on the workers' recruitment and retention in the hospital settings. While acknowledging that these are key issues, I want to focus my contribution on the GP and primary care setting, some of the figures for which have already been mentioned by Elin Jones. I also want to look at the NHS in its entirety and the need to ensure seamless working practices across all levels of NHS care.

Before any practical steps are taken, it is vital that we take a step back and give serious consideration to the fundamental question of service provision, which Kirsty mentioned. We need to ask ourselves what services we want provided, and how these should be delivered, particularly in terms of who delivers them and in which settings. As such, in order to effectively plan our workforce arrangements and appoint the appropriate professionals—not necessarily medics—with the right skills in specific areas, we need to determine exactly what we want our primary care to achieve. Where service and delivery changes are proposed, these must not occur in isolation, and any changes to secondary provision must be supported and complemented by adaptations to primary care mechanisms, particularly in community settings.

There is a need to look at service change more broadly and to consider whether we need reshaping of primary care, as well as reconfiguration in secondary provision.

We know that we need to look at integrating our primary care services with community care provision—Plaid Cymru commented on that often enough. I commend the work that the Welsh Government has already undertaken—the example of community pharmacies is one approach to that.

Dechreuaf drwy gytuno â sylwadau agoriadol Kirsty Williams ar y ddadl hon, yn enwedig ar y staff o fewn y GIG. Mae gennym weithlu eang, ac er ein bod yn ôl pob tebyg yn canolbwyntio mwy ar feddygon yn y ddadl hon, rwyf am fynd ymhellach na hynny.

Mae pob un ohonom yn ymwybodol o'r angen i gynllunio gweithlu effeithiol er mwyn sicrhau cysondeb ac effeithlonrwydd ar draws y GIG, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fframwaith cynllunio GIG Cymru, yr wyf yn ei werthfawrogi fel ffordd gadarnhaol ymlaen. Yn ddealladwy, mae llawer o'r ffocws heddiw ar ofal eilaidd, ac ar recriwtio a chadw gweithwyr yn y lleoliadau ysbyty. Tra'n cydnabod bod y rhain yn faterion allweddol, rwyf am ganolbwyntio fy nghyfraniad ar y lleoliad meddygon teulu a gofal sylfaenol, rhai o'r ffigyrau sydd eisoes wedi cael eu crybwyll gan Elin Jones. Rwyf hefyd yn awyddus i edrych ar y GIG yn ei gyfanrwydd a'r angen i sicrhau bod arferion gwaith di-dor ar draws pob lefel o ofal y GIG.

Cyn cymryd unrhyw gamau ymarferol, mae'n hanfodol ein bod yn cymryd cam yn ôl ac yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i gwestiwn sylfaenol darparu gwasanaeth, y soniodd Kirsty amdano. Mae angen inni ofyn i'n hunain pa wasanaethau rydym am eu darparu, a sut y dylid eu darparu, yn enwedig o ran pwy sy'n eu darparu ac ym mha leoliadau. Fel y cyfryw, er mwyn cynllunio ein trefniadau gweithlu yn effeithiol a phenodi gweithwyr proffesiynol priodol—nid meddygon o reidrwydd—sy'n meddu ar y sgiliau cywir mewn meysydd penodol, mae angen inni benderfynu beth yn union yr ydym am i'n gofal sylfaenol ei gyflawni. Lle y caiff newidiadau i'n gwasanaethau a'n darpariaeth eu cynnig, ni ddylai'r rhain ddigwydd ar wahân, a rhaid i unrhyw newidiadau i ddarpariaeth eilaidd gael eu cefnogi a'u hategu gan addasiadau i ddulliau gofal sylfaenol, yn enwedig mewn lleoliadau cymunedol.

Mae angen edrych ar newid gwasanaethau yn ehangach ac ystyried a oes angen ail-lunio gofal sylfaenol, yn ogystal ag ail-gyflunio yn y ddarpariaeth eilaidd.

Gwyddom fod angen inni ystyried integreiddio ein gwasanaethau gofal sylfaenol gyda darpariaeth gofal cymunedol—soniodd Plaid Cymru am hynny yn ddigon aml. Rwy'n cymeradwyo'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymgymryd ag ef—mae'r enghraifft o fferyllfeydd cymunedol yn un dull o wneud hynny.

In line with this broader reassessment of the nature and goals of our services, we need to understand the current pressures on primary care. We are very often informed by the Royal College of General Practitioners and the British Medical Associations about the workload issues of GPs, and there are concerns about the recruitment of GPs across Wales. The Wales Deanery and the Royal College of General Practitioners highlighted this, and Plaid Cymru highlighted Marcus Longley's report in 2012, which highlighted the difficulties in recruiting in Valleys areas as well as rural areas. I do not want to forget those south Wales Valley areas, because of the deprivation we find there. Many of those GPs are likely to reach retirement age within the next few years, and there could be—I am not saying that there will be—a shortage of GPs to replace those retiring.

That situation has a knock-on effect on emergency and secondary care, where we are seeing more people go into hospitals and emergency care centres to receive care that could be delivered by a GP practice. Therefore, there is a fundamental need to evaluate the current provision of GP services in these areas, looking to who other than GPs can deliver some of these healthcare services. We must ensure that any retiring GPs are replaced in order to avoid further shortage, and that is not necessarily on a one-to-one basis, as Marcus Longley said in his report that it could be on a slightly different ratio.

New GP working practices are needed to ensure consistent healthcare provision and to reduce health inequalities in our poorer areas. The Minister for health has already talked about creating clusters whereby local surgeries will be encouraged to work together to provide some services that may once have been delivered in a hospital scenario. In this scenario, a network of local surgeries would have experts on specific conditions locally placed to help in community settings, thereby reducing the need for patients to receive hospital treatment.

Also agreed are proposed changes to GP contracts that will reduce bureaucracy and give GPs more time with patients, or for them to use in their professional approach to delivering their services. However, it is not only the question of GPs that requires consideration. We must look at the role of practice nurses and the pressures and bureaucracy demands on district nurses—[Interruption.] I knew I would get you there.

Yn unol â'r ailasesiad ehangach hwn o natur a nodau ein gwasanaethau, mae angen inni ddeall y pwysau sydd ar ofal sylfaenol ar hyn o bryd. Rydym yn aml iawn yn cael gwybod gan Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol a Chymdeithasau Meddygol Prydain am lwyth gwaith meddygon teulu, ac mae pryderon ynghylch recriwtio meddygon teulu ledled Cymru. Amlygwyd hyn gan Ddeoniaeth Cymru a Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, a thynnodd Plaid Cymru sylw at adroddiad Marcus Longley yn 2012, a nododd yr anawsterau wrth recriwtio mewn ardaloedd o'r Cymoedd yn ogystal ag ardaloedd gwledig. Nid wyf am anghofio'r ardaloedd hynny o Gymoedd y de, oherwydd yr amddifadedd a geir yno. Mae llawer o'r meddygon teulu hynny yn debygol o gyrraedd oedran ymdeol o fewn yr ychydig flynyddoedd nesaf, a gallai fod—nid wyf yn dweud y bydd—prinder meddygon teulu i gymryd lle'r rhai sy'n ymdeol.

Mae'r sefyllfa honno'n cael sgillefaith ar ofal brys a gofal eilaidd, lle rydym yn gweld mwy o bobl yn mynd i ysbytai a chanolfannau gofal brys i dderbyn gofal y gellid ei ddarparu gan bractis meddyg teulu. Felly, mae angen sylfaenol i werthuso'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau meddygon teulu yn yr ardaloedd hyn, gan ystyried pwy arall heblaw meddygon teulu a all ddarparu rhai o'r gwasanaethau gofal iechyd hyn. Rhaid inni sicrhau bod meddygon teulu yn cymryd lle unrhyw rai sy'n ymdeol er mwyn osgoi rhagor o brinder, ac nid yw hynny o reidrydd ar sail un-i-un, fel y dywedodd Marcus Longley yn ei adroddiad y gallai fod ar gymhareb ychydig yn wahanol.

Mae angen arferion gwaith newydd ar gyfer meddygon teulu i sicrhau darpariaeth gofal iechyd cyson ac i leihau anghydraddoldebau iechyd yn ein hardaloedd tlotach. Mae'r Gweinidog iechyd eisoes wedi sôn am greu clystyrau lle y bydd meddygfeydd lleol yn cael eu hannog i gydweithio er mwyn darparu rhai gwasanaethau a all fod unwaith wedi cael eu darparu mewn ysbyty. Yn y sefyllfa hon, byddai gan rwydwaith o feddygfeydd lleol arbenigwyr ar gyflyrau penodol yn lleol i helpu mewn lleoliadau cymunedol, gan leihau'r angen i gleifion gael triniaeth yn yr ysbyty.

Cytunwyd hefyd ar newidiadau arfaethedig i gcontractau meddygon teulu a fydd yn lleihau biwrocratiaeth ac yn rhoi mwy o amser i feddygon teulu gyda chleifion, neu iddynt eu defnyddio yn eu hymagwedd broffesiynol at ddarparu eu gwasanaethau. Fodd bynnag, mae angen ystyried mwy na meddygon teulu. Rhaid inni edrych ar rôl nyrsys practis a'r pwysau a'r gofynion biwrocratiaeth ar nyrsys ardal—[Torri ar draws.] Gwyddwn y byddwn yn dal eich sylw gyda hynny.

17:34

## **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, David. I recently met with some GPs in my area who have been operating a virtual ward. What they need more than anything else to continue that work is not more GPs, but more nurses and more social workers. That would allow them to keep more people out of hospital and in their homes. That is the kind of care that people want.

Diolch ichi, David. Cyfarfûm yn ddiweddar â rhai meddygon teulu yn fy ardal sydd wedi bod yn cynnal ward rithwir. Nid mwy o feddygon teulu sydd ei angen arnynt yn anad dim er mwyn gallu parhau â'r gwaith hwnnw ond mwy o nyrsys a mwy o weithwyr cymdeithasol. Byddai hynny'n caniatáu iddynt gadw mwy o bobl allan o'r ysbyty ac yn eu cartrefi. Dyna'r math o ofal y mae pobl am ei gael.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

**David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The point is that we need to look at the whole picture and not just at medics. We focus an awful lot on the medical profession, but there is a wider picture in our health services. It is about midwives and health visitors, determining what care they provide in what settings, and what support and training they need. We talk about developing training for doctors; what about training for all these other professions, such as radiographers, occupational therapists and physiotherapists? There is a whole range of professions that we still need to address in our service. We are seeing changes in these areas. In fact, in my own town, we have a walk-in centre to see district nurses located in a resource centre. I see that my time is going, so I will finish this off. We also have physiotherapy units in walk-in centres. The services are changing locally in our community. We must see more of that and support that. Therefore, we have to look at the way in which we deliver our services across the community.

Y pwynt yw bod angen inni edrych ar y darlun cyfan ac nid dim ond ar feddygon. Rydym yn canolbwyntio llawer iawn ar y proffesiwn meddygol, ond mae darlun ehangach yn ein gwasanaethau iechyd. Mae'n ymwneud â bydwragedd ac ymwelwyr iechyd, penderfynu pa ofal y byddant yn ei ddarparu ym mha leoliadau, a pha gefnogaeth a hyfforddiant sydd ei angen arnynt. Rydym yn sôn am ddatblygu hyfforddiant ar gyfer meddygon; beth am hyfforddiant ar gyfer yr holl broffesiynau eraill hyn, megis radiograffyddion, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion? Mae ystod gyfan o broffesiynau y mae angen inni fynd i'r afael â hwy o hyd yn ein gwasanaeth. Rydym yn gweld newidiadau yn y meysydd hyn. Yn wir, yn fy nhref fy hun, mae gennym ganolfan galw i mewn i weld nyrsys ardal a leolir mewn canolfan adnoddau. Gwela fod fy amser yn mynd, felly caeaf ben y mwdwl. Mae gennym hefyd unedau ffisiotherapi mewn canolfannau cerdded i mewn. Mae'r gwasanaethau yn newid yn lleol yn ein cymuned. Rhaid inni weld mwy o hynny a'i gefnogi. Felly, rhaid inni edrych ar y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau ym mhob rhan o'r gymuned.

**Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There is little doubt in my mind that Wales needs to adopt a more innovative and ambitious outlook to the future provision of our health services. My experience in the north has shown clearly to me that a lack of ambition and the recent uncertainties we have experienced around particular services, and a failure to offer a clear vision about the future of those services, not only makes it difficult to attract doctors, but sees consultants that are already there leaving for elsewhere. So, we need a more innovative NHS to attract more doctors. The case for integrating health and social care services for adults is a strong one that has been well rehearsed in many fora and that needs to be pursued.

Nid oes gennyf fawr o amheuaeth bod angen i Gymru fabwysiadu agwedd fwy arloesol ac uchelgeisiol ar gyfer darparu ein gwasanaethau iechyd yn y dyfodol. Mae fy mhrofiad yn y gogledd wedi dangos yn glir imi fod diffyg uchelgais a'r ansicrwydd rydym wedi ei weld yn ddiweddar mewn perthynas â rhai gwasanaethau, a methiant i gynnig gweledigaeth glir ynghylch dyfodol y gwasanaethau hynny, nid yn unig yn ei gwneud yn anodd denu meddygon, ond hefyd yn golygu bod ymgynghorwyr sydd eisoes yno yn gadael i fynd i rywle arall. Felly, mae angen GIG mwy arloesol arnom er mwyn denu mwy o feddygon. Mae'r achos dros integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yn un cryf sydd wedi'i wyntyllu'n helaeth mewn nifer o fforymau, ac mae angen mynd ar drywydd hynny.

Wales needs also to lead the way in introducing a paperless NHS, which has already been referred to. It would demonstrate not only that we are innovative in the way we work, but that we want to free up staff to care for patients, rather than face bureaucracy and paperwork. For example, we are all familiar with the problems in the ambulance service, but this is partly due to ambulances being out of action as a result of paramedics having to complete duplicate paperwork on various incidents. A simple tablet computer could reduce time spent completing paperwork and that would mean more ambulances back in action sooner.

Mae angen i Gymru hefyd arwain y ffordd o ran cyflwyno GIG di-bapur, y cyfeiriwyd ato eisoes. Byddai'n dangos nid yn unig ein bod yn arloesol yn y ffordd rydym yn gweithio, ond hefyd ein bod am ryddhau staff i ofalu am gleifion, yn hytrach na wynebu biwrocratiaeth a gwaith papur. Er enghraifft, mae pob un ohonom yn gyfarwydd â'r problemau yn y gwasanaeth ambiwlans, ond mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith nad yw ambiwlansys yn cael eu rhedeg am fod parafeddygon yn gorfod llenwi gwaith papur dyblyg ar wahanol ddigwyddiadau. Gallai cyfrifiadur tabled syml leihau'r amser a dreulir yn gwneud gwaith papur a byddai hynny'n golygu mwy o ambiwlansys yn cael eu rhedeg eto yn gynt.

A second benefit is that technology would enable clinicians to communicate without being on the same site. Test results and x-rays can be electronically sent and clinical advice can be given by a consultant remotely. This would particularly help in the delivery of health in rural areas, such as the region that I represent. Not only would a paperless NHS save money to reinvest into patient care, but it would enable patient records to be more easily shared, leading eventually to better treatment. There is also an important role for the wider promotion of Wales as a place to live and work, so that we can more effectively tackle some of the misconceptions that some prospective doctors might have about living and working in this country.

Mainstreaming clinical research within everyday practice and attracting research funding is also a key factor here. Junior doctors naturally have ambitions and want a career path that is challenging and fulfilling. Many want to carry out clinical trials and get published so that they can advance their careers. Offering them the opportunity to do so will make Wales a more attractive destination for a career in medicine. Furthermore, it will attract investment from research councils, industry and the life sciences. There are several innovative ideas that have emerged about mainstreaming clinical trials and research in recent years. At the moment, there is a limited evidence base for many treatments out there, particularly in emergency settings, and there are problems with the representativeness of samples in many trials. So, there has been an emergence within the medical profession of ideas about how real-time trials can be conducted within a clinical setting. This is certainly something that we need to build further upon. Not only would it help attract doctors who want to do research, but it would benefit the patients.

Ail fantais yw y byddai technoleg yn galluogi clinigwyr i gyfathrebu heb fod ar yr un safle. Gellir anfon canlyniadau profion a phelydrau-x yn electronig a gall ymgynghorydd roi cyngor clinigol o bell. Byddai hyn yn helpu yn enwedig wrth ddarparu iechyd mewn ardaloedd gwledig, megis y rhanbarth yr wyf yn ei gynrychioli. Yn ogystal ag arbed arian i ailfuddsoddi mewn gofal cleifion, byddai GIG di-bapur hefyd yn golygu y gellid rhannu cofnodion cleifion yn haws, gan arwain yn y pen draw at well triniaeth. Mae yna hefyd rôl bwysig ar gyfer hyrwyddo Cymru yn ehangach fel lle i fyw a gweithio, fel y gallwn fynd i'r afael yn fwy effeithiol â rhai o'r camsyniadau y gallai fod gan rai darpar feddygon am fyw a gweithio yn y wlad hon.

Mae prif ffrydio ymchwil glinigol o fewn arfer bob dydd a denu cyllid ymchwil hefyd yn ffactor allweddol yma. Mae'n naturiol bod gan feddygon iau uchelgais a'u bod am ddilyn llwybr gyrfa sy'n heriol a boddhaus. Mae llawer am gynnal treialon clinigol a chael cyhoeddi eu gwaith fel y gallant ddatblygu eu gyrfaedd. Bydd cynnig y cyfle iddynt wneud hynny yn golygu bod Cymru yn gyrchfan mwy deniadol ar gyfer gyrfa mewn meddygaeth. Ar ben hynny, bydd yn denu buddsoddiad gan gynghorau ymchwil, diwydiant, a'r gwyddorau bywyd. Mae nifer o syniadau arloesol wedi dod i'r amlwg am brif ffrydio treialon clinigol ac ymchwil yn y blynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd, nid oes llawer o dystiolaeth ar gael ar gyfer llawer o driniaethau, yn enwedig mewn lleoliadau brys, ac mae problemau gyda chynrychioldeb samplau mewn llawer o dreialon. Felly, mae syniadau wedi dod i'r amlwg o fewn y proffesiwn meddygol am sut y gellir cynnal treialon amser real mewn lleoliad clinigol. Mae hyn yn sicr yn rhywbeth y mae angen inni adeiladu ymhellach arno. Yn ogystal â helpu i ddenu meddygon sydd am wneud gwaith ymchwil, byddai hefyd o fudd i'r cleifion.

17:38

### **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you applaud ABMU, which, when it had difficulty in trying to recruit doctors, put forward proposals for posts that were part-research, part in hospital? Therefore, it tried to encourage those individuals who wanted to do research but at the same time would serve the hospitals. That is possibly one way of looking forward and which has already been tried by ABMU.

A ganmolwch Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a gyflwynodd gynigion ar gyfer swyddi a oedd yn cynnwys rhywfaint o waith ymchwil a rhywfaint o waith ysbyty pan oedd yn cael anhawster wrth geisio recriwtio meddygon? Felly, ceisiodd annog yr unigolion hynny a oedd am wneud ymchwil, ond a fyddai ar yr un pryd yn gwasanaethu'r ysbytai. Mae'n bosibl bod hynny'n un ffordd o edrych ymlaen ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg eisoes wedi rhoi cynnig arni.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:39

### **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There might be examples out there and I would readily look at those, certainly. It is exactly that kind of research opportunity that would offer a greater deal of attractiveness to prospective doctors and staff in the health services.

Efallai fod enghreifftiau'n bodoli, a byddwn yn barod i edrych arnynt, yn sicr. Dyna'n union y math o gyfle ymchwil a fyddai'n rhoi cynnig llawer mwy deniadol i ddarpar feddygon a staff yn y gwasanaethau iechyd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The First Minister made some comments yesterday on the need to improve training. We all acknowledge that improvements are needed, but Plaid Cymru is proposing several ways to do this that will not require massive loss of core services from district general hospitals, such as the need to invest in our medical schools, which has already been mentioned, and in ICT, to ensure that students can gain from the knowledge and expertise of consultants in units outside of areas served by these medical schools. We would encourage senior consultants to take a bigger role in training and mentoring younger doctors. When finances allow—because we all agree that we cannot do it all at once—we could fund satellite campuses at rural and peripheral hospitals so that students would be able to spend some of their time training in different environments. We acknowledge the need for trainees to have protected time and consultant supervision, and this would become easier to achieve, of course, once we started recruiting more doctors to undertake the roles trainees are doing. However, we believe that the Greenaway review highlights the fact that training needs to change so that doctors have a variety of experiences and have the skills capable of adapting to how medicine evolves.

We can take inspiration from the way Scotland has mainstreamed clinical research into its service there, and its success in developing the College of Life Sciences in Dundee from a converted stable block with 11 scientists to a complex housing almost 800 staff from 53 countries shows us all what is possible. Attracting more top clinicians, yes, would in turn help to attract postgraduates and undergraduates. It would allow us to retain many of our services, improve patient outcomes and, of course, would have a knock-on effect on employment and the wider economy in Wales.

17:40

### Joyce Watson [Bywgraffiad Biography](#)

I want to start by saying that I congratulate Plaid Cymru for at least trying to come up with an idea—before I pick holes in that idea—as opposed to the Conservatives, who only seem to criticise. So, I will start there, because at least there is an attempt to do something. I was in Aberystwyth last Friday with quite a few other people in this room, and GP recruitment was a topic of lively discussion at that public meeting on health services. We have heard an awful lot of talk here today about rural healthcare and provision, and, to that end, I am very pleased that the Minister for Health and Social Services has listened to those pleas and said that he will commission a review of how those services are defined and delivered in mid Wales. My plea here will be to include in that region Meirionnydd and the Welsh uplands.

Gwnaeth y Prif Weinidog rai sylwadau ddoe ar yr angen i wella hyfforddiant. Mae pob un ohonom yn cydnabod bod angen gwelliannau, ond mae Plaid Cymru yn cynnig sawl ffordd o wneud hyn na fydd yn golygu bod angen colli swmp enfawr o wasanaethau craidd o ysbytai cyffredinol dosbarth, megis yr angen i fuddsoddi yn ein hysgolion meddygol, sydd eisoes wedi cael ei grybwyll, ac mewn TGCh, er mwyn sicrhau y gall myfyrwyr fanteisio ar wybodaeth ac arbenigedd ymgynghorwyr mewn unedau y tu allan i'r ardaloedd a wasanaethir gan yr ysgolion meddygol hyn. Byddem yn annog uwch ymgynghorwyr i gymryd mwy o ran yn y gwaith o hyfforddi a mentora meddygon iau. Pan fydd arian yn caniatáu—oherwydd mae pob un ohonom yn cytuno na allwn wneud popeth ar unwaith—gallem ariannu campysau lloeren mewn ysbytai gwledig ac ymylol fel y gallai myfyrwyr dreulio rhywfaint o'u hamser hyfforddi mewn gwahanol amgylcheddau. Rydym yn cydnabod yr angen i hyfforddeion gael amser wedi'i neilltuo a goruchwyliaeth ymgynghorydd, a byddai hyn yn dod yn haws ei gyflawni, wrth gwrs, unwaith inni ddechrau recriwtio mwy o feddygon i ymgymryd â'r rolau y mae hyfforddeion yn ei wneud. Fodd bynnag, credwn fod adolygiad Greenaway yn amlgyr ffaith bod angen i hyfforddiant newid er mwyn sicrhau bod meddygon yn cael amrywiaeth o brofiadau a'u bod yn meddu ar y sgiliau y gellir eu haddasu wrth i feddygaeth esblygu.

Gallwn gael ein hsbrydoli o'r modd y mae'r Alban wedi prif ffrydio ymchwil glinigol yn ei gwasanaeth yno, ac mae ei llwyddiant wrth ddatblygu'r Coleg Gwyddorau Bywyd yn Dundee o floc stablau wedi'i addasu gydag 11 o wyddonwyr i safle sy'n dal bron i 800 o staff o 53 o wledydd yn dangos inni beth sy'n bosibl. Ie, byddai denu mwy o glinigwyr o fri yn ei dro yn helpu i ddenu ôl-raddedigion ac israddedigion. Byddai'n ein galluogi i gadw llawer o'n gwasanaethau, gwella canlyniadau i gleifion ac, wrth gwrs, byddai'n cael sgilleffraith ar gyflogaeth a'r economi ehangach yng Nghymru.

Rwyf am ddechrau drwy longyfarch Plaid Cymru am o leiaf geisio cynnig syniad—cyn imi ddechrau gweld beiau yn y syniad hwnnw—yn wahanol i'r Ceidwadwyr, sydd ond yn beirniadu o'r hyn a welaf i. Felly, dechreuaf yno, oherwydd o leiaf mae yna ymgais i wneud rhywbeth. Roeddwn yn Aberystwyth ddydd Gwener diwethaf gyda nifer o bobl eraill sydd yn yr ystafell hon, ac roedd recriwtio meddygon teulu yn bwnc trafod bywiog yn y cyfarfod cyhoeddus hwnnw ar wasanaethau iechyd. Rydym wedi clywed llawer iawn o sôn yma heddiw am ofal iechyd a darpariaeth wledig, ac, i'r perwyl hwnnw, rwy'n falch iawn bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gwrandao ar y pleon hynny ac wedi dweud y bydd yn comisiynu adolygiad ar sut y caiff y gwasanaethau hynny eu diffinio a'u darparu yn y canolbarth. Fy mhle i yma fydd cynnwys Meirionnydd ac ucheldiroedd Cymru yn y rhanbarth hwnnw.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

All that said, I am afraid I am going to have to take issue with some of the proposals that have been talked about by Plaid Cymru here this afternoon. I think that the very first thing you have to start with when you are putting a plan together is that we have to assume that you have costed it. My costings tell me that it is going to cost £83 million a year to employ 100 extra GPs at £83,000 a year. So, that is the first point. We are told, of course, that the 'pop' tax is going to pay for it. Now, we always hope that any campaign will be successful in changing behaviour. If it is successful in changing behaviour, you cannot escape the fact that you will have less revenue simply because people will have taken note of the intended outcome of that policy and reduced their consumption. I think it was somewhat ridiculous to then conclude that, that being the case, you would perhaps not be treating people as a result of their consuming less sugar. That is simplistic because you will already have people in the system who will need the ongoing treatment because we are assuming the treatment actually keeps people alive. Those people will still need that treatment. There is no point appointing extra GPs to treat people if you are going to say that. It seems to me that Lindsay Whittle has missed a trick here.

The other thing I want to talk about, because it has been mentioned, is the use of telemedicine. I do not know about the Members on the Plaid bench, but I know for myself that I have gone around my area and seen telemedicine already being used. It is already being invested in in our hospitals and it is already giving good results. So, I do not know whether they are aware of that. Perhaps they need to go and find out about that. I have heard the talk about research and development, which, in Cardiff University, is at the forefront of delivering solutions to medical problems, not only in the UK, but also in the world. I do not know whether they missed that, but they do not have very far to go to try to find out.

I also do not know whether they missed the fact that 1,716 posts have been created and added to the workforce in the NHS in the last 10 years. I have to take issue here, and agree with colleagues across the piece—and with the Liberal Democrats—that workforce development is not just about GPs or doctors. They cannot do their jobs unless they are supported by absolutely everybody else. So, to focus on one part, which is doctors, to deliver the solution, is almost ridiculous and I do not know how you have arrived at it. I suggest that you go back, do your research, look at what is happening, then come back again.

Wedi dweud hynny, ofnaf y bydd yn rhaid imi anghytuno â rhai o'r cynigion y mae Plaid Cymru wedi'u trafod yma y prynhawn yma. Wrth roi cynllun at ei gilydd, credaf fod yn rhaid dechrau drwy gymryd yn ganiataol eich bod wedi ei gostio. Mae fy nghyfrifiadau yn dweud wrthyf y bydd yn costio £83 miliwn y flwyddyn i gyflogi 100 o feddygon teulu ychwanegol ar £83,000 y flwyddyn. Felly, dyna'r pwynt cyntaf. Cawn ar wybod, wrth gwrs, mai'r dreth 'pop' fydd yn talu amdano. Nawr, rydym bob amser yn gobeithio y bydd unrhyw ymgyrch yn llwyddo i newid ymddygiad. Os bydd yn llwyddo, ni allwch ddianc rhag y ffaith y byddwch yn cael llai o refeniw, dim ond oherwydd y bydd pobl wedi cymryd sylw o ganlyniad bwriadedig y polisi hwnnw ac wedi lleihau eu defnydd. Credaf ei fod wedyn braidd yn chwerthinlyd dod i'r casgliad, o gofio hynny, na fydddech efallai yn trin pobl am eu bod yn bwyta llai o siwgr. Mae hynny'n rhy syml oherwydd bydd pobl eisoes yn y system y bydd angen y driniaeth barhaus arnynt oherwydd rydym yn tybio y bydd y driniaeth wir yn cadw pobl yn fyw. Bydd angen i'r bobl hynny gael y driniaeth honno o hyd. Nid oes pwynt penodi meddygon teulu ychwanegol i drin pobl os ydych am ddweud hynny. Mae'n ymddangos i mi fod Lindsay Whittle wedi colli cyfle yma.

Y peth arall yr wyf am siarad amdano, gan ei fod wedi ei grybwyll, yw'r defnydd o deffeddygaeth. Ni wn am yr Aelodau ar fainc y Plaid, ond gwn fy hun fy mod wedi mynd o gwmpas fy ardal ac wedi gweld telefeddygaeth eisoes yn cael ei defnyddio. Mae ein hysbytai eisoes yn buddsoddi ynddi ac mae eisoes yn arwain at ganlyniadau da. Felly, ni wn a ydynt yn ymwybodol o hynny. Efallai bod angen iddynt ymchwilio i hynny. Rwyf wedi clywed y sôn am ymchwil a datblygu, sydd, ym Mhrifysgol Caerdydd, yn arwain y gwaith o gynnig atebion i broblemau meddygol, nid yn unig yn y DU, ond hefyd yn y byd. Ni wn a wnaethant fetu hynny, ond nid oes angen iddynt fynd yn bell iawn i geisio cael gwybod.

Hefyd, ni wn a wnaethant fetu'r ffaith bod 1,716 o swyddi wedi cael eu creu a'u hychwanegu at y gweithlu yn y GIG yn y 10 mlynedd diwethaf. Rhaid imi wrthwynebu yma, a chytuno gyda chyd-Aelodau drwyddi draw a gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol—bod a wnelo datblygu gweithlu â mwy na meddygon teulu neu feddygon. Ni allant wneud eu gwaith oni chânt gefnogaeth pawb arall. Felly, mae canolbwyntio ar un rhan, sef meddygon, i gynnig yr ateb, bron yn chwerthinlyd ac ni wn sut y gwnaethoch benderfynu ar hyn. Awgrymaf eich bod yn mynd yn ôl, yn gwneud eich gwaith ymchwil, yn edrych ar yr hyn sy'n digwydd, ac yna'n dod yn ôl eto.

17:46

## **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

If Joyce Watson is that interested, she should read the document. There are costings in the document, so you do not have to make up your own.

Os oes gan Joyce Watson gymaint o ddiddordeb â hynny, dylai ddarllen y ddogfen. Mae cyfrifiadau yn y ddogfen, felly nid oes rhaid ichi wneud hynny eich hun.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The Minister said earlier that we were not in a crisis with regard to recruitment, but it does depend on who you speak to. If you speak to people in the sector, especially with regard to GP recruitment, we certainly have a problem to deal with for the future. There is already a long-standing and historic problem with attracting GPs to work within specific geographical areas, and because GPs are currently contracted to the NHS, and receive funding depending on how they meet specific performance targets, it is felt that this compounds the issue.

Many GPs, for example, do not want the additional discretion, or the additional work, of running their own individual businesses. I know a GP in my area in Glyn Neath who decided to become a locum, because she felt so much pressure in her daily activities.

As a party, in our document, we state that we think that an answer could be directly salaried GPs in certain areas. We will all remember that we did this in the One Wales Government with regard to dentists. It would not necessarily be a long-term thing, but we could look to it in the interim in looking to solve this short-term problem.

17:47 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention on that point?

Dyweddod y Gweinidog yn gynharach nad oeddem yn wynebu argyfwng o ran recriwtio, ond mae'n dibynnu ar bwy y siaradwch ag ef. Os siaradwch â phobl yn y sector, yn enwedig o ran recriwtio meddygon teulu, yn sicr mae gennym broblem y bydd angen delio â hi yn y dyfodol. Ceir problem hirsefydlog a hanesyddol o ran denu meddygon teulu i weithio mewn ardaloedd daearyddol penodol eisoes, ac oherwydd bod meddygon teulu ar hyn o bryd dan gôntract i'r GIG, ac yn cael cyllid yn dibynnu ar sut y maent yn bodloni targedau perfformiad penodol, teimlir bod hyn yn ychwanegu at y broblem.

Er enghraifft, nid oes llawer o feddygon teulu am gael y disgrisiwn ychwanegol, neu waith ychwanegol, o redeg eu busnesau eu hunain. Gwn am feddyg teulu yn fy ardal i yng Nglyn-nedd a benderfynodd fynd yn locwm, gan ei bod yn teimlo cymaint o bwysau yn ei gweithgareddau bob dydd.

Fel plaid, yn ein dogfen, rydym yn datgan ein bod yn meddwl y gallai cyflogi meddygon teulu yn uniongyrchol fod yn un ateb mewn rhai ardaloedd. Bydd pob un ohonom yn cofio inni wneud hyn yn Llywodraeth Cymru'n Un o ran deintyddion. Ni fyddai'n rhaid iddo fod yn rhywbeth hirdymor, ond gallem ei ystyried dros dro wrth geisio anelu at ddatrys y broblem hon yn y tymor byr.

A wnech chi dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:47 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Gwnaf.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:47 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would you agree that they are in existence now? In Cymer, doctors are salaried. There have been problems, because keeping people on salaries is very difficult on occasion, because they want to move on. So, it is a good position, but it is not always the solution and they do exist at the moment.

A fydddech yn cytuno eu bod yn bodoli yn awr? Yn y Cymer, mae meddygon yn cael cyflog. Bu problemau, gan fod cadw pobl ar gyflogau yn anodd iawn ar adegau, am eu bod am symud ymlaen. Felly, mae'n sefyllfa dda, ond nid dyna'r ateb bob amser ac maent yn bodoli ar hyn o bryd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:48 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not think that we are debating the fact that they exist, but we are saying that this could be used more widely if there are issues within the current set up. It is an idea, and I think that that is something that we should all embrace.

Ni chredaf ein bod yn trafod y ffaith eu bod yn bodoli, ond rydym yn dweud y gellid defnyddio hyn yn ehangach os oes problemau ynghlwm â'r trefniant presennol. Mae'n syniad, a chredaf fod hynny'n rhywbeth y dylem ei groesawu.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Yr ail elfen yr oeddwn am ganolbwyntio arni oedd i edrych ar y gweithlu ar gyfer y dyfodol, a hefyd i feithrin ac ennyn pobl sy'n siarad Cymraeg i gymryd rhan yn y maes hwn er mwyn hybu eu profiad yn y dyfodol. Fel rydym wedi gweld gyda'r dryswch presgripsiwn diweddar ym Mangor, mae cyfathrebu effeithiol gyda chleifion yn hanfodol er mwyn darparu gofal o ansawdd da. Felly, mae angen inni sicrhau bod yna bobl yn y sector sydd yn medru'r Gymraeg, er mwyn inni gael cyfathrebu clir.

The second aspect that I wanted to focus on was looking at the workforce of the future, and also supporting and attracting Welsh speakers to this field in order to promote their experience in the future. As we have seen with the recent prescription confusion in Bangor, effective communication with patients is vital if we are to provide good-quality care. Therefore, we need to ensure that we have Welsh-speaking people in the sector, so that we can secure clear communication.

Wrth gwrs, byddem ni fel plaid yn annog pobl i ddysgu yn y swydd, os ydynt am ddysgu fel ail iaith. Fodd bynnag, rydym yn credu ei fod yn opsiwn i fynd i mewn i gymunedau Cymraeg eu hiaith i ennyn pobl i feddwl am hwn fel opsiwn ar gyfer eu gyrfaoedd efallai nad oeddent wedi meddwl amdano o'r blaen. Mae llawer o ddryswch wedi bod ar y polisi hwn. Rwyf wedi gweld sylwadau ar Facebook a Twitter yn dweud nad ydych yn gallu gwneud y swydd hon â lwfans gan y Llywodraeth os nad ydych yn siarad Cymraeg. Nid yw hynny'n gywir os oes gennych y cymwysterau a'ch bod wedi cyrraedd y safon ddigonol. Bydd angen edrych ar roi mwy o bobl Cymraeg eu hiaith yn y swyddi hyn.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn edrych ar hyn hefyd ac yn dangos diddordeb mawr yn y maes, er mwyn sicrhau bod pobl yn aros yng Nghymru. Rydym yn gwybod, gan fod strwythur ffioedd yn bodoli ar hyn o bryd, bod lot o fyfyrwyr yn mynd i fyw ac i weithio mewn ardaloedd eraill o Brydain, ac efallai bod hon yn system lle gall pobl ifanc aros yng Nghymru i weithio ac i gael eu teuluoedd yn rhan o gymunedau Cymraeg. Dyna'r oll roeddw'n i'n mo'yn dweud.

Of course, we as a party would encourage on-the-job training if people want to learn as a second language. However, we believe that it is an option to encourage people from Welsh-speaking communities to consider this as a career choice where they had not, perhaps, thought about it before. There has been much confusion about this policy. I have seen comments on Facebook and Twitter that you cannot do this job with Government support unless you speak Welsh. That is not true if you have the qualifications and have reached the required standard. There will be a need to look at placing more Welsh speakers in these jobs.

The Coleg Cymraeg Cenedlaethol is also looking at this and is showing a great interest in this field, in order to ensure that people stay in Wales. Given the current fees regime, we know that many students go to live and work in other parts of Britain, and this could be a way of ensuring that young people can remain in Wales to work and to have their families as part of Welsh-speaking communities. That is all that I wanted to say.

17:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:50 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Doctors make up 8% of the NHS workforce in Wales and services to patients, day in and day out, depend on the contribution that all staff make at all levels, from our healthcare support workers to our nurses, allied health professionals and physiotherapists, administrative support staff to our lab technicians. All have a vital role to play and all should be valued in equal measure. The mover of the motion this afternoon provided a ritual nod in that direction, spending 20 seconds in a speech of over 10 minutes on 92% of the staff in the Welsh NHS, concentrating, as all Plaid Cymru contributors have this afternoon, on the 8% that are left.

Mae meddygon yn cyfrif am 8% o'r gweithlu GIG yng Nghymru ac mae gwasanaethau beunyddiol i gleifion yn dibynnu ar y cyfraniad a wna pob aelod o staff ar bob lefel, o'n gweithwyr cymorth gofal iechyd i'n nyrsys, o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a ffisiotherapyddion, o staff cymorth gweinyddol i'n technegwyr labordai. Mae gan bob un rôl hanfodol i'w chwarae a dylid gwerthfawrogi pob un yn gyfartal. Cymerodd cynigydd y cynnig y prynhawn yma gam greddfodol i'r cyfeiriad hwnnw, gan dreulio 20 eiliad mewn araith o dros 10 munud ar 92% o'r staff yn y GIG yng Nghymru, gan ganolbwyntio, fel y gwnaeth holl gyfranwyr Plaid Cymru y prynhawn yma, ar yr 8% sy'n weddill.

Today's motion rightly puts the focus on workforce planning and, in reality, the position is very different to what some Members have suggested. We spend a great deal of time here talking about the ambulance service. We have a national workforce plan for that service. It means that, over the past 10 years, both the nature and the number of ambulance staff have changed. There are more than 1,000 extra staff, but also staff with a far wider range of clinical skills and competence. As we follow the recommendations of the McClelland review, we have the plans and the training arrangements in place to create the workforce of the future.

Mae cynnig heddiw yn canolbwyntio'n briodol ar gynllunio gweithlu ac, mewn gwirionedd, mae'r sefyllfa yn wahanol iawn i'r hyn y mae rhai Aelodau wedi ei hawgrymu. Rydym yn treulio llawer iawn o amser yma yn siarad am y gwasanaeth ambiwlans. Mae gennym gynllun gweithlu cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth hwnnw. Mae'n golygu bod natur a nifer y staff ambiwlans wedi newid dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae mwy na 1,000 o staff ychwanegol, ond hefyd ceir staff ag ystod llawer ehangach o sgiliau clinigol a chymhwysedd. Wrth inni ddilyn argymhellion adolygiad McClelland, mae gennym y cynlluniau a'r trefniadau hyfforddi i greu gweithlu'r dyfodol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

As Kirsty Williams and David Rees have set out, there is a very wide range of other professions in Wales, allied to medicine. I will not name them all again. Suffice it to say that we have a national partnership council where we meet those professions and a national approach to workforce development. Together, across Government and local health boards, a national commissioning programme is agreed annually and then implemented. It is the programme that lies behind the answer that I was able to give earlier this afternoon about the rise in the number of clinical psychologists in training here in Wales. It lies behind the huge advances made in Wales in developing the advanced practitioner workforce—a place where we, undoubtedly, lead the United Kingdom. The motion calls for a national workforce plan. Collectively and collaboratively, and for the vast majority of national health service staff, that is exactly what we already have. Through the planning regime instituted by the financial flexibilities Bill, and this particular aspect of the Bill was very carefully tested here on the floor of the Assembly, we will be able to take that procedure even further.

Let me now turn to the issue of medical staffing. It is important to begin by getting a few facts on the record. We have already had sustained increases in the number of doctors working in the Welsh NHS. There has been a 41% increase over the past 10 years—1,700 posts more in that time, or about twice the ambition of the Plaid Cymru proposals outlined today already delivered by Labour Governments.

We have had sustained increases in the number of students entering medical education. I have been asked this afternoon to take inspiration from Scotland, where the SNP has instituted a 6% cut in the number of students going into medical education from last September. The merits of the English system have been pointed out to me, where the Conservative-led Government has introduced a 2% cut in the number of students going into medical education as from last September. We spend £350 million every year in Wales on staff training and development, and over half of that goes into investment in medical education.

The additional investment that we will make in the NHS in Wales this year, next year and the year after means that we can go on making that investment. That is why we will accept the Liberal Democrat amendment to this debate, amendment 2, and, indeed, the final amendment in the name of William Graham. We have had a national recruitment campaign, which has succeeded in bringing new doctors to Wales in significant numbers. There were 211 active vacancies in the medical workforce when the campaign began in Wales; there were 125 active vacancies in the latest available figures—a fall of 86 staff posts, or more than 40%.

Despite these real successes I have become concerned in the months since I have become Minister at whether the Welsh public has received an adequate return on the investment that is made on its behalf in this area. Do we receive a sufficient return in terms of the number of staff produced for the Welsh NHS, and do we receive a sufficient return in the nature of the workforce that this investment produces?

Fel y nododd Kirsty Williams a David Rees, mae ystod eang iawn o broffesiynau eraill yng Nghymru, sy'n gysylltiedig â meddygaeth. Nid enwaf y rhain i gyd eto. Digon yw dweud bod gennym gyngor partneriaeth genedlaethol lle y byddwn yn cwrrdd â'r proffesiynau hynny ac ymagwedd genedlaethol tuag at ddatblygu'r gweithlu. Ar y cyd, ar draws y Llywodraeth a byrddau iechyd lleol, cytunir ar raglen comisiynu genedlaethol bob blwyddyn a chaiff ei rhoi ar waith. Y rhaglen hon yw sail yr ateb a roddais yn gynharach y prynhawn yma am y cynnydd yn nifer y seicolegwyr clinigol sy'n hyfforddi yma yng Nghymru. Mae'n gyfrifol am y datblygiadau enfawr a wnaed yng Nghymru wrth ddatblygu'r gweithlu uwch ymarferwyr—maes lle rydym, yn ddi-os, yn arwain y Deyrnas Unedig. Mae'r cynnig yn galw am gynllun gweithlu cenedlaethol. Dyna'n union sydd gennym yn barod, gyda'i gilydd ac ar y cyd, ac ar gyfer y mwyafrif helaeth o staff y gwasanaeth iechyd gwladol. Drwy'r gyfundrefn gynllunio a sefydlwyd gan y Bil hyblygrwydd ariannol, a chafodd yr elfen benodol hon o'r Bil ei phrofi yn ofalus iawn yma ar lawr y Cynulliad, byddwn yn gallu datblygu'r weithdrefn honno hyd yn oed ymhellach.

Gadewch imi yn awr droi at fater staffio meddygol. Mae'n bwysig dechrau drwy nodi rhai ffeithiau. Rydym eisoes wedi gweld cynnydd cyson yn nifer y meddygon sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru. Gwelwyd cynnydd o 41% dros y 10 mlynedd diwethaf—1,700 o swyddi yn fwy yn y cyfnod hwnnw, neu tua dwywaith uchelgais cynigion Plaid Cymru a amlinellwyd heddiw eisoes yn cael ei ddarparu gan Lywodraethau Llafur.

Gwelsom gynnydd cyson yn nifer y myfyrwyr sy'n mynd i addysg feddygol. Y prynhawn yma, gofynnwyd i mi gymryd ysbrydoliaeth o'r Alban, lle mae'r SNP wedi cyflwyno toriad o 6% yn nifer y myfyrwyr sy'n mynd i mewn i addysg feddygol ers mis Medi diwethaf. Tynnwyd fy sylw at rinweddau'r system yn Lloegr, lle mae'r Llywodraeth dan arweiniad y Ceidwadwyr wedi cyflwyno toriad o 2% yn nifer y myfyrwyr sy'n mynd i mewn i addysg feddygol ers mis Medi diwethaf. Rydym yn gwario £350 miliwn bob blwyddyn yng Nghymru yn hyfforddi a datblygu staff, ac mae dros hanner hwnnw'n mynd i fuddsoddi mewn addysg feddygol.

Mae'r buddsoddiad ychwanegol a wnawn yn y GIG yng Nghymru eleni, y flwyddyn nesaf a'r flwyddyn wedyn yn golygu y gallwn barhau i wneud y buddsoddiad hwnnw. Dyna pam y byddwn yn derbyn gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol i'r ddadl hon, gwelliant 2, ac, yn wir, y gwelliant olaf yn enw William Graham. Rydym wedi cynnal ymgyrch recriwtio genedlaethol, sydd wedi llwyddo i ddod â nifer fawr o feddygon newydd i Gymru. Roedd 211 o swyddi gwag yn y gweithlu meddygol pan ddechreuodd yr ymgyrch yng Nghymru; roedd 125 o swyddi gwag yn y ffigurau diweddaraf sydd ar gael—gostyngiad o 86 o swyddi staff, neu fwy na 40%.

Er gwaethaf y llwyddiannau arwyddocaol hyn rwyf wedi dechrau pryderu yn y misoedd ers i mi ddod yn Weinidog ynghylch a yw'r cyhoedd yng Nghymru wedi cael enillion digonol ar y buddsoddiad a wneir ar eu rhan yn y maes hwn. A ydym yn cael enillion digonol o ran nifer y staff a sicrhawyd ar gyfer y GIG yng Nghymru, ac a ydym yn cael enillion digonol o ran natur y gweithlu sy'n deillio o'r buddsoddiad hwn?

In December, I had a meeting with the head of the Wales Deanery, Professor Derek Gallen. Following that meeting I wrote to him to tell him that I intend to secure advice about bringing together the two major strands in workforce planning in Wales—planning for the medical staff of the future and planning for the other 92% of staff who provide essential services—with a view to seeing whether bringing those two workforce arrangements into a single body would help us to secure a greater return on the investment that the Welsh public makes in creating the workforce that we need for the NHS of the future.

Let me be clear: around the Chamber, where there are good and practical ideas, and where those ideas are legally possible and where they help to secure the workforce that they need, I will be willing to listen to them. However, when I talk about bringing together the arrangements for medical and non-medical staff, I think that I am pointing at the major fault line between what we as a Government are trying to do and the movers of the motion.

Anyone serious about the future staffing of the national health service, and anyone who has taken the trouble to actually study the Greenaway review, or some of the most recent publications of the King's Fund—its report on developing community resource teams in Wales, for example—could not possibly conclude that a rigid focus on doctors alone is the way to plan for the future.

The big picture of health policy in Wales is to develop the team around the patient, maximising the contribution that a far wider range of healthcare professionals makes to the care that patients need. That is why we will support the first amendment in the name of William Graham today. It is why we have concluded the sort of agreement that we have reached with GPC in Wales last week, so that we will have doctors working across practices in primary care and across professional boundaries.

Let me set aside, for a moment, the internal—

Ym mis Rhagfyr, cefais gyfarfod gyda phennaeth Deoniaeth Cymru, yr Athro Derek Gallen. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw ysgrifennais ato i ddweud wrtho fy mod yn bwriadu ceisio cyngor ynghylch dwyn ynghyd y ddau brif linydd o ran cynllunio gweithlu yng Nghymru—cynllunio ar gyfer staff meddygol y dyfodol a chynllunio ar gyfer y 92% arall o staff sy'n darparu gwasanaethau hanfodol—gyda'r nod o weld a fyddai cyfuno'r ddau drefniant gweithlu hwn yn un corff yn ein helpu i sicrhau mwy o enillion ar y buddsoddiad a wna'r cyhoedd yng Nghymru drwy greu'r gweithlu sydd ei angen annom ar gyfer y GIG yn y dyfodol.

Gadewch imi fod yn glir: o gwmpas y Siambwr, lle mae syniadau da ac ymarferol, a lle mae'r syniadau hynny yn bosibl yn gyfreithiol a lle maent yn helpu i sicrhau'r gweithlu sydd ei angen arnynt, byddaf yn barod i wrando arnynt. Fodd bynnag, pan fyddaf yn sôn am gyfuno'r trefniadau ar gyfer staff meddygol ac anfeddygol, credaf fy mod yn tynnu sylw at yr ymraniad mawr rhwng yr hyn rydym ni fel Llywodraeth yn ceisio ei wneud a'r rhai a gynnigiodd y cynnig.

Ni allai unrhyw un sydd o ddifrif ynghylch staffio'r gwasanaeth iechyd gwladol yn y dyfodol, ac unrhyw un sydd wedi cymryd y drafferth i astudio adolygiad Greenaway, neu rai o gyhoeddiadau diweddaraf Cronfa'r Brenin mewn gwirionedd—ei adroddiad ar ddatblygu timau adnoddau cymunedol yng Nghymru, er enghraifft—fyth ddod i'r casgliad mai ffocws anhyblyg ar feddygon yn unig yw'r ffordd i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Y darlun mawr mewn perthynas â pholisi iechyd yng Nghymru yw datblygu'r tîm o amgylch y claf, manteisio i'r eithaf ar y cyfraniad a wna ystod llawer ehangach o weithwyr gofal iechyd proffesiynol i'r gofal sydd ei angen ar gleifion. Dyna pam y byddwn yn cefnogi'r gweliant cyntaf yn enw William Graham heddiw. Dyna pam rydym wedi cadarnhau'r math o gytundeb a wnaethom gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yng Nghymru yr wythnos diwethaf, er mwyn sicrhau y bydd gennym feddygon sy'n gweithio ar draws meddygfeydd mewn gofal sylfaenol ac ar draws ffiniau proffesiynol.

Am eiliad, gadewch imi osod o'r neilltu—

17:58

### **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The clock is against you, Minister. You need to conclude.

Mae'r cloc yn eich erbyn, Weinidog. Mae angen ichi gloi.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

17:58

### **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am therefore happy to conclude, Dirprwy Lywydd. A real challenge is facing the NHS. The future will not, and cannot look like the past. We on the Government side have to deal with the world as it is, not as we would like it to be, and with the powers that we have at our disposal, not the powers that we wished we had. It is that reality that means that we will have to vote against the motion today.

Felly, rwy'n hapus i ddod i gasgliad, Ddirprwy Lywydd. Mae her go iawn yn wynebu'r GIG. Ni fydd y dyfodol yn edrych fel y gorffennol, ni all hynny ddigwydd. Rhaid inni ar ochr y Llywodraeth ddelio â'r byd fel ag y mae, nid fel y byddem yn hoffi iddo fod, a gyda'r pwerau sydd ar gael inni, nid y pwerau rydym yn dymuno eu bod gennym. Y realiti hwnnw sy'n golygu y bydd yn rhaid inni bleidleisio yn erbyn y cynnig heddiw.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

17:59

### **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Elin Jones to reply to the debate. I will allow you the same margin that I allowed the Minister over your allocated time.

Galwaf ar Elin Jones i ymateb i'r ddadl. Byddaf yn caniatáu i chi fynd dros yr amser a ddyrennir i chi i'r un graddau â'r Gweinidog.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cymerais dipyn o amser yn fy nghyflwyniad, felly nid oes gennyf lawer o amser i ymateb i bawb. Rwy'n gwerthfawrogi bod nifer o bobl wedi bod yn weddol gadarnhaol yn eu hymateb y prynhawn yma, ond rwyf am ddweud, fel y dywedais ar gychwyn fy araith y prynhawn yma, bod gweithlu'r NHS i gyd yn bwysig—pob agwedd arno. Ond, am un awr o un prynhawn yma, nid wyf am ymddiheuro i'r Gweinidog am drafod doctoriaid yn benodol. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar agweddau gwahanol ar yr NHS, gan wneud hynny'n fanwl ac yn greadigol; dyna mae Plaid Cymru yn ceisio'i wneud.

Cytunais â Kirsty Williams wrth iddi gyfeirio at rôl y ddeoniaeth a'r ffaith bod penderfyniadau'r ddeoniaeth yn cael effaith ar sut y mae gwasanaethau'n cael eu cyflunio. Rwyf yn cytuno gyda'r ddeoniaeth bod angen moderneiddio hyfforddiant, a bod angen sicrhau bod y profiad o hyfforddiant y mae pobl ifanc yn ei gael yn ymestyn eu sgiliau yn hytrach na'u bod yn cael eu defnyddio ar gyfer llenwi 'rotas' yn unig. Fodd bynnag, nid oes anghenraid i hynny arwain at newid gwasanaethau. Rwyf yn cytuno â'r Gweinidog bod y datblygiadau yn yr hyfforddiant y mae Greenaway yn ei gynnig yn ffordd o ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer hyfforddi meddygon yn y dyfodol, a chreu'r meddygon hynny yn ddim yn y gymuned, gan ddefnyddio pob math o weithwyr eraill o gwmpas hynny, fel yr awgrymodd David Rees.

I may not be of the same school of doom as Lindsay Whittle, but I believe that this Government and the next Government, for that matter, have to tackle the low level of doctors in Wales. I make no apology for raising that issue this afternoon. We have to build up the capacity of our medical schools and training, invest in innovation in health research and incentivise training and recruitment in hard-to-staff areas and specialisms in Wales. If you think, Minister, that the status quo and what you are doing at this point is enough, then for this afternoon and for this one hour, I have to agree with Darren Millar in my analysis of your response this afternoon and say that you are burying your head in the sand.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I did take quite a bit of time during my introduction, so I do not have much time to respond to everyone. I appreciate that many people have been quite positive in their responses this afternoon, but I want to say, as I said at the beginning of my speech this afternoon, that all members of the NHS workforce are important—all parts of it. However, for one hour of this one afternoon, I am not going to apologise to the Minister for discussing doctors in particular. It is important that we look at various aspects of the NHS and do so in a detailed and creative way; that is what Plaid Cymru is endeavouring to do.

I agreed with Kirsty Williams's point when she drew attention to the role of the deanery and the fact that the decisions taken by the deanery have an impact on the way in which services are configured. I agree with the deanery that there is a need to modernise training, and that we must ensure that the training experience that young people receive enhances and extends their skills and does not just use them to fill rotas. However, that does not necessarily have to lead to a change in services. I agree with the Minister that the developments in training that Greenaway proposes offer a way of extending the provision for the training of doctors in the future, and of creating from those doctors a team in the community, using all kinds of other workers around them, as was suggested by David Rees.

Efallai nad wyf yn edrych mor ddu â Lindsay Whittle ar bethau, ond credaf fod yn rhaid i'r Llywodraeth hon a'r Llywodraeth nesaf, o ran hynny, fynd i'r afael â'r lefel isel o feddygon yng Nghymru. Nid ymddiheuraf am godi'r mater hwnnw y prynhawn yma. Rhaid inni gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael yn ein hysgolion a'n hyfforddiant meddygol, buddsoddi mewn arloesedd mewn ymchwil iechyd a chymell hyfforddiant a recriwtio mewn meysydd ac arbenigeddau anodd eu staffio yng Nghymru. Weinidog, os credwch fod y sefyllfa sydd ohoni a'r hyn rydych yn ei wneud ar hyn o bryd yn ddigon, yna, y prynhawn yma am un awr, rhaid imi gytuno â Darren Millar yn fy nadansoddiad o'ch ymateb y prynhawn yma a dweud eich bod yn claddu eich pen yn y tywod.

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection. Therefore, I will defer voting until voting time. [Interruption.]

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf y pleidleisio tan yr amser pleidleisio. [Torri ar draws.]

Yes, I did hear. It was already objected to so you do not need to be embarrassed. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Do, clywais hynny. Fe'i gwrthwynebwyd eisoes, felly nid oes angen i chi deimlo cywilydd. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

**Cyfnod Pleidleisio**

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5398](#)

**Voting Time**

[Result of the vote on motion NDM5398](#)

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 13, Yn erbyn 44, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 13, Against 44, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5398](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 11, Yn erbyn 47, Ymatal 0.*

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5398](#)

*Amendment not agreed: For 11, Against 47, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5398](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 45, Yn erbyn 0, Ymatal 13.*

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5398](#)

*Amendment agreed: For 45, Against 0, Abstain 13.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5398](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 58, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5398](#)

*Amendment agreed: For 58, Against 0, Abstain 0.*

Cynnig NDM5398 fel y'i diwygiwyd

Motion NDM5398 as amended

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn credu bod Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn gryfach gyda'i gilydd fel rhan o'r Deyrnas Unedig gyda mwy o bwerau wedi'u datganoli i bob un o'r pedair gwlad.

1. Believes that Wales, Scotland, Northern Ireland and England are stronger together as part of a United Kingdom with greater powers devolved to each of the constituent nations.

2. Yn croesawu'r hyn y mae datganoli wedi'i wneud i wella democratiaeth yng Nghymru a'r Alban, a'i gyfraniad at y broses heddwch yng Ngogledd Iwerddon.

2. Welcomes what devolution has done to enhance democracy in Scotland and Wales and its contribution to the peace process in Northern Ireland.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5398 fel y'i diwygiwyd.](#)

[Result of the vote on motion NDM5398 as amended.](#)

*Derbyniwyd cynnis NDM5398 fel y'i diwygiwyd: O blaid 47, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Motion NDM5398 as amended agreed: For 47, Against 11, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5399](#)

[Result of the vote on motion NDM5399](#)

*Gwrthodwyd y cynnis: O blaid 11, Yn erbyn 47, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 11, Against 47, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5399](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5399](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 47, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 47, Against 11, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5399](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5399](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 58, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 58, Against 0, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5399](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5399](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Diprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5399](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5399](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Ddirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5399](#)

[Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5399](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Ddirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5399](#)

[Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5399](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 57, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 57, Against 0, Abstain 0.

Cynnig NDM5399 fel y'i diwygiwyd

Motion NDM5399 as amended

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu ac i weithredu cynllun gweithlu GIG cenedlaethol newydd ar gyfer y degawd nesaf i fynd i'r afael â heriau recriwtio yng ngwasanaeth iechyd Cymru.

1. Calls on the Welsh Government to develop and implement a new national NHS workforce plan for the next decade and to address recruitment challenges in the Welsh health service.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu sut y mae'n bwriadu defnyddio'r £180 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i wasanaeth iechyd Cymru ar gyfer 2014-15 yn dilyn argymhellion Adroddiad Francis, er mwyn ymateb i faterion o ran y gweithlu yn GIG Cymru.

2. Calls on the Welsh Government to outline how it intends to use the additional £180 million allocated to the Welsh health service for 2014-15 following the recommendations of the Francis Report, to respond to workforce issues within the Welsh NHS.

3. Yn cydnabod bod angen GIG sydd ag adnoddau priodol a phwysigrwydd buddsoddi mewn hyfforddiant a swyddi parhaol.

3. Recognises the necessity of a properly resourced NHS and the importance of investment in training and permanent posts.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5399 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5399 as amended](#)

Gwrthodwyd cynnig NDM5399 fel y'i diwygiwyd: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.

Motion NDM5399 as amended not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Ddirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig.

As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the motion.

18:07

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly?

A wnaiff yr Aelodau hynny sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

18:08

## Dadl Fer: Pam Mae Undebaeth Lafur yn Dal yn Bwysig yng Nghymru

I have allowed a minute for Ann Jones and David Rees to come in within the time I have got, hopefully.

## Short Debate: Why Trade Unionism Still Matters in Wales

**Bethan Jenkins** [Bywgraffiad Biography](#)

Rwyf wedi caniatáu munud i Ann Jones a David Rees gyfrannu o fewn yr amser sydd gennyf, gobeithio.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

It is quite incredible to think that people only really began populating the south Wales Valleys in numbers just over 150 years ago, how it has become a land of memory and event. So many developments that we in the modern world take for granted began there, from metalwork to globalised industry. If we were to compile a history of innovation in this small part of the world, we would be justifiably proud of how we have punched above our weight. But the social history of this region—the people's history—is one of struggle, and it is a long and undistinguished past featuring hunger, disease, poverty and unemployment. However, the way in which those people affected by such adversity have reacted to it is anything but undistinguished. In fact, it is so replete with the finest virtues of humanity—brotherhood, equality, self-betterment—that it is this that we largely remember these days, rather than the circumstances that gave rise to it. Throughout all of this time, organised labour trade unions have played a strong and vital part.

Like many features of this part of our past and present, trade unionism was not originally a Welsh idea, but like the industrial revolution, we were fundamental in shaping its development. We contributed to it significantly and made it our own. Perhaps the earliest event in Welsh history of organised labour came in my home town during the Merthyr rising. It was here for the first time that a red flag was flown by workers. In what would sadly be the first of a series of flashpoints across Wales, a call for better wages and lower prices was met with violence, persecution and the hanging of Dic Penderyn. As Gwyn Alf Williams wrote,

'In Merthyr in 1831, the prehistory of the Welsh working class comes to an end. Its history begins.'

The triumph of industrial Wales is that it began as an economic entity, through the exploitation of natural resources and the associated growth of heavy industries, but grew into something much stronger: community.

At the heart of the trade union movement is just this concept. Struggling for improved wages and against closures are symptoms of the central struggle for the preservation and advancement of entire communities. One trade unionist told me that, in an ideal world, there would be no need for trade unions because business would treat workers fairly. Sadly, this is not the case. In that regard, trade unionism's central mission has not changed in two centuries.

While people in Merthyr in 1831 were asking for bread and people on the Fairyland estate in Neath today are battling the bedroom tax, the enemy remains the same. It is not directly against devouring capitalism or uncaring government, is it against life getting worse for them, us, our neighbours and our friends.

Mae'n anhygoel meddwl mai dim ond ychydig dros 150 o flynyddoedd yn ôl y dechreuodd Cymoedd y De boblogi'n wirioneddol, gan greu ardal o atgofion a digwyddiadau nodedig. Dyma oedd man cychwyn cymaint o'r datblygiadau yr ydym ni yn y byd modern yn eu cymryd yn ganiataol, o waith metel i ddiwydiant byd-eang. Pe baem yn llunio hanes arloesi yn y rhan fach hon o'r byd, byddem yn haeddiannol falch o'r modd yr ydym wedi cystadlu. Ond hanes o frwydro yw hanes cymdeithasol y rhanbarth — hanes y bobl—ac mae'n orffennol hir a dinod o newyn, afiechyd, tlodi a diweithdra. Fodd bynnag, mae ymateb y bobl hynny yr effeithwyd arnynt gan adfyd o'r fath ymhell o fod yn ddinod. Yn wir, mae mor gyforiog o rinweddau gorau dynoliaeth—brawdoliaeth, cydraddoldeb, hunan-welliant—nes mai'r ymateb hwn a gofiwn yn bennaf y dyddiau hyn, yn hytrach na'r amgylchiadau a arweiniodd ato. Trwy gydol y cyfnod hwn, mae undebau llafur cyfundrefnol wedi chwarae rhan gref a hanfodol.

Fel llawer o nodweddion y rhan hon o'n gorffennol a'r presennol, nid oedd undebaeth lafur yn syniad Cymreig yn wreiddiol, ond fel y chwyldro diwydiannol, roeddem yn hollbwysig o ran llywio ei ddatblygiad. Gwnaethom gyfrannu'n sylweddol ato a'i berchenogi. Hwyrach bod y digwyddiad cynharaf yn hanes llafur cyfundrefnol yng Nghymru wedi digwydd yn fy nhref enedigol yn ystod terfysg Merthyr. Dyma'r tro cyntaf i faner goch gael ei chwifio gan weithwyr. Yn y cyntaf o blith sawl cythrwfl ledled Cymru yn anffodus, atebwyd yr alwad am gyflogau gwell a phrisiau is gan drais, erledigaeth a chrogi Dic Penderyn. Fel yr ysgrifennodd Gwyn Alf Williams,

Ym Merthyr yn 1831, daw cynhanes dosbarth gweithiol Cymru i ben. Mae ei hanes yn dechrau.

Gorchest y Gymru ddiwydiannol oedd iddi ddechrau fel endid economaidd, drwy ymelwa ar adnoddau naturiol a thwf cysylltiedig y diwydiannau trwm, ond tyfodd i fod yn rhywbeth llawer cryfach: cymuned.

Yr union gysyniad hwnnw sydd wrth wraidd y mudiad undebau llafur. Mae brwydro am well cyflogau ac yn erbyn achosion o gau yn symptomau o'r frwydr ganolog i warchod a hyrwyddo cymunedau cyfan. Dywedodd un undebwr llafur wrthyf, mewn byd delfrydol, na fyddai angen undebau llafur oherwydd byddai busnesau yn trin gweithwyr yn deg. Yn anffodus, nid felly y mae. Yn hynny o beth, nid yw cenhadaeth ganolog undebaeth llafur wedi newid ers dwy ganrif.

Tra bod pobl ym Merthyr yn 1831 yn gofyn am fara a phobl ar stad Fairyland yng Nghastell-nedd heddiw yn brwydro yn erbyn y dreth ystafell wely, yr un yw'r gelyn. Nid gwrthwynebu cyfalafiaeth farus na llywodraeth ddiolof yn uniongyrchol yw'r nod; y nod yw sicrhau nad yw bywyd yn gwaethygu iddynt hwy, i ni, ein cymdogion a'n ffrindiau.

How do we combat that? In the same way as we always have, by working together. The distinguished tradition of organised labour here in Wales and elsewhere is mirrored in the way its opponents have devised to beat it. We may think here of Thatcher's anti-union laws, but the fight against communities banding together has been conducted in far more subtle ways, from the extension of credit that unsustainably allows people to live the dream when they previously could not afford to, to a relentless 30-year-long media campaign that has us pricing our public services rather than valuing them.

For me, this onslaught culminated in the logic demonstrated in a letter to me from Mike Penning when he was Minister for shipping. In refusing to consider keeping open Swansea's coastguard station, he argued that Swansea was already well served by the public sector because the DVLA was based there. That is a little bit like arguing that you can close the local hospital because the school down the road has a full complement of teachers. Most dismayingly, it betrays the fundamental and complete misreading of what public services are there to do.

How do trade unions push against a climate that allows a Minister responsible for public services to think in this way, confident that public opinion is with him? The UK Government is not having it all its own way. Firefighters faced with having to have their pensions reduced—remembering that a pension is salary deferred—while having to work longer, have the public on their side. We were recently heartened when Mid and West Wales Fire and Rescue Service reined back on alarming cuts.

It is also time to acknowledge the ongoing strength of trade unions. In Wales, there are at least four times as many trade union members as there are members of all political parties combined. What is less encouraging is that only a fraction of the 610,000 Welsh trade union members are mobilised. There are good reasons for that: trade unions are creaking under the weight of casework.

Is there a role for us as Assembly Members to play in supporting and strengthening the trade union movement in Wales? Here are some of the ideas that many trade unionists have given me. We need to combat the malaise. Trade unionism in Wales needs to be about more than just managing decline. We need the ambition to raise the profile of trade unionism to have it regarded as a norm in Wales, particularly in sectors that lack a traditional base, such as contact centres, retail and care work.

Sut mae mynd i'r afael â hynny? Yn yr un modd ag yr ydym bob amser wedi gwneud hynny, drwy weithio gyda'n gilydd. Caiff traddodiad nodedig llafur cyfundrefnol yma yng Nghymru ac mewn mannau eraill ei adlewyrchu yn y ffordd y mae ei wrthwynebwyr wedi cynllwynio i'w drechu. Efallai y byddwn yn meddwl yma am ddeddfau gwrthundebol Thatcher, ond mae'r frwydr i atal cymunedau rhag dod at ei gilydd wedi'i hymyladd mewn ffyrdd llawer mwy cynnil, o ymestyn credyd sy'n galluogi pobl, yn anghynaliadwy, i fyw'r freuddwyd pan na allent wneud hynny'n flaenorol, i ymgyrch 30 mlynedd ddidostur yn y cyfryngau sy'n golygu ein bod yn priso ein gwasanaethau cyhoeddus yn hytrach na'u gwerthfawrogi.

I mi, cyrhaeddodd yr ymosodiad hwn ei anterth yn y rhesymeg a roddodd Mike Penning mewn llythyr a anfonodd ataf pan oedd yn Weinidog dros forgludiant. Wrth wrthod ystyried cadw gorsaf gwylwyr y glannau Abertawe ar agor, dadleuodd fod Abertawe eisoes yn cael ei gwasanaethu'n dda gan y sector cyhoeddus am fod y DVLA yno. Mae hynny ychydig fel dadlau y gallwch gau'r ysbyty lleol am fod gan yr ysgol gyfagos gyflenwad llawn o athrawon. Y peth mwyaf siomedig yw ei fod yn dangos annealltwriaeth sylfaenol a chyflawn o ddiben gwasanaethau cyhoeddus.

Sut y gall undebau llafur frwydro yn erbyn hinsawdd sy'n caniatáu i Weinidog sy'n gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus feddwl yn y fath fodd, yn hyderus bod y farn gyhoeddus o'i blaid? Nid yw Llywodraeth y DU yn cael ei ffordd ei hun yn gyfan gwbl. Mae gan ddiiffoddwyr tân sy'n wynebu gostyngiad yn eu pensiynau—gan gofio fod pensiwn yn seiliedig ar gyflog gohiriedig—er eu bod yn gorfod gweithio'n hwy, gefnogaeth y cyhoedd. Roedd penderfyniad diweddar Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin a Chanolbarth Cymru i gyfyngu ar doriadau brawychus yn galonddid.

Mae hefyd yn bryd cydnabod cryfder parhaus undebau llafur. Yng Nghymru, mae gan undebau llafur o leiaf bedair gwaith yn fwy o aelodau na'r holl bleidiau gwleidyddol gyda'i gilydd. Yr hyn sy'n llai calonogol yw mai dim ond rhan fechan o'r 610,000 o aelodau undebau llafur yng Nghymru sy'n weithredol. Mae rhesymau da dros hynny: mae undebau llafur yn gwichian dan bwysau'r gwaith achos.

A oes rôl inni fel Aelodau Cynulliad i'w chwarae i gefnogi a chryfhau'r mudiad undebau llafur yng Nghymru? Dyma rai o'r syniadau y mae llawer o undebwyr llafur wedi eu rhoi imi. Mae angen inni fynd i'r afael â'r gwendid. Mae angen i undebaeth llafur yng Nghymru wneud mwy na dim ond rheoli dirywiad. Mae angen yr uchelgais arnom i godi proffil undebaeth llafur fel y caiff ei hystyried fel norm yng Nghymru, yn enwedig mewn sectorau heb sylfaen draddodiadol, megis canolfannau cyswllt, manwerthu a gwaith gofal.

We need to send the right signals. A mature democracy can support those who choose to fight. Those AMs who have in the past refused to cross the picket line should also join in more sustained action. Support for and celebration of trade unionism should be embedded in all aspects of Welsh Government competencies and business. The Minister, of course, will highlight what is being done, but the question must remain whether that is enough and whether it should be kept under review accordingly.

The example here is blacklisting. I am glad that we had guidance over the summer, but could more have been done, such as was done in Scotland? In other areas, there are festivals to celebrate trade unionism. In Tolpuddle, the martyrs who mobilised against their treatment as farm workers are remembered each year. We could grow the current Dic Penderyn walk into a Wales-wide event, such as happens in Tolpuddle.

Should we establish an Assembly committee looking to explore these ideas? In Wales, Westminster's ambition to impose cuts in excess of 20%—directly and indirectly—raises the possibility of widespread hardship. This is where the trade union battle moves beyond fighting for jobs and becomes one of defending our communities.

Those trade union members convinced me that a step change is necessary. We need to join campaigns together as they widen under the momentum of closures and attacks. Such a movement back to the old ways of mass action also provides the best way of resolving any disconnect between constitutional and grass-roots campaigning. We need Welsh councillors and Assembly Members to resist any urge towards managerial consensus and to stand beside those who are suffering the impact of austerity. We can help by supporting concepts such as trade union towns; this means the pooling of local activist strength. Joint organising among different unions must play a part, but, as elected representatives, we are well placed to create links between trade union activists and with local campaigns.

As I have already mentioned, this work has been particularly well done in the campaign against the bedroom tax in Neath. By putting the two things together, local people have been able to benefit from the campaigning expertise found in the unions, while trade unionists have in turn found themselves a base of activists. It does work the other way around. My close involvement with the Visteon pensioners—whose union, Unite, will begin its court battle in earnest this year—has brought me to other campaigns. Their position as trade unionists and their concern for their communities have enabled me to better do my job as a representative.

Mae angen inni anfon y signalau cywir. Gall democratiaeth aeddfed gefnogi'r rhai sy'n dewis ymladd. Dylai'r ACau hynny sydd wedi gwrthod croesi'r llinell biced yn y gorffennol hefyd ymuno mewn camau gweithredu mwy parhaol. Dylid ymgorffori cefnogaeth i undebaeth lafur a dathliad ohoni ym mhob agwedd ar gymwyseddu a busnes Llywodraeth Cymru. Bydd y Gweinidog, wrth gwrs, yn tynnu sylw at yr hyn sy'n cael ei wneud, ond rhaid gofyn o hyd a yw hynny'n ddigon ac a ddylid ei adolygu'n barhaus yn unol â hynny.

Yr enghraifft yn y fan hon yw gwahardd. Rwy'n falch inni gael arweiniad dros yr haf, ond a ellid bod wedi gwneud mwy, fel y gwnaed yn yr Alban? Mewn ardaloedd eraill, mae gwyliau i ddathlu undebaeth lafur. Yn Tolpuddle, caiff y merthyron a frwydrodd yn erbyn y ffordd yr oeddent yn cael eu trin fel gweithwyr fferm, eu coffáu bob blwyddyn. Gallem ddatblygu taith gerdded bresennol Dic Penderyn fel ei bod yn ddiwyddiad i Gymru gyfan, fel sy'n digwydd yn Tolpuddle.

A ddylem sefydlu pwyllgor y Cynulliad er mwyn ystyried y syniadau hyn? Yng Nghymru, mae uchelgais San Steffan i gyflwyno toriadau o dros 20%—yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol—yn golygu bod posibilrwydd o galedi eang. Dyma lle y mae brwydr yr undebau llafur yn newid o ymladd dros swyddi i amddiffyn ein cymunedau.

Cefais fy argyhoeddi gan yr aelodau undebau llafur hynny fod angen newid sylweddol. Mae angen inni gyfuno ymgyrchoedd wrth iddynt ehangu o dan fomentwm ymosodiadau ac achosion o gau. Dychwelyd i'r hen ddulliau gweithredu torfol yw'r ffordd orau hefyd o ddatrys unrhyw ddatgysylltiad rhwng ymgyrchu cyfansoddiadol ac ymgyrchu ar lawr gwlad. Mae angen i gynghorwyr Cymru ac Aelodau'r Cynulliad wrthsefyll unrhyw awydd am gonsensws rheolaethol a sefyll ochr yn ochr â'r rhai sy'n dioddef yn sgil effeithiau caledi. Gallwn helpu trwy gefnogi cysyniadau megis trefi undebau llafur; hynny yw, cyfuno cryfder gweithredu lleol. Rhaid i gamau cyd-drefnu rhwng gwahanol undebau chwarae rhan, ond, fel cynrychiolwyr etholedig, rydym mewn sefyllfa dda i greu cysylltiadau rhwng gweithredwyr undebau llafur ac ymgyrchoedd lleol.

Fel y crybwyllais eisoes, llwyddwyd i wneud hyn yn arbennig o dda yn yr ymgyrch yn erbyn y dreth ystafell wely yng Nghastell-nedd. Drwy uno'r ddau beth, mae pobl leol wedi llwyddo i elwa ar arbenigedd ymgyrchu'r undebau, tra bod undebwyr llafur yn eu tro wedi dod o hyd i gronfa o weithredwyr. Mae'n gweithio i'r gwrthwyneb hefyd. Drwy fy nghysylltiad agos â phensynwyr Visteon—y bydd eu hundeb, Unite, yn dechrau ei achos llys o ddifrif eleni—rwyf wedi dod ar draws ymgyrchoedd eraill. Mae eu statws fel undebwyr llafur a'u pryder am eu cymunedau wedi fy ngalluogi i wneud fy ngwaith fel cynrychiolydd yn well.

None of this is reinventing the wheel. We all do much of it in our regular lives. As some of you may have gathered, I have more than in a passing interest in running—it is a bit of an obsession, and I will be doing the London Marathon. That would not have come about if I had not joined a club and had the support that the members give each other on a daily basis. One person jokingly said that we were like a communist grouping. Gwyn Alf has said that the crisis of 1831 was global. It was, quite literally, a crisis of working-class identity. I would contend that we are in similar times, and now, as then, we can work together to help each other in a group situation. This is what I see trade unionism as being. Solidarity, I think, is the key to success, and trade unions, working together and in communities, can work to provide lots of the answers that we need in Wales.

Nid rhywbeth newydd yw hyn. Rydym i gyd yn gwneud hynny'n aml yn ein bywyd beunyddiol. Fel y gwyr rhai ohonoch efallai, mae gennyf ddiddordeb mawr mewn rhedeg—mae'n dipyn o obsesiwn, a byddaf yn rhedeg Marathon Llundain. Ni fyddai hynny wedi digwydd pe na bawn wedi ymuno â chlwb ac wedi cael y cymorth y mae'r aelodau yn ei roi i'w gilydd yn ddyddiol. Dywedodd un person yn gellweirus ein bod fel grŵp comiwnyddol. Mae Gwyn Alf wedi dweud bod argyfwng 1831 yn fyd-eang. Roedd, yn llythrennol, yn argyfwng o ran hunaniaeth y dosbarth gweithiol. Byddwn yn dadlau ein bod mewn cyfnod tebyg, ac yn awr, fel bryd hynny, gallwn weithio gyda'n gilydd i helpu ein gilydd mewn grŵp. Dyna beth yw undebaeth lafur yn fy marn i. Undod, yr wyf yn credu, yw'r allwedd i lwyddiant, a gall undebau llafur, gan weithio gyda'i gilydd ac mewn cymunedau, weithio i ddarparu llawer o'r atebion sydd eu hangen arnom yng Nghymru.

18:17 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I thank Bethan Jenkins for allowing me a minute to speak and for that very interesting speech on trade unions? I rise as a former out-of-trade member of the Fire Brigades Union, and a very proud member of the Fire Brigades Union and also now of Unison. I believe that we often miss the advantages of trade unionism; Bethan mentioned many of them, but, for me, it was the trade union movement—once I got involved—that brought me to where I stand today. It gave me a second chance at education through funding my degree, funding me to have some additional learning that allowed me to stand before you and speak. Yes, it is about organisation and about doing those things, and I think that we have to celebrate the fact that trade unions have a lot more to offer us and we should not fear them. We certainly should not allow ourselves to go back to where we were in the 1980s, with the anti-trade union laws. Many of us have been on picket lines and on marches and campaigns. My kids thought that the only way that you went around London was on the march that the miners did, because that was the way that we went. [Laughter.] When we went a different way, they said, 'You've gone the wrong way, Mum. We should be going this way', and I would say, 'No, we don't have to go that way now.'

Hoffwn ddiolch i Bethan Jenkins am roi munud imi siarad ac am yr araith hynod ddiddorol honno ar undebau llafur. Codaf fel cyn-aelod nad yw'n gwasanaethu o Undeb y Brigadau Tân, ac aelod balch iawn o Undeb y Brigadau Tân, ac Unsain hefyd erbyn hyn. Credaf ein bod yn aml yn colli manteision undebaeth lafur; soniodd Bethan am lawer ohonynt, ond, imi, y mudiad undebau llafur—ar ôl i mi ddechrau cymryd rhan—yw'r rheswm yr wyf yn sefyll yma heddiw. Rhoddodd ail gyfle imi mewn addysg drwy ariannu fy ngradd, fy ariannu i gael rhywfaint o addysg ychwanegol a wnaeth fy ngalluogi i sefyll o'ch blaen a siarad. Ie, mae a wnelo â threfniadaeth a gwneud y pethau hynny, a chredaf fod yn rhaid inni ddathlu'r ffaith bod gan undebau llafur lawer mwy i'w gynnig inni ac na ddylem eu hofni. Yn sicr, ni ddylem adael i'n hunain ddychwelyd i'r sefyllfa yr oeddem ynddi yn y 1980au, â'r deddfau gwrth-undebau llafur. Mae llawer ohonom wedi bod ar linellau piced ac ar orymdeithiau ac ymgyrchoedd. Credai fy mhlant mai'r unig ffordd o fynd o gwmpas Llundain oedd ar yr orymdaith a wnaeth y glowyr, oherwydd dyna'r ffordd yr aethom ni. [Chwerthin.] Pan aethom mewn ffordd wahanol, gwnaethant ddweud, 'Rwy'ti wedi mynd y ffordd anghywir, Mam. Dylem fod yn mynd y ffordd yma', a byddwn yn dweud, 'Na, 'does dim rhaid inni fynd y ffordd honno nawr.'

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

For me, the ability of trade unions to operate freely and to represent the interests of their members is vital when judging freedom in a society in every internationally recognised system of measurement. The right to organise collectively in the workplace is a fundamental human right and we must do all that we can to continue to defend it.

I mi, mae gallu undebau llafur i weithredu'n rhydd a chynrychioli buddiannau eu haelodau yn hanfodol wrth farnu rhyddid mewn cymdeithas ym mhob system fesur a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae'r hawl i gyd-drefnu yn y gweithle yn hawl ddynol sylfaenol a rhaid inni wneud popeth yn ein gallu i barhau i'w hamddiffyn.

18:18 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also thank Bethan Jenkins for the time that she has given me to contribute to this debate. I would like to reiterate the historical importance of trade unionism in Wales. I am proud to be a trade union member and a former lay officer for a trade union—both at branch and Welsh regional level. As such, perhaps I have an insight into some of the issues that others may not have with regard to trade unionism.

Diolchaf innau hefyd i Bethan Jenkins am yr amser y mae wedi'i roi imi gyfrannu at y ddatl hon. Hoffwn ailadrodd pwysigrwydd hanesyddol undebaeth lafur yng Nghymru. Rwy'n falch o fod yn aelod o undeb llafur ac yn gyn-swyddog llewyg i undeb llafur—ar lefel cangen a lefel ranbarthol yng Nghymru. Fel y cyfryw, efallai bod gennyf ddealltwriaeth o rai o'r materion o ran undebaeth lafur nad oes gan eraill.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

People tend to think of trade unions as being all about pay claims, and that that is all that they are. It is more than that. It is about fighting for fair working conditions, the safety of and the respect for their members and it is about fighting injustices, as Bethan has already pointed out. I would encourage all workers to join a trade union, and I particularly call on employers to accept and promote active trade unionism—ideally through recognition agreements, and there are not too many of those. There are a couple in my own patch that do not do that.

While it is important that we see the benefit of trade unionism, it is vital that employers share our view. In these times of austerity, increasing infringement of workers' rights and the proliferation of zero-hours contracts and low wages, the central significance of effective trade union representation is as invaluable as ever.

Mae pobl yn tueddu i feddwl fod a wnelo undebau llafur â hawliadau cyflog yn unig, dim byd arall. Mae'n fwy na hynny. Mae'n ymwneud ag ymladd am amodau gwaith teg, diogelwch eu haelodau a pharch i'w haelodau ac mae'n ymwneud ag ymladd anghyfiawnderau, fel y mae Bethan eisoes wedi nodi. Byddwn yn annog pob gweithiwr i ymuno ag undeb llafur, a galwaf yn arbennig ar gyflogwyr i dderbyn a hyrwyddo undebaeth lafur weithredol—yn ddelfrydol drwy gytundebau cydnabyddiaeth, ac nid oes llawer o'r rheini. Mae rhai yn fy ardal fy hun nad ydynt yn gwneud hynny.

Er ei bod yn bwysig inni weld manteision undebaeth lafur, mae'n hanfodol bod cyflogwyr yn rhannu ein barn. Yn y cyfnod hwn o galedi, pan fo hawliau gweithwyr yn cael eu cyfyngu fwyfwy a phan fo contractau dim oriau a chyflogau isel yn gyffredin, mae arwyddocâd canolog cynrychiolaeth effeithiol gan undebau llafur mor werthfawr ag erioed.

18:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Economy, Science and Transport to reply to the debate—Edwina Hart.

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ymateb i'r ddadl—Edwina Hart.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

18:20 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I very much welcome the opportunity to respond to this debate today, because, as a trade unionist myself, I am proud to be a member of a socialist party that was established by the trade union movement. We have close links with the trade unions, and we value the trade unions.

Croesawaf y cyfle i ymateb i'r ddadl hon heddiw yn fawr iawn, oherwydd, fel undebwr llafur fy hun, rwy'n falch o fod yn aelod o blaid sosialaidd a sefydlwyd gan y mudiad undebau llafur. Mae gennym gysylltiadau agos â'r undebau llafur, ac rydym yn gwerthfawrogi'r undebau llafur.

Trade unions, for me, played a vital role in the development of society in Wales, and today they are key partners in promoting economic and social wellbeing. I think it was important that the First Minister emphasised last year that he is proud of our strong links with the trade union movement in Wales, and it was interesting that Ann Jones referred to the 1980s. The trade unions are not the enemy within, as we were referred to then—trade unions are not the enemy at all, because it is ordinary working people who put their shoulders to the wheel, carry on working and doing things. Members of trade unions are very important within society.

Yn fy marn i, chwaraeodd undebau llafur ran hanfodol yn natblygiad cymdeithas yng Nghymru, a heddiw maent yn bartneriaid allweddol wrth hyrwyddo lles economaidd a chymdeithasol. Roedd hi'n bwysig, yn fy marn i, i'r Prif Weinidog bwysleisio y llynedd ei fod yn falch o'n cysylltiadau cryf â'r mudiad undebau llafur yng Nghymru, ac roedd yn ddiddorol clywed Ann Jones yn cyfeirio at y 1980au. Nid gelyn mewnlol yw undebau llafur, fel y cyfeiriwyd atom bryd hynny—nid undebau llafur yw'r gelyn o gwbl, oherwydd pobl gyffredin sy'n gweithio sy'n torchi llewys ac yn parhau i weithio a gwneud pethau. Mae aelodau undebau llafur yn bwysig iawn o fewn cymdeithas.

Trade unions are crucial as our social partners, because trade unions within companies where they are recognised as having good relationships have as much influence on attracting investment into Wales and doing the job as do employers in many respects. It is important to recognise the very valid economic role that the trade unions play, and also their role across sectors and communities.

Mae undebau llafur yn hanfodol fel ein partneriaid cymdeithasol, gan fod gan undebau llafur mewn cwmnïau lle cydnabyddir bod ganddynt gydberthnasau da gymaint o ddylanwad o ran denu buddsoddiad i Gymru a gwneud y gwaith ag sydd gan gyflogwyr mewn sawl ffordd. Mae'n bwysig cydnabod y rôl economaidd ddilys iawn y mae'r undebau llafur yn ei chwarae, a hefyd eu rôl ar draws sectorau a chymunedau.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

It is important sometimes to look at the history of the trade union movement to put it into context. We all know about the landmark decisions within the trade union movement—the north Wales quarrymen strike, for example, the Taff Vale dispute and, in recent memory for all of us, I think, the miners' strike in 1984-85, which Ann alluded to in referring to marching through the streets with her children on that demonstration. We have to look back to the miners' strike and the links that were made in that miners' strike across society in Wales, which, in some ways, I think resulted in a successful vote for devolution. The trade unions were very supportive of devolution, and I think it was Professor Hywel Francis in his book, 'History on our Side', which looked at the miners' dispute in 1984-85, who quoted two people. One was Angharad Tomos, the political education officer of Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. She spoke about the strike by saying that

'I believe there is a great need to nurture a closer relationship between radical tendencies in the north and south. The strike has been a period of bridging the gulf as radical Wales has done with other radical movements'.

That was echoed in a slightly different way, I think prophetically, by Kim Howells when he spoke in south Wales. He said:

'We've also discovered something else—that we're part of a real nation which extends northwards beyond the coalfield into the mountains of Powys, Dyfed and Gwynedd, and for the first time since the industrial revolution in Wales the two halves of the nation came together in mutual support.'

He thought that that was important in terms of political organisation, and I think that that was very important in terms of the bridges that were built at the time and how we moved on successfully to the votes in terms of devolution.

We also have to be very proud of our trade union movement in Wales because of its international perspective, which is also very important. When we see xenophobia and criticism of people coming in, you realise that the trade unions have a very proud record in terms of international engagement. You only have to look at the issues around Spanish aid in the 1930s, and see that the largest contingent in the International Brigade's British battalion was from the south Wales coalfield, to recognise that there are links there. In addition, you can look at Paul Robeson. They loved Paul Robeson—not just because of the politics around him, but also because of the cultural links. We owe a lot to the trade union movement for the development of cultural links. When Ann spoke, she mentioned the opportunities for education through the movement. That carries on with our policies now in terms of the union learning fund, and what trade unions see as their role. In terms of international work, it was not just South Africa and Nicaragua—it was across the piece. Trade unions have been there fighting the cause for others, and that is very important.

Mae'n bwysig weithiau i edrych ar hanes y mudiad undebau llafur er mwyn ei roi yn ei gyd-destun. Gwyddom i gyd am y penderfyniadau pwysig o fewn y mudiad undebau llafur—streic y chwarelwyr yn y gogledd, er enghraifft, anghydfod Taff Vale ac, yn fwy diweddar o fewn cof inni gyd, yr wyf yn credu, streic y glowyr yn 1984-85, y cyfeiriodd Ann ati wrth sôn am orymdeithio drwy'r strydoedd gyda'i phlant ar y gwrthdystiad. Rhaid inni edrych yn ôl i streic y glowyr a'r cysylltiadau a wnaed yn ystod y streic honno ar draws cymdeithas yng Nghymru, a wnaeth, mewn rhai ffyrdd yn fy marn i, arwain at bleidlais lwyddiannus dros ddatganoli. Roedd yr undebau llafur yn gefnogol iawn i ddatganoli, a chredaf mai'r Athro Hywel Francis yn ei lyfr, 'History on our Side', a edrychodd ar anghydfod y glowyr yn 1984-85, a ddyfynnodd ddau berson. Un oedd Angharad Tomos, swyddog addysg wleidyddol Cymdeithas yr Iaith. Siaradodd am y streic drwy ddweud

Credaf fod angen enbyd i feithrin cydberthynas agosach rhwng tueddiadau radical yn y gogledd a'r de. Mae'r streic wedi bod yn gyfnod o bontio'r bwch fel y mae Cymru radical wedi'i wneud â mudiadau radical eraill.

Adleisiwyd hynny mewn ffordd ychydig yn wahanol, a phroffwydol yn fy marn i, gan Kim Howells pan siaradodd yn y de. Dywedodd:

Rydym hefyd wedi darganfod rhywbeth arall—ein bod yn rhan o genedl go iawn sy'n ymestyn tua'r gogledd y tu hwnt i'r maes glo i mewn i fynyddoedd Powys, Dyfed a Gwynedd, ac am y tro cyntaf ers y chwyldro diwydiannol yng Nghymru daeth dau hanner y genedl ynghyd er mwyn helpu ei gilydd.

Credai fod hynny'n bwysig o ran trefniadaeth wleidyddol, a chredaf fod hynny'n bwysig iawn o ran y pontydd a adeiladwyd bryd hynny a sut y gwnaethom fynd ymlaen yn llywyddiannus at y pleidleisiau o ran datganoli.

Rhaid inni hefyd fod yn falch iawn o'n mudiad undebau llafur yng Nghymru oherwydd ei safbwynt rhyngwladol, sydd hefyd yn bwysig iawn. Pan welwn senoffobia a beirniadaeth o fewnfudwyr, byddwch yn sylweddoli bod gan yr undebau llafur hanes balch iawn o ran ymgysylltu rhyngwladol. Does ond rhaid ichi edrych ar y materion yn ymwneud â chymorth i Sbaen yn y 1930au, a gweld mai o faes glo'r de y daeth y fintai fwyaf ym mataliwn Brigâd Ryngwladol Prydain, i sylweddoli bod cysylltiadau yno. Yn ogystal, gallwch edrych ar Paul Robeson. Roeddent wrth eu bodd â Paul Robeson—nid yn unig oherwydd y wleidyddiaeth o'i gwmpas, ond hefyd oherwydd y cysylltiadau diwylliannol. Rydym yn ddyledus iawn i'r mudiad undebau llafur am ddatblygu cysylltiadau diwylliannol. Pan siaradodd Ann, soniodd am y cyfleoedd addysg a gafodd drwy'r mudiad. Mae hynny'n parhau â'n polisiau presennol o ran y gronfa ddyysgu undebau, a rôl undebau llafur yn eu barn hwy. Roedd gwaith rhyngwladol yn fwy na dim ond De Affrica a Nicaragua—roedd yn eang. Mae undebau llafur wedi bod yno yn ymladd dros eraill, ac mae hynny'n bwysig iawn.

That is why I think it is very important that we tell the story about the trade union movement, so that people understand where people have come from and where they are going, and what the trade unions want is just as valid today. What David said was very important, because people sometimes do not really know what trade unions do. People join trade unions for a variety of reasons, some of us perhaps for more political reasons than others. Some do because they regard the trade unions as their insurance policy. They regard it as an opportunity to get represented if something goes wrong, and the fact that they could be referred to Thompsons Solicitors when they had a case was all-important. However, ultimately it is about the collective—it is about working together and achieving things.

Bethan alluded to Visteon, but we only have to look at Allied Steel and Wire and how the community took those disputes forward. When we look at the whole history of the trade union movement outside Wales, we can see what it has done in terms of equal rights, equal pay, disability rights and lesbian and gay rights; trade unions have been at the forefront of all these issues. So, I, like Bethan, want to welcome that celebration, but we must remember our past as well. I do not know whether you are all familiar with Idris Davies's poem, 'Gwalia Deserta VIII', but I am particularly fond of it.

'Do you remember 1926? The great dream and the swift disaster,/The fanatic and the traitor, and more than all,/The bravery of the simple, faithful folk?'"Ay, ay, we remember 1926," said Dai and Shinkin,/As they stood on the kerb in Charing Cross Road,/"And we shall remember 1926 until our blood is dry.'"

Dyna pam fy mod yn credu ei bod yn bwysig iawn inni adrodd stori'r mudiad undebau llafur, fel y gall pobl ddeall o ble mae pobl wedi dod ac i ble maent yn mynd, a bod yr hyn y mae'r undebau llafur ei eisiau yr un mor ddilys heddiw. Roedd yr hyn a ddywedodd David yn bwysig iawn, oherwydd weithiau nid yw pobl yn gwybod beth yn union mae undebau llafur yn ei wneud. Mae pobl yn ymuno ag undebau llafur am amrywiaeth o resymau, rhai ohonom am resymau mwy gwleidyddol nag eraill efallai. Mae rhai yn gwneud hynny am mai'r undebau llafur yw eu polisi yswiriant yn eu barn hwy. Maent yn ei ystyried yn gyfle i gael eu cynrychioli os bydd rhywbeth yn mynd o'i le, ac roedd y ffaith y gallent gael eu cyfeirio at gwmni cyfreithwyr Thompsons pan oedd ganddynt achos yn hollbwysig. Fodd bynnag, y cyfunol sy'n bwysig yn y pen draw—mae a wnelo â chydweithio a chyflawni pethau.

Cyfeiriodd Bethan at Visteon, ond does ond rhaid inni edrych ar Allied Steel and Wire a sut yr aeth y gymuned honno ar drywydd yr anghydfodau hynny. Pan edrychwn ar holl hanes y mudiad undebau llafur y tu allan i Gymru, gallwn weld beth y mae wedi'i wneud o ran hawliau cyfartal, cyflog cyfartal, hawliau i bobl anabl a hawliau i bobl lesbiaidd a hoyw; mae undebau llafur wedi bod yn flaenllaw yn yr holl faterion hyn. Felly, hoffwn innau, fel Bethan, groesawu'r dathliad hwnnw, ond rhaid inni gofio ein gorffennol hefyd. Nid wyf yn gwybod a ydych i gyd yn gyfarwydd â cherdd Idris Davies, 'Gwalia Deserta VIII', ond yr wyf yn arbennig o hoff ohoni.

'Do you remember 1926? The great dream and the swift disaster,/The fanatic and the traitor, and more than all,/The bravery of the simple, faithful folk?'"Ay, ay, we remember 1926," said Dai and Shinkin,/As they stood on the kerb in Charing Cross Road,/"And we shall remember 1926 until our blood is dry.'"

18:25

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. That concludes today's proceedings.

Diolch ichi, Weinidog. Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:25.*

*The meeting ended at 18:25.*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## **Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

### **Cyllid Fforddiadwy**

## **Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty**

### **Affordable Finance**

14:25

## **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. *Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu pobl i gael gafael ar gyllid fforddiadwy? OAQ(4)0112(CTP)*

1. *How is the Welsh Government aiding people to access affordable finance? OAQ(4)0112(CTP)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:26

## **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you for the question. Since October 2010, the Welsh Government has funded credit unions to help financially excluded people access affordable finance. Over 23,000 people have been supported as a result of this work. Additionally, I have approved over £1.2 million to help credit unions expand their services further this financial year.

Diolch ichi am y cwestiwn. Ers mis Hydref 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu undebau credyd er mwyn helpu pobl sydd wedi'u hallgáu'n ariannol i gael cyllid fforddiadwy. Cefnogwyd dros 23,000 o bobl o ganlyniad i'r gwaith hwn. Rwyf hefyd wedi cymeradwyo dros £1.2 miliwn er mwyn helpu undebau credyd i ehangu eu gwasanaethau ymhellach yn y flwyddyn ariannol hon.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:26 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
You announced today, in fact, the release of that £1.2 million for credit union sustainability and the expansion of services. Why has it taken so long, given that the bid has been with you since last autumn? What further announcements are you going to make, or have you reached a decision, regarding the additional £612,000 that you announced to run alongside that money until April to support sustainability in credit unions?

Gwnaethoch gyhoeddi heddiw, mewn gwirionedd, y bwriad i ryddhau'r swm hwnnw o £1.2 miliwn i sicrhau cynaliadwyedd undebau credyd ac ehangu gwasanaethau. Pam bod hynny wedi cymryd cyhyd, o gofio bod y cais wedi'i gyflwyno ichi ers yr hydref diwethaf? Pa gyhoeddiadau pellach yr ydych yn bwriadu eu gwneud, neu a ydych wedi dod i benderfyniad, ynghylch y swm ychwanegol o £612,000 ychwanegol a gyhoeddwyd gennych ochr yn ochr â'r arian hwnnw tan fis Ebrill er mwyn cefnogi cynaliadwyedd undebau credyd?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:27 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
It has taken a considerable amount of time to get that £1.25 million out of the door. There are two sides to this equation, of course. We have been looking hard to get credit unions to provide proposals that they feel will help to take the movement forward. We wanted to see a degree of consistency within those proposals so that they do promote the value of credit unions more generally. Indeed, once we had approved the 19 projects, we then required credit unions to undertake an agreement to work together, which they have all done, in terms of spending this £1.25 million. It has taken longer than I would have liked, but nevertheless the matters have now been concluded as I outlined in my written statement.

Mae wedi cymryd cryn dipyn o amser i ryddhau'r £1.25 miliwn hwnnw. Mae dwy ochr i'r geiniog, wrth gwrs. Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i geisio annog undebau credyd i gyflwyno cynigion a fydd yn helpu i gymryd cam ymlaen yn hyn o beth. Roeddem am weld rhywfaint o gysondeb o fewn y cynigion hynny fel eu bod yn hyrwyddo gwerth undebau credyd yn fwy cyffredinol. Yn wir, ar ôl inni gymeradwyo'r 19 o brosiectau, roedd yn ofynnol wedyn i undebau credyd ymrwymo i gytundeb i weithio gyda'i gilydd er mwyn gwario'r swm hwn o £1.25 miliwn, ac mae pob un ohonynt wedi gwneud hynny. Mae wedi cymryd mwy o amser nag y byddem wedi ei ddymuno, serch hynny, ymdriniwyd â'r materion erbyn hyn fel y'i hamlinellwyd gennyf yn fy natganiad ysgrifenedig.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of the moneys for next year, there will be further announcements made next month.

O ran yr arian ar gyfer y flwyddyn nesaf, gwneir rhagor o gyhoeddiadau fis nesaf.

14:28 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
On that additional sum, the total original announcement was over £1.8 million to run until April, so the £612,000 was, I believe, on the basis of the original announcement by your predecessor, until April. So, what is the position with that additional sum until April? Are you now telling us that it postdates April in the next financial year? How will this run alongside the money being distributed in Wales through the UK Government's credit union expansion programme, which has been signed up to by several Welsh credit unions and which is seeking to deliver similar goals to the Welsh Government's programme in terms of sustainability and broadening the availability of products and services?

O ran y swm ychwanegol hwnnw, cyhoeddwyd cyfanswm o dros £1.8 miliwn yn wreiddiol i'w ddarparu tan fis Ebrill, felly y bwriad, fe gredaf, ar sail cyhoeddiad gwreiddiol eich rhagflaenydd, oedd i'r £612,000 fod ar gael tan fis Ebrill. Felly, beth yw'r sefyllfa o ran y swm ychwanegol hwnnw tan fis Ebrill? A ydych bellach yn dweud wrthym y bydd ar gael ar ôl mis Ebrill yn y flwyddyn ariannol nesaf? Sut y caiff yr arian hwn ei ddarparu ochr yn ochr â'r arian sy'n cael ei ddosbarthu yng Nghymru drwy raglen ehangu undebau credyd Llywodraeth y DU, y mae nifer o undebau credyd yng Nghymru wedi ymrwymo iddi ac sy'n ceisio cyflawni nodau tebyg ar gyfer rhaglen Llywodraeth Cymru o ran cynaliadwyedd ac ehangu'r cynhyrchion a'r gwasanaethau sydd ar gael?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 14:28.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 14:28.*

14:28 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
If I have misunderstood your original question, I do apologise. You may well be referring to the additional compensation that we are providing following the end of the European regional development fund access to financial services through credit union projects. That money will enable credit unions to continue the work to improve access to financial services up to the end of this financial year. So, that money is well-earmarked. I understood you to mean the moneys that have been allocated to support credit unions in the next financial year, but if I have misunderstood you, please let me know and I will clarify in writing.

Os wyf wedi camddeall eich cwestiwn gwreiddiol, ymddiheuraf am hynny. Efallai eich bod yn cyfeirio at yr iawndal ychwanegol yr ydym yn ei ddarparu yn sgil diddymu mynediad cronfa datblygu rhanbarthol Ewrop at wasanaethau ariannol drwy brosiectau undebau credyd. Bydd yr arian hwnnw yn galluogi undebau credyd i barhau â'r gwaith i wella mynediad at wasanaethau ariannol hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Felly, mae'r arian hwnnw wedi'i glustnodi'n benodol. Roeddwn ar ddeall eich bod yn golygu'r arian a ddyrannwyd i gefnogi undebau credyd yn y flwyddyn ariannol nesaf, ond os wyf wedi eich camddeall, dywedwch wrthyf a rhoddaf eglurhad ysgrifenedig.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:29 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, a gaf i godi dau fater sydd yn ymwneud â mynediad i gyllid i bobl sydd yn byw mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru? Rydym yn derbyn bod problem ddemograffig yn datblygu yng Nghymru lle y mae pobl yn gadael yr ardaloedd gwledig—yn enwedig pobl ifanc. O ran tai, mae gan y Llywodraeth bolisi a ddaeth o Lywodraeth Cymru'n Un, TAN 6, sydd yn rhoi cyfle i bobl sydd yn gweithio yng nghefn gwlad i gael cyfle i adeiladu tai ar dir nad yw wedi ei ddynodi ar gyfer datblygu tai. Ond, yn aml iawn, maen nhw'n cael eu hunain mewn sefyllfa lle nad ydynt yn gallu cael mynediad i forgais oherwydd geiriad cytundeb TAN 6. Mae hynny, wrth gwrs, yn tansellio'r holl bwrpas oherwydd pobl sy'n methu fforddio prynu tai yn y farchnad yw'r rhain, ac eto i gyd nid oes modd iddynt gael cyfle i gael morgais. A wneuch chi gael trafodaethau gyda'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am gynllunio i weld a oes modd mynd i'r afael â'r broblem hon?

Minister, may I raise two matters in relation to access to finance for people who live in rural areas in Wales? We accept that demographic problems are developing in Wales where people are leaving the rural areas—especially young people. In terms of housing, the Government has a policy that came from the One Wales Government, TAN 6, that gives people who work in rural areas an opportunity to build homes on land that has not been designated for housing development. However, very often, but, very often, they find themselves in a situation where they cannot get access to a mortgage because of the wording of the TAN 6 agreement. That, of course, undermines the whole purpose because these are people who cannot afford to buy houses in the market, and yet they are not able to get an opportunity to get a mortgage. Will you have discussions with the Minister with responsibility for planning to see whether it is possible to get to grips with this problem?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:30 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am quite happy to have a discussion on that and related matters. I think it is, in the main, a matter for the Minister for Housing and Regeneration, but I can tell you that we are providing just under £1 million to advice services providers that can advise and signpost people to affordable finance providers, and that could well include the issue of mortgage provision.

Rwy'n fwy na pharod i drafod hynny a materion cysylltiedig. Credaf mai mater i'r Gweinidog Tai ac Adfywio ydyw yn bennaf, ond gallaf ddweud wrthy ch ein bod yn darparu ychydig yn llai na £1 filiwn i ddarparu'r gwasanaethau cyngor a all gynghori a chyfeirio pobl at ddarparwyr cyllid fforddiadwy, a gallai hynny gynnwys darpariaeth morgeisi.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:31 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, fe'ch cyfeiriaf at achos arall sy'n gysylltiedig, sef pobl sydd eisiau aros yng nghefn gwlad Cymru ac sydd eisiau datblygu busnesau yng nghefn gwlad Cymru. Eto i gyd, mae'r ffynonellau ariannol i roi cefnogaeth iddynt sefydlu'r busnesau hynny yn brin iawn; mae'r banciau yn rhoi amodau caeth iawn ar fenthyciadau, sy'n ei gwneud yn anodd iawn i fusnesau yng nghefn gwlad, a fydd yn fusnesau bach gydag elw cyfyngedig iawn, i gymhwyso o dan y drefn honno. A oes unrhyw gynlluniau penodol gyda chi i helpu pobl ifanc sydd eisiau aros yng nghefn gwlad i sefydlu busnesau, a fydd nid yn unig yn eu cyflogi nhw, ond o bosibl yn creu cyflogaeth yng nghefn gwlad hefyd?

Minister, I refer you to another case that is related to this, namely people who want to remain in rural areas of Wales and who want to develop businesses in rural areas of Wales. Yet again, the financial sources to give support to them to establish those businesses are scarce; the banks place very restrictive conditions on loans, which makes it very difficult for businesses in rural areas, which are going to be small businesses with very restricted profits, to be eligible under that arrangement. Do you have any specific plans to help young people who wish to remain in rural areas to establish businesses, which will not just employ them, but possibly create employment for others in rural areas?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:31 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

On the establishment of businesses, there are a variety of schemes that apply across Wales. Certainly, it is the responsibility of my colleague, the Minister for the Economy, Science and Transport, and I will discuss this matter with her and write to you accordingly.

O ran sefydlu busnesau, mae amrywiaeth o gynlluniau sy'n gymwys ledled Cymru. Yn sicr, fy nghyd-Aelod, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, sy'n gyfrifol am hynny, a byddaf yn trafod y mater hwn gyda hi ac yn ysgrifennu atoch yn unol â hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Undebau Credyd

## Credit Unions

14:32 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru i Undebau Credyd?*  
OAQ(4)0121(CTP)

*2. Will the Minister make a statement on Welsh Government funding support for Credit Unions?*  
OAQ(4)0121(CTP)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:32 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- A written statement was issued this morning outlining that I have approved over £1.2 million to help boost the growth of Welsh credit unions this year. This funding will assist credit unions to attract new members and will support new projects that credit unions have identified to boost sustainability.
- Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig y bore yma yn amlinellu fy mod wedi cymeradwyo dros £1.2 miliwn er mwyn helpu i hybu twf undebau credyd yng Nghymru eleni. Bydd yr arian hwn yn helpu undebau credyd i ddenu aelodau newydd a bydd yn cefnogi prosiectau newydd a nodwyd gan undebau credyd i wella cynaliadwyedd.
- 14:32 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister, and thank you for the written statement this morning, which pre-empted most of my question. As you quite rightly point out in that statement, Christmas and its aftermath is a very difficult time for many families who are striving to fight the effects of poverty. January is a month in which we constantly see an increased take-up of payday loans. You obviously agree with the need to encourage more people to use credit unions given the support you give to them, and to their sustainability, but will you also look at projects that encourage young people to use them? Some of the difficulties that they are now facing mean them having to withdraw funding from school projects. Credit unions have gone into schools to support young people to develop the habit of saving, but some of those projects have now had to be cut back because of financial difficulties.
- Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog, a diolch ichi am y datganiad ysgrifenedig y bore yma, a achubodd y blaen ar fy nghwestiwn i raddau helaeth. Fel y nodwyd gennyh, yn gywir ddigon, yn y datganiad hwnnw, mae'r Nadolig a'r cyfnod wedi hynny yn adeg anodd iawn i lawer o deuluoedd sy'n ceisio brwydro yn erbyn effeithiau tlodi. Mae mis Ionawr yn fis lle y gwelwn gynnydd cyson yn nifer y bobl sy'n trefnu benthyciadau tan ddiwrnod cyflog. Mae'n amlwg eich bod yn cytuno bod angen annog mwy o bobl i ddefnyddio undebau credyd o gofio'r cymorth yr ydych yn ei roi iddynt, ac i'w cynaliadwyedd, ond a wnech chi hefyd ystyried prosiectau sy'n annog pobl ifanc i'w defnyddio? Mae rhai o'r anawsterau a wynebir ganddynt bellach yn golygu eu bod yn gorfod tynnu arian yn ôl oddi wrth brosiectau ysgol. Mae undebau credyd wedi ymweld ag ysgolion er mwyn helpu pobl ifanc i ddatblygu'r arfer o gynilo, ond mae rhai o'r prosiectau hynny bellach wedi gorfod cael eu cwtogi oherwydd trafferthion ariannol.
- 14:33 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- In terms of the final point that you made, many credit unions hold classes within schools, particularly to support financial literacy, and I would be concerned if those were reduced. It would certainly lead to a decrease in new savers; all the evidence is that junior saver numbers are increasing within credit unions. In terms of your broader points, I agree that we must encourage more people to use credit unions and that is what the additional £1.2 million is for—to support the sustainability of credit unions and move them away from any dependency on Government support. Part of that is around marketing and advertising.
- O ran y pwynt olaf a wnaethoch, mae llawer o undebau credyd yn cynnal dosbarthiadau mewn ysgolion, yn enwedig i gefnogi llythrennedd ariannol, a byddwn yn pryderu pe bai'r rheini'n cael eu cwtogi. Byddai'n sicr yn arwain at lai o gynilwyr newydd; mae'r holl dystiolaeth yn dangos bod nifer y cynilwyr iau yn cynyddu o fewn undebau credyd. O ran eich pwyntiau ehangach, cytunaf fod yn rhaid inni annog mwy o bobl i ddefnyddio undebau credyd a dyna ddiben yr £1.2 miliwn ychwanegol—cefnogi cynaliadwyedd undebau credyd a sicrhau nad ydynt yn mynd yn ddibynnol ar gymorth gan y Llywodraeth. Mae a wnelo rhan o hynny â marchnata a hysbysebu.
- I can also tell you that I have written to many of my ministerial colleagues, covering health, education and local government, asking them to raise awareness of the value of credit unions within their areas and to encourage employees to become savers.
- Gallaf hefyd ddweud wrthyhch fy mod wedi ysgrifennu at nifer o'm cyd-Weinidogion ym maes iechyd, addysg a llywodraeth leol, yn gofyn iddynt godi ymwybyddiaeth o werth undebau credyd yn eu hardaloedd ac annog cyflogeion i gynilo.
- 14:34 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I welcome your statement, albeit that it is very long overdue. I think that it is fair to say that it does come on the back -
- Weinidog, croesawaf eich datganiad, er ei bod yn hen bryd ichi ei wneud. Mae'n deg dweud ei fod yn dilyn -
- 14:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Quickly to a question, please.
- Cwestiwn, os gwelwch yn dda.
- 14:34 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- It does come on the back of concerns that we have raised as regards this announcement. Mark Isherwood is quite right to mention that this funding was announced in June and was more in the region of £1.8 million.
- Mae'n dilyn pryderon a godwyd gennym ynghylch y cyhoeddiad hwn. Mae Mark Isherwood yn llygad ei le i grybwyll bod yr arian hwn wedi'i gyhoeddi ym mis Mehefin a'i fod oddeutu £ 1.8 miliwn.

14:34	<p><b>Jeff Cuthbert</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>£1.25 million.</p>	<p>£1.25 miliwn.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:34	<p><b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yes. Anyway, the issue now is that the credit unions—</p>	<p>le. Beth bynnag, y mater erbyn hyn yw y cred yr undebau —</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:34	<p><b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Question.</p>	<p>Cwestiwn.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:34	<p><b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yes, okay, I am coming. The credit unions believe that they only have until the end of this financial year in which to spend this money. So, this late notification that their projects have been successful means that they have relatively very little time now in which to put those plans into progress, and to spend this money. Why—</p>	<p>lawn. Rwyf yn dod. Cred yr undebau credyd fod angen iddynt wario'r arian hwn cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Felly, mae'r hysbysiad hwyr hwn bod eu prosiectau wedi bod yn llwyddiannus yn golygu nad oes ganddynt fawr ddim amser bellach i roi'r cynlluniau hynny ar waith, ac i wario'r arian hwn. Pam—</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:35	<p><b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>You are taking too long, I am sorry. I call on Bethan Jenkins.</p>	<p>Rydych yn cymryd gormod o amser, mae'n ddrwg gennyf. Galwaf ar Bethan Jenkins.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:35	<p><b>Bethan Jenkins</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, as part of the work on my financial education inclusion Bill, I have been talking to loads of people about this very issue. What we find is that many people do not have the sustainability in their own finances to open an account with a credit union. So, I wonder whether any of these projects will be looking at innovative ways to encourage credit unions to allow for new people to access a credit union. As has been said already, many of these people are going to loan shark companies, and we have to nip this in the bud here in Wales.</p>	<p>Weinidog, fel rhan o'r gwaith ar y Bil cynnwys addysg ariannol, rwyf wedi bod yn siarad â llawer o bobl am yr union fater hwn. Yr hyn a welwn yw nad yw llawer o bobl mewn sefyllfa ariannol ddigon cynaliadwy i agor cyfrif gydag undeb credyd. Felly, tybed a fydd unrhyw un o'r prosiectau hyn yn ystyried ffyrdd arloesol o annog undebau credyd i ganiatáu i bobl newydd ddefnyddio undeb credyd. Fel y dywedwyd eisoes, mae llawer o'r bobl hyn yn mynd at fenthycwyr arian didrwydded, a rhaid inni fynd i'r afael â hyn yma yng Nghymru.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:35	<p><b>Jeff Cuthbert</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yes, I am quite happy to make publicly available the nature of the projects that have been approved. I can say, incidentally, that all credit unions are confident that they will be able to spend the money, and deliver the projects, in the agreed time frames. However, I would certainly want to encourage them to ensure that a part of those projects makes the value and the importance of good financial management available to young people.</p>	<p>Ydw, rwy'n fwy na pharod i gyhoeddi natur y prosiectau a gymeradwywyd. Gallaf ddweud, gyda llaw, fod pob un o'r undebau credyd yn hyderus y gallant wario'r arian, a chyflawni'r prosiectau, o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt. Fodd bynnag, byddwn yn sicr am eu hannog i sicrhau bod rhan o'r prosiectau hynny yn dangos gwerth a phwysigrwydd rheolaeth ariannol dda i bobl ifanc.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:36	<p><b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I call on the Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.</p>	<p>Galwaf ar lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, Peter Black.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:36	<p><b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, the £1.2 million for credit unions is very welcome. However, as the amount of money for the next budget year is half of that, can you explain how that assists sustainability?</p>	<p>Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, croesewir y swm o £1.2 miliwn i'r undebau credyd yn fawr. Fodd bynnag, gan mai dim ond hanner y swm hwnnw sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y flwyddyn gyllidebol nesaf, a allwch egluro sut mae hynny'n cefnogi cynaliadwyedd?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:36	<p><b>Jeff Cuthbert</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I will be making an announcement on that next month.</p>	<p>Byddaf yn gwneud cyhoeddiad ar hynny fis nesaf.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:36

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister; I look forward to that announcement. In relation to the sustainability of credit unions, many of them say that they are not sustainable in the medium term. Although this money is good for marketing, how will you be looking to ensure that the structure of credit unions in Wales is going to be sustainable, and that those credit unions have a long-term future?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog; edrychaf ymlaen at y cyhoeddiad hwnnw. O ran cynaliadwyedd undebau credyd, dywed llawer ohonynt nad ydynt yn gynaliadwy yn y tymor canolog. Er bod yr arian hwn yn ddefnyddiol o ran marchnata, sut y byddwch yn ceisio sicrhau bod strwythur undebau credyd yng Nghymru yn gynaliadwy, bod gan yr undebau credyd hynny ddyfodol hirdymor?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:36

**Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, that is what the additional money has been provided for. I will be discussing it on a regular basis with credit unions, and I am looking to see how we can best articulate these issues on a Wales-wide basis. Clearly, we want credit unions to be sustainable, and not to be worried about having insufficient resources. We are working with them on a range of saving matters, such as payroll deductions, for example. There may well be mergers in the future between credit unions in order to ensure that their resources are at a sufficient capacity. However, these are matters that we will keep under close review.

Wel, dyna ddiben yr arian ychwanegol a ddarparwyd. Byddaf yn ei drafod yn rheolaidd ag undebau credyd, ac rwy'n ystyried y ffordd orau o gyfleu'r materion hyn ledled Cymru. Yn amlwg, rydym am sicrhau bod undebau credyd yn gynaliadwy, ac nad ydynt yn poeni am ddiffyg adnoddau. Rydym yn gweithio gyda hwy ar amrywiaeth o faterion cynilo, megis didyniadau o'r gyflogres, er enghraifft. Mae'n bosibl iawn y caiff undebau credyd eu huno yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod ganddynt adnoddau digonol. Fodd bynnag, mae'r rhain yn faterion y byddwn yn eu hadolygu'n fanwl yn barhaus.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

**Y Sector Gwirfoddol**

**The Voluntary Sector**

14:37

**Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y sector gwirfoddol yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0109(CTP)*

*3. Will the Minister make a statement on his priorities for the voluntary sector in west Wales? OAQ(4)0109(CTP)*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:37

**Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I outlined my priorities for the third sector in Wales in my oral statement of 12 November last year. County voluntary councils and volunteer centres in west Wales will need to develop further existing regional working, build on their excellent community support and wider collaboration, and focus on their contribution to tackling poverty.

Diolch. Amlinellais fy mlaenoriaethau ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru yn fy natganiad llafar, dyddiedig 12 Tachwedd y llynedd. Bydd angen i gynghorau gwirfoddol sirol a chanolfannau gwirfoddoli yn y gorllewin ddatblygu eu trefniadau gweithio rhanbarthol presennol ymhellach, adeiladu ar eu cymorth cymunedol rhagorol a'u partneriaethau ehangach, a chanolbwyntio ar eu cyfraniad at y gwaith o drechu tlodi.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:38

**Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the Minister for that answer. I am sure that the Minister will agree with me that there are a number of fantastic volunteers across Pembrokeshire that do a great deal to support the local area and the local people. However, what often stands in the way of volunteers, and the third sector, is unnecessary bureaucracy and red tape. Therefore, can you tell us, Minister, what specific action the Welsh Government is taking to minimise bureaucracy and red tape so that local groups and volunteers can thrive and can make a difference to local communities in Pembrokeshire, and indeed across the whole of Wales?

Diolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno â mi bod nifer o wirfoddolwyr gwych ledled Sir Benfro sy'n gwneud llawer iawn i gefnogi'r ardal leol a'r bobl leol. Fodd bynnag, yr hyn sy'n aml yn rhwystru gwirfoddolwyr, a'r trydydd sector, yw biwrocratiaeth ddiangen. Felly, a allwch ddweud wrthym, Weinidog, pa gamau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau biwrocratiaeth er mwyn i grwpiau lleol a gwirfoddolwyr allu ffynnu a gwneud gwahaniaeth i gymunedau lleol yn Sir Benfro, ac yn wir ledled Cymru gyfan?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:38	<p><b>Jeff Cuthbert</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you very much for that question. That is not an issue that has been raised directly through the third sector partnership; I will explore it further to see whether there are any specific issues on which we can assist it. Certainly, we will be looking for much greater regional collaboration, and county voluntary councils and volunteer centres coming together to share resources and to work in perhaps a more focused way together. If there are issues of red tape that we are able to deal with, I will certainly want to look at it. May I take this opportunity, in terms of west Wales, to offer particular praise to those volunteers who helped very much in Aberystwyth in the clearing up of the promenade, as a result of the exceptionally stormy weather that we had over the last couple of weeks?</p>	<p>Diolch yn fawr iawn am y cwestiwn hwnnw. Nid yw hynny'n fater a godwyd yn uniongyrchol drwy bartneriaeth y trydydd sector; byddaf yn ei ystyried ymhellach i weld a oes unrhyw faterion penodol y gallwn ei helpu i fynd i'r afael â hwy. Yn sicr, byddwn am weld llawer mwy o gydweithio rhanbarthol, a chynghorau gwirfoddol sirol a chanolfannau gwirfoddoli yn dod ynghyd i rannu adnoddau a chydweithio â'i gilydd mewn ffordd fwy penodol. Os oes problemau o ran biwrocraetiaeth y gallwn ddelio â hwy, byddaf yn sicr yn awyddus i ystyried hynny. Hoffwn achub ar y cyfle hwn, o ran y gorllewin, i ganmol yn arbennig y gwirfoddolwyr hynny a roddodd o'u hamser yn Aberystwyth i helpu i glirio'r promenade, ar ôl y tywydd eithriadol o stormus a gawsom dros yr ychydig wythnosau diwethaf.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:39	<p><b>Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Mae'r cynghorau gwirfoddol yn y gogledd a'r gorllewin, megis Mantell Gwynedd, yn croesawu'r setliad ffafriol gyda'r cytundeb partneriaeth am y flwyddyn ariannol nesaf. Fodd bynnag, a oes sicrwydd y bydd ystyriaethau megis cyfran cydnabyddiaeth y boblogaeth wasgaredig, ac ardal ddaearyddol enfawr a dwyieithog, yn faterion fydd yn cael eu hystyried yn y fformiwla ar gyfer y dyfodol hefyd?</p>	<p>The voluntary councils in the north and west, such as Mantell Gwynedd, welcome the favourable settlement with the partnership agreement for the next financial year. However, is there an assurance that considerations such as the sparse nature of the population, and the large geographical area and the bilingual nature of that area, will be matters that will be taken into account for the future also?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:39	<p><b>Jeff Cuthbert</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yes, it will.</p>	<p>Oes.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<p><b>Y Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant</b></p>		<p><b>The Equality and Inclusion Grant</b></p>	
14:39	<p><b>Kirsty Williams</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y meini prawf ar gyfer dethol y sefydliadau a'r prosiectau sydd wedi llywyddo i gael cyllid drwy'r Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant? OAQ(4)0124(HSS)</i></p>	<p><i>4. Will the Minister make a statement on the criteria for selecting successful projects and organisations to gain funding through the Equality and Inclusion Grant? OAQ(4)0124(HSS)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:40	<p><b>Jeff Cuthbert</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you for that question. There was an overwhelming response, with 191 applications seeking over £15 million per year. Criteria were published and included contribution to delivery of the strategic equality plan, evidence of need and outcomes. The final allocation ensures a good coverage of different protected characteristics across Wales, and support for our equality objectives.</p>	<p>Diolch am y cwestiwn hwnnw. Cafwyd ymateb llethol, gyda 191 o geisiadau yn ceisio dros £15 miliwn y flwyddyn. Cyhoeddwyd meini prawf, gan gynnwys cyfraniad at gyflawni'r cynllun cydraddoldeb strategol, tystiolaeth o'r angen a chanlyniadau. Mae'r dyraniad terfynol yn cwmpasu nodweddion gwarchoddedig gwahanol ledled Cymru, ac yn cefnogi ein hamcanion o ran cydraddoldeb.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:40	<p><b>Kirsty Williams</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>As you quite clearly stated, the numbers applying for grant greatly outstripped what you were able to give out. Community support organisations in Brecon and Radnorshire do tremendous work in trying to ensure that all aspects of rural life, and people living in rural areas, are included in society. What advice and support can you give to community support organisations to allow them to continue their work in ensuring that people, because of their rurality, are not excluded, for instance, from health and educational opportunities?</p>	<p>Fel y nodwyd gennych yn glir, roedd nifer y bobl a wnaeth gais am grant yn fwy o dipyn na'r hyn y gallech ei ddarparu. Mae sefydliadau cymorth cymunedol ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed yn gwneud gwaith gwych i geisio sicrhau bod pob agwedd ar fywyd cefn gwlad, a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, yn cael eu cynnwys mewn cymdeithas. Pa gyngor a chymorth y gallwch eu rhoi i sefydliadau cymorth cymunedol i'w galluogi i barhau â'u gwaith i sicrhau nad yw pobl, oherwydd natur wledig yr ardal, yn cael eu hallgáu, er enghraifft, o gyfleoedd iechyd ac addysg?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:41 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I would certainly encourage greater collaboration, as mentioned in answer to the previous question, with the county voluntary councils and the volunteer centres themselves to make sure that resources are properly targeted. You are right. We know that there are going to be a lot of disappointed organisations out there that were not successful. We trust that means that many of them will be able to continue in other ways. However, we will be publishing the details of the successful organisations as soon as possible.

Byddwn yn sicr yn annog mwy o gydweithio, fel y crybwyllwyd yn yr ateb i'r cwestiwn blaenorol, gyda'r cyngorau gwirfoddol sirol a'r canolfannau gwirfoddoli eu hunain er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n briodol. Rydych yn gywir. Gwyddom y bydd llawer o sefydliadau yn siomedig na fuont yn llwyddiannus. Hyderwn fod hynny'n golygu y bydd llawer ohonynt yn gallu parhau mewn ffyrdd eraill. Fodd bynnag, byddwn yn cyhoeddi manylion y sefydliadau llwyddiannus cyn gynted â phosibl.

14:41 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, you just mentioned that 191 organisations submitted applications for funding from the equality and inclusion grant. I can tell you that only 16 were successful. In view of the large number of disappointed applicants, what engagement was made for further partnership working between smaller organisations in submitting joint applications for this grant?

Weinidog, rydych newydd grybwyll bod 191 o sefydliadau wedi cyflwyno ceisiadau am arian drwy'r grant cydraddoldeb a chynhwysiant. Gallaf ddweud wrthyhch mai dim ond 16 ohonynt fu'n llwyddiannus. O gofio'r nifer fawr o ymgeiswyr siomedig, pa waith ymgysylltu a wnaed er mwyn sicrhau rhagor o waith partneriaeth rhwng sefydliadau llai i gyflwyno ceisiadau ar y cyd am y grant hwn?

14:42 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Organisations were encouraged to submit joint bids if they wished to do so. However, we had to make sure—we have a limited sum of money, roughly £5 million over the three-year period. So, clearly, a lot of organisations were going to be disappointed. All the organisations were assessed as individual bids. We then looked at it in terms of coverage of Wales as a whole and, of course, in terms of ensuring that our equality objectives were also covered. I believe that we have done that as well as we can. All organisations that were unsuccessful are able to ask for feedback and that will be provided before this month is out.

Anogwyd sefydliadau i gyflwyno cynigion ar y cyd os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, roedd yn rhaid inni sicrhau—swm cyfyngedig o arian sydd gennym, tua £5 miliwn dros gyfnod o dair blynedd. Felly, yn amlwg, byddai llawer o sefydliadau yn siomedig. Aseswyd yr holl sefydliadau fel cynigion unigol. Yna gwnaethom ystyried eu cwmpas ledled Cymru gyfan ac, wrth gwrs, pa un a oeddent yn cyflawni ein hamcanion o ran cydraddoldeb. Credaf ein bod wedi gwneud hynny cystal ag y gallwn. Gall pob sefydliad a fu'n aflwyddiannus ofyn am adborth a chaiff hwnnw ei ddarparu cyn diwedd y mis hwn.

## Bil Cenedlaethau'r Dyfodol

## Future Generations Bill

14:42 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd Bil cenedlaethau'r dyfodol? OAQ(4)0119(CTP)

5. Will the Minister make a statement on the progress of the future generations Bill? OAQ(4)0119(CTP)

14:43 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for that question. The future generations Bill will be introduced in the summer of this year. I am grateful to the Commissioner for Sustainable Futures for leading the forthcoming pilot national conversation; this will provide an opportunity to engage with people across Wales on the future challenges that we face and how best to meet them.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Caiff Bil cenedlaethau'r dyfodol ei gyflwyno yr haf hwn. Rwy'n ddiolchgar i'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy am arwain y sgwrs genedlaethol beilot sydd ar y gweill; bydd yn gyfle i ymgysylltu â phobl ledled Cymru ynghylch yr heriau a wynebwn yn y dyfodol a'r ffordd orau o'u hateb.

- 14:43 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am very grateful, Minister, for that response. In the context of your overarching responsibility within Welsh Government for sustainable development, what scope do you consider there to be within the context of the future generations Bill to assert the principles of sustainable development, particularly in the context of the headlong rush to encourage fracking in another place, and do you believe that there is scope for us to take a strong, sustainable development approach to this in Wales?
- Rwy'n ddiolchgar iawn, Weinidog, am yr ymateb hwnnw. Yng nghyd-destun eich cyfrifoldeb cyffredinol o fewn Llywodraeth Cymru am ddatblygu cynaliadwy, yn eich barn chi, i ba raddau y gellir arddel egwyddorion datblygu cynaliadwy yng nghyd-destun Bil cenedlaethau'r dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun y rhuthr i annog ffracio mewn man arall, ac a ydych o'r farn bod lle inni ymdrin â hyn mewn modd cadarn sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy yng Nghymru?
- 14:44 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for his question and congratulate him on bringing fracking into the issue. I am quite sure that my colleague, the Minister for Natural Resources and Food, will be keen to hear that point. The future generations Bill is all about sustainable development. Issues of the environment are very important, as is developing a sustainable economy and ensuring that the Welsh language and wellbeing are at the forefront of our thinking and our calculations. In terms of the issue of fracking, and, indeed, any form of mineral extraction, no-one can say how technologies will change over the years. I daresay that the future generations Bill may need to be amended in light of technological changes. However, we would have to be absolutely satisfied, and, of course, planning would have a role to play in this, that any such application was safe and for the benefit of local communities.
- Hoffwn ddiolch i'r Aelod am ei gwestiwn a'i longyfarch am gynnwys ffracio yn y mater. Rwy'n eithaf siŵr y bydd fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, yn awyddus i glywed y pwynt hwnnw. Mae Bil cenedlaethau'r dyfodol yn ymwneud â datblygu cynaliadwy. Mae materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd yn bwysig iawn, fel y mae datblygu economi gynaliadwy a sicrhau bod yr iaith Gymraeg a lles wrth wraidd ein syniadau a'n cyfrifiadau. O ran ffracio, ac, yn wir, unrhyw fath o waith echdynnu mwynau, ni all neb ragweld sut y bydd technolegau'n newid dros y blynyddoedd. Mae'n siŵr y bydd angen diwygio Bil cenedlaethau'r dyfodol yng ngoleuni newidiadau technolegol. Fodd bynnag, byddai'n rhaid inni fod yn gwbl fodlon, ac, wrth gwrs, byddai cynllunio yn rhan annatod o hyn, bod unrhyw gais o'r fath yn ddiogel ac er budd cymunedau lleol.
- 14:45 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the fact that that Bill will come forward in the summer and that we have had a White Paper already on the environment Bill makes it very difficult for organisations and citizens to participate in your national conversation, when the definitions that will sit behind sustainable development are not clear. As a result of your national conversation, are you going to delay the environment Bill and the planning Bill, given how the two are so interlinked?
- Weinidog, mae'r ffaith y bydd y Bil hwnnw'n cael ei gyflwyno yn yr haf a'n bod eisoes wedi cael Papur Gwyn ar Fil yr amgylchedd yn ei gwneud hi'n anodd iawn i sefydliadau a dinasyddion gymryd rhan yn eich sgwrs genedlaethol, pan fo'r diffiniadau o ddatblygu cynaliadwy yn aneglur. O ganlyniad i'ch sgwrs genedlaethol, a fyddwch yn oedi cyn cyflwyno Bil yr amgylchedd a'r Bil cynllunio, gan fod cymaint o gysylltiad rhyngddynt?
- 14:45 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- No, we are not proposing any such thing. The Bills will complement each other. I reject your suggestion that the national conversations may not be effective, and I would urge all Assembly Members to make sure that organisations in their constituencies and regions, particularly those representing young people—the future generations—are encouraged to attend and participate.
- Na, nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw beth o'r fath. Bydd y Biliau yn ategu ei gilydd. Gwrthodaf eich awgrym efallai na fydd y sgwrsiau cenedlaethol yn effeithiol, a byddwn yn annog holl Aelodau'r Cynulliad i sicrhau bod sefydliadau yn eu hetholaethau a'u rhanbarthau, yn enwedig y rhai sy'n cynrychioli pobl ifanc—cenedlaethau'r dyfodol—yn cael eu hannog i fynychu a chymryd rhan.
- 14:46 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- It is two and a half years now since the First Minister expressed his intention to bring this Bill forward. It is over a year since the White Paper was published. It is on its second title and it is on its third Minister. The Welsh Government was supposed to become subject to the new duties in the Bill from next year—2015. Do you believe that that is still feasible, and if not, could you maybe tell us when sustainable development as a central organising principle will become the duty of the Welsh Government and other public sector bodies in Wales?
- Mae dwy flynedd a hanner wedi mynd heibio ers i'r Prif Weinidog ddatgan ei fwriad i gyflwyno'r Bil hwn. Mae dros flwyddyn ers i'r Papur Gwyn gael ei gyhoeddi. Mae ar ei ail deitl ac mae ar ei drydydd Weinidog. Y bwriad oedd y byddai Llywodraeth Cymru yn dod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau newydd yn y Bil o flwyddyn nesaf ymlaen—2015. A ydych yn credu bod hynny'n ddichonadwy o hyd, ac os nac ydyw, a allech o bosibl ddweud wrthym pryd y daw datblygu cynaliadwy fel egwyddor drefnu ganolog yn un o ddyletswyddau Llywodraeth Cymru a chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru?

14:46	<p><b>Jeff Cuthbert</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I believe that it is achievable.</p>	<p>Credaf fod modd cyflawni hynny.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
	<b>Tlodi Plant</b>	<b>Child Poverty</b>	
14:46	<p><b>Lindsay Whittle</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>6. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru? OAQ(4)0108 (CTP)</i></p>	<p><i>6. What action is the Minister taking to tackle child poverty in Wales? OAQ(4)0108 (CTP)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:46	<p><b>Vaughan Gething</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi / The Deputy Minister for Tackling Poverty</i></p> <p>Thank you for the question. Taking concerted action to reduce child poverty is a key Welsh Government commitment. We have set out agreed actions to reduce child poverty within the refreshed tackling poverty action plan. I will continue to monitor performance against the targets within that plan. The Member will be aware that a number of the key factors and powers that affect child poverty still rest with the UK Government.</p>	<p>Diolch ichi am y cwestiwn. Mae cymryd camau ar y cyd i leihau tlodi plant yn un o ymrwymadau allweddol Llywodraeth Cymru. Rydym wedi nodi camau y cytunwyd arnynt i leihau tlodi plant o fewn y cynllun gweithredu newydd ar gyfer trechu tlodi. Byddaf yn parhau i fonitro perfformiad yn erbyn y targedau yn y cynllun hwnnw. Bydd yr Aelod yn ymwybodol bod nifer o'r ffactorau a'r pwerau allweddol sy'n effeithio ar dlodi plant yn nwylo Llywodraeth y DU o hyd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:47	<p><b>Lindsay Whittle</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I thank the Deputy Minister for his reply, and accept everything that he says. People living in Flying Start areas have access to free part-time childcare, but most working families who do not live in those areas do not. What considerations have you and your department given, since taking over this portfolio, to expanding access to affordable childcare to those who work but may not live in the right area for childcare support?</p>	<p>Diolchaf i'r Dirprwy Weinidog am ei ateb, a derbyniaf bopeth a ddywed. Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn gallu cael gafael ar ofal plant rhan amser am ddim, ond nid yw hynny'n wir am y rhan fwyaf o deuluoedd sy'n gweithio nad ydynt yn byw yn yr ardaloedd hynny. Pa ystyriaethau rydych chi a'ch adran wedi eu rhoi, ers ichi ymgymryd â'r portffolio hwn, i ehangu mynediad at ofal plant fforddiadwy i'r rhai sy'n gweithio ond nad ydynt o bosibl yn byw yn yr ardal briodol i gael cymorth gofal plant?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:47	<p><b>Vaughan Gething</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The Flying Start programme is a particularly focused programme, looking at areas where there are high levels of deprivation, so it will not affect the childcare offer for a number of families, whether they are in work or out of work. We recognise that developing our offer on childcare is something that we want to make progress with, and we continue to discuss the matter with colleagues across Government, as in the early years and childcare plan we have a very clear commitment to try to improve childcare across Wales. We will be taking into account the childcare sufficiency assessments that are ongoing within local government at present.</p>	<p>Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn rhaglen benodol iawn, sy'n ystyried ardaloedd lle mae lefelau uchel o amddifadedd, felly ni fydd yn effeithio ar ofal plant i nifer o deuluoedd, pa un a ydynt mewn gwaith ai peidio. Cydnabyddwn fod datblygu ein cynnig gofal plant yn rhywbeth yr ydym am wneud cynnydd yn ei gylch, ac rydym yn parhau i drafod y mater gyda chyd-Aelodau ar draws y Llywodraeth, gan fod gennym ymrwymiad clir iawn yn y cynllun blynyddoedd cynnar a gofal plant i geisio gwella gofal plant ledled Cymru. Byddwn yn ystyried yr asesiadau digonolrwydd gofal plant sy'n mynd rhagddynt o fewn llywodraeth leol ar hyn o bryd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:48	<p><b>Suzy Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Deputy Minister, it is the stated aim of your Government that child poverty is something that should be tackled across portfolios. How do you assess the work of other Government departments in tackling child poverty? What do you think is the most effective way of bringing your findings before this Assembly?</p>	<p>Ddirprwy Weinidog, mae eich Llywodraeth wedi datgan bod tlodi plant yn rhywbeth y dylid mynd i'r afael ag ef ar draws portffolios. Sut rydych yn asesu gwaith adrannau eraill o'r Llywodraeth i drechu tlodi plant? Beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno eich canfyddiadau gerbron y Cynulliad hwn, yn eich barn chi?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:48

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is why we have the tackling poverty action plan. It draws together a range of activity right across Government. It is a coherent Welsh Government plan. For example, I recently chaired a meeting with the Minister for education looking at our early years offer and how Flying Start, Families First and Communities First interact with the duties of the Department for Education and Skills. So, I am very clear that this is not just a matter for this particular department—it is about how we work with other departments so that we make a real and lasting difference to the people of Wales.

Dyna pam rydym wedi llunio'r cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi. Mae'n dwyn ynghyd amrywiaeth o weithgarwch drwy'r Llywodraeth gyfan. Mae'n gynllun cydlynol gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, cadeiriais gyfarfod gyda'r Gweinidog addysg yn ddiweddar a oedd yn ystyried ein cynnig ar gyfer y blynyddoedd cynnar a'r modd y mae Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf yn rhyngweithio â dyletswyddau'r Adran Addysg a Sgiliau. Felly, rwy'n glir nad mater i'r adran benodol hon yn unig yw hyn—mae a wnelo â'r ffordd rydym yn gweithio gydag adrannau eraill er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a pharhaol i bobl Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Cymunedau yn Gyntaf**

**Communities First**

14:49

**Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*7. A wnaiffy Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0111(CTP)*

*7. Will the Minister provide an update on Communities First? OAQ(4)0111(CTP)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:49

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Communities First programme will continue for the life of this Government. We see it as a key enabler to help make a real difference in our most deprived communities. I had the opportunity to see some of this work first hand when you were kind enough to host me during my visit to the Mayhill area of Swansea last week.

Bydd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn parhau drwy gydol oes y Llywodraeth hon. Credwn ei fod yn ffactor galluogi allweddol a fydd yn helpu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Cefais y cyfle i weld rhywfaint o'r gwaith hwn yn uniongyrchol pan fuoch yn ddigon caredig i'm croesawu yn ystod fy ymweliad ag ardal Mayhill, Abertawe yr wythnos diwethaf.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:49

**Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that, Deputy Minister, and thank you very much for coming on what was a well-attended and very well-received visit. During that visit, you heard a lot about integrating programmes to make the most of the resources available. Deputy Minister, what else can be done to ensure that we have good integration across Flying Start, Communities First and Families First programmes, and also with other mainstream council and health services?

Diolch ichi am hynny, Ddirprwy Weinidog, a diolch yn fawr iawn ichi am eich ymweliad a ddenodd bresenoldeb da ac a groesawyd yn fawr iawn. Yn ystod yr ymweliad hwnnw, clywsoch lawer am integreiddio rhaglenni er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Ddirprwy Weinidog, beth arall y gallwn ei wneud i sicrhau y caiff rhaglenni Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf a Theuluoedd yn Gyntaf eu hintegreiddio'n dda, yn ogystal â gwasanaethau cyngor ac iechyd prif ffrwd eraill?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:49

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is an excellent point that the Member for Swansea West makes. That was part of the purpose of the visit to Swansea. I set out that I want to see much more coherence on a locality level between the programmes of Flying Start, Families First and Communities First. I want to see coherence between those programmes and mainstream services, especially health, education and housing. What was especially encouraging about the visit was that they are already engaging on a wider level with the health board around their community and public health duties. It is an example of exactly what we wish to see, not just in Swansea but right across the rest of Wales.

Mae'r Aelod dros Orllewin Abertawe yn gwneud pwynt ardderchog. Roedd hynny'n rhan o ddiben yr ymweliad ag Abertawe. Nodais fy mod am weld llawer mwy o gydlyniant ar lefel leol rhwng rhaglenni Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf. Rwyf am weld cydlyniant rhwng y rhaglenni hynny a gwasanaethau prif ffrwd, yn enwedig ym maes iechyd, addysg a thai. Un o'r pethau calonogol iawn a welais yn ystod yr ymweliad oedd eu bod eisoes yn ymgysylltu ar lefel ehangach â'r bwrdd iechyd ynghylch eu dyletswyddau cymunedol ac iechyd y cyhoedd. Mae'n enghraifft o'r union beth rydym am ei weld, nid yn unig yn Abertawe, ond ledled Cymru gyfan.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:50

**Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, I am delighted that you visited Swansea. Can I, in relation to Swansea, ask you about public announcements that you have made about seeking to claw back some of the initial investment in the Clydach Development Trust, which owned and operated the Forge Fach community centre in Gower and has recently been made insolvent? Will you also commit to a full review by your department of the management of the trust to see how a community resource funded by the taxpayer got into such an almighty mess? Also, why was action not taken sooner by you, rather than allowing insolvency proceedings to take place?

Ddirprwy Weinidog, rwy'n falch iawn eich bod wedi ymweld ag Abertawe. A allaf, mewn perthynas ag Abertawe, ofyn ichi am gyhoeddiadau cyhoeddus a wnaed gennych ynglŷn â cheisio adennill rhywfaint o'r buddsoddiad cychwynol yn Ymddiriedolaeth Ddatblygu Clydach, a oedd yn berchen ar ganolfan gymunedol yr Efail Fach ym Mhenryn Gŵyr ac yn rhedeg y ganolfan honno, ac a aeth yn fethdalwr yn ddiweddar? A wnewch chi hefyd ymrwymo i gynnal adolygiad llawn fel adran o'r ffordd y cafodd yr ymddiriedolaeth ei rheoli er mwyn gweld sut y llwyddodd adnodd cymunedol a ariannwyd gan y trethdalwr i fynd i gymaint o drafferthion? Hefyd, pam na chymerwyd camau gennych yn gynt, yn hytrach na chaniatáu achos methdalau?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:51

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are different issues to separate here. One is that Forge Fach was never owned by the development trust; it has always been owned by the City and County of Swansea. The development trust became insolvent in October last year. I have already asked officials to provide me with a much fuller picture of the reasons for that insolvency and the programmes that we are supporting. I will not be in a position to make a full statement until I receive that report back and I do not want to speculate unhelpfully. What I can and will say, though, is that we have had a very constructive response from the City and County of Swansea to ensure that services already being provided to that community will continue. Those services are now part of the new cluster operating in that area.

Mae materion gwahanol i'w nodi ar wahân yma. Un mater yw'r ffaith nad oedd yr Efail Fach byth yn eiddo i'r ymddiriedolaeth ddatblygu; mae bob amser wedi bod yn eiddo i Ddinas a Sir Abertawe. Aeth yr ymddiriedolaeth ddatblygu yn fethdalwr ym mis Hydref y llynedd. Rwyf eisoes wedi gofyn i swyddogion roi darlun llawer mwy cyflawn imi o'r rhesymau pam y digwyddodd hynny a'r rhaglenni yr ydym yn ei chefnogi. Ni fyddaf mewn sefyllfa i wneud datganiad llawn hyd nes y caf yr adroddiad hwnnw ac nid wyf am ddyfalu. Yr hyn y gallaf ac y byddaf yn ei ddweud, serch hynny, yw ein bod wedi cael ymateb adeiladol iawn gan Ddinas a Sir Abertawe er mwyn sicrhau bod gwasanaethau sydd eisoes yn cael eu darparu i'r gymuned honno yn parhau. Mae'r gwasanaethau hynny bellach yn rhan o'r clwstr newydd sy'n gweithredu yn yr ardal honno.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:51

**Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, as you know, Newport Communities First was organised into clusters, with the council now overseeing the scheme instead of the voluntary sector, with new indicators to measure success. Are you able to update us on how this is progressing? When will Newport's performance against those indicators be published?

Ddirprwy Weinidog, fel y gwyddoch, trefnwyd Cymunedau yn Gyntaf Casnewydd yn glystyrau, gyda'r cyngor bellach yn goruchwylio'r cynllun yn hytrach na'r sector gwirfoddol, gan ddefnyddio dangosyddion newydd i fesur llwyddiant. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am gynnydd hyn? Pryd y caiff perfformiad Casnewydd yn erbyn y dangosyddion hynny ei gyhoeddi?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:52

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The new outcomes framework that has been introduced was designed to provide more coherence. It should help in terms of the way in which Communities First deals with other programmes and other main areas of Government action, including local government. We have commissioned an evaluation of Communities First and that evaluation should progress in the first half of this year. I will be happy to report back to Members once we have undertaken that evaluation.

Cynlluniwyd y fframwaith canlyniadau newydd a gyflwynwyd er mwyn sicrhau mwy o gydlyniant. Dylai helpu o ran y ffordd y mae Cymunedau yn Gyntaf yn ymdrin â rhaglenni eraill a phrif feysydd eraill o Lywodraeth, gan gynnwys llywodraeth leol. Rydym wedi comisiynu gwerthusiad o Cymunedau yn Gyntaf a dylai'r gwerthusiad hwnnw ddigwydd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn hon. Byddaf yn barod i adrodd yn ôl i'r Aelodau unwaith y byddwn wedi cynnal y gwerthusiad hwnnw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:52

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, the outcomes framework will also be responsible for monitoring the achievements of the pupil deprivation grant match funding through Communities First. It is clear from a letter from the Minister for education that reporting will also be to your department. The education department has published guidance and monitoring arrangements for its PDG funding; is it your intention that your department will do the same?

Ddirprwy Weinidog, bydd y fframwaith canlyniadau hefyd yn gyfrifol am fonitro cyflawniadau arian cyfatebol y grant amddifadedd disgyblion drwy Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n amlwg o lythyr y Gweinidog addysg y bydd angen adrodd yn ôl hefyd i'ch adran. Mae'r adran addysg wedi cyhoeddi canllawiau a threfniadau monitro ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion; a ydych yn bwriadu i'ch adran wneud yr un peth?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:53	<b>Vaughan Gething</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>We expect people who make use of the match fund to take proper account of the guidance already published by the Minister for Education and Skills. The point about the match fund is that it takes account of the evidence that we have had and the recent announcements that Estyn made, for example, about the need to have genuine community engagement with schools in Communities First areas to make a real and lasting difference. We want to see that parental engagement in a child's learning being very much part of what every school does within a Communities First area. If the guidance issued by the Minister for Education and Skills is followed, that should ensure that good use is made of that money.</p>	<p>Disgwyliwn i bobl sy'n defnyddio'r arian cyfatebol roi ystyriaeth briodol i'r canllawiau a gyhoeddwyd eisoes gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Y pwynt ynglŷn â'r arian cyfatebol yw ei fod yn ystyried y dystiolaeth a gawsom a'r cyhoeddiadau diweddar a wnaed gan Estyn, er enghraifft, am yr angen i sicrhau cysylltiadau gwirioneddol rhwng cymunedau ac ysgolion mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a pharhaol. Rydym am weld pob ysgol yn cynnwys rhieni yn nysgu eu plant fel rhan annatod o'r hyn a wna pob ysgol mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf. Os dilynir y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, dylai hynny sicrhau bod defnydd da yn cael ei wneud o'r arian hwnnw.</p>
	<b>Tywydd</b>	<b>Weather</b>
14:53	<b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p><i>8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraniad y sector gwirfoddol a gwirfoddolwyr o ran mynd i'r afael ag effeithiau'r tywydd dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd? OAQ(4)0117(CTP)</i></p>	<p><i>8. Will the Minister make a statement on the involvement of the voluntary sector and volunteers in tackling the effects of the weather over the Christmas and New Year period? OAQ(4)0117(CTP)</i></p>
14:54	<b>Jeff Cuthbert</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I thank the Member for that question. Voluntary and community organisations play essential roles during and after adverse weather events like those seen over Christmas and the new year. I commend the efforts of all volunteers and charities that provided help during this period, including, among many others, St John Ambulance, the Royal National Lifeboat Institution and mountain rescue teams.</p>	<p>Diolchaf i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Mae sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn chwarae rhan hanfodol yn ystod digwyddiadau tywydd garw fel y rhai a welwyd dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd yn ogystal ag ar ôl y digwyddiadau hynny. Cymeradwyaf ymdrechion yr holl wirfoddolwyr ac elusennau a helpodd yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys, ymhlith rhai eraill, Ambiwllans Sant Ioan, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub a thimau achub mynydd.</p>
14:54	<b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I am most grateful to the Minister for his answer and I completely concur with the remarks that he has made. I am sure that he will agree that it is fitting to acknowledge the contribution made by all who worked tirelessly to limit the damage, to protect communities and ensure public safety, including those volunteers in voluntary sector organisations. Minister, will you undertake to work with those organisations to ensure wider public awareness and increased participation in their activities?</p>	<p>Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am ei ateb a chytunaf yn llwyr â'r sylwadau a wnaed ganddo. Rwy'n siŵr y bydd yn cytuno ei bod yn briodol cydnabod y cyfraniad a wnaed gan bawb a weithiodd yn ddiflino i leihau'r difrod, diogelu cymunedau a sicrhau diogelwch y cyhoedd, gan gynnwys y gwirfoddolwyr hynny mewn sefydliadau sector gwirfoddol. Weinidog, a wnewch chi ymrwymo i weithio gyda'r sefydliadau hynny er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'u gweithgareddau a sicrhau bod mwy o bobl yn cymyrd rhan ynddynt?</p>
14:54	<b>Jeff Cuthbert</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Third sector organisations, led by the British Red Cross, are members of the Wales resilience forum, which is chaired by the First Minister. I will certainly make it my business to talk to those organisations involved in supporting many people and authorities during the recent inclement weather to see what we have learnt and how we can co-ordinate action better in future.</p>	<p>Mae sefydliadau'r trydydd sector, a arweinir gan y Groes Goch Brydeinig, yn aelodau o Fforwm Cymru Gydnerth, a gadeirir gan y Prif Weinidog. Byddaf yn sicr yn siarad â'r sefydliadau hynny a gynorthwyodd lawer o bobl ac awdurdodau lleol yn ystod y tywydd garw diweddar er mwyn nodi'r gwersi a ddysgwyd a sut y gallwn gydgyssylltu camau gweithredu yn well yn y dyfodol.</p>

14:55 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, diolch i chi am ddiolch yn gynharach y prynhawn yma'r gwirfoddolwyr a oedd yn helpu i glirio'r llanast ar brod Aberystwyth ddydd Sadwrn diwethaf ac am gydnabod y gwaith gwych y mae gwirfoddolwyr yn ein gwasanaethau argyfwng yn ei wneud i ddiogelu pobl. Ydych chi'n cytuno bod gwirfoddolwyr—pobl gyffredin—wedi gwneud eu siâr a bod cyfrifoldeb yn awr ar Lywodraeth ar bob lefel i sicrhau bod ein glannau yn cael eu hamddiffyn yn y dyfodol?

Minister, thank you for thanking earlier this afternoon the volunteers who were helping to clear the damage on the prom at Aberystwyth on Saturday and acknowledging the excellent work that volunteers do in our emergency services to safeguard people. Do you agree that volunteers—ordinary people—have done their share of the work and that there is now a responsibility on Government at every level to ensure that our shores are protected in future?

14:55 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much indeed, and I am very happy to repeat my congratulations and thanks to those who participated, particularly in Aberystwyth, as was highlighted by the Member. In terms of preparing for the future, on coastal flood defences, as you will be aware of course, my colleague the Minister for Natural Resources and Food has published a written statement on the need to assess our flood defences in the light of recent events.

Diolch yn fawr iawn yn wir, ac rwy'n falch iawn o ddiolch unwaith eto i'r rheini a gymerodd ran, yn enwedig yn Aberystwyth, fel y nodwyd gan yr Aelod, a'u llongyfarch. O ran paratoi ar gyfer y dyfodol, mewn perthynas ag amddiffynfeydd rhag llifogydd arfordirol, fel y byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, mae fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig am yr angen i asesu ein hamddiffynfeydd rhag llifogydd yng ngoleuni digwyddiadau diweddar.

### Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf

### Communities First Programme

14:56 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0115(CTP)*

*9. Will the Minister make a statement on the future of the Communities First programme? OAQ(4)0115(CTP)*

14:56 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Yes. On 13 November, the Minister for Communities and Tackling Poverty announced that the programme would continue for the life of this Government. We want to see this make a real and lasting difference in the lives of our most deprived communities, and I am sure that the Member would like to join me in congratulating former Anglesey Aluminium worker Jimmy Lee for his award in the new year's honours list for the contribution he has made to Communities First on Anglesey.

Gwnaf. Ar 13 Tachwedd, cyhoeddodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi y byddai'r rhaglen yn parhau am oes y Llywodraeth hon. Rydym am iddi wneud gwahaniaeth gwirioneddol a pharhaol i fywydau ein cymunedau mwyaf difreintiedig, ac rwy'n siŵr y byddai'r Aelod yn dymuno ymuno â mi i longyfarch cyn-weithiwr Alwminiwm Môn, Jimmy Lee, am ei wobwr yn rhestr anrhydeddau'r flwyddyn newydd am ei gyfraniad at Cymunedau yn Gyntaf ar Ynys Môn.

14:56 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Indeed, I certainly add my voice to those congratulations. One of the recent successes of the Communities First programme in Holyhead has been the empty shops initiative. I was recently invited to officially open the most recent of those, the children's clothes shop Siwgr Mèl, over the Christmas period. However, this is a programme that is about to come to an end. Will the Deputy Minister agree to lobby ministerial colleagues for the continuation of this scheme because I understand that it may not directly be one of his responsibilities? Also, will the Deputy Minister look at other ways of trying to put life into town centres in this sort of way as a way to drive economic growth to help some of the poorest communities we have in Wales?

Yn wir, hoffwn innau ei longyfarch. Un o lwyddiannau diweddar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yng Nghaergybi yw'r fenter siopau gwag. Cefais wahoddiad yn ddiweddar i agor un o'r rhai diweddaraf o'u plith yn swyddogol, sef y siop ddillad i blant, Siwgr Mèl, dros gyfnod y Nadolig. Fodd bynnag, mae hon yn rhaglen sydd ar fin dod i ben. A wnaiff y Dirprwy Weinidog gytuno i lobio cyd-Weinidogion i barhau â'r cynllun hwn oherwydd caf ar ddeall nad yw o bosibl yn un o'i gyfrifoldebau uniongyrchol? Hefyd, a wnaiff y Dirprwy Weinidog ystyried ffyrdd eraill o geisio adfywio canol trefi yn y modd hwn fel ffordd o lywio twf economaidd er mwyn helpu rhai o'r cymunedau tlotaf yng Nghymru?

14:57 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The town centre initiative is clearly a matter that rests primarily with the Minister for Economy, Science and Transport. However, Ynys Môn Communities First is one of the Communities First areas where we are taking a lead on the tackling workless households project; it is one of the eight bodies nominated to take that forward. We look forward to seeing actual progress made on the training and employment opportunities that that programme will deliver. They have a clear budget moving forward and it is a matter for them, within the outcomes framework, how they use that. The Minister and I will continue to take an interest in their activities on the island.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'n amlwg mai mater i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yw'r fenter canol trefi yn bennaf. Fodd bynnag, mae Cymunedau yn Gyntaf Ynys Môn yn un o'r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf lle rydym yn arwain y ffordd o ran y prosiect i fynd i'r afael â chartrefi di-waith; mae'n un o'r wyth corff a enwebwyd i ddatblygu'r prosiect hwnnw. Edrychwn ymlaen at weld cynnydd gwirioneddol o ran y cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth a greir gan y rhaglen honno. Mae ganddi gyllideb glir ar gyfer y dyfodol a mater iddi hi, o fewn y fframwaith canlyniadau, yw penderfynu sut i'w defnyddio. Bydd y Gweinidog a minnau yn parhau i ymddiddori yn ei gweithgareddau ar yr ynys.

14:58 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, I know that this predates your time in your current role for this portfolio, but we know that there have been significant issues with the roll-out of Communities First projects in the past. There have been some successes but there have also been some major flaws. What assurance can you give the Chamber that any future restructuring of the scheme under your guidance and jurisdiction will ensure that the types of problems we have seen in the past will not be repeated and that the taxpayer will get value for money?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Ddirprwy Weinidog, gwn fod hyn yn dyddio o gyfnod cyn eich amser yn eich rôl bresennol ar gyfer y portffolio hwn, ond gwyddom fod problemau sylweddol wedi codi o ran y broses o gyflwyno prosiectau Cymunedau yn Gyntaf yn y gorffennol. Bu rhai llwyddiannau ond bu rhai diffygion mawr hefyd. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i'r Siambr y bydd unrhyw waith i ailstrwythuro'r cynllun yn y dyfodol o dan eich arweiniad ac awdurdodaeth yn sicrhau na welir eto y math o broblemau a welwyd yn y gorffennol ac y gellir sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr?

14:58 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I certainly do not propose to restructure the organisation as it exists. Communities First moved from 157 partnerships to 52 clusters, and those clusters are now making progress. I will continue to monitor the effectiveness of each of those clusters. There are robust reporting mechanisms on the use of money in the new framework and, as I said in answer to an earlier question, we will have an evaluation of the effectiveness of Communities First. It will be done objectively by the Welsh Government in addition to our own work. So I am very happy to accept scrutiny and to report back to the Chamber on the progress of Communities First within each of those clusters.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Wel, yn sicr ni fwriadaf ailstrwythuro'r sefydliad fel y mae'n bodoli. Newidiodd Cymunedau yn Gyntaf o 157 o bartneriaethau i 52 o glystyrau, ac mae'r clystyrau hynny bellach yn gwneud cynnydd. Byddaf yn parhau i fonitro effeithiolrwydd pob un o'r clystyrau hynny. Mae systemau adrodd cadarn ar waith o ran y defnydd a wneir o arian yn y fframwaith newydd ac, fel y dywedais wrth ateb cwestiwn blaenorol, byddwn yn cynnal gwerthusiad o effeithiolrwydd Cymunedau yn Gyntaf. Caiff ei gynnal mewn modd gwrthrychol gan Lywodraeth Cymru yn ychwanegol at ein gwaith ein hunain. Felly, rwy'n fodlon iawn derbyn gwaith craffu ac adrodd yn ôl i'r Siambr ar gynnydd Cymunedau yn Gyntaf ym mhob un o'r clystyrau hynny.

## Tlodi Gwledig

## Rural Poverty

14:59 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*10. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa asesiad y mae wedi'i wneud o'r strategaethau sydd eisoes yn bodoli i fynd i'r afael â thlodi gwledig yng Nghymru?*  
OAQ(4)0118(CTP)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*10. Will the Minister outline what assessment he has made of existing strategies to address rural poverty in Wales?* OAQ(4)0118(CTP)

14:59 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We are committed to tackling poverty across Wales, including in rural areas. I am working with Cabinet colleagues to assess our approach to rural poverty and what the evidence tells us to ensure that we are maximising resources across Government.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Rydym yn ymrwymedig i fynd i'r afael â thlodi ledled Cymru, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig. Rwy'n gweithio gyda chyd-Weinidogion yn y Cabinet i asesu ein hymagwedd at dlodi gwledig a'r hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ar draws y Llywodraeth.

- 14:59 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I would like to thank the Minister very much for that response. When you appeared before the Environment and Sustainability Committee last term, you placed considerable emphasis on the possible role of the rural development plan in helping to address issues around rural poverty. In that context, would you update the Chamber as to any discussions that you have had with the Minister for Natural Resources and Food on this issue? Also, will you commit to submitting evidence to the forthcoming consultation on the RDP that is about to be launched next month?
- Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Pan ymddangosoch gerbron Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd y tymor diwethaf, rhoesoch grym bwyslais ar rôl bosibl y cynllun datblygu gwledig o ran helpu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â thlodi gwledig. Yn y cyd-destun hwnnw, a fydddech crystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr am unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar y mater hwn? Hefyd, a wnewch chi ymrwymo i gyflwyno tystiolaeth i'r ymgynghoriad sydd ar ddod ar y Cynllun Datblygu Gwledig a gaiff ei lansio fis nesaf?
- 15:00 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. I can tell you that I have had discussions with my colleague the Minister for Natural Resources and Food on the issue of how we tackle poverty in rural areas. As you said, the Minister will issue formal consultation on the 2015-20 RDP programme next month. I can also tell you that under our tackling poverty action plan, we have a commitment to undertake a study to improve our understanding of the issues around housing and fuel poverty in rural areas and what might be done to reduce fuel poverty in these areas. We are currently finalising the remit for this study, then tenders will be issued very soon.
- Gwnaf. Gallaf ddweud wrthyfch fy mod wedi cael trafodaethau gyda'm cyd-Weinidog, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ynglŷn â sut i fynd i'r afael â thlodi mewn ardaloedd gwledig. Fel y dywedasoch, bydd y Gweinidog yn cyhoeddi ymgynghoriad ffurfiol ar raglen Cynllun Datblygu Gwledig 2015-20 fis nesaf. Gallaf hefyd ddweud wrthyfch, o dan ein cynllun gweithredu ar gyfer trech tlodi, ein bod wedi ymrwymo i gynnal astudiaeth i wella ein dealltwriaeth o'r materion sy'n ymwneud â thai a thlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig a'r hyn y gellid ei wneud i leihau tlodi tanwydd yn y meysydd hyn. Rydym wrthi'n cadarnhau'r cylch gwaith ar gyfer yr astudiaeth hon, yna caiff tendrau eu cyhoeddi yn fuan iawn.
- 15:01 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, your document on taking forward the tackling poverty action plan rarely mentions rural poverty at all. Did you rural-proof it? If so, will you place that rural-proofing assessment in the public domain so that we can see what particular issues relating to rural areas were identified by that rural-proofing exercise?
- Weinidog, prin y mae eich dogfen ar fwrw ymlaen â'r cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi yn sôn am dlodi gwledig. A wnaethoch ei phrawfesur o safbwynt anghenion cefn gwlad? Os felly, a wnewch chi gyhoeddi'r asesiad prawfesur hwnnw er mwyn inni allu gweld pa faterion penodol yn ymwneud ag ardaloedd gwledig a nodwyd gan yr ymarfer prawfesur hwnnw?
- 15:01 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I have already referred to the joint work that will take place in terms of the rural development plan and the fact that, under the tackling poverty action plan, there was a clear commitment to undertake a study to which I have just referred. So, I do not really accept the premise of your argument.
- Rwyf eisoes wedi cyfeirio at y gwaith ar y cyd a wneir o ran y cynllun datblygu gwledig a'r ffaith bod ymrwymiad dir, o dan y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi, i gynnal astudiaeth yr wyf newydd gyfeirio ati. Felly, ni dderbyniaf gysail eich dadl mewn gwirionedd.
- 15:02 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwy'n siomedig iawn eich bod chi, Weinidog, yn dal i asesu'r sefyllfa dair blynedd i mewn i fywyd y Llywodraeth bresennol. Y pwynt sydd wedi cael ei wneud ynglŷn â Chymunedau'n Gyntaf yw ei fod wedi diflannu, i bob pwrpas, o drefi ac ardaloedd lled-wledig. Eto i gyd, mae 50% o'r plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru—mwy na hynny, a dweud y gwir—yn byw y tu allan i ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. A yw'r plant hyn rhywsut, yn eich barn chi, yn llai anghenus na phlant sy'n byw o fewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf?
- I am very disappointed that you, Minister, are still assessing the situation three years into the life of the current Government. The point that has been made in relation to Communities First is that it has disappeared, to all intents and purposes, from semi-rural towns and areas. However, 50% of the children who live in poverty in Wales—or more than that, to be honest—live outside Communities First areas. Are these children somehow, in your opinion, less needy than children who live within Communities First areas?

15:02 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, of course we do not think that they are in any way less needy. There are a whole range of measures designed to support children across Wales, such as Flying Start and Families First, which are not constrained to Communities First areas. Let me be clear on this point: Communities First areas are where they are; they are in the areas that we can show suffer the greatest deprivation in Wales. There is no rule that says that they cannot be in a rural area, but they happen to be in urban, or semi-urban areas. However, I can assure you that the issue of rural poverty is taken very seriously indeed.

## Trechu Tlodi

15:03 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*11. Pa arferion da i drechu tlodi a welodd y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi yn ystod ei ymweliad ag Abertawe yr wythnos diwethaf? OAQ(4)0116(CTP)*

15:03 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that question. In addition to the points made earlier in response to the question from Julie James, I can confirm that one of the other areas with which I was impressed during my visit to Swansea was the very strong corporate leadership provided by the council on tackling poverty. That was recognised in the award given to the leader, David Phillips, as Welsh local politician of the year. The other particularly striking feature that I think it would be worth mentioning now is the meeting that I had with Serai Hann from the Bonymaen young mothers group, who set up the Swansea bay fair credit campaign; a particularly impressive example of community leadership and engagement in trying to drive improvement for the area in which she lives.

15:04 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that response, Deputy Minister. I am pleased to hear that good things are going on in Swansea. However, in relation to Julie James's question on Flying Start, into which a lot of extra money will soon be going, did you observe any good practice with regard to Flying Start that could be rolled out with all of the new money that is coming into the programme, which will cover areas that are not currently covered by Flying Start? In particular, did you see any good practice that could, perhaps, be copied in areas that still have pockets of deep poverty but will not be eligible for Flying Start assistance?

Na, wrth gwrs nad ydym yn credu eu bod mewn unrhyw ffordd yn llai anghenus. Ceir ystod eang o fesurau a gynlluniwyd i gefnogi plant ledled Cymru, fel Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, nad ydynt yn gyfyngedig i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Gadewch imi fod yn glir o ran y maent; maent yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a gallwn brofi hynny. Nid oes unrhyw reol sy'n dweud na allant fod mewn ardal wledig, ond maent yn digwydd bod mewn ardaloedd trefol, neu led-drefol. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau bod tlodi gwledig yn wir yn fater sy'n cael ei gymryd o ddifrif.

## Tackling Poverty

*11. What good practices in tackling poverty were observed by the Deputy Minister for Tackling Poverty during his visit to Swansea last week? OAQ(4)0116(CTP)*

Diolch am y cwestiwn hwnnw. Yn ychwanegol at y pwyntiau a wnaed yn gynharach wrth ymateb i gwestiwn Julie James, gallaf gadarnhau mai un o'r pethau eraill a greodd argraff arnaf yn ystod fy ymweliad ag Abertawe oedd yr arweinyddiaeth gorfforaethol gref iawn a roddir gan y cyngor ar drechu tlodi. Cydnabuwyd hynny wrth ddyfarnu gwobr gwleidydd lleol y flwyddyn i'r arweinydd David Phillips. Y nodwedd arbennig o drawiadol arall y byddai'n werth ei nodi yn awr, yn fy marn i, yw'r cyfarfod a gefais gyda Serai Hann o grŵp mamau ifanc Bon-y-maen, a sefydlodd ymgyrch credyd teg bae Abertawe; enghraifft arbennig o drawiadol o arweinyddiaeth ac ymgysylltu cymunedol i geisio llywio gwelliant yn yr ardal lle mae'n byw.

Diolch ichi am yr ymateb hwnnw, Ddirprwy Weinidog. Rwy'n falch o glywed bod pethau da yn digwydd yn Abertawe. Fodd bynnag, o ran cwestiwn Julie James ynglŷn â rhaglen Dechrau'n Deg, y caiff llawer o arian ychwanegol ei neilltuo iddi yn fuan, a welsoch unrhyw arfer da mewn perthynas â Dechrau'n Deg y gellid ei gyflwyno gyda'r holl arian newydd sy'n cael ei neilltuo i'r rhaglen, a fydd yn cwmpasu ardaloedd nad yw Dechrau'n Deg yn eu cwmpasu ar hyn o bryd? Yn benodol, a welsoch unrhyw arfer da y gellid, o bosibl, ei efelychu mewn ardaloedd sydd â chlystyrau o dlodi difrifol o hyd ond na fyddant yn gymwys i gael cymorth Dechrau'n Deg.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

15:04 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. We are on track to meet our manifesto commitment to double the numbers of children who will receive Flying Start by the end of this term. In Swansea, that will mean that, for example, around £4 million or £4.5 million being spent in the next year. However, what is especially impressive is the way that Flying Start already works with a range of other organisations and its success in engaging parents in the learning and development of their children, and the partnerships, where they exist, with schools. I set out at the Flying Start conference the challenge that I want to see Flying Start being real and measurable and continuing to improve right across Wales. Also, the coherence that I mentioned earlier in answer to Julie James's question with the other anti-poverty programmes has to be more consistent and more even right across Wales.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Do. Rydym ar y trywydd iawn i gyflawni ein hymrwymiad manifesto i ddyblu nifer y plant sy'n cael cymorth Dechrau'n Deg erbyn diwedd y tymor hwn. Yn Abertawe, bydd hynny'n golygu, er enghraifft, y caiff tua £4 miliwn neu £4.5 miliwn ei wario yn y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, yr hyn sy'n arbennig o drawiadol yw'r ffordd y mae Dechrau'n Deg eisoes yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau eraill a'i llwyddiant o ran cynnwys rhieni yn nysgu a datblygiad eu plant, a'r partneriaethau, lle maent yn bodoli, gydag ysgolion. Nodais yng nghynhadledd Dechrau'n Deg fy mod am weld Dechrau'n Deg yn gweithredu mewn modd real a mesuradwy ac yn parhau i wella ledled Cymru. Hefyd, rhaid i'r cydlyniant a grybwyllais yn gynharach wrth ateb cwestiwn Julie James gyda'r rhaglenni gwrthdodi eraill fod yn fwy cyson ledled Cymru.

### Clystyrau'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf

### Communities First Programme Clusters

15:05 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*12. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am glystyrau'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)010(CTP)*

*12. Will the Minister provide a progress update on the Communities First programme clusters? OAQ(4)010(CTP)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:05 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. As I confirmed to you in answer to an earlier question, all 52 clusters are now formed, following the move from 157 former partnerships. We wish to see Communities First making a real difference to the most disadvantaged communities right across Wales.

Gwnaf. Fel y cadarnheais wrth ateb cwestiwn blaenorol, mae pob un o'r 52 o glystyrau bellach wedi'u ffurfio, yn dilyn newid o'r 157 o bartneriaethau blaenorol. Dymunwn weld Cymunedau yn Gyntaf yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:05 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your response, Deputy Minister. I welcome the creation of the new clusters, because I thought that the smaller bodies were not capable of carrying out what they needed to do. I have taken the opportunity to visit all the clusters in my constituency and I have been impressed by the ability of Communities First to change both the lifestyles and the lives of many of my constituents. What is the Welsh Government doing to ensure that the best practice that is being carried out by a number of these clusters is shared across Wales?

Diolch ichi am eich ymateb, Ddirprwy Weinidog. Croesawaf y clystyrau newydd hyn, oherwydd credaf nad oedd y cyff llai yn gallu gwneud yr hyn yr oedd angen iddynt ei wneud. Rwyf wedi achub ar y cyfle i ymweld â phob clwstwr yn fy etholaeth ac mae gallu Cymunedau yn Gyntaf i newid ffyrdd o fyw a bywydau llawer o'm hetholwyr wedi creu argraff arnaf. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod yr arfer gorau a welir yn nifer o'r clystyrau hyn yn cael ei rannu ledled Cymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:06 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is a fair point, and it is something that I am especially keen on seeing and seeing made real. The best practice in Communities First areas is reliant on real engagement and partnership with the community that the cluster serves. It is also important, as I said earlier, to ensure that it is not just seen as a small silo on its own, working with one particular group of people in isolation, but that Communities First reaches out to mainstream provision in health and education, economy and housing, to ensure that the impact that it has is not simply limited to a group of community development workers in one particular area, but that it makes a real and lasting difference to people within that community.

Mae'n bwynt teg, ac yn rhywbeth yr wyf yn awyddus iawn i'w weld a'i weld yn cael ei wireddu. Mae'r arfer gorau mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn dibynnu ar ymgysylltu a phartneriaeth wirioneddol â'r gymuned a wasanaethir gan y clwstwr. Mae hefyd yn bwysig, fel y dywedais yn gynharach, sicrhau na chaiff ei ystyried yn seilo bach ar ei ben ei hun, sy'n gweithio gydag un grŵp penodol o bobl ar wahân, ond bod Cymunedau yn Gyntaf yn estyn llaw at ddarpariaeth brif ffrwd ym maes iechyd ac addysg, yr economi a thai, er mwyn sicrhau na chaiff ei heffaith ei chyfyngu i grŵp o weithwyr datblygu cymunedol mewn un ardal benodol, ond ei bod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a pharhaol i bobl yn y gymuned honno.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Tlodi Trafnidiaeth

## Transport Poverty

15:06 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*13. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau tlodi trafndiaeth ledled Cymru? OAQ(4)0122(CTP)*

*13. Will the Minister outline what the Welsh Government is doing to reduce transport poverty across Wales? OAQ(4)0122(CTP)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:07 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you for that question. The Minister for Economy, Science and Transport has set out our priorities for developing a modern, accessible and affordable transport system for Wales. This covers all modes, providing people with a choice of travel options to help reduce the financial pressures that they face.

Diolch am y cwestiwn hwnnw. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi nodi ein blaenoriaethau ar gyfer datblygu system drafnidiaeth fodern, hygyrch a fforddiadwy i Gymru. Mae hyn yn cynnwys pob dull, gan roi dewis o opsiynau teithio i bobl er mwyn helpu i leihau'r pwysau ariannol a wynebir ganddynt.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:07 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you for that answer, Minister. Over the Christmas holidays, the Minister for economy released targets for the number of jobs to be created in Wales's enterprise zones. I wonder whether you can tell me what work your team has done in order to ensure that people in our most deprived communities are able to access those jobs, as they are created, through easy and affordable transport.

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Dros wyliau'r Nadolig, rhyddhaodd Gweinidog yr Economi dargedau ar gyfer nifer y swyddi i'w creu yn ardaloedd menter Cymru. Tybed a allwch ddweud wrthyf pa waith y mae eich tîm wedi ei wneud er mwyn sicrhau bod pobl yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn gallu cael gafael ar y swyddi hynny, wrth iddynt gael eu creu, drwy gludiant hawdd a fforddiadwy.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:07 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
The bulk of your question relates to transport policy and the provision of transport, which is very much a matter for my colleague the Minister for Economy, Science and Transport. However, I can tell you that, of course, she has allocated £25 million to Wales's four regional transport consortia to help boost the number and range of subsidised, socially necessary bus and community transport services. We continue to work on concessionary fare schemes and, indeed, in terms of rail transport, the Minister for transport recently announced a reduction in the allowable increase of rail fares in Wales, and season tickets will be cheaper than those in England.

Mae'r rhan fwyaf o'ch cwestiwn yn ymwneud â pholisi a darpariaeth cludiant, a mater i'm cyd-Weinidog, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yw hynny i raddau helaeth. Fodd bynnag, gallaf ddweud wrthyfch ei bod, wrth gwrs, wedi dyrannu £25 miliwn i bedwar consortiwm trafndiaeth rhanbarthol Cymru er mwyn helpu i roi hwb i nifer ac amrywiaeth y gwasanaethau bysiau a chludiant cymunedol â chymhorthdal sy'n gymdeithasol angenrheidiol. Rydym yn parhau i weithio ar gynlluniau tocynnau teithio rhatach ac, yn wir, o ran trafndiaeth rheilffyrdd, cyhoeddodd y Gweinidog trafndiaeth yn ddiweddar ostyngiad yn y cynnydd a ganiateir ym mhrisiau tocynnau trên yng Nghymru, a bydd tocynnau tymor yn rhatach na'r rhai yn Lloegr.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

## Y Post Brenhinol

## The Royal Mail

15:08 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithiau preifateiddio'r Post Brenhinol ar y gwasanaeth yng Nghymru? OAQ(4)0114(CTP)*

*14. Will the Minister make a statement on the effects of privatising the Royal Mail on the service in Wales? OAQ(4)0114(CTP)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:08 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you for that question. Although opposed to the wholesale privatisation of Royal Mail, I am not aware that there has been any actual effect, to date, on the postal service in Wales since the privatisation in September of last year.

Diolch am y cwestiwn hwnnw. Er fy mod yn gwrthwynebu preifateiddio'r Post Brenhinol yn llwyr, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw effaith wirioneddol, hyd yma, ar y gwasanaeth post yng Nghymru ers preifateiddio ym mis Medi y llynedd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

15:08 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Thank you for your answer. Would you join with Peter Hain in supporting Plaid Cymru proposals for an alternative service that is run and owned by the people of Wales? If you would do that, what confidence would you have that Labour MPs in London would support any such aspiration from a Labour Government in Wales?  
Diolch ichi am eich ateb. A fydddech yn ymuno â Peter Hain i gefnogi cynigion Plaid Cymru ar gyfer gwasanaeth amgen sy'n eiddo i bobl Cymru ac a gaiff ei redeg ganddynt. Pe bydddech yn gwneud hynny, pa mor hyderus ydych y byddai ASau Llafur yn Llundain yn cefnogi unrhyw ddyhead o'r fath gan Lywodraeth Lafur yng Nghymru?

15:09 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
The Welsh Government is not making any such call.  
Nid yw Llywodraeth Cymru yn galw am unrhyw beth o'r fath.

## Cydllyniant Cymunedol

15:09 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
*15. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella cydllyniant cymunedol yng Nghymru? OAQ(4)0113(CTP)*  
*15. What plans does the Minister have to improve community cohesion in Wales? OAQ(4)0113(CTP)*

15:09 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Thank you for that question. I was pleased recently to announce further funding for nine regional community cohesion co-ordinators across Wales for a two-year period. We will publish and update a delivery plan for phase 2 of the community cohesion strategy in the spring of this year.  
Diolch am y cwestiwn hwnnw. Roeddwn yn falch yn ddiweddar o gyhoeddi arian pellach ar gyfer naw cydgysylltydd cydllyniant cymunedol rhanbarthol ledled Cymru am gyfnod o ddwy flynedd. Byddwn yn cyhoeddi ac yn diweddararu cynllun cyflawni ar gyfer cam 2 o'r strategaeth cydllyniant cymunedol yn y gwanwyn eleni.

15:09 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Over the Christmas recess, I was fortunate enough to visit the organisation Women Seeking Sanctuary Advocacy Group Wales, of which I am a patron, in its new premises in a church in Cardiff. I am hugely impressed with the work that it is doing with refugee and asylum-seeking women. What more could the Welsh Government do to help such groups in their important work in increasing cohesion?  
Dros doriad y Nadolig, bûm yn ddigon ffodus i ymweld â'r Grŵp Eiriolaeth i Fenywod sy'n Ceisio Lloches, yr wyf yn un o'i noddwyr, yn ei adeilad newydd mewn eglwys yng Nghaerdydd. Mae'r gwaith y mae'n ei wneud gyda ffoaduriaid a menywod sy'n ceisio lloches wedi creu argraff fawr arnaf. Beth arall y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu grwpiau o'r fath gyda'u gwaith pwysig ym maes cynyddu cydllyniant?

15:10 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Thank you very much for that question. You are quite right in saying that it is important work that is done. In relation to the particular group, I can say that three organisations were successful under the equality and inclusion grant in terms of benefiting refugee and asylum seekers, namely the Welsh Refugee Council, the Cardiff circuit of the Methodist Church, on behalf of the Trinity Project, and the British Red Cross. However, I am advised that no such application was received from the women seeking sanctuary group.  
Diolch yn fawr iawn am y cwestiwn hwnnw. Rydych yn llygad eich lle i ddweud eu bod yn gwneud gwaith pwysig. O ran y grwpiau penodol hynny, gallaf ddweud fod tri sefydliad wedi bod yn llwyddiannus o dan y grant cydraddoldeb a chynhwysiant o ran rhoi budd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, sef Cyngor Ffoaduriaid Cymru, cylchdaith Caerdydd yr Eglwys Fethodistaidd, ar ran Prosiect y Drindod, a'r Groes Goch Brydeinig. Fodd bynnag, caf ar ddeall na chafwyd unrhyw gais o'r fath gan y grŵp eiriolaeth i fenywod sy'n ceisio lloches.

15:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)  
Thank you, Minister. That concludes the question session.  
Diolch i chi, Weiniidog. Dyna ddiwedd y sesiwn cwestiynau.  
Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 15:10.  
Sandy Mewies took the Chair at 15:10.